# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2011**
**Tuesday, 15 March 2011**

**Cynnwys**
**Contents**

4 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

30 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

39 Datganiad: Adolygiad o'r Prosesau Deddfwriaethol
Statement: Review of Legislative Processes

61 Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru) 2011
Motion to Approve the Children Act 1989 Higher Education Bursary (Wales) Regulations 2011

62 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Mewn Perthynas â'r Mesur Seneddol Ynghylch Diogelu Rhyddidau
Legislative Consent Motion in Respect of the Protection of Freedoms Bill

65 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Local Government (Wales) Measure

65 Grŵp 1: Technegol (Gwelliannau 1, 10, 11 a 9)
Group 1: Technical (Amendments 1, 10, 11 and 9)

66 Grŵp 2: Aelodau Cynghorau Lleol ac Adroddiadau Blynyddol (Gwelliant 35)
Group 2: Local Authority Members and Annual Reports (Amendment 35)

71 Grŵp 3: Amseru Cyfarfodydd Cyngor (Gwelliannau 77 a 78)
Group 3: Timing of Council Meetings (Amendments 77 and 78)

76 Grŵp 4: Gwasanaethau Democrataidd o Fewn Awdurdodau Lleol (Gwelliannau 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42 a 43)
Group 4: Democratic Services in Local Authorities (Amendments 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42 and 43)

89 Grŵp 5: Trefniadau Llywodraethu (Gwelliannau 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56, 57, 61, 64, 65, 66, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75 a 76)
Group 5: Governance Arrangements (Amendments 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55, 56, 57, 61, 64, 65, 66, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75 and 76)

97 Grŵp 6: Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol (Gwelliannau 58, 59, 60, 2, 3, 4, 5, 6 a 79)
Group 6: Local Authority Scrutiny Committees (Amendments 58, 59, 60, 2, 3, 4, 5, 6 and 79)

111 Grŵp 7: Cydnabyddiaeth i Aelodau Etholedig (Gwelliant 7)
Group 7: Remuneration of Elected Members (Amendment 7)

112 Grŵp 8: Gorchmynion Cyfuno a Darpariaethau Atodol (Gwelliannau 14, 62, 20, 63, 16, 18, 17, 12, 13, 19, 15, 25 a 24)

Group 8: Amalgamation Orders and Supplementary Provisions (Amendments 14, 62, 20, 63, 16, 18, 17, 12, 13, 19, 15, 25 and 24)

150 Grŵp 9: Materion a Threfniadau Etholiadol (Gwelliannau 21, 26, 67, 28, 27, 29, 30 a 31)
Group 9: Electoral Matters and Arrangements (Amendments 21, 26, 67, 28, 27, 29, 30 and 31)

157 Grŵp 10: Gofyniad i Gynnal Refferenda sy'n Cynnwys Maer Etholedig (Gwelliannau 22 a 23)
Group 10: Requirement to Hold Referenda Involving an Elected Mayor (Amendments 22 and 23)

167 Grŵp 11: Y Weithdrefn sy'n Gymwys i Orchymyn Cyfuno (Gwelliannau 8, 68, 32, 33 a 34)
Group 11: Procedure Applicable to an Amalgamation Order (Amendments 8, 68, 32, 33 and 34)

181 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)
Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed Local Government (Wales) Measure

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog.

**The Presiding Officer:** Order for questions to the First Minister.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Taliadau PAC

### CAP Payments

***1. David Lloyd:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am daliadau PAC. OAQ(3)3467(FM) W*

***1. David Lloyd:*** *Will the First Minister make a statement on CAP payments. OAQ(3)3467(FM) W*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae ein safbwynt ar daliadau polisi amaeth cyffredin yn glir. Mae'r taliad sengl yn hanfodol i ffermwyr Cymru, ac yr ydym yn benderfynol o wrthwynebu ymdrechion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i leihau cyllideb y polisi.

**The First Minister (Carwyn Jones):** Our position on common agricultural policy payments is clear. The single payment is essential to Welsh farmers and we are determined to oppose the UK Government's efforts to seek a reduction in the policy.

**David Lloyd:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. A gytunwch fod diystyrwch Llywodraeth San Steffan at ardaloedd gwledig Cymru yn warthus, a bod agwedd anffodus y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr yn Llundain at ffermwyr, gan fynnu colli miliynau ar ben miliynau o bunnoedd o'r economi wledig yng Nghymru, yn cael ei adlewyrchu gan y Ceidwadwyr yma yn y Cynulliad, gan eu bod yn cefnogi Gweinidog San Steffan ar draul cefnogi Elin Jones, Gweinidog Cymru? A gytunwch hefyd, fel y crybwyllasoch eisoes, fod u taliadau polisi amaeth cyffredin yn angenrheidiol i sicrhau diwydiant amaeth llwyddiannus, ac y dylai bod gofyn ar Weinidog y Deyrnas Unedig, wrth iddo adrodd i Ewrop, i ddatgelu pan nad yw'r Gweinidog perthnasol o Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn cytuno â safbwynt y Deyrnas Unedig?

**David Lloyd:** Thank you for that response, First Minister. Do you agree that the disregard show by the Westminster Government for Wales's rural areas is a disgrace, and that the unfortunate attitude of the Conservatives and the Liberals in London to farmers, insisting that millions upon millions of pounds be lost from the rural economy in Wales, is reflected by the Conservatives here in the Assembly, given that they support the Westminister Minister at the expense of supporting Elin Jones, the Welsh Minister? Do you also agree, as you hvae already alluded, that the common agricultural policy payments are vital to ensuring a successful agriculture industry, and the Minister of the United Kingdom, in reporting to Europe, should be required to disclose when the relevant Minister from Scotland, Wales or Northern Ireland does agree with the United Kingdom line?

**Y Prif Weinidog:** Mae i ni sicrhau bod ein safbwynt fel Llywodraeth yn cael ei fynegi ym Mrwsel, ac mae hynny'n wir o ran yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Fodd bynnag, mae'n amlwg, petai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei ffordd, y byddai ffermwyr Cymru filiynau o bunnoedd ar eu colled.

**The First Minister:** It is up to us to ensure that our position as a Government is stated in Brussels, and the same is true of Scotland and Northern Ireland. However, it is clear that if the UK Government has its way, farmers would lose out on millions of pounds.

**The Leader of the Welsh Conservatives**

**Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig (Nick**

**(Nick Bourne):** The issue that Dai Lloyd raises—with some synthetic anger—is clear. On the possibility that direct payments could cease in the next round, Jim Paice said:

**Bourne):** Mae'r mater y mae Dai Lloyd yn ei godi—gyda rhywfaint o ddicter ffug—yn glir. O ran y posibilrwydd y gallai taliadau uniongyrchol ddod i ben yn y cylch ariannu nesaf, dywedodd Jim Paice:

'That is complete nonsense and an absurd proposition. Farming couldn't survive without direct payments'.

Mae hynny'n nonsens llwyr, ac yn gynnig hurt. Ni allai ffermio oroesi heb daliadau uniongyrchol.

Let me just concentrate on something that the Farmers' Union of Wales has said is totally shambolic from start to finish and a disastrous situation, namely Glastir. When it was announced, it was claimed that it would fund 10,000 projects; instead there have been 3,000 applicants—only 16 per cent of farmers in Wales. We were promised a report by the end of February. I do not know whether the Government has received that independent report, but could I have reassurance from the First Minister that we will have an opportunity to debate it here in the Chamber in what remains of this session?

Gadewch imi ganolbwyntio ar rywbeth y mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei ddweud sy'n draed moch llwyr o'r dechrau i'r diwedd ac yn sefyllfa drychinebus, sef Glastir. Pan gafodd ei gyhoeddi, honnwyd y byddai'n ariannu 10,000 o brosiectau; yn lle hynny, cafwyd 3,000 ymgeisydd—dim ond 16 y cant o ffermwyr yng Nghymru. Cawsom addewid y byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror. Nid wyf yn gwybod a yw'r Llywodraeth wedi cael yr adroddiad annibynnol hwnnw, ond a allwn gael sicrwydd gan y Prif Weinidog y byddwn yn cael cyfle i'w drafod yma yn y Siambr yn ystod yr hyn sy'n weddill o'r sesiwn hon?

**The First Minister:** I will write to you regarding where that report is, but there is no doubt that the view of the UK Government is that farming should take place on a very large scale. It has no sympathy for less favoured areas or direct payments. It takes the view that farming should cease to exist by subsidy and that, for some reason, Welsh and Scottish farmers are not as important as farmers in the arable lands that exist elsewhere. That is something that I could never accept, and it is certainly something that we could never accept in the future.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â lle mae'r adroddiad hwnnw, ond nid oes amheuaeth mai barn Llywodraeth y DU yw y dylai ffermio ddigwydd ar raddfa fawr iawn. Nid oes ganddi unrhyw gydymdeimlad ar gyfer ardaloedd llai ffafriol neu daliadau uniongyrchol. Ei barn yw y dylai ffermio drwy gymorthdaliadau beidio â bodoli ac, am ryw reswm, nad yw ffermwyr Cymru a'r Alban yr un mor bwysig â ffermwyr ar y tiroedd âr sy'n bodoli mewn mannau eraill. Ni allwn fyth â derbyn hynny, ac mae'n sicr yn rhywbeth na allem fyth ei dderbyn yn y dyfodol.

**Nick Bourne:** I am stunned that the First Minister does not seem to know whether or not he has this report. If he does have it, surely he is able to tell us and we can debate it here. Can he confirm that he has received that report, which was due by the end of February?

**Nick Bourne:** Rwy'n syfrdanu ei bod yn ymddangos nad yw'r Prif Weinidog yn gwybod a oes ganddo'r adroddiad hwn. Os oes ganddo'r adroddiad, mae'n rhaid ei fod yn gallu dweud hynny wrthym a gallwn ei drafod yma. A all gadarnhau ei fod wedi cael yr adroddiad hwnnw, a oedd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror?

On to the issue of the rural economy in general and its decline since 2000, in 2000, the rural economy contributed £532 million to the Welsh economy. In 2008, the last year for which figures are available, it contributed

O ran yr economi wledig yn gyffredinol a'i dirywiad ers 2000: yn 2000, cyfrannodd yr economi wledig £532 miliwn at economi Cymru. Yn 2008, y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer, cyfrannodd

£145 million, which is a fall of 72.7 per cent at the same time as figures rose in England and in Scotland. Why is that?

£145 miliwn, sy’n ostyngiad o 72.7 y cant ar adeg pan gododd ffigurau yn Lloegr ac yn yr Alban. Pam hynny?

**The First Minister:** I do not accept that farming in Wales, and particularly the food industry in Wales, has contributed less to the Welsh economy. I do not know whether your figures include subsides; in fact, I know they do not because subsidies sit at the level of around £200 million in Wales, so those figures are well worth checking. If the Minister for Rural Affairs has received the report, I will ask her to write to you, but it has been the case for many years that Welsh farmers have been happy with the fact that policy in Wales has been decided here in Cardiff, and they are even happier with that fact now, given what is coming from the Tory-Lib Dem Government in London.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn derbyn bod ffermio yng Nghymru, ac yn enwedig y diwydiant bwyd yng Nghymru, wedi cyfrannu llai at economi Cymru. Nid wyf yn gwybod a yw eich ffigurau’n cynnwys cymorthdaliadau; mewn gwirionedd, rwy’n gwybod nad ydynt yn eu cynnwys oherwydd mae cymorthdaliadau ar lefel o tua £200 miliwn yng Nghymru, felly mae’n werth gwirio’r ffigurau. Os yw’r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi cael yr adroddiad, byddaf yn gofyn iddi ysgrifennu atoch, ond bu’n wir am nifer o flynyddoedd y bu ffermwyr Cymru yn hapus â’r ffaith bod polisi yng Nghymru yn cael ei benderfynu yma yng Nghaerdydd, ac maent hyd yn oed yn hapusach am y ffaith honno yn awr, o ystyried yr hyn sy’n dod oddi wrth Lywodraeth y Torïaid a’r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain.

**Nick Bourne:** They are not happy with Glastir, as I have just outlined to you. Those figures that you are questioning are from the Office for National Statistics, published on 8 December 2010, so I think it is for you, not me, to check them. However, moving on to the general state of the Welsh economy, the last time we clashed on this issue, you chose to say that gross value added was not your favoured measure, but that it was gross disposable household income. I thought that that would probably show a decline as well. However, I was not quite right; it shows that we are static. We are at the same level as we were 10 years ago on gross disposable household income—again, those are official figures—and significantly below what it was in 1995. How do you account for that?

**Nick Bourne:** Nid ydynt yn hapus ynghylch Glastir, fel yr wyf newydd ei amlinellu i chi. Mae’r ffigurau hynny yr ydych yn eu hamau yn dod o’r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac fe’u cyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2010, felly rwy’n meddwl ei bod yn addas i chi eu gwirio, ac nid myfi. Fodd bynnag, gan symud ymlaen at gyflwr cyffredinol economi Cymru, y tro diwethaf inni wrthdaro ar y mater hwn, gwnaethoch ddewis dweud mai incwm crynswth aelwydydd i’w wario oedd eich hoff fesur, nid gwerth ychwanegol crynswth. Roeddwn yn meddwl y byddai hwnnw yn siŵr o fod yn gostwng hefyd. Fodd bynnag, nid oeddwn yn hollol gywir; mae’n dangos ein bod yn sefydlog. Rydym ar yr un lefel ag yr oeddem 10 mlynedd yn ôl o ran incwm crynswth aelwydydd i’w wario—unwaith eto, ffigurau swyddogol yw’r rhain—ac yn sylweddol is na’r hyn a oedd yn 1995. Sut ydych yn egluro hynny?

**The First Minister:** Household disposable income per head in Wales rose by 49 per cent in the 10 years to 2008—that is the absolute figure. I do not know where you get your figures from. However, it is also right to say that GDP rose as well. Bear in mind that disposable household income per head grew by more in Wales than the UK average.

**Y Prif Weinidog:** Cododd incwm gwario aelwydydd fesul pen yng Nghymru 49 y cant yn y 10 mlynedd hyd at 2008—dyna’r ffigwr absoliwt. Nid wyf yn gwybod o ble y cewch eich ffigurau. Fodd bynnag, mae’n iawn dweud hefyd fod cynnyrch domestig gros wedi codi hefyd. Cofiwch fod incwm gwario aelwydydd fesul pen wedi cynyddu mwy yng

Those are the figures that we have. It is also right to say that GVA per head in Wales increased by 39 per cent between 1999 and 2009, which is a very good performance considering the devastation that was wrought by your party when it was in power.

Nghymru na chyfartaledd y DU. Dyna'r ffigurau sydd gennym. Mae hefyd yn iawn i ddweud fod gwerth ychwanegol gros fesul pen yng Nghymru wedi cynyddu 39 y cant rhwng 1999 a 2009, sy'n berfformiad da iawn o ystyried y dinistr a wnaethpwyd gan eich plaid pan oedd mewn grym.

**Nick Bourne:** The GVA figures—again, they are official figures—plummeted from 77 per cent of the UK average in 1999, to 74 per cent in 2009, the last year for which figures are available. According to the same figures, gross disposable household income is stagnant, and lower than it was in 2005. Those are official figures.

**Nick Bourne:** Mae'r ffigurau gwerth ychwanegol gros—unwaith eto, maent yn ffigurau swyddogol—wedi plymio o 77 y cant o gyfartaledd y DU yn 1999, i 74 y cant yn 2009, y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer. Yn ôl yr un ffigurau, mae incwm gwario gros aelwydydd wedi aros yn ei unfan, ac yn is nag yr oedd yn 2005. Ffigurau swyddogol yw'r rheini.

**The First Minister:** You give the impression that, somehow, GDP and GVA have gone backwards. They have not—they have increased by 39 per cent between 1999 and 2009. It is not the case that Wales is somehow poorer than it was under Tory rule. We saw what Tory government meant in Wales—the deliberate destruction of jobs, and we now see history repeating itself.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn rhoi'r argraff bod cynnyrch domestig gros a gwerth ychwanegol gros, rywsut, wedi mynd tuag at yn ôl. Nid ydynt wedi gwneud hynny—maent wedi cynyddu 39 y cant rhwng 1999 a 2009. Nid yw'n wir fod Cymru rywsut yn dlotach nag yr oedd o dan reolaeth y Torïaid. Gwelsom yr hyn yr oedd llywodraeth Dorïaidd yn ei olygu yng Nghymru—dinistrio swyddi'n fwriadol, a gwelwn hanes yn ailadrodd ei hun yn awr.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Why is it that health-related complaints to the ombudsman have soared by almost 70 per cent over the last five years?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Pam mae cwynion i'r ombwdsmon sy'n ymwneud ag iechyd wedi cynyddu gan bron i 70 y cant dros y pum mlynedd diwethaf?

**The First Minister:** It shows that the ombudsman system is working effectively. It also means that people are being encouraged to make complaints, whereas years ago, they did not. We welcome that as an example of the transparency of the health service.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n dangos bod system yr ombwdsmon yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn golygu bod pobl yn cael eu hannog i wneud cwynion, tra blynyddoedd yn ôl, nid oeddent yn gwneud hynny. Yr ydym yn croesawu hynny fel enghraifft o dryloywder y gwasanaeth iechyd.

**Kirsty Williams:** We can all accept that many NHS staff do great work. However, yesterday's 'Dignified Care?' report from your own older persons' commissioner stated that there is a culture of neglect of older people in our country, and that fundamental change is needed. Today, your own ombudsman has said that reassurances that these types of cases will not happen again are becoming increasingly hollow. Are you willing to deliver that fundamental change,

**Kirsty Williams:** Gallwn i gyd dderbyn bod llawer o staff y GIG yn gwneud gwaith gwych. Fodd bynnag, nododd adroddiad 'Gofal gydag Urddas?' ddoe, gan eich comisiynydd pobl hŷn eich hun, fod diwylliant o esgeuluso pobl hŷn yn ein gwlad, a bod angen newid sylfaenol. Heddiw, mae eich ombwdsmon eich hun wedi dweud bod addewidion na fydd y mathau hyn o achosion yn digwydd eto yn teimlo'n fwyfwy gwag. A ydych yn fodlon cyflawni'r newid

and will you commit your Government to implementing all the recommendations in the older persons' commissioner's report in full?

sylfaenol hwnnw, ac a wnewch ymrwymo eich Llywodraeth i weithredu'r holl argymhellion yn adroddiad y comisiynydd pobl hŷn yn llawn?

**The First Minister:** You give a dangerous impression that the older persons' commissioner and the ombudsman are somehow controlled by the Government—they are not; they are independent bodies, which is why the older persons' commissioner produced the report that she did. The Government will be considering the recommendations in that report, with a view to seeing what we can do to alleviate the concerns that were identified in it.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn rhoi argraff beryglus bod y comisiynydd pobl hŷn a'r ombwdsmon rywsut yn cael eu rheoli gan y Llywodraeth—nid ydynt; maent yn gyrff annibynnol, a dyna pam y lluniodd y comisiynydd pobl hŷn yr adroddiad a wnaeth. Bydd y Llywodraeth yn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwnnw, gyda'r bwriad o weld beth y gallwn ei wneud i leddfu'r pryderon a nodwyd ynddo.

**Kirsty Williams:** I am sure that, having read the report, as I have, you will agree that those concerns are fundamental and more than just worrying; they go to the core of how we treat some of the most vulnerable people in our society and our community. If you cannot commit this afternoon to implementing the recommendations of that report in full, I will pick out some specifics for you. Will you commit to empowering ward managers to run their wards in a way that enhances dignity and respect, and will you also commit to ensuring that staff are able to support people with dementia?

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn sicr, ar ôl darllen yr adroddiad, fel yr wyf i wedi'i wneud, y cytunwch fod y pryderon hynny'n sylfaenol ac yn fwy na phryder yn unig; maent yn mynd i graidd sut yr ydym yn trin rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas a'n cymuned. Os na allwch chi ymrwymo'r prynhawn yma i weithredu holl argymhellion yr adroddiad hwnnw, nodaf rhai o'r manylion penodol i chi. A wnewch chi ymrwymo i rymuso rheolwyr wardiau i reoli eu wardiau mewn modd sydd yn gwella urddas a pharch, ac a wnewch chi hefyd ymrwymo i sicrhau bod staff yn gallu cefnogi pobl â dementia?

**The First Minister:** Yes, of course we can do that. However, you cannot pick out particular bits and say, 'Can you commit to those now, and look at the rest later?' There are, of course, parts of the report that concern us, but the proper way of dealing with this is to ensure that we look at the entire report and consider our response in due course.

**Y Prif Weinidog:** Gallwn, wrth gwrs gallwn wneud hynny. Fodd bynnag, ni allwch dynnu allan darnau penodol a dweud, 'A allwch chi ymrwymo i'r rheini yn awr ac edrych ar y gweddill yn nes ymlaen?' Wrth gwrs, mae yna rannau o'r adroddiad sy'n peri pryder i ni, ond y ffordd briodol o ddelio â hyn yw sicrhau ein bod yn edrych ar yr adroddiad cyfan ac yn ystyried ein hymateb maes o law.

**Kirsty Williams:** The author of that report has said today that no-one is looking at how to solve this problem, and that the view that they are taking of older persons is, 'Oh well, they have had a good innings.' When will you be able to demonstrate to the Chamber how your Government will commit to the fundamental change that has been called for by the older persons' commissioner in how we treat our elderly citizens in a hospital and NHS setting? Will you prioritise continence care, and will you ensure that, in future, consultations between patients and clinical

**Kirsty Williams:** Dywedodd awdur yr adroddiad heddiw nad oes unrhyw un yn edrych ar sut i ddatrys y broblem, ac mai'r farn y maen nhw'n ei chymryd o bobl hŷn yw, 'O wel, maen nhw wedi cael oes go dda.' Pryd fyddwch chi'n gallu dangos i'r Siambr sut y bydd eich Llywodraeth yn ymrwymo i'r newid sylfaenol y mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi galw amdano yn y modd yr ydym yn trin ein dinasyddion oedrannus mewn ysbyty a lleoliadau'r GIG? A wnewch chi flaenoriaethu gofal anymataliaeth, ac a wnewch chi sicrhau, yn y dyfodol, y cynhelir

staff are held in private? You would surely acknowledge that these are not add-ons or extras, but basic fundamentals of care that should be given as course to all our citizens.

ymgynghoriadau rhwng cleifion a staff clinigol yn breifat? Byddech yn sicr yn cydnabod nad ychwanegiadau neu bethau ychwanegol yw'r rhain, ond hanfodion sylfaenol gofal y dylid eu rhoi yn ddi-ffael i'n holl ddinasyddion.

**The First Minister:** It has never been the view of this Government that, somehow, because people reach a certain age, they have had a good innings. Far from it; we want to ensure that people get proper care no matter what their age, and as I said, we will look at the report and consider the position in due course. Contrast this with what is happening in England, however, where Eric Pickles has launched an assault on social care. He wants to take away some of the duties that local authorities have—for example, their responsibility to investigate a situation where a child might be under threat. That is what Eric Pickles has said today. He calls that council red tape; I call it the protection of children.

**Y Prif Weinidog:** Nid barn y Llywodraeth hon erioed oedd, rywsut, oherwydd bod pobl yn cyrraedd oedran penodol, eu bod wedi cael oes dda. I'r gwrthwyneb; rydym am sicrhau bod pobl yn cael gofal priodol ni waeth beth yw eu hoedran, ac fel y dywedais, byddwn yn edrych ar yr adroddiad ac yn ystyried y sefyllfa maes o law. Cyferbynnwch hyn â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, fodd bynnag, lle mae Eric Pickles wedi lansio ymosodiad ar ofal cymdeithasol. Mae am gael gwared ar rai o'r dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol—er enghraifft, eu cyfrifoldeb i ymchwilio i sefyllfa lle gallai plentyn fod dan fygythiad. Dyna mae Eric Pickles wedi'i ddweud heddiw. Mae'n galw hwnnw'n fiwrocratiaeth gan gynghorau; rwy'n ei alw'n amddiffyn plant.

**Kirsty Williams:** First Minister, the older people's commissioner for Wales has published a devastating critique of how elderly people in Wales are treated in the NHS. It seems that all you can do is to try to shield yourself by talking about a Government in another place. I ask you again: when will your Government publish a full and frank response to this report, so that we know whether we can trust it to put in place the fundamental changes called for by this independent report? This is not about England; it is about older people in Wales today, who are lacking some of the basics of care, unable to get a glass of water when they need it, and being sent home from hospital in taxis while they are still in their pyjamas. That is not a system that any of us would be proud of, or would want to see sustained. When will you publish your response to this report?

**Kirsty Williams:** Brif Weinidog, mae comisiynydd pobl hŷn Cymru wedi cyhoeddi beirniadaeth ddinistriol o sut y caiff pobl oedrannus yng Nghymru eu trin yn y GIG. Mae'n ymddangos mai'r cyfan y gallwch chi ei wneud yw ceisio amddiffyn eich hun drwy sôn am Lywodraeth mewn man arall. Gofynnaf ichi eto: pryd y bydd eich Llywodraeth yn cyhoeddi ymateb llawn a gonest i'r adroddiad hwn, fel ein bod yn gwybod y gallwn ymddiried ynddo i roi'r newidiadau sylfaenol y mae'r adroddiad annibynnol hwn yn galw amdanynt ar waith? Nid yw hyn yn ymwneud â Lloegr; mae'n ymwneud â phobl hŷn yng Nghymru heddiw, nad oes ganddynt rai o hanfodion gofal, yn methu â chael gwydraid o ddŵr pan fydd ei angen arnynt, ac yn cael eu hanfon adref o'r ysbyty mewn tacsis tra byddant yn dal i wisgo eu pyjamas. Nid yw honno'n system y byddai unrhyw un ohonom yn falch ohoni, neu am ei gweld yn cael ei chynnal. Pryd y byddwch yn cyhoeddi eich ymateb i'r adroddiad hwn?

**The First Minister:** As I have said, the report will receive a response in due course.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, bydd ymateb i'r adroddiad maes o law. Mae'r

The issues raised in the report are serious and deserve to be considered at length in order to be dealt with properly. That is the way that we have always dealt with issues raised in reports such as this, and we take these reports very seriously. A knee-jerk reaction is not the right way to deal with them. You use the word ‘trust’; coming from a party that, when entering Government in London, broke the most fundamental promise that it had ever made—on student tuition fees—I really think that Lib Dems are the last people to lecture anyone on trust.

materion a godwyd yn yr adroddiad yn ddifrifol ac yn haeddu cael eu hystyried yn faith er mwyn cael eu trin yn iawn. Dyna’r ffordd yr ydym bob amser wedi ymdrin â materion a godwyd mewn adroddiadau fel hyn, ac yr ydym yn cymryd yr adroddiadau hyn o ddifrif. Nid adwaith difeddwl yw’r ffordd gywir o ddelio â nhw. Rydych yn defnyddio’r gair ‘ymddiriedaeth’; yn dod o blaid a wnaeth, wrth ymuno â’r Llywodraeth yn Llundain, dorri’r addewid mwyaf sylfaenol a wnaeth erioed—ar ffioedd dysgu myfyrwyr—credaf mewn gwirionedd mai’r Democratiaid Rhyddfrydol yw’r bobl olaf i ddarlithio unrhyw un ar ymddiriedaeth.

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Social Services**

***2. Peter Black:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. OAQ(3)3468(FM)*

***2. Peter Black:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government’s plans for social services in Wales. OAQ(3)3468(FM)*

**The First Minister:** Our plans for transforming social services in Wales were set out in ‘Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action’, which was published on 17 February. The Deputy Minister made an oral statement on 1 March.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein cynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wedi’u nodi yn ‘Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu’, a gyhoeddwyd ar 17 Chwefror. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog ddatganiad llafar ar 1 Mawrth.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. One of the dangers in looking at social services is to treat them in isolation from the health service. I attended a very interesting presentation yesterday on the way that social services and health were working together in Bridgend, which you will no doubt be aware of; that largely grew up from the grass roots. That is not replicated in other parts of Wales. What are you doing to encourage further collaboration around Wales along the lines of the Bridgend example, to try to drive out inefficiencies and ineffectiveness in the system and improve the experience that people have with social services and the health service?

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Un o’r peryglon wrth edrych ar wasanaethau cymdeithasol yw ymdrin â hwy ar wahân i’r gwasanaeth iechyd. Mynychais gyflwyniad diddorol iawn ddoe ar y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gweithio gyda’i gilydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a byddwch yn siŵr o fod yn ymwybodol o hynny. I raddau helaeth, datblygodd hynny o lawr gwlad. Nid yw hynny wedi’i ailadrodd mewn rhannau eraill o Gymru. Beth ydych yn ei wneud i annog cydweithio pellach ledled Cymru yn seiliedig ar enghraifft Pen-y-bont ar Ogwr, i geisio cael gwared ar aneffeithlonrwydd ac aneffeithiolrwydd yn y system a gwella profiad pobl o wasanaethau cymdeithasol a’r gwasanaeth iechyd?

**The First Minister:** I wholeheartedly agree with your analysis. Another example is the Gwent frailty programme, where there has

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf yn llwyr â’ch dadansoddiad. Enghraifft arall yw rhaglen eiddilwch Gwent, lle bu cydweithio aruthrol

been tremendous collaboration between the local authorities, the local health board and others. It provides a seamless service for people, which I think we would all welcome. What we want to do now is to ensure that that good practice is made known throughout Wales, and rolled out throughout Wales.

rhwng yr awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd lleol ac eraill. Mae'n darparu gwasanaeth di-dor i bobl, ac rwy'n meddwl y byddem i gyd yn croesawu hynny. Yr hyn yr ydym am ei wneud yn awr yw sicrhau bod pobl ledled Cymru yn dysgu am arferion da, a bod yr arferion hynny'n cael eu cyflwyno ledled Cymru.

**Jonathan Morgan:** First Minister, the statement on 1 March reflects the excellent work that was done by the independent commission on social services, which published its report last year. It dealt with the significant challenges that we face as regards demography, social change and health status. The report says that, in the next 20 years, there will be an increase in the number of people with heart disease from around 230,000 to 330,000. At the same time, there will be an increase in those with respiratory illness, from around 330,000 to 410,000. It is clear that there are challenges, looking at the next 20 years, in how the health of the nation is changing. It is not too late to reduce the rate at which the health of the nation gets worse, because that is what these statistics tell us: that, overall, the health of the nation is not improving. What steps will the Government take to improve public health so that the challenge of delivering social services is not more acute in 20 years, and so that we deal with all of these problems?

**Jonathan Morgan:** Brif Weinidog, mae'r datganiad ar 1 Mawrth yn adlewyrchu'r gwaith rhagorol a wnaethpwyd gan y comisiwn annibynnol ar wasanaethau cymdeithasol, a gyhoeddodd ei adroddiad y llynedd. Roedd yn ymdrin â'r heriau sylweddol sy'n ein hwynebu o ran demograffeg, newid cymdeithasol a statws iechyd. Mae'r adroddiad yn dweud, dros yr 20 mlynedd nesaf, y bydd nifer y bobl sydd â chlefyd y galon yn cynyddu o tua 230,000 i 330,000. Ar yr un pryd, bydd cynnydd yn y nifer sydd â salwch anadlol, o tua 330,000 i 410,000. Mae'n amlwg bod heriau, o edrych ar yr 20 mlynedd nesaf, yn y modd y mae iechyd y genedl yn newid. Nid yw'n rhy hwyr i ostwng y raddfa y mae iechyd y genedl yn gwaethygu, oherwydd dyna'r hyn y mae'r ystadegau'n ei ddweud wrthym: yn gyffredinol, nid yw iechyd y genedl yn gwella. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i wella iechyd y cyhoedd fel nad yw'r her o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn fwy difrifol mewn 20 mlynedd ac fel y byddwn yn ymdrin â'r holl broblemau hyn?

**The First Minister:** You are quite right that prevention is important. We have plans such as the tobacco control action plan, which seeks to reduce the amount of smoking, which is so prevalent in many parts of Wales. You will know that over the years, we have set great store by the prevention agenda.

**Y Prif Weinidog:** Rydych yn llygad eich lle bod ataliaeth yn bwysig. Mae gennym gynlluniau fel y cynllun gweithredu i reoli tybaco, sy'n ceisio lleihau'r nifer sy'n ysmygu, sydd mor gyffredin mewn sawl rhan o Gymru. Byddwch yn gwybod dros y blynyddoedd ein bod wedi gosod pwys mawr ar yr agenda atal.

1.45 p.m.

It takes some time for the fruits of that commitment to be realised by people, but we believe that great strides have been made over the past few years to ensure a greater emphasis on prevention so that problems are not stored up for the future.

Mae'n cymryd peth amser i weld yr ymrwymiad hwnnw'n cael ei wireddu gan bobl, ond rydym yn credu bod camau breision wedi'u gwneud dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod mwy o bwyslais ar atal fel nad yw problemau'n cael eu cadw ar gyfer y dyfodol.

**Brian Gibbons:** There has to be honesty and transparency in the way that we engage in these debates. First Minister, would you deprecate the leaflet that was circulated by the Conservative candidate in my constituency of Aberavon, in which he said that the Plaid and Labour Government is intending to close Neath Port Talbot Hospital? Since that leaflet was circulated, I have received confirmation from the chief executive of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board and the Minister for Health and Social Services that there is no substance to the claim. Surely, honesty has to be the bottom line for a serious debate on the health service and social services in Wales.

**Brian Gibbons:** Mae'n rhaid cael gonestrwydd a thryloywder yn y ffordd rydym yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn. Brif Weinidog, a fyddech yn gwrthwynebu'r daflen a ddosbarthwyd gan yr ymgeisydd Ceidwadol yn fy etholaeth yn Aberafan, lle'r oedd yn dweud bod Llywodraeth Plaid a Llafur yn bwriadu cau Ysbyty Castell-nedd Port Talbot? Ers i'r daflen honno gael ei dosbarthu, rwyf wedi cael cadarnhad gan brif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nad oes unrhyw sylwedd i'r honiad hwnnw. Onid y gwir amdani yw bod yn rhaid cael gonestrwydd wrth gael trafodaeth ddifrifol am y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru?

**The First Minister:** The leaflet was an example of the most pathetic scaremongering. There is no threat to Neath Port Talbot Hospital, and I invite the party opposite to withdraw those comments.

**Y Prif Weinidog:** Roedd y daflen yn enghraifft o achos mwyaf pathetig o godi bwganod. Nid oes unrhyw fygythiad i ysbyty Castell-nedd Port Talbot, a gwahoddaf y blaid gyferbyn i dynnu'r sylwadau hynny'n ôl.

**Nerys Evans:** Mae arolwg barnwrol wedi digwydd yn ddiweddar ynghylch taliadau cartrefi preswyl yn Sir Benfro. Mae pedwar cartref yn Sir Benfro yn honni bod methodoleg y cyngor sir i ddyfarnu'r taliadau'n ddiffygiol ac yn ffafrio cartrefi mawr. Mae Cyngor Sir Penfro wedi colli'r achos, sydd wedi arwain at gostau o bron £250,000. Mae'r achos hwn yn un arwyddocaol o ran pennu lleiafswm cost cartref preswyl a'r fethodoleg y mae cynghorau sir yn ei defnyddio. Mae rhai wythnosau wedi pasio ers y dyfarniad; yn eich tyb chi, beth fydd ei effaith ar wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru?

**Nerys Evans:** A judicial review has taken place recently on charges for residential homes in Pembrokeshire. Four homes in Pembrokeshire are claiming that the methodology used by the county council to award payments is flawed and favours larger homes. Pembrokeshire County Council has lost the case, which has resulted in costs of almost £250,000. This case is significant in determining the minimum cost of a residential home and the methodology used by county councils. Some weeks have passed since the ruling; in your opinion, what will its impact be on social services across Wales?

**Y Prif Weinidog:** Mater i Sir Benfro yw hwn, ond y mae'n bwysig bod y cyngor yn edrych ar y canllawiau sydd wedi'u pennu ar ran Llywodraeth y Cynulliad ynghylch comisiynu gwasanaethau cymdeithasol; cafodd y canllawiau hynny eu cyhoeddi yn yr haf. Mae'n bwysig dros ben bod y cynghorau'n dilyn y ddogfen honno i sicrhau nad yw'r sefyllfa'n codi eto.

**The First Minister:** This is a matter for Pembrokeshire, but it is important that the council looks at the guidelines that have been set by the Assembly Government on commissioning social services; those guidelines were published in the summer. It is extremely important that councils follow the document to ensure the situation does not arise again.

## Y Diwydiant Twristiaeth

***3. Veronica German:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y diwydiant twristiaeth yn Nwyrain De Cymru. OAQ(3)3465(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi dyrannu £650,000 i Uwch Ranbarth Twristiaeth eleni i hyrwyddo a datblygu twristiaeth.

**Veronica German:** Yr haf diwethaf, fel y gwyddoch mae'n siŵr, gwnaeth ysgol archeoleg Prifysgol Caerdydd ganfyddiad rhyfeddol yng Nghaerllion. Canfu dystiolaeth bod dinas Isca Silurum, fel yr ydym yn ei hadnabod, ddwywaith y maint y tybiwyd yr oedd yn flaenorol a'i bod yn cynnwys yr hyn a gredir yw'r adeilad Rhufeinig mwyaf i'r gogledd o'r Alpau. Yn wahanol i ganfyddiadau Rhufeinig eraill yng Nghaerefrog a Chaer, nid yw'r canfyddiad hwn wedi'i gladdu o dan adeiladau modern; mae ar dir agored a hygyrch. A ydych yn cytuno bod hyn nid yn unig yn arwyddocaol o ran diwylliant, ond y gallai gael effaith enfawr ar dwristiaeth yn yr ardal? Ceisiodd cannoedd o filoedd o bobl ddarllen erthygl ar y safle a gyhoeddwyd ar wefan *The Guardian.* Dylai'r Llywodraeth roi arian i'r brifysgol i ganiatáu mwy o waith ymchwil a fyddai'n dod â llawer iawn o dwristiaeth i'r ardal.

**Y Prif Weinidog:** Os yw'r brifysgol yn dymuno gwneud cais am gyllid grant, bydd yn cael ei thrin yn y ffordd arferol. Cytunaf fod y canfyddiad hwn o bosibl yn arwyddocaol iawn ac y bydd angen datblygu'r safle maes o law fel atyniad—nid dyna yw'r gair cywir mae'n siŵr—i ddod â phobl i'r ardal i ddysgu mwy am fywyd y Rhufeiniaid a'r Celtiaid.

**Mohammad Asghar:** Bydd y gwaddol a adewir gan y Cwpan Ryder yn hollbwysig ar gyfer dyfodol hirdymor y diwydiant twristiaeth yn Nwyrain De Cymru. Mae swyddfa'r Gweinidog dros Dreftadaeth wedi dweud wrthyf y bydd astudiaeth economaidd o dwristiaeth yn cael ei chyhoeddi ar 23 Mawrth. Mae hynny'n newyddion i'w groesawu, gan fod y Cwpan Ryder wedi helpu i ddod â bron i £42 miliwn i'r

## The Tourism Industry

***3. Veronica German:** Will the First Minister make a statement on the tourism industry in South Wales East. OAQ(3)3465(FM)*

**The First Minister:** We have allocated £650,000 to Capital Region Tourism this year for the promotion and development of tourism.

**Veronica German:** Last summer, as you are probably aware, Cardiff University's school of archaeology made a remarkable find in Caerleon. It found evidence that the city of Isca Silurum, as we know it, was double the size previously thought and included what is believed to be the largest Roman building north of the Alps. Unlike finds in other Roman cities in York and Chester, this find is not buried underneath modern buildings; it is in open ground and is accessible. Do you agree that this is not only significant in terms of culture but that it could have a massive impact on tourism in the area? Hundreds of thousands of people tried to access an article on the site that was published on *The Guardian* website. The Government should give the university money to allow more research that would bring a huge amount of tourism to the area.

**The First Minister:** If the university wishes to make an application for grant funding, it will be treated in the usual way. I agree that this is a find of potentially great significance and that the site will need to be developed in time as an attraction—that is probably the wrong word—to bring people to the area to learn more about the lives of the Romans and the Celtic people.

**Mohammad Asghar:** The legacy left by the Ryder Cup will prove crucial for the long-term future of the tourism industry in South Wales East. The office of the Minister for Heritage has told me that an economic study of tourism will be published on 23 March. That is welcome news, as the Ryder Cup helped to bring almost £42 million to the golf tourism industry in Wales last year. However, we must hope that the full impact

of the Ryder Cup goes well beyond any initial economic boost and provides a lasting legacy for the nation and the region. First Minister, what recent discussions have you had with Visit Wales and your Assembly Government colleagues to ensure that contacts made during the Ryder Cup, notably with tourism operators from the United States of America, Canada—whose parliamentarians are visiting the Assembly at the moment—and other Commonwealth countries, are properly followed up for the benefit of the Welsh economy?

diwydiant twristiaeth golff yng Nghymru y llynedd. Fodd bynnag, mae’n rhaid inni obeithio bod effaith lawn y Cwpan Ryder yn mynd y tu hwnt i unrhyw hwb economaidd cychwynnol a’i fod yn rhoi gwaddol parhaol i’r genedl a’r rhanbarth. Brif Weinidog, pa drafodaethau diweddar yr ydych wedi’u cynnal gyda Croeso Cymru a’ch cydweithwyr yn Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y cysylltiadau a wnaed yn ystod y Cwpan Ryder, yn arbennig gyda gweithredwyr twristiaeth o Unol Daleithiau America, Canada—y mae eu seneddwyr yn ymweld â’r Cynulliad ar hyn o bryd—a gwledydd eraill y Gymanwlad, yn cael eu datblygu’n briodol er budd economi Cymru?

**The First Minister:** We continue to pursue a number of leads. One of the areas where we have been successful is in looking to ensure that athletes who are coming here for the Olympic Games next year are housed and trained in Wales. A number of countries are doing that. The reception that was held last Wednesday for the US ambassador came about as a direct result of the meeting that took place at the Ryder Cup. Many of the leads that were established at the Ryder Cup are still being pursued.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn parhau i fynd ar drywydd nifer o gysylltiadau. Un o’r meysydd lle y buom yn llwyddiannus yw ceisio sicrhau bod athletwyr sy’n dod yma ar gyfer y Gemau Olympaidd y flwyddyn nesaf yn cael llety a’u hyfforddi yng Nghymru. Mae nifer o wledydd yn gwneud hynny. Roedd y derbyniad a gynhaliwyd ddydd Mercher diwethaf ar gyfer llysgennad yr Unol Daleithiau yn dod o ganlyniad uniongyrchol i’r cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y Cwpan Ryder. Mae llawer o gysylltiadau a sefydlwyd yn ystod y Cwpan Ryder yn dal i gael eu dilyn.

### Ysmygu

### Smoking

***4. Helen Mary Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau sy’n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i leihau nifer y bobl sy’n ysmygu. OAQ(3)3473(FM)*

***4. Helen Mary Jones:*** *Will the First Minister make a statement on action being taken by the Welsh Assembly Government to reduce the prevalence of smoking. OAQ(3)3473(FM)*

**The First Minister:** We are investing in programmes to discourage young people from starting to smoke and to support smokers who want to quit. Our tobacco control action plan, which recommends further action to tackle smoking, is out for consultation until 18 May 2011.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn buddsoddi mewn rhaglenni i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu ac i gynorthwyo ysmygwyr sydd am roi’r gorau iddi. Mae ein cynllun gweithredu i reoli tybaco, sy’n argymell camau pellach i fynd i’r afael ag ysmygu, yn destun ymgynghoriad tan 18 Mai 2011.

**Helen Mary Jones:** First Minister, you will be aware that many health organisations, as well as the campaigning organisation Action on Smoking and Health, have recommended that we look at the possibility of banning smoking in playgrounds and in enclosed cars where children are present. Do you believe

**Helen Mary Jones:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod nifer o sefydliadau iechyd, yn ogystal â’r sefydliad ymgyrchu Action on Smoking and Health, wedi argymell ein bod yn edrych ar y posibilrwydd o wahardd ysmygu mewn meysydd chwarae ac mewn ceir caeedig lle mae plant yn

that it would be wise for the next Assembly Government to investigate whether the new powers that the people of Wales gave us the week before last will enable us to consider pursuing those courses of action here in Wales?

bresennol. A ydych yn credu y byddai'n ddoeth i Lywodraeth nesaf y Cynulliad ymchwilio i weld a fydd y pwerau newydd y rhoddodd pobl Cymru i ni yr wythnos cyn yr un ddiwethaf yn ein galluogi i ystyried mynd ar drywydd y camau gweithredu hynny yng Nghymru?

**The First Minister:** It is a debate that we have to have. I am sure that the next Assembly Government—whoever is in it—will consider what further steps will need to be taken in order to protect not only children's health but also the health of adults.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ddadl y mae'n rhaid i ni ei chael. Rwy'n siŵr y bydd Llywodraeth nesaf y Cynulliad—pwy bynnag y bo—yn ystyried pa gamau pellach y mae angen eu cymryd i amddiffyn nid yn unig iechyd plant ond hefyd iechyd oedolion.

**The Presiding Officer:** I call Alun Cairns. [*Interruption*.] Order.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Alun Cairns. [*Torri ar draws*.] Trefn.

**Alun Cairns:** There are proposals for a smoking display ban elsewhere. Would the First Minister advise the Chamber what specific plans he has here in Wales, and what reassurance he can give to small shopkeepers who are naturally concerned about the cost implications of a smoking display ban imposed in the short term?

**Alun Cairns:** Mae cynigion ar gyfer gwahardd standiau sy'n arddangos deunydd ysmygu mewn mannau eraill. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrth y Siambr pa gynlluniau penodol sydd ganddo yma yng Nghymru, a pha sicrwydd y gall ei roi i siopwyr bach sy'n pryderu, yn naturiol, am y goblygiadau o ran cost gwahardd standiau sy'n arddangos deunydd ysmygu yn y tymor byr?

**The First Minister:** That is a matter for the Department of Health, which is run by your party.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n fater i'r Adran Iechyd, sy'n cael ei rhedeg gan eich plaid chi.

### Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU

### Discussions with the UK Government

***5. Andrew R.T. Davies:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU hyd yma yn 2011. OAQ(3)3479(FM)*

***5. Andrew R.T. Davies:*** *What discussions has the First Minister held with the UK Government so far in 2011. OAQ(3)3479(FM)*

**The First Minister:** I have discussions with UK Government Ministers on a range of matters.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cael trafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ar amryw o faterion.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, First Minister. As we go into the fourth Assembly, consideration is being given to the structures of the discussions that you, or whoever is your successor, and the Government in the fourth Assembly will have with Westminster Ministers. Given your experience in the last part of this Assembly, which structures would allow us to move forward in our discussions with the Westminster Government and to have that

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Wrth inni drosglwyddo i'r pedwerydd Cynulliad, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i strwythurau'r trafodaethau y byddwch chi, neu bwy bynnag fydd yn eich olynu, a'r Llywodraeth yn y pedwerydd Cynulliad yn eu cael gyda Gweinidogion San Steffan. O ystyried eich profiad yn rhan olaf y Cynulliad hwn, pa strwythurau fyddai'n ein galluogi i symud ymlaen yn ein trafodaethau â Llywodraeth

dialogue where we need to have the dialogue?

San Steffan ac i gael y ddeialog honno lle y mae angen i ni ei chael?

**The First Minister:** I am not sure whether I followed that entirely. We constantly need to review the structures that are in place that facilitate engagement between the different administrations in the UK. I believe that the structure that we have at the moment works very well.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr a wyf wedi dilyn hynny'n llwyr. Mae angen inni adolygu'n gyson y strwythurau sydd ar waith sy'n hwyluso ymgysylltiad rhwng y gwahanol weinyddiaethau yn y DU. Credaf fod y strwythur sydd gennym ar hyn o bryd yn gweithio'n dda iawn.

**Brian Gibbons:** Getting people into work and making sure that work pays is a shared objective of both the Westminster Government and your own Government in Wales. Tomorrow, I understand that there is a debate in Westminster on removing value added tax on petrol. I am sure that you realise that, for many people in Wales, the cost of travelling to work makes a significant difference in terms of whether work pays or not. In terms of providing support to the opposition motion that is before Parliament tomorrow, has your Government had any discussions with the UK Government to make sure that, if the motion is passed, it will be a real opportunity to make work pay, particularly for those communities in my constituency who have the furthest distance to travel to get to work?

**Brian Gibbons:** Mae cael pobl i mewn i waith a gwneud yn siŵr bod gwaith yn talu ei ffordd yn amcan a rennir gan Lywodraeth San Steffan a'ch Llywodraeth chi yng Nghymru. Yfory, deallaf fod dadl yn San Steffan ar ddileu treth ar werth ar betrol. Rwy'n siŵr eich bod yn sylweddoli, i lawer o bobl yng Nghymru, bod y gost o deithio i'r gwaith yn gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran a yw gwaith yn talu ei ffordd ai peidio. O ran cefnogi cynnig yr wrthblaid sydd gerbron y Senedd yfory, a yw'ch Llywodraeth wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr, os caiff y cynnig ei basio, y bydd yn gyfle gwirioneddol i wneud i waith dalu ei ffordd, yn enwedig ar gyfer y rheini yn y cymunedau yn fy etholaeth sydd â'r pellter pellaf i deithio i fynd i'r gwaith?

**The First Minister:** It is important that people understand that the VAT rate is now imposing great restrictions on a number of people economically. It is also important to stress that the increase in VAT, together with the duty imposed on fuel, means that many people are now finding it difficult to travel to find work. It is clear to me that it is important that the UK Government looks to reduce the VAT on fuel to ensure that people are not priced out of the jobs market.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig bod pobl yn deall bod y gyfradd TAW bellach yn gosod cyfyngiadau mawr ar nifer o bobl yn economaidd. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio bod y cynnydd mewn TAW, ynghyd â'r ddyletswydd a osodir ar danwydd, yn golygu bod llawer o bobl bellach yn ei chael yn anodd teithio i ddod o hyd i waith. Mae'n amlwg i mi ei bod yn bwysig bod Llywodraeth y DU yn ystyried lleihau TAW ar danwydd i sicrhau nad yw pobl yn cael eu prisio allan o'r farchnad swyddi.

**Leanne Wood:** This month's resounding 'yes' vote was a ringing endorsement of the principle of devolution and has settled many of the arguments put forward by those opposed to devolution during the campaign. Now that people have voted for these enhanced powers, there will be more leeway for Wales to develop its own distinct legal identity. Can you update Members about any discussions that you have had since 3 March about how a new legal jurisdiction for Wales

**Leanne Wood:** Roedd y bleidlais gadarnhaol ysgubol y mis hwn yn dangos cefnogaeth gryf i'r egwyddor o ddatganoli ac mae wedi datrys nifer o'r dadleuon a gyflwynwyd gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu datganoli yn ystod yr ymgyrch. Gan fod pobl bellach wedi pleidleisio o blaid cael y pwerau ychwanegol hyn, bydd mwy o hyblygrwydd i Gymru ddatblygu ei hunaniaeth gyfreithiol unigryw ei hun. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw

will work? Can you also update us on any discussions that you have had about furthering the commitment in the 'One Wales' agreement to consider the evidence for the devolution of the criminal justice system?

drafodaethau yr ydych wedi'u cael ers 3 Mawrth am sut y bydd awdurdodaeth gyfreithiol newydd i Gymru yn gweithio? A allwch chi hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynglŷn â datblygu'r ymrwymiad yng nghytundeb 'Cymru'n Un' i ystyried y dystiolaeth ar gyfer datganoli'r system cyfiawnder troseddol?

**The First Minister:** With regard to your first question, I have had no such discussions. Secondly, the devolution of the criminal justice system is a matter that is still being considered by the Welsh Government.

**Y Prif Weinidog:** O ran eich cwestiwn cyntaf, nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath. Yn ail, mae datganoli'r system cyfiawnder troseddol yn fater sydd yn dal i gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru.

**Economi Cymru**

**The Welsh Economy**

***6. Nick Bourne:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol economi Cymru. OAQ(3)3475(FM)*

***6. Nick Bourne:*** *Will the First Minister make a statement on the future of the Welsh economy. OAQ(3)3475(FM)*

**The First Minister:** Recent experience has reminded us that economic forecasting is fraught with difficulty. The recovery is still fragile, and we remain concerned about the future direction of the economy, given that the economy has shrunk over the past quarter.

**Y Prif Weinidog:** Mae profiad diweddar wedi ein hatgoffa bod rhagolygon economaidd yn peri nifer o anawsterau. Mae'r adferiad yn dal yn fregus, ac rydym yn dal yn pryderu am gyfeiriad yr economi yn y dyfodol, o ystyried bod yr economi wedi crebachu dros y tri mis diwethaf.

**Nick Bourne:** I have asked about the manufacturing strategy on no fewer than eight occasions, and it is always a 'moveable feast' and is 'about to be published'. Last month, you confirmed that it would be published before recess, and when I asked why it had taken so long, you said, three years and 11 months in, that you did not want to rush it. Can you tell us when it will be published, so that we are able to discuss it here before the recess?

**Nick Bourne:** Rwyf wedi holi am y strategaeth weithgynhyrchu nid llai nag wyth gwaith, a'r ateb bob tro yw 'mae'r dyddiad yn newid' ac 'mae ar fin cael ei chyhoeddi'. Fis diwethaf, gwnaethoch gadarnhau y byddai'n cael ei chyhoeddi cyn y toriad, a phan ofynnais pam mae wedi cymryd cyhyd, dywedasoch, dair blynedd ac 11 mis ers y cychwyn, nad oeddech am ei rhuthro. A allwch chi ddweud wrthym pryd y bydd yn cael ei chyhoeddi, fel y gallwn ei thrafod yma cyn y toriad?

**The First Minister:** We are looking to publish it before the end of this month.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn bwriadu ei chyhoeddi cyn diwedd y mis hwn.

**Alun Davies:** We are aware of the damage that has been done to the Welsh economy by the current UK Government, but we are also aware of the policies that this Government has been pursuing with regard to innovation, and research and development, which seeks to entrench growth in this economy. We also know that the UK Government has broken all of its promises on research funding in

**Alun Davies:** Rydym yn ymwybodol o'r difrod a wnaed i economi Cymru gan Lywodraeth bresennol y DU, ond rydym hefyd yn ymwybodol o'r polisïau y bu'r Llywodraeth hon yn eu dilyn o ran arloesedd, a gwaith ymchwil a datblygu, sy'n ceisio sicrhau twf yn yr economi. Rydym hefyd yn gwybod bod Llywodraeth y DU wedi torri pob un o'i haddewidion ar ariannu gwaith

universities. Can you assure us that this Government will continue to fund research in universities in Wales, will continue to fund research and development as a driver for economic growth, and will continue to invest in the skills that we need? When the leader of the opposition talks about a manufacturing strategy, we all know that he does not know what he is talking about. However, we will develop real skills to drive this economy forward in the face of opposition from the parties on the opposite side of the Chamber.

ymchwil mewn prifysgolion. A allwch ein sicrhau y bydd y Llywodraeth yn parhau i ariannu gwaith ymchwil mewn prifysgolion yng Nghymru, yn parhau i ariannu gwaith ymchwil a datblygu fel sbardun ar gyfer twf economaidd, ac yn parhau i fuddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen arnom? Pan fo arweinydd yr wrthblaid yn trafod strategaeth weithgynhyrchu, rydym oll yn gwybod nad yw'n gwybod am beth y mae'n sôn amdano. Fodd bynnag, byddwn yn datblygu sgiliau gwirioneddol i ddatblygu'r economi hon yn wyneb gwrthwynebiad gan y pleidiau ar ochr arall y Siambr.

**The First Minister:** Absolutely. We need our universities to be economic drivers, which is why we seek to fund them appropriately to ensure that as much research as possible is done within Welsh universities.

**Y Prif Weinidog:** Yn hollol. Mae angen i'n prifysgolion fod yn sbardunwyr economaidd, a dyna pam rydym yn ceisio eu hariannu'n briodol er mwyn sicrhau bod gymaint o waith ymchwil ag y bo modd yn cael ei wneud ym mhrifysgolion Cymru.

**Gareth Jones:** Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn cydnabod cymaint o hwb i'r economi byddai trydaneiddio'r rhwydwaith rheilffordd ym mhob rhan o Gymru—nid i Gaerdydd yn unig, ond i Abertawe ac i orllewin Cymru, yn ogystal ag ar hyd rheilffordd arfordir y gogledd. A gydnabyddwch y manteision economaidd a fyddai'n dod yn sgîl mwy o fuddsoddiad mewn seilwaith a gwasanaeth trafnidiaeth modern? A gytunwch â'r hyn a ddywedodd Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru wrth y Pwyllgor Menter a Dysgu yn ystod ei ymchwiliad i ddyfodol y seilwaith rheilffyrdd, sef y dylai trafnidiaeth yrru datblygiad economaidd, yn hytrach nag ymateb iddo, a bod absenoldeb seilwaith o'r fath wedi rhwystro neu wedi arafu'n ddifrifol dŵf economaidd neu adfywiad economaidd?

**Gareth Jones:** We in Plaid Cymru acknowledge the significant boost to the economy that would result from the electrification of the railway in every part of Wales—not only to Cardiff, but to Swansea and west Wales, as well as along the coastal railway in the north. Do you acknowledge the economic benefits that would result from increased investment in a modern infrastructure and transport service? Do you agree with what the Wales Transport Research Centre told the Enterprise and Learning Committee during its inquiry into the future of the railway infrastructure, namely that transport should drive economic development, rather than reacting to it, and that the absence of such infrastructure prevents or severely slows down economic growth or economic recovery?

Bu i cynrychiolwyr y ganolfan grynhoi eu sylwadau drwy ddweud bod cysylltiadau trafnidiaeth da i Gymru yn gwbl hanfodol os yw cyflogaeth i dyfu trwy adfywiad economaidd, gan gyfeirio at gynhyrchu a thwristiaeth fel dau sector sy'n gofyn am gysylltiadau a hygyrchedd. A gytunwch â'r Athro Stuart Cole, a ddywedodd yn y pwyllgor yn ddiweddar, y gallai gogledd Cymru elwa'n fawr o gysylltiadau trenau cyflym, trydan, tebyg i drenau'r TGV yn Ffrainc, ac na ddylem felly ddiystyru'r posibiliadau o ddargyfeirio trenau cyflym ar

The centre's representatives summed up their remarks by saying that good transport links to Wales are absolutely essential if employment is to increase through economic regeneration, referring to the manufacturing and tourism as two sectors that require connections and accessibility. Do you agree with Professor Stuart Cole, who told the committee recently that north Wales could benefit greatly from train links that are fast and electrified, similar to the TGV trains in France, and that we should not therefore underestimate the possibilities of diverting high-speed trains

hyd prif reilffordd gogledd Cymru?

along the north Wales main line?

**Y Prif Weinidog:** Credaf fod hynny'n gywir; byddai trydaneiddio'r rheilffordd yn hwb economaidd i'r gogledd. Croesawaf y ffaith fod y rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio i Gaerdydd, ond yr ydym yn pryderu nad yw'n mynd hyd Abertawe, lle mae rheilffordd de Cymru yn gorffen, cyn mynd ymlaen i'r gorllewin. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud ei bod yn fodlon i gadw meddwl agored ynglŷn â thrydaneiddio i Abertawe, a gobeithiaf fod hynny'n iawn.

**The First Minister:** I think that is correct; the electrification of the railway would be an economic boost to the north. I welcome the fact that the railway is to be electrified as far as Cardiff, but we are concerned that it will not be electrified to Swansea, where the south Wales railway ends, before proceeding to the west. The UK Government has said that it is willing to keep an open mind on electrification to Swansea, and I hope that that is correct.

2.00 p.m.

**Cysylltiadau Trafnidiaeth**

**Transport Connectivity**

***7. Jenny Randerson:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth rhwng Cymru a Llundain. OAQ(3)3474(FM)*

***7. Jenny Randerson:*** *Will the First Minister make a statement on Wales' transport connectivity to London. OAQ(3)3474(FM)*

**The First Minister:** There are good rail links between south Wales and London on the Great Western main line and on the north Wales coast between north Wales and London. We are disappointed by the UK Government's announcement that the electrification of the Great Western main line will not be funded to Swansea.

**Y Prif Weinidog:** Mae cysylltiadau rheilffordd da rhwng y de a Llundain ar y brif reilffordd Great Western ac ar arfordir y gogledd rhwng y gogledd a Llundain. Rydym wedi ein siomi gan gyhoeddiad Llywodraeth y DU na fydd y broses o drydanu prif lein y Great Western yn cael ei ariannu i Abertawe.

**Jenny Randerson:** Moving on from your answer to Gareth Jones, the other element of the announcement, on which we spent very little time last week, was the potential for plans to create a Valleys metro system by electrifying part of the Valleys lines. That is of huge importance for the people who live in that area in terms of the connectivity of Wales to London. What plans has the Government made, and what preparations is it making, in order to ensure that, when a new Assembly Government takes up its role after the election, it is able to hit the ground running in relation to the proposals that the UK Government has put forward, and that it is able to take advantage of that offer to work up a business case?

**Jenny Randerson:** Gan symud ymlaen o'ch ateb i Gareth Jones, elfen arall o'r cyhoeddiad, y gwnaethom dreulio ychydig iawn o amser yn ei drafod yr wythnos diwethaf, oedd y potensial ar gyfer cynlluniau i greu system metro yn y Cymoedd drwy drydanu rhan o reilffyrdd y Cymoedd. Mae hynny'n bwysig dros ben i'r bobl sy'n byw yn yr ardal honno o ran cysylltedd Cymru â Llundain. Pa gynlluniau y mae'r Llywodraeth wedi eu gwneud, a pha baratoadau y mae'n eu gwneud, i sicrhau, pan fydd Llywodraeth newydd y Cynulliad yn ymgymryd â'i rôl ar ôl yr etholiad, y gall fwrw ymlaen ar unwaith mewn perthynas â'r cynigion y mae Llywodraeth y DU wedi'u cyflwyno, a'i bod yn gallu manteisio ar y cynnig i lunio achos busnes?

**The First Minister:** The business case is not worked up by us; it is worked up by the UK Government. We have said clearly that the electrification of the Cardiff Valleys lines is

**Y Prif Weinidog:** Nid ni sy'n llunio'r achos busnes; Llywodraeth y DU sy'n ei lunio. Rydym wedi dweud yn glir bod trydaneiddio rheilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd yn bwysig

of great importance, and it is a priority for control period 5, between 2014 and 2018. We are making a case to Network Rail, the Office of Rail Regulation and the UK Government for the UK Government to fund it, because the funding of it is the responsibility of the UK Government and not of the Welsh Government.

iawn, a'i fod yn flaenoriaeth ar gyfer cyfnod rheoli 5, rhwng 2014 a 2018. Rydym yn gwneud achos i Network Rail, y Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd a Llywodraeth y DU i Lywodraeth y DU dalu amdano, oherwydd Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ei ariannu, ac nid Llywodraeth Cymru.

**Andrew Davies:** First Minister, the people of Swansea are very angry indeed about the decision by the Conservative-Liberal Democrat Government to, in effect, cancel the commitment that was made by the Labour Government in July 2009 to electrify the whole of the south Wales line through to Swansea. The frequent editorials in my local paper represent the strong views of the people whom I represent and who are represented by my colleagues, Val Lloyd and Edwina Hart. Will you join me in condemning the UK Government's decision? To what extent do you and the Deputy First Minister remain committed to extending the electrification to Swansea, bearing in mind that doing it at a subsequent date is much more expensive than doing it at the same time as it is rolled out to Cardiff?

**Andrew Davies:** Brif Weinidog, mae pobl Abertawe yn ddig iawn ynghylch y penderfyniad gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydoli ganslo, i bob pwrpas, yr ymrwymiad a wnaed gan y Llywodraeth Lafur ym mis Gorffennaf 2009 i drydaneiddio rheilffordd y de i gyd hyd at Abertawe. Mae'r erthyglau golygyddol rheolaidd yn fy mhapur lleol yn cynrychioli barn gref y bobl yr wyf yn eu cynrychioli ac sy'n cael eu cynrychioli gan fy nghydweithwyr, Val Lloyd ac Edwina Hart. A wnewch chi ymuno â mi i gondemnio penderfyniad Llywodraeth y DU? I ba raddau rydych chi a'r Dirprwy Brif Weinidog yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymestyn y gwaith trydaneiddio i Abertawe, gan gofio y bydd gwneud hynny'n ddiweddarach yn llawer drutach na gwneud hynny yr un pryd ag y caiff ei gyflwyno i Gaerdydd?

**The First Minister:** It is widely believed that the south Wales main line runs from London Paddington to Swansea—that is the route that is taken by the vast majority of the First Great Western trains. The difficulty with the UK Government's announcement is that it seems to indicate that the main line ends at Cardiff, and that anything west of Cardiff is not part of the inter-city network. Unless the situation is rectified soon, my fear is that that will become ingrained in the thinking of rail authorities and that they will start to think that investment needs to be made between London and Cardiff, but anything further west can be downgraded. That would be of tremendous economic disadvantage to all the communities that sit west of our capital city.

**Y Prif Weinidog:** Mae llawer yn credu bod prif reilffordd y de yn rhedeg o Lundain Paddington i Abertawe—dyna'r llwybr a gymerir gan y mwyafrif helaeth o drenau First Great Western. Yr anhawster gyda chyhoeddiad Llywodraeth y DU yw bod hynny fel pe bai'n awgrymu bod y brif linell yn dod i ben yng Nghaerdydd, ac nad yw unrhyw beth i'r gorllewin o Gaerdydd yn rhan o'r rhwydwaith rhwng y dinasoedd. Oni bai bod y sefyllfa'n cael ei datrys yn fuan, rwy'n ofni y bydd hynny'n dod yn rhan gynhenid o feddylfryd awdurdodau rheilffordd ac y byddant yn dechrau meddwl bod angen buddsoddi rhwng Llundain a Chaerdydd, ond y gellir israddio unrhyw beth ymhellach i'r gorllewin. Byddai hynny'n rhoi anfantais economaidd aruthrol i'r holl gymunedau sydd i'r gorllewin o'n prifddinas.

**William Graham:** Putting aside the encouraging news that the Conservative-led Government at Westminster has delivered on its pledge of electrification between London and Cardiff, thereby making journey times to

**William Graham:** Gan roi o'r neilltu y newyddion calonogol bod y Llywodraeth o dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan wedi gwireddu ei addewid i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Llundain a Chaerdydd, a

Swansea quicker, too, and the news today that all the railway lines in Wales will be devolved to become a single entity, it is clear that the M4 remains the principal transport artery between south Wales and London. Yesterday, a two-car collision between junctions 24 and 25 made for yet another 8-mile tailback, and caused enormous congestion in Newport. How satisfied are you, First Minister, that the proposed eastern distributor road, which would link to the southern distributor road, will be able to cope with the increased amount of traffic and alleviate the traffic jams that have been such an unwelcome hallmark of life in Newport for motorists and residents for some years?

thrwy hynny wneud yr amser teithio i Abertawe yn gynt hefyd, a'r newyddion heddiw y bydd yr holl linellau rheilffyrdd yng Nghymru yn cael eu datganoli i fod yn un endid, mae'n amlwg mai'r M4 yw'r brif ffordd o deithio rhwng y de a Llundain o hyd. Ddoe, roedd gwrthdrawiad rhwng dau gerbyd rhwng cyffyrdd 24 a 25 a achosodd dagfa arall o 8 milltir, a thagfeydd enfawr yng Nghasnewydd. Pa mor fodlon ydych chi, Brif Weinidog, fod y ffordd ddosbarthu ddwyreiniol arfaethedig, a fyddai'n cysylltu â'r ffordd ddosbarthu ddeheuol, yn gallu ymdopi â'r traffig sy'n cynyddu a lliniaru'r tagfeydd traffig a fu'n gymaint o nodwedd annymunol o fywyd yng Nghasnewydd i fodurwyr a phreswylwyr ers rhai blynyddoedd?

**The First Minister:** We note that the Conservative-led Government, as you put it, failed to keep the promise that was made by the previous Labour Government. That has been felt by the people of Bridgend, Port Talbot, Neath, Swansea and all communities west of Cardiff. Of course, we are looking at ways of alleviating problems on the M4, and we are confident in our predictions that the distributor roads will be able to deal with any serious accidents on the M4.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn nodi bod y Llywodraeth o dan arweiniad y Ceidwadwyr, fel y gwnaethoch gyfeirio ati, wedi methu â chadw'r addewid a wnaed gan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Mae pobl Pen-y-bont ar Ogwr, Port Talbot, Castell-nedd, Abertawe a phob cymuned i'r gorllewin o Gaerdydd wedi teimlo hynny. Wrth gwrs, rydym yn edrych ar ffyrdd o liniaru problemau ar yr M4, ac rydym yn hyderus yn ein rhagfynegiadau y bydd y ffyrdd dosbarthu yn gallu delio ag unrhyw ddamweiniau difrifol ar yr M4.

**Rhodri Morgan:** One coalition Secretary of State, Philip Hammond, made an announcement at a recent party political conference in Cardiff, reconfirming Andrew Adonis's decision to electrify the south Wales main line, but—[*Interruption*.]

**Rhodri Morgan:** Gwnaeth un o Ysgrifenyddion Gwladol y glymblaid, Philip Hammond, gyhoeddiad mewn cynhadledd plaid wleidyddol yng Nghaerdydd yn ddiweddar, yn ategu penderfyniad Andrew Adonis i drydaneiddio prif linell reilffordd y de, ond—[*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. I want to hear Rhodri Morgan's question.

**Y Llywydd:** Trefn. Hoffwn glywed cwestiwn Rhodri Morgan.

**Rhodri Morgan:** Phillip Hammond's announcement reconfirmed Andrew Adonis's previous decision to electrify the south Wales main line and to choose the Hitachi diesel-electric hybrid technology, but it sheared off the Cardiff-Swansea leg of the line from the electrification process. When he made this announcement, he attempted to sugar the pill by throwing in a rather mysterious and vaguely worded pseudo-commitment to electrify about two thirds of the Valleys and Vale commuter lines running into Cardiff. I

**Rhodri Morgan:** Roedd cyhoeddiad Phillip Hammond yn ategu penderfyniad blaenorol Andrew Adonis i drydaneiddio prif reilffordd y de, ac i ddewis technoleg hybrid diesel-trydan Hitachi, ond gwnaeth dorri rhan Caerdydd i Abertawe o'r llinell o'r broses drydaneiddio. Pan wnaeth y cyhoeddiad hwn, ceisiodd esmwytho'r sefyllfa drwy gynnwys ryw ffug ymrwymiad eithaf dirgel wedi'i eirio'n amwys i drydaneiddio tua dwy ran o dair o linellau cymudwyr y Cymoedd a'r Fro sy'n rhedeg i Gaerdydd. Rwyf wedi bod yn

have been trying to find out exactly what this pseudo-commitment—this non-commitment and unfunded commitment—means. Is it a commitment, in some way, to direct Network Rail to put in the electric infrastructure, or is it a commitment to permit Network Rail to borrow? I am finding it very difficult to find out what he meant. Has the First Minister been able to find out what this means, and could he tell the Assembly what on earth Philip Hammond meant to do, other than accept the spin-doctors’ instructions to sugar the pill because he was chopping off the line to Swansea?

ceisio canfod beth yn union yw ystyr y ffug ymrwymiad hwn—yr hyn nad yw’n ymrwymiad neu’r ymrwymiad heb ei ariannu. A yw’n ymrwymiad, mewn rhyw ffordd, i gyfarwyddo Network Rail i osod y seilwaith trydan, neu a yw’n ymrwymiad i ganiatáu i Network Rail fenthyg? Rwy’n ei chael hi’n anodd iawn gwybod beth yr oedd yn ei olygu. A yw’r Prif Weinidog wedi gallu canfod beth mae hyn yn ei olygu, ac a allai ddweud wrth y Cynulliad beth ar y ddaear yr oedd Philip Hammond i fod i’w wneud, ar wahân i dderbyn cyfarwyddiadau’r dewiniaid delwedd i esmwytho’r sefyllfa gan ei fod yn torri’r llinell i Abertawe?

**The First Minister:** What he said, Rhodri, was that he recognised that there was a good business case to electrify the key Valleys commuter lines. That is not the same as saying that they will be electrified. That is the key to what he said. In fact, there has been no commitment to electrify the Valleys lines—certainly not all of them, since the Cardiff-Maesteg line and the Cardiff-Ebbw Vale line are Valleys lines as well, but they seem to have been left out of the specified network. The Vale of Glamorgan line is arguably part of the Cardiff Valleys network as well, because trains run along that line from further north. What Philip Hammond gave is a kind of half-commitment, I suppose. We will work to try to ensure that the UK Government turns its recognition of a good business case into a firm commitment to electrify. So far, that has not happened.

**Y Prif Weinidog:** Yr hyn a ddywedodd, Rhodri, oedd ei fod yn cydnabod bod achos busnes da dros drydaneiddio llinellau rheilffyrdd cymudo allweddol y Cymoedd. Nid yw hynny’r un fath â dweud y byddant yn cael eu trydaneiddio. Dyna’r peth allweddol i’r hyn a ddywedodd. Mewn gwirionedd, ni fu unrhyw ymrwymiad i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd—yn sicr nid pob un ohonynt, gan fod y llinell rhwng Caerdydd a Maesteg a’r llinell rhwng Caerdydd a Glynebwy yn rhan o reilffyrdd y Cymoedd hefyd, ond ymddengys eu bod wedi cael eu hepgor o’r rhwydwaith penodedig. Gellid dadlau bod llinell Bro Morgannwg yn rhan o rwydwaith Cymoedd Caerdydd hefyd, gan fod trenau yn rhedeg ar hyd y llinell honno o ymhellach i’r gogledd. Yr hyn a roddodd Philip Hammond oedd rhyw fath o hanner ymrwymiad, am wn i. Byddwn yn gweithio i geisio sicrhau bod Llywodraeth y DU yn troi ei chydnabyddiaeth o achos busnes da yn ymrwymiad pendant i drydaneiddio. Hyd yn hyn, nid yw hynny wedi digwydd.

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, is it not the truth that the Labour Government in Westminster had 13 years to electrify the railway line between London and Swansea and that the coalition Government has failed Wales miserably? Is it not the fact that the British parties—Labour, Conservative, Lib Dem, whatever—have failed Wales miserably?

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, onid yw’n wir bod y Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi cael 13 mlynedd i drydaneiddio’r rheilffordd rhwng Llundain ac Abertawe a bod y Llywodraeth glymblaid wedi esgeuluso Cymru yn druenus? Onid y ffaith yw bod y pleidiau Prydeinig—Llafur, y Ceidwadwyr, y Democratiaid Rhyddfrydol, pwy bynnag—wedi esgeuluso Cymru yn druenus?

**The First Minister:** It would be a very difficult for any party that only has a base in

**Y Prif Weinidog:** Byddai’n anodd iawn i unrhyw blaid sydd ond â phencadlys yng

Wales to make a commitment to electrify a railway line that goes beyond the Severn tunnel, I suspect. It requires cooperation on both sides of the border to ensure that the railway line is electrified. You are quite right to point out that there was a commitment by the Labour Government to electrify the line as far as Swansea. That commitment has been ditched by the present UK Government.

Nghymru i wneud ymrwymiad i drydaneiddio llinell reilffordd sy'n mynd y tu hwnt i'r twnnel Hafren, am wn i. Mae'n gofyn am gydweithio ar ddwy ochr y ffin er mwyn sicrhau bod y rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio. Rydych yn llygad eich lle i dynnu sylw at y ffaith bod ymrwymiad gan y Llywodraeth Lafur i drydaneiddio'r rheilffordd cyn belled ag Abertawe. Mae Llywodraeth bresennol y DU wedi cefnu ar yr ymrwymiad hwnnw.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, like me, I am sure that you welcome any plans to electrify the Valleys lines. That has to be a good thing. However, do you share in my bewilderment that one reason for not electrifying the line from Cardiff to Swansea was that it was—in Jenny Randerson's words—'too bendy'? I think that 'steep curvature of the lines' is a better phrase. That line is nowhere near as 'bendy' as the Valleys lines, yet the Valleys lines are there as a carrot but the Cardiff-Swansea line has been withdrawn from the electrification.

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, fel fi, rwy'n siŵr eich bod yn croesawu unrhyw gynlluniau i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Mae'n rhaid bod hynny'n beth da. Fodd bynnag, a ydych yn rhannu fy nryswch mai un rheswm dros beidio â thrydaneiddio'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe oedd ei fod—yng ngeiriau Jenny Randerson—'yn rhy droellog'? Credaf fod 'crymedd serth y llinellau' yn well ymadrodd. Nid yw'r llinell honno yn agos at fod mor 'droellog' â llinellau'r Cymoedd, ac eto mae rheilffyrdd y Cymoedd yno fel cymhelliad ond mae'r llinell rhwng Caerdydd ac Abertawe wedi cael ei thynnu yn ôl o gael ei thrydaneiddio.

**The First Minister:** The Valleys lines are not even there as a carrot, as there has been no firm commitment to electrify them. It is quite obvious that the UK Government has reluctantly decided to electrify the line to Cardiff—you can bet your bottom dollar that it was looking at electrifying to Bristol to begin with. It decided, through shame, to electrify the line as far as to Cardiff. Unfortunately, however, it has not pursued what we thought was a sound business case to electrify the line to Swansea. That shows the level of commitment to Wales exhibited by the parties opposite.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw rheilffyrdd y Cymoedd hyd yn oed yno fel cymhelliad, gan nad oes unrhyw ymrwymiad cadarn wedi cael ei wneud i'w trydaneiddio. Mae'n eithaf amlwg bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu'n anfoddog i drydaneiddio'r rheilffordd i Gaerdydd—gallwch fentro'ch dimai olaf ei bod yn edrych ar drydaneiddio i Fryste i ddechrau. Penderfynodd, drwy gywilydd, i drydaneiddio'r rheilffordd cyn belled â Chaerdydd. Yn anffodus, fodd bynnag, nid yw wedi mynd ar drywydd yr hyn a oedd, yn ein barn ni, yn achos busnes cadarn i drydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe. Mae hynny'n dangos faint o ymrwymiad i Gymru a ddangosir gan y pleidiau gyferbyn.

### Tlodi Plant

### Child Poverty

***8. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn helpu i ddileu tlodi plant. OAQ(3)3466(FM)*

***8. Mark Isherwood:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies to help eradicate child poverty. OAQ(3)3466(FM)*

**The First Minister:** Our child poverty strategy was launched on 3 February, and it

**Y Prif Weinidog:** Cafodd ein strategaeth tlodi plant ei lansio ar 3 Chwefror, ac mae'n

reaffirmed our commitment to eradicate child poverty by 2020.

cadarnhau ein hymrwymiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

2.10 p.m.

**Mark Isherwood:** Yesterday, the latest newsletter from Funky Dragon was circulated among Members. Its lead item stated that a report published today by Save the Children notes that Wales has one of the worst rates of child poverty in the industrialised world. More than 200,000 children—at least one in three—are living in poverty and almost one in seven are living in severe poverty. It goes on to ask why Wales has reached this position. The Joseph Rowntree Foundation confirmed that child poverty levels were rising for three years before the recession. There were nine pre-recession years of boom and growth in devolved Wales, the devolved budget doubled and we had billions in European funding that was supposed to close the wealth gap. Can you tell Funky Dragon why Wales has reached this position?

**Mark Isherwood:** Ddoe, cafodd cylchlythyr diweddaraf y Ddraig Ffynci ei ddosbarthu ymhlith yr Aelodau. Roedd y brif eitem yn datgan bod adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Achub y Plant yn nodi bod gan Gymru un o'r cyfraddau gwaethaf o dlodi plant yn y byd diwydiannol. Mae mwy na 200,000 o blant—o leiaf un o bob tri—yn byw mewn tlodi ac mae bron i un o bob saith yn byw mewn tlodi difrifol. Mae'n mynd ymlaen i ofyn pam mae Cymru wedi cyrraedd y sefyllfa hon. Cadarnhaodd Sefydliad Joseph Rowntree y bu lefelau tlodi plant yn codi am dair blynedd cyn y dirwasgiad. Roedd naw mlynedd o ffyniant a thwf cyn y dirwasgiad yng Nghymru wedi datganoli, gwnaeth y gyllideb ddatganoledig ddyblu ac roedd gennym biliynau mewn cyllid Ewropeaidd a oedd i fod i gau'r bwlch cyfoeth. A allwch chi ddweud wrth y Ddraig Ffynci pam mae Cymru wedi cyrraedd y sefyllfa hon?

**The First Minister:** You conceded that, until 2008, the situation was improving. We all know that in 2008 we saw the beginnings of a deep recession. It began in August 2007 and went through to 2008, so we should not be surprised—disappointed, perhaps, but not surprised—to see poverty levels rising. The difference between us on this side of the Chamber and the parties on the opposite side of the Chamber is that we are trying to make things better and not to make things worse, which is exactly what the UK Government is trying to do.

**Y Prif Weinidog:** Rydych yn cydnabod, tan 2008, fod y sefyllfa'n gwella. Rydym i gyd yn gwybod ein bod wedi gweld dechrau dirwasgiad dwfn yn 2008. Dechreuodd ym mis Awst 2007 a pharhaodd hyd at 2008, felly ni ddylem synnu—dylem fod yn siomedig, efallai, ond nid wedi ein synnu—bod lefelau tlodi yn codi. Y gwahaniaeth rhyngom ni ar yr ochr hon o'r Siambr a'r pleidiau ar ochr arall y Siambr yw ein bod ni'n ceisio gwneud pethau'n well a pheidio â gwneud pethau'n waeth, sef yr union beth y mae Llywodraeth y DU yn ceisio ei wneud.

**Bethan Jenkins:** Will the First Minister make a statement on how Westminster cuts have impacted on Welsh Government policies to help eradicate child poverty?

**Bethan Jenkins:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae toriadau San Steffan wedi effeithio ar bolisïau Llywodraeth Cymru i helpu i ddileu tlodi plant?

**The First Minister:** As we know, Bethan, our revenue budget has been cut by 7.5 per cent and the capital budget has been cut by 40 per cent. That will have an inevitable impact on our ability to deliver services to the level that we would want. Added to that is the destruction being wrought on the benefit system. We will have a mighty job on our hands to shield Wales from what is being

**Y Prif Weinidog:** Fel y gwyddom, Bethan, mae ein cyllideb refeniw wedi cael ei thorri 7.5 y cant ac mae'r gyllideb gyfalaf wedi cael ei thorri 40 y cant. Bydd hynny'n cael effaith anochel ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau i'r lefel y byddem yn ei ddymuno. Yn ychwanegol at hynny, mae'r ffaith bod y system fudd-daliadau yn cael ei dinistrio. Bydd gennym lawer iawn o waith i'w wneud

forced upon it by the UK Government.

i amddiffyn Cymru rhag yr hyn sy'n cael ei orfodir arni gan Lywodraeth y DU.

**Economi Cymru**

**The Welsh Economy**

***9. David Melding***: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwr economi Cymru. OAQ(3)3481(FM)*

***9. David Melding:*** *Will the First Minister make a statement on the state of the Welsh economy. OAQ(3)3481(FM)*

**The First Minister:** The latest data from the labour market and the most recent figures for UK GDP show that the economy remains fragile. Now is not the time to take risks with the recovery.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r data diweddaraf gan y farchnad lafur a'r ffigurau diweddaraf ar gyfer CMC y DU yn dangos bod yr economi yn parhau i fod yn fregus. Nid yn awr yw'r amser i gymryd risgiau gyda'r adferiad.

**David Melding:** We know that the majority of new jobs are created by new and growing companies and that many of these companies—probably the majority—start as small businesses. Do you agree with the Welsh Conservatives that the best thing that we can do for enterprise in many communities across Wales is to abolish business rates for small businesses?

**David Melding:** Gwyddom fod y rhan fwyaf o swyddi newydd yn cael eu creu gan gwmnïau newydd a chwmnïau sy'n tyfu a bod nifer o'r cwmnïau hyn—y rhan fwyaf mae'n siŵr—yn cychwyn fel busnesau bach. A ydych yn cytuno â'r Ceidwadwyr Cymreig mai'r peth gorau y gallwn ei wneud ar gyfer menter mewn llawer o gymunedau ledled Cymru yw dileu ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach?

**The First Minister:** You cannot make these kinds of commitments without explaining how you will pay for them. What we have seen from the party opposite is a level of profligacy that has rarely been seen in politics before. They keep on plucking figures from thin air, they refuse to say where they would make cuts, and, on the rare occasion that they do, they often underestimate them. Be honest with the people of Wales and tell them how you would pay for all of these things. I am sure that other parties on this side of the Chamber will be doing that.

**Y Prif Weinidog:** Ni allwch wneud y mathau hyn o ymrwymiadau heb egluro sut y byddwch yn talu amdanynt. Yr hyn yr ydym wedi'i weld gan y blaid gyferbyn yw lefel o afradlonedd na welwyd yn aml mewn gwleidyddiaeth o'r blaen. Maent yn defnyddio ffigurau o bwy a ŵyr ble, maent yn gwrthod dweud lle y byddent yn gwneud toriadau, ac, ar yr achlysur prin y maent yn gwneud hynny, maent yn aml yn amcangyfrif yn rhy isel. Byddwch yn onest gyda phobl Cymru a dweud wrthynt sut y byddech yn talu am yr holl bethau hyn. Rwy'n siŵr y bydd y pleidiau eraill ar ochr hon y Siambr yn gwneud hynny.

**Chris Franks:** Will you give a progress report on your discussions with Ministers in Westminster regarding fair funding for our nation? While I welcome the consensus in the Chamber on a fair funding formula for Wales, it is disappointing that there was little progress from 1999 to 2007 regarding reforming funding. Previous Welsh and Westminster Governments have not made this a priority. Do you agree that a building block to creating a better Welsh economy is fair funding for Wales? For a better Wales,

**Chris Franks:** A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran eich trafodaethau â Gweinidogion yn San Steffan ynghylch sicrhau cyllid teg ar gyfer ein cenedl? Er fy mod yn croesawu'r consensws yn y Siambr ar fformiwla ariannu teg i Gymru, mae'n siomedig nad oedd llawer o gynnydd rhwng 1999 a 2007 ynghylch diwygio'r ffordd o'i hariannu. Nid yw Llywodraethau Cymru a San Steffan wedi gwneud hyn yn flaenoriaeth. A ydych yn cytuno mai un o gonglfeini creu economi

we need a Welsh Government that puts forward an ambitious programme to tackle jobs and funding inequality and to get the basics right for Welsh education.

gwell i Gymru yw sicrhau cyllid teg i Gymru? I gael Cymru well, mae arnom angen Llywodraeth yng Nghymru sy'n cyflwyno rhaglen uchelgeisiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran swyddi a chyllid ac i gael y pethau sylfaenol yn iawn o ran addysg yng Nghymru.

**The First Minister:** I welcome your support for the present Welsh Government, which I noted. When it comes to the Barnett formula, the situation was not as acute 10 or more years ago as it is now. As we have seen the Barnett squeeze take full effect, we know that spending per head in Wales has dropped in comparison with that in England. We know that the further we get away from the time when the Barnett formula was originally drafted, the situation becomes even more acute. I recognise that all parties in the Chamber are at one when it comes to calling for the implementation of part 1 of the Holtham commission report. Discussions continue with officials in the Treasury, and at a political level, with a view to seeing how that can be taken forward.

**Y Prif Weinidog:** Croesawaf eich cefnogaeth i Lywodraeth bresennol Cymru, a nodais. Wrth drafod fformiwla Barnett, nid oedd y sefyllfa mor ddifrifol 10 neu fwy o flynyddoedd yn ôl ag y mae nawr. Gan ein bod wedi gweld y wasgfa Barnett yn cael effaith lawn, rydym yn gwybod bod gwariant y pen yng Nghymru wedi gostwng o gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. Rydym yn gwybod po fwyaf yw'r bwlch ers yr adeg pan gafodd fformiwla Barnett ei drafftio'n wreiddiol, po fwyaf difrifol y daw'r sefyllfa. Rwy'n cydnabod bod pob plaid yn y Siambr yn gytûn o ran galw am weithredu rhan 1 o adroddiad comisiwn Holtham. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda swyddogion yn y Trysorlys, ac ar lefel wleidyddol, gyda'r bwriad o weld sut y gellir datblygu hynny.

**Mick Bates:** I want to examine an aspect of the job market that is directly under your control, namely Government jobs in Montgomeryshire. When you came to office, there were 184 Government jobs in Montgomeryshire. After four years, that has been reduced to 84. Do you not agree that this shows a deplorable lack of commitment to jobs that you control in east Wales, where, like everywhere else, the economy is under threat from many different places?

**Mick Bates:** Hoffwn drafod agwedd ar y farchnad swyddi sydd o dan eich rheolaeth uniongyrchol chi, sef swyddi'r Llywodraeth yn sir Drefaldwyn. Pan wnaethoch ymgymryd â'r swydd, roedd 184 o swyddi'r Llywodraeth yn sir Drefaldwyn. Ar ôl pedair blynedd, mae hynny wedi gostwng i 84. Onid ydych yn cytuno bod hyn yn dangos diffyg ymrwymiad truenus i swyddi yr ydych yn eu rheoli yn y dwyrain, lle, fel ym mhob man arall, mae'r economi o dan fygythiad o sawl cyfeiriad gwahanol?

**The First Minister:** You have to remember that some jobs have moved to the new offices in Aberystwyth. There are also 150 jobs in Llandrindod—I know that it is not in Montgomeryshire, but in Radnorshire. However, we have shown a commitment to ensuring that we have sufficient jobs around Wales. That is why we opened the Aberystwyth office, that is why we have the Llandudno Junction office, and that is why we continue, when it comes to looking at Powys as a whole, to have the Llandrindod Wells office, which performs so well for Welsh farmers.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhaid ichi gofio bod rhai swyddi wedi symud i swyddfeydd newydd yn Aberystwyth. Ceir hefyd 150 o swyddi yn Llandrindod—rwy'n gwybod nad yw yn sir Drefaldwyn, ond yn sir Faesyfed. Fodd bynnag, rydym wedi dangos ymrwymiad i sicrhau bod gennym ddigon o swyddi ledled Cymru. Dyna pam y gwnaethom agor swyddfa Aberystwyth, dyna pam mae gennym swyddfa yng Nghyffordd Llandudno o hyd, a dyna pam, wrth edrych ar Bowys gyfan, mae gennym swyddfa yn Llandrindod o hyd, sy'n gweithredu mor dda i ffermwyr Cymru.

2.15 p.m.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, writing in this Sunday's *The Observer*, the economist William Keegan said that the chancellor George Osborne seems intent on making the budget deficit vanish

'Tommy Cooper-style: just like that.'

However, of course, that comes at a very severe price—the sharp increase in VAT, the thousands of job losses forecast in the public sector and a very severe cut in capital spending, which is causing enormous concern to the construction and building services industries. Do you agree, First Minister, that we will never believe that mass unemployment is a price worth paying and that we will do all we can to mitigate the worst effects of the Conservative-led Government, including making constructive use of European structural funds?

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, wrth ysgrifennu yn *The Observer* ddydd Sul, dywedodd yr economegydd William Keegan fod y canghellor George Osborne yn ymddangos yn benderfynol o wneud i'r diffyg yn y gyllideb ddiflannu

yn null Tommy Cooper, sef 'just like that.'

Fodd bynnag, wrth gwrs, daw hynny am bris uchel iawn—y cynnydd sydyn mewn TAW, y miloedd o swyddi a ragwelir fydd yn cael eu colli yn y sector cyhoeddus a gostyngiad mawr iawn mewn gwariant cyfalaf, sy'n peri pryder mawr i'r diwydiannau adeiladu a gwasanaethau adeiladu. A ydych yn cytuno, Brif Weinidog, na fyddwn byth yn credu bod diweithdra torfol yn bris sy'n werth ei dalu ac y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i liniaru effeithiau gwaethaf y Llywodraeth o dan arweiniad y Ceidwadwyr, gan gynnwys gwneud defnydd adeiladol o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd?

**The First Minister:** Thank you, Jeff. There are many of us on this side of the Chamber who hoped that the days when it would be said that unemployment was a price worth paying to deliver an ideological change were gone, but now we see that those days have returned.

**Y Prif Weinidog:** Diolch, Jeff. Roedd llawer ohonom ar yr ochr hon o'r Siambr wedi gobeithio bod y dyddiau pan ddywedwyd bod diweithdra yn bris gwerth ei dalu er mwyn cyflwyno newid ideolegol wedi mynd, ond bellach gwelwn fod y dyddiau hynny wedi dod yn ôl.

### Gwasanaethau Cyhoeddus

***10. Nick Ramsay**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. OAQ(3)3464(FM)*

### Public Services

***10. Nick Ramsay:** Will the First Minister outline how the Welsh Assembly Government is improving public services in Wales. OAQ(3)3464(FM)*

**The First Minister:** Thank you, Nick. Through the efficiency and innovation programme and the local service boards, we work with our partners to ensure that ambitious good practice is transferred.

**Y Prif Weinidog:** Diolch, Nick. Drwy'r rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi a'r byrddau gwasanaeth lleol, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod arferion da uchelgeisiol yn cael eu trosglwyddo.

**Nick Ramsay:** Thank you for that answer, First Minister. I wish to take you back to the comments of the older people's commissioner at the weekend that care of some elderly patients in Wales is shamefully inadequate. As you know, she has called for fundamental change. Since then, the public

**Nick Ramsay:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Hoffwn fynd â chi'n ôl at sylwadau'r comisiynydd pobl hŷn dros y penwythnos a ddywedodd fod gofal rhai cleifion oedrannus yng Nghymru yn warthus o annigonol. Fel y gwyddoch, mae hi wedi galw am newid sylfaenol. Ers hynny, mae'r

services ombudsman, Peter Tyndall, has said that elderly patients are being failed by a culture of neglect within Welsh hospitals. I do not think it is enough, First Minister, for your Government simply to say that these comments show how successful these commissioners have been in exposing these issues. When you will stop praising the commissioners for all the hard work they have done in these areas in exposing these failings and get on with the job of putting them right and developing the sort of fundamental change that the people of Wales and the respective commissioners now believe is necessary in Wales?

ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus, Peter Tyndall, wedi dweud bod cleifion oedrannus yn cael eu hesgeuluso yn ysbytai Cymru. Nid wyf yn credu ei fod yn ddigon, Brif Weinidog, i'ch Llywodraeth ddweud yn syml bod y sylwadau hyn yn dangos pa mor llwyddiannus y bu'r comisiynwyr hyn yn amlygu'r materion hyn. Pryd fyddwch yn rhoi'r gorau i ganmol y comisiynwyr am yr holl waith caled y maent wedi'i wneud yn y meysydd hyn yn amlygu'r methiannau hyn a bwrw ymlaen â'r gwaith o'u hunioni a datblygu'r math o newid sylfaenol y mae pobl Cymru a'r comisiynwyr priodol yn credu sydd eu hangen yn awr yng Nghymru?

**The First Minister:** As I mentioned earlier, we will consider the report and respond properly in due course. However, the one thing we will not do with public services is hive them all off, which is what you would do as a party. We will not leave vulnerable people at the mercy of the market, as Eric Pickles is trying to do at the moment. We will not leave those people who need care assessments, those young children who need to be protected, in a position where they cannot have those assessments and do not have that protection, as is being proposed by your party in London. Is that relevant to Wales? In one way, no. On the other hand, we know that what we see from your party in power is something that you would dearly love to do in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Fel y soniais yn gynharach, byddwn yn ystyried yr adroddiad ac yn ymateb yn briodol maes o law. Fodd bynnag, un peth na fyddwn yn ei wneud gyda gwasanaethau cyhoeddus yw cael gwared arnynt i gyd, sef yr hyn y byddech chi'n ei wneud fel plaid. Ni fyddwn yn gadael pobl sy'n agored i niwed i fod ar drugaredd y farchnad, fel y mae Eric Pickles yn ceisio ei wneud ar hyn o bryd. Ni fyddwn yn gadael y bobl hynny y mae angen asesiadau gofal arnynt—y plant ifanc hynny y mae angen eu diogelu—mewn sefyllfa lle na allant gael yr asesiadau hynny a lle nad oes ganddynt y diogelwch hwnnw, fel sy'n cael ei gynnig gan eich plaid chi yn Llundain. A yw hynny'n berthnasol i Gymru? Mewn un ffordd, nac ydyw. Ar y llaw arall, rydym yn gwybod bod yr hyn a welwn gan eich plaid mewn grym yn rhywbeth y byddech yn wirioneddol fwynhau ei wneud yng Nghymru.

**Lynne Neagle:** First Minister, yesterday's report certainly made disturbing reading, and I am sure that we all agree that it is unacceptable that older people are still not being treated with the dignity and respect they deserve during their stays in hospital. I am sure that the issues raised in the report are familiar to many of us who have taken up similar cases on behalf of constituents. Of course, this problem is not unique to Wales. Indeed, recent reports suggest that the NHS in England is facing many of the same challenges, although it does not have the checks and safeguards that we have in place here in Wales because of the Assembly. However, it seems that most of the

**Lynne Neagle:** Brif Weinidog, roedd adroddiad ddoe yn sicr yn annifyr i'w ddarllen, ac rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno ei bod yn annerbyniol nad yw pobl hŷn yn dal i gael eu trin gyda'r urddas a'r parch y maent yn ei haeddu yn ystod eu cyfnodau yn yr ysbyty. Rwy'n siŵr bod y materion a godwyd yn yr adroddiad yn gyfarwydd i lawer ohonom sydd wedi ymgymryd ag achosion tebyg ar ran ein hetholwyr. Wrth gwrs, nid yw'r broblem hon yn unigryw i Gymru. Yn wir, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod y GIG yn Lloegr yn wynebu nifer o'r un heriau, er nad oedd ganddo'r profion a'r mesurau diogelwch sydd gennym ar waith yma yng

recommendations in the report do not require additional resources to implement and could be acted on urgently by local health managers and the Assembly Government. Do you agree that we should use this report as an opportunity for change and draw a line in the sand about the way we expect older people to be treated in Welsh hospitals?

Nghymru o ganlyniad i fodolaeth y Cynulliad. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad yn gofyn am adnoddau ychwanegol i'w gweithredu ac y gallai rheolwyr iechyd lleol a Llywodraeth y Cynulliad weithredu arnynt ar fyrder. A ydych yn cytuno y dylem ddefnyddio'r adroddiad hwn fel cyfle i newid a dechrau o'r newydd o ran y ffordd rydym yn disgwyl i bobl hŷn gael eu trin yn ysbytai Cymru?

**The First Minister:** Indeed. First, we should make the point that it is not the case that all older people are treated in this way. Some difficulties have been identified, and we must take steps to ensure that those situations are dealt with. However, we welcome the fact that we have the report before us, and we know that we will need to respond accordingly and fully to the report.

**Y Prif Weinidog:** Yn wir. Yn gyntaf, dylem nodi nad yw'n wir fod pob person hŷn yn cael ei drin fel hyn. Mae rhai anawsterau wedi eu nodi, a rhaid inni gymryd camau i sicrhau yr ymdrinnir â'r sefyllfaoedd hynny. Fodd bynnag, croesawn y ffaith bod gennym yr adroddiad ger ein bron, a gwyddom y bydd angen inni ymateb yn llawn iddo.

**Eleanor Burnham:** I am really pleased that you are trying to focus on Wales, having tried to delay and throw smoke in our eyes by talking about what is going on in England. Do you not feel ashamed—

**Eleanor Burnham:** Rwy'n falch iawn eich bod yn ceisio canolbwyntio ar Gymru, ar ôl ceisio oedi a thaflu mwg i'n llygaid drwy siarad am yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Onid ydych yn teimlo cywilydd—

**Alun Davies:** How do you throw smoke?

**Alun Davies:** Sut ydych chi'n taflu mwg?

**Eleanor Burnham:** Excuse me?

**Eleanor Burnham:** Esgusodwch fi?

Do you not feel ashamed, First Minister, that the ombudsman, following on from the comments of the older people's commissioner, discussed the fact that he has many cases, which have been ongoing for some years in certain hospitals, that he believes are possibly intractable? What on earth is going on, and how will you deal with this general issue of attitude—it is not an equality issue—that seems to exist in so many of our hospitals and, perhaps, in our care sector?

Onid ydych yn teimlo cywilydd, Brif Weinidog, bod yr ombwdsmon, yn dilyn sylwadau'r comisiynydd pobl hŷn, wedi trafod y ffaith bod ganddo lawer o achosion, a fu'n mynd rhagddynt ers rhai blynyddoedd mewn ysbytai penodol, y mae'n credu na ellir ymdrin â hwy, o bosibl? Beth ar y ddaear sy'n digwydd, a sut y byddwch yn ymdrin â'r mater cyffredinol mewn perthynas ag agwedd—nid yw'n fater cydraddoldeb—sy'n ymddangos fel pe bai'n bodoli mewn cynifer o'n hysbytai ac, o bosibl, yn ein sector gofal?

**The First Minister:** First, I am not sure how I could throw smoke at you—

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, nid wyf yn siŵr sut y gallwn daflu mwg atoch—

**Eleanor Burnham:** By referring to England all the time.

**Eleanor Burnham:** Drwy gyfeirio at Loegr drwy'r amser.

**The First Minister:** I still do not know how I could throw smoke, but in terms of attitude, you have no evidence to justify your comment. What evidence do you have to

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf dal yn deall sut y gallwn daflu mwg ond, o ran agwedd, nid oes gennych unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau eich sylw. Pa dystiolaeth sydd gennych i

justify your comment that the general attitude of nurses to patients in Wales is somehow appalling, which is what you are suggesting? It was a complete throwaway comment and I invite you to withdraw it.

gyfiawnhau eich sylw bod agwedd gyffredinol nyrsys tuag at gleifion yng Nghymru rywsut yn ofnadwy, sef yr hyn yr ydych yn ei awgrymu? Roedd yn sylw hollol ddifeddwl ac rwy'n eich gwahodd i'w dynnu yn ôl.

**Janet Ryder:** Everyone shares concerns about the statement that was made. Whatever the setting, public or private, if the treatment of elderly people in hospital is not done to the best possible standard, it would cause everyone in the Chamber due concern. However, the question was about public services and how best we can maintain them in Wales. Would you reiterate that the only way, and the best way, to maintain public services within Wales is to maintain a public national health service and a public system of education controlled by the Government so that you can monitor standards? You can give us an assurance that you will deal with the issues that have been raised, but will you give your assurance that you will commit this Government, for the rest of its lifetime, to ensuring that the national health service stays as a national health service so that everyone has equitable access to it, regardless of how much they can afford to pay?

**Janet Ryder:** Mae pawb yn rhannu'r pryderon ynghylch y datganiad a wnaed. Beth bynnag fo'r lleoliad, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, os na chaiff pobl oedrannus mewn ysbytai eu trin i'r safon orau bosibl, byddai'n peri pryder mawr i bawb yn y Siambr. Fodd bynnag, roedd y cwestiwn am wasanaethau cyhoeddus a'r ffordd orau y gallwn eu cynnal yng Nghymru. A fyddech yn ategu mai'r unig ffordd, a'r ffordd orau, o gynnal gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw cynnal gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol a system addysg gyhoeddus a reolir gan y Llywodraeth fel y gallwch fonitro safonau? Gallwch roi sicrwydd inni y byddwch yn ymdrin â'r materion a godwyd, ond a wnewch chi roi sicrwydd y byddwch yn ymrwymo'r Llywodraeth hon, am weddill ei hoes, i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd gwladol yn aros yn wasanaeth iechyd gwladol fel bod pawb yn cael mynediad teg ato, waeth faint y gallant fforddio ei dalu?

**The First Minister:** Thank you, Janet; I can certainly give you that assurance.

**Y Prif Weinidog:** Diolch ichi, Janet; gallaf yn sicr roi'r sicrwydd hwnnw ichi.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 2.22 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 2.22 p.m.*

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I have no changes to report to this week's planned Government business. Business for the next three weeks is as set out in the business statement announcements, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Nid oes gennyf newidiadau i'w hadrodd i fusnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**Nick Bourne:** I thank the Minister for business for that statement. I have a couple of points to raise. I am sure that the Minister, and everyone in the Assembly, would wish to join me in sending sympathies and

**Nick Bourne:** Diolch i'r Gweinidog dros fusnes am y datganiad hwnnw. Mae gennyf ddau bwynt i'w codi. Rwy'n siŵr yr hoffai'r Gweinidog, a phawb yn y Cynulliad, ymuno â mi i gydymdeimlo â phobl Japan yn dilyn y

condolences to the people of Japan following the terrible destruction wrought by the earthquake and tsunami last week and in the face of the threats hanging over that nation and its communities. Naturally, there is a massive impulse to give, and people all over Wales have been giving generously.

dinistr ofnadwy a achoswyd gan y ddaeargryn a'r tswnami yr wythnos diwethaf ac yn wyneb y bygythiadau y mae'r genedl a'i chymunedau yn eu hwynebu. Yn naturiol, mae cymhelliad enfawr i roi, a bu pobl ledled Cymru yn rhoi'n hael.

Minister, will you also join me in sending best wishes to the British search and rescue team for every conceivable success in the vital and commendable work they are doing? Also, will you, or one of the ministerial team, make a statement, perhaps not now, but at a later stage, on any help that can be offered from the Welsh Government? Clearly, there needs to be a massive public effort alongside the private exercise of giving to ensure that all help is given to the people of Japan.

Weinidog, a wnewch chi hefyd ymuno â mi i ddymuno'n dda i'r tîm chwilio ac achub o Brydain am bob llwyddiant posibl yn y gwaith hanfodol a chlodwiw y mae'n ei wneud? Hefyd, a wnewch chi, neu un o'r tîm gweinidogol, ddatganiad—nid yn awr efallai, ond yn ddiweddarach—am unrhyw gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig? Yn amlwg, mae angen ymdrech gyhoeddus enfawr ochr yn ochr â'r arfer preifat o roi er mwyn sicrhau bod pob cymorth yn cael ei roi i bobl Japan.

The second issue relates to school reorganisation. I know that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning made an announcement, by press release, on 1 March, about changes he intends to bring in. I wonder whether we could have a written or oral statement on this—I do not believe we have had any—in the dying days of this Assembly. Clearly, there was a consultation process, and it would be appropriate that Members are brought up to date with what is intended in this way rather than by press release.

Mae'r ail fater yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion. Gwn fod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi gwneud cyhoeddiad, mewn datganiad i'r wasg, ar 1 Mawrth, am y newidiadau y mae'n bwriadu eu cyflwyno. Tybed a allem gael datganiad ysgrifenedig neu lafar ar hyn—nid wyf yn credu ein bod wedi cael unrhyw beth—yn nyddiau olaf y Cynulliad hwn. Yn amlwg, roedd proses ymgynghori, a byddai'n briodol bod Aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a fwriedir yn y modd hwn yn hytrach na thrwy ddatganiad i'r wasg.

**Jane Hutt:** I am very grateful that you have brought the situation in Japan to our attention, so that the whole Assembly can join you in sending our sympathies and in expressing our deep concerns, and in sending our best wishes to the British search and rescue team. I believe that the team includes some Welsh expertise, which, particularly on the part of our fire and rescue service, has always been ready and has made distinguished contributions at a time of great danger to rescue teams. Clearly, our heartfelt sympathies go to the people of Japan for their loss and in their time of bereavement. I am sure that the First Minister will respond to this in due course. We must also recognise that, as in previous times, such as the Haiti disaster, we have seen that kind of Welsh response, where people have responded fully in terms of charitable donations and support.

**Jane Hutt:** Rwy'n ddiolchgar iawn ichi am ddwyn y sefyllfa yn Japan i'n sylw, fel gall y Cynulliad cyfan ymuno â chi i gydymdeimlo a mynegi ein pryderon dwfn, a dymuno'r gorau i'r tîm chwilio ac achub o Brydain. Credaf fod y tîm yn cynnwys rhai arbenigwyr o Gymru sydd, yn benodol o ran ein gwasanaeth tân ac achub, bob amser wedi bod yn barod ac wedi gwneud cyfraniadau nodedig ar adeg o berygl mawr i dimau achub. Yn amlwg, rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant â phobl Japan am eu colled ac yn eu cyfnod o brofedigaeth. Rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn ymateb i hyn maes o law. Rhaid inni hefyd gydnabod, fel mewn cyfnodau yn y gorffennol, megis pan ddigwyddodd trychineb Haiti, ein bod wedi gweld y math hwnnw o ymateb o Gymru, lle mae pobl wedi ymateb yn llawn o ran rhoddion elusennol a chymorth. Rydym yn

We send our best wishes, of course, to the Government in Japan.

dymuno'r gorau, wrth gwrs, i'r Llywodraeth yn Japan.

On your second point on school reorganisation, the Minister for education frequently updates Members on this issue. Indeed, there was an oral statement in June on matters relating to school reorganisation.

O ran eich ail bwynt ar ad-drefnu ysgolion, mae'r Gweinidog dros addysg yn aml yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y mater hwn. Yn wir, cafwyd datganiad llafar ym mis Mehefin ar faterion yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion.

**Christine Chapman:** You may be aware of BBC Wales's *X-Ray*'s Ceiber Challenge. The programme has recently documented the re-opening of the cinema at Penrhiwceiber institute in my constituency, after almost 25 years. It would be fair to say that this has been a dream come true for the local volunteers and community workers in the area, who have worked so hard over the past year to get the project off the ground. The project has also attracted star-studded support. For example, actor Michael Sheen hosted a question and answer session as part of the film festival last Saturday. This has really brought the local community together, and the institute has once again taken its rightful place at the heart of the community. Could we therefore have a statement from the Deputy Minister on the regeneration work that is taking place in Valleys communities?

**Christine Chapman:** Efallai eich bod yn ymwybodol o her Ceiber ar raglen *X-ray* BBC Cymru. Mae'r rhaglen wedi rhoi sylw i'r sinema sy'n ailagor yn institiwt Penrhiwceibr yn fy etholaeth, ar ôl bron i 25 mlynedd. Byddai'n deg dweud y bu hyn yn freuddwyd a wireddwyd i'r gwirfoddolwyr lleol a'r gweithwyr cymunedol yn yr ardal, sydd wedi gweithio mor galed dros y flwyddyn ddiwethaf i roi'r prosiect ar waith. Mae'r prosiect hefyd wedi denu cefnogaeth enwogion. Er enghraifft, cynhaliodd yr actor Michael Sheen sesiwn holi ac ateb fel rhan o'r ŵyl ffilm ddydd Sadwrn diwethaf. Mae hyn wedi dod â'r gymuned leol at ei gilydd, ac mae'r sefydliad unwaith eto wedi cael lle priodol wrth galon y gymuned. Felly, a allem gael datganiad gan y Dirprwy Weinidog ar y gwaith adfywio sy'n digwydd yng nghymunedau'r Cymoedd?

**Jane Hutt:** The reopening of the cinema at the old institute in Penrhiwceiber must have been a time of great celebration, not just for those generations who knew the institute when it was thriving, but also for the young people who will now enjoy its benefits. It must have been exciting to have Michael Sheen there as well. I will make two points, which the Minister for Social Justice and Local Government and the Deputy Minister for Housing and Regeneration will be aware of. First, the Communities First team played a key part in moving this forward in terms of the work that it has done to turn around disadvantage and a lack of opportunity, and working through local partnerships to address the effects of poverty. Secondly, several schemes have benefitted in the Cynon valley from the communities facilities and activities programme. That, too, has contributed to this great opportunity with last weekend's film festival.

**Jane Hutt:** Mae'n rhaid y bu ailagor y sinema yn yr hen institiwt ym Mhenrhiwceibr yn achlysur o ddathlu mawr, nid yn unig i'r cenedlaethau hynny a oedd yn cofio'r institiwt pan oedd yn llewyrchus, ond hefyd i'r bobl ifanc a fydd yn awr yn mwynhau defnyddio'r adeilad. Mae'n rhaid y bu'n gyffrous cael Michael Sheen yno hefyd. Rwyf am wneud dau bwynt, y bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio yn ymwybodol ohonynt. Yn gyntaf, chwaraeodd y tîm Cymunedau yn Gyntaf ran allweddol wrth ddatblygu hyn o ran y gwaith y mae wedi'i wneud i wrthdroi amddifadedd a diffyg cyfleoedd, a gweithio drwy bartneriaethau lleol i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi. Yn ail, mae nifer o gynlluniau wedi cael budd yng nghwm Cynon o'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol. Mae hynny, hefyd, wedi cyfrannu at y cyfle gwych hwn gyda'r ŵyl ffilm y penwythnos diwethaf.

**Mark Isherwood:** I believe that a public inquiry must be ordered by the Government of the day, or by a Government body. It therefore falls to me to call on the Welsh Government to initiate a public inquiry into its own conduct concerning the acquisition of the River Lodge hotel site in Llangollen via the Welsh Development Agency, and the subsequent lease of the premises to Powys Fadog community centre as a health, wellbeing, learning and development centre. This is no reflection on Llangollen's genuine need for a new medical centre, but on the matters that have followed this acquisition.

**Mark Isherwood:** Rwy'n credu bod yn rhaid i'r Llywodraeth bresennol, neu gorff y Llywodraeth, alw am ymchwiliad cyhoeddus. Felly, mae dyletswydd arnaf i alw ar Lywodraeth Cymru i lansio ymchwiliad cyhoeddus i'w hymddygiad ei hun o ran caffael safle gwesty'r River Lodge yn Llangollen drwy Awdurdod Datblygu Cymru, a'r brydles ddilynol ar ganolfan gymunedol Powys Fadog fel canolfan iechyd, lles, dysgu a datblygu. Nid yw hyn yn adlewyrchu angen gwirioneddol Llangollen am ganolfan feddygol newydd, ond y materion sydd wedi codi yn dilyn y caffaeliad hwn.

I understand that an agreement to lease was granted in June 2009 by Welsh Government lawyers. I am advised that the Welsh Government is now stating that there was a legal issue from 2009; therefore, if there was a legal issue, why was the agreement to lease granted in June 2009? Why does the Permanent Secretary state in a review by the internal audit team that it resorted to an options appraisal relating to the site, when it is understood that the options appraisal was triggered by the new proposal for a Welsh Government-owned site submitted in January 2010? Why did the Permanent Secretary, as the principal accounting officer, intervene on the basis of unsubstantiated allegations that were made to the First Minister by an Assembly Member? An internal audit review of the acquisition and subsequent disposal of the site concluded that no problems were found with the building's acquisition and disposal, and a report that was published in February 2010 again showed no problem. Therefore, why was an options appraisal suggested, which is still ongoing after 15 months?

Deallaf fod cytundeb i brydlesu wedi'i ganiatáu ym mis Mehefin 2009 gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru. Dywedwyd wrthyf fod Llywodraeth Cymru bellach yn datgan bod mater cyfreithiol ers 2009; felly, os oedd mater cyfreithiol, pam y rhoddwyd y cytundeb i brydlesu ym mis Mehefin 2009? Pam mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn datgan mewn adolygiad gan y tîm archwilio mewnol fod y tîm wedi troi at ddefnyddio arfarniad opsiynau mewn perthynas â'r safle, pan ddeellir bod yr arfarniad opsiynau wedi'i sbarduno gan y cynnig newydd ar gyfer safle sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2010? Pam wnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, fel y prif swyddog cyfrifo, ymyrryd ar sail honiadau di-sail a wnaed i'r Prif Weinidog gan Aelod Cynulliad? Daeth adolygiad archwilio mewnol ar y broses o gaffael a gwaredu'r safle i'r casgliad na chafodd unrhyw broblemau eu canfod o ran y broses o gaffael a gwaredu'r adeilad, ac, unwaith eto, ni nododd adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2010 unrhyw broblemau. Felly, pam yr awgrymwyd cynnal arfarniad o opsiynau, sy'n dal i fynd rhagddo ar ôl 15 mis?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Can you come to the question, please?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnewch chi ddod at y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

**Mark Isherwood:** I have asked several questions.

**Mark Isherwood:** Rwyf wedi gofyn nifer o gwestiynau.

**The Deputy Presiding Officer:** Yes, I know; I would like you to come to the definitive question.

**Y Dirprwy Lywydd:** Ydych, rwy'n gwybod; hoffwn ichi ddod at y cwestiwn terfynol.

**Mark Isherwood:** This issue raises several serious matters, including the Welsh Government's potential conflict of interest regarding the development of a medical centre, given that correspondence that has been acquired under a freedom of information request confirms the Welsh Government's own involvement going back to the early part of last year. This matter demands attention.

**Mark Isherwood:** Mae'r testun hwn yn codi nifer o faterion difrifol, gan gynnwys gwrthdaro posibl rhwng buddiannau Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu canolfan feddygol, o gofio bod yr ohebiaeth a gafwyd drwy gais rhyddid gwybodaeth yn cadarnhau rhan Llywodraeth Cymru yn hyn ers dechrau'r flwyddyn ddiwethaf. Rhaid rhoi sylw i'r mater hwn.

**Jane Hutt:** It was appropriate that the Permanent Secretary instigated an internal audit review of the acquisition and, indeed, of the subsequent proposals for the disposal of the River Lodge site in Llangollen. You are clearly aware of the outcome of that internal audit review and its conclusions, including the recommendation to look at any future use of the property, which is being followed up in terms of options appraisals.

**Jane Hutt:** Roedd yn briodol bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cychwyn adolygiad archwilio mewnol o'r broses gaffael ac, yn wir, y cynigion dilynol ar gyfer gwaredu safle'r River Lodge yn Llangollen. Rydych yn amlwg yn ymwybodol o ganlyniad yr adolygiad archwilio mewnol a'i gasgliadau, gan gynnwys yr argymhelliad i edrych ar unrhyw ddefnydd o'r eiddo yn y dyfodol, y sonnir amdano o ran gwerthuso opsiynau.

2.30 p.m.

**Bethan Jenkins:** Tomorrow marks World Social Work Day. Could we have a statement from the Government to support the hard work that social workers do in Wales? They are often the unsung heroes of local care organisations, for example, and they work at the front line. I know that the British Association of Social Workers is calling for a college of social work in Wales, and we would appreciate a statement from the Government to show support for this important day.

**Bethan Jenkins:** Yfory yw Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd. A allwn ni gael datganiad gan y Llywodraeth i gefnogi'r gwaith caled y mae gweithwyr cymdeithasol yn ei wneud yng Nghymru? Hwy yn aml yw arwyr di-glod sefydliadau gofal lleol, er enghraifft, ac maent yn gweithio yn y rheng flaen. Gwn fod Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yn galw am gael coleg gwaith cymdeithasol yng Nghymru, a byddem yn gwerthfawrogi datganiad gan y Llywodraeth i ddangos cefnogaeth i'r diwrnod pwysig hwn.

**Jane Hutt:** Thank you for drawing our attention to World Social Work Day, and for recognising that social workers are at the front line, as was recognised by the Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas. I understand that she will be speaking at an event organised by BASW Cymru to celebrate World Social Work Day, which I believe will be held tomorrow. This will involve social workers from across Wales and will feature presentations about their achievements during the past year. There will also be the first ever social work awards, which will recognise the hard work of social workers. At tomorrow's event, and during World Social Work Day, global crises

**Jane Hutt:** Diolch am dynnu ein sylw at Ddiwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd, ac am gydnabod bod gweithwyr cymdeithasol yn y rheng flaen, fel y bu i'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, ei gydnabod. Rwy'n deall y bydd yn siarad mewn digwyddiad a drefnwyd gan BASW Cymru i ddathlu Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd, a gynhelir yfory, yn ôl yr hyn a ddeallaf. Bydd yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol o bob rhan o Gymru a chyflwyniadau am eu cyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y gwobrau cyntaf erioed ar gyfer gwaith cymdeithasol yn cael eu cyflwyno hefyd, a fydd yn cydnabod gwaith caled

will be considered and there will be recognition that social workers' front-line work in Wales can be reflected across the world.

gweithwyr cymdeithasol. Yn y digwyddiad yfory, ac yn ystod Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd, bydd argyfyngau byd-eang yn cael eu hystyried a bydd cydnabyddiaeth y gellir adlewyrchu gwaith rheng flaen gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru ledled y byd.

**Nick Ramsay:** I concur with the earlier sentiments of Nick Bourne, the leader of the opposition, when he asked the Assembly Government to do all that it can to help to alleviate the effects of the terrible tragedy that is unfolding in Japan. I know that all Assembly Members would wish Wales to do whatever it can, through the United Kingdom, to help out.

**Nick Ramsay:** Ategaf deimladau cynharach Nick Bourne, arweinydd yr wrthblaid, pan ofynnodd i Lywodraeth y Cynulliad wneud popeth o fewn ei gallu i helpu i liniaru effeithiau'r trychineb ofnadwy sy'n dod i'r amlwg yn Japan. Gwn y byddai pob Aelod Cynulliad yn dymuno i Gymru wneud popeth o fewn ei gallu, drwy'r Deyrnas Unedig, i helpu.

I would also like to follow up a question that I asked the First Minister earlier regarding the comments of Ruth Marks at the weekend, and those of Peter Tyndall, the Public Services Ombudsman for Wales, regarding concerns in Wales about care, particularly of elderly or older people. Could we have a statement or a consideration of this by the Welsh Government at the earliest opportunity? I know that time is short and that the election is approaching, but it has been of serious concern to many of my constituents, and to the constituents of other Assembly Members across Wales. The sooner that the failings highlighted by this report are addressed and there is clear guidance from your Government in terms of putting these problems right, the better it will be for everyone.

Hoffwn hefyd gyfeirio at gwestiwn a ofynnais i'r Prif Weinidog yn gynharach ynghylch sylwadau Ruth Marks dros y penwythnos, a rhai Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ynghylch y pryderon yng Nghymru am ofal, yn enwedig gofal yr henoed neu bobl hŷn. A allem gael datganiad neu ystyriaeth o hyn gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo modd? Gwn fod amser yn brin a bod yr etholiad yn nesáu, ond bu'n peri pryder dwys i nifer o'm hetholwyr, ac etholwyr Aelodau Cynulliad eraill ledled Cymru. Gorau po gyntaf yr ymdrinnir â'r methiannau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn ac y ceir arweiniad clir gan eich Llywodraeth o ran datrys y problemau hyn.

**Jane Hutt:** I am glad to have the opportunity, once again, to respond to your point concerning sending our sympathies—as the First Minister did—to the people of Japan. The First Minister sent a letter to the Japanese ambassador on behalf of the people of Wales. The First Minister met the ambassador on Thursday and, in his letter, he expressed his heartfelt sympathy for the people of Japan, and conveyed his thoughts and prayers to the country as it responds to this unfolding disaster. I am glad that I have had the opportunity to report on the First Minister's action immediately.

**Jane Hutt:** Rwy'n falch o gael y cyfle, unwaith eto, i ymateb i'ch pwynt ynghylch anfon ein cydymdeimladau—fel y gwnaeth y Prif Weinidog—at bobl Japan. Anfonodd y Prif Weinidog lythyr at lysgennad Japan ar ran pobl Cymru. Cyfarfu'r Prif Weinidog â'r llysgennad ddydd Iau ac, yn ei lythyr, mynegodd ei gydymdeimlad diffuant â phobl Japan, a mynegodd ei deimladau a'i weddïau â'r wlad wrth iddi ymateb i'r trychineb hwn sy'n datblygu. Rwy'n falch fy mod wedi cael y cyfle i adrodd ar y camau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cymryd ar unwaith.

Thank you for raising your point about the care of elderly people in our hospitals. Every

Diolch ichi am godi'r pwynt ynglŷn â gofalu am bobl oedrannus yn ein hysbytai. Bob

day, the health service cares for thousands of patients. The vast majority of patients are satisfied with their care. I am sure that you will join me in recognising the unstinting dedication and professionalism of our nursing and healthcare staff at the front line. It is regrettable when there are occasions when the standard of care does not meet our high expectations. We must do all that we can to reduce this, which is why it is so important that patients or relatives can raise their concerns with the hospital ward sister or other members of staff to ensure that action is taken to address any issues. However, as the First Minister has said, the Minister for health will be considering the older people's commissioner's report, which was published on Monday.

dydd, mae'r gwasanaeth iechyd yn gofalu am filoedd o gleifion. Mae'r mwyafrif llethol o gleifion yn fodlon â'u gofal. Rwy'n siŵr y gwnewch ymuno â mi i gydnabod ymroddiad diflino a phroffesiynoldeb ein staff nyrsio a gofal iechyd yn y rheng flaen. Mae'n drist pan fydd adegau pan nad yw safon y gofal yn bodloni ein disgwyliadau uchel. Mae'n rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i leihau hyn, a dyna pam mae mor bwysig bod cleifion neu berthnasau yn gallu mynegi eu pryderon i brif nyrs ward yr ysbyty neu aelodau eraill o staff i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Fodd bynnag, fel dywedodd y Prif Weinidog, bydd y Gweinidog dros iechyd yn ystyried adroddiad y comisiynydd pobl hŷn, a gyhoeddwyd ddydd Llun.

**Joyce Watson:** When will we have a statement on how the UK Government's budget, which is to be announced next week, will affect Wales? I am particularly concerned about the annual fuel duty rise in April. The previous Labour Government often postponed planned duty increases when the world oil prices were on the increase, as they currently are. The Tories promised a fuel duty stabiliser to win votes before the election, but if they do not deliver one, it will just be another broken promise from the UK Government. However, more importantly, it will mean extra pressure on top of what is already being exerted on hardworking families and small businesses. Those pressures will be felt particularly in a rural area such as the one that I cover.

**Joyce Watson:** Pryd y cawn ddatganiad ar sut y bydd cyllideb Llywodraeth y DU, a fydd yn cael ei chyhoeddi yr wythnos nesaf, yn effeithio ar Gymru? Rwy'n pryderu'n benodol am y cynnydd blynyddol mewn treth tanwydd a fydd yn digwydd ym mis Ebrill. Roedd y Llywodraeth Lafur flaenorol yn aml yn gohirio'r cynnydd mewn taliadau a gynlluniwyd pan oedd prisiau olew'r byd ar gynnydd, fel y maent ar hyn o bryd. Gwnaeth y Torïaid addo i sefydlogi'r taliadau tanwydd er mwyn ennill pleidleisiau cyn yr etholiad, ond os nad ydynt yn cyflawni hynny, bydd yn addewid arall wedi'i thorri gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, yn bwysicach fyth, bydd yn golygu pwysau ychwanegol ar ben yr hyn sydd eisoes yn cael ei roi ar deuluoedd a busnesau bach sy'n gweithio'n galed. Bydd y pwysau hwnnw'n cael ei deimlo'n arbennig mewn ardal wledig fel yr un yr wyf fi yn ei chynrychioli.

**Jane Hutt:** The UK Government's budget will be of interest to all of us, particularly in terms of the prospects that concern us in Wales. I hope to meet the Chief Secretary to the Treasury in due course to discuss the implications of moving forward in terms of fair funding for Wales following the successful result of the referendum. However, the issue that is of concern to people and businesses in this budget is the price of fuel, particularly if it adds to the growing cost of living for families on low and middle incomes. It could particularly hit those in rural areas, such as those whom you

**Jane Hutt:** Bydd cyllideb Llywodraeth y DU o ddiddordeb i bob un ohonom, yn enwedig o ran y rhagolygon sy'n berthnasol i ni yng Nghymru. Rwy'n gobeithio cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys maes o law i drafod goblygiadau symud ymlaen o ran cael cyllid teg i Gymru yn dilyn y canlyniad o blaid cael pwerau newydd yn y refferendwm. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri pryder i bobl a busnesau yn y gyllideb hon yw pris tanwydd, yn enwedig os yw'n ychwanegu at gostau byw cynyddol teuluoedd ar incwm isel a chanolig. Gallai daro pobl mewn ardaloedd gwledig yn benodol, fel y rhai yr ydych yn eu

represent, who rely entirely on their own transport. Increasing fuel duty at this time would be extremely unwelcome. The VAT increase at the beginning of the year has meant an extra 3p on a litre of unleaded fuel. So, I hope that the UK Government will take the opportunity of next week's budget to rethink in order to mitigate some aspects of this massive hit on the incomes of ordinary, hardworking families and businesses. The VAT increase should be reversed—that is our message to the UK Government.

cynrychioli, sy'n dibynnu'n llwyr ar eu cludiant eu hunain. Ni fyddai cynyddu treth tanwydd ar hyn o bryd yn cael ei groesawu o gwbl. Mae'r cynnydd mewn TAW ar ddechrau'r flwyddyn wedi golygu y ceir 3c yn ychwanegol ar litr o danwydd di-blwm. Felly, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn achub ar y cyfle yn y gyllideb yr wythnos nesaf i ailfeddwl er mwyn lliniaru rhai agweddau ar yr ergyd enfawr hwn ar incwm teuluoedd a busnesau cyffredin sy'n gweithio'n galed. Dylid gwrthdroi'r cynnydd mewn TAW—dyna yw ein neges i Lywodraeth y DU.

**Darren Millar:** Minister, I support the calls for an urgent statement on the report published by the older people's commissioner. As I have mentioned on many occasions, you will be aware that my constituency is the oldest, in demographic terms, in Wales, and that many of the issues identified in the report, particularly the comments that the hospital treatment of some elderly citizens is shamefully inadequate, caused a great deal of concern to many older people in Clwyd West. The comments around continence care, privacy and communication with elderly people in particular could be aspects that the Minister could deal with relatively quickly. The recommendations in the report are pretty straightforward and simple, and it would be good to have a clear statement of intent from the Minister on that.

**Darren Millar:** Weinidog, rwy'n cefnogi'r alwad am ddatganiad brys ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y comisiynydd pobl hŷn. Fel yr wyf wedi'i grybwyll sawl tro, byddwch yn ymwybodol mai fy etholaeth i yw'r etholaeth hynaf o ran demograffeg yng Nghymru, a bod nifer o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad, yn enwedig y sylwadau sy'n nodi bod y driniaeth a gaiff rhai dinasyddion oedrannus mewn ysbytai yn gywilyddus o annigonol, wedi peri cryn bryder i lawer o bobl hŷn yng Ngorllewin Clwyd. Gallai'r Gweinidog fynd i'r afael â'r sylwadau ynghylch gofal ymataliaeth, preifatrwydd a chyfathrebu â phobl oedrannus yn gymharol gyflym. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn eithaf syml, a byddai'n dda cael datganiad clir ar fwriad y Gweinidog ar hynny.

I also ask for a second statement from the Minister for health regarding the process by which new pharmacies are given permission to operate in Wales. There is an ongoing situation in my constituency whereby a pharmacy has been applied for, but an appeal has been ongoing since 2009. Many of my constituents are finding it increasingly difficult and challenging to get their prescribed drugs and medicines because they must travel away from the GP pharmacy in order to access them. The convenience of having a pharmacy on the doorstep is really important to my constituents. Could we have a statement on those processes to see whether they can be streamlined?

Rwyf hefyd am ofyn am ail ddatganiad gan y Gweinidog dros iechyd ynghylch y broses lle caiff fferyllfeydd newydd ganiatâd i weithredu yng Nghymru. Mae sefyllfa barhaus yn fy etholaeth lle gwnaed cais am fferyllfa, ond bu apêl yn mynd rhagddi ers 2009. Mae llawer o'm hetholwyr yn ei chael yn fwyfwy anodd a heriol i gael eu cyffuriau a meddyginiaethau ar brescriptiwn gan fod yn rhaid iddynt deithio o fferyllfa eu meddyg teulu er mwyn eu cael. Mae'r cyfleustra o gael fferyllfa ar garreg y drws yn bwysig iawn i'm hetholwyr. A allwn gael datganiad ar y prosesau hynny i weld a allant fod yn symlach?

**Jane Hutt:** In response to your comments on the older people's commissioner's report, as we said, we would to like to thank the older

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i'ch sylwadau ar adroddiad y comisiynydd pobl hŷn, fel y gwnaethom ddweud, hoffem ddiolch i'r

people's commissioner and Dame Deirdre Hine for this report. We are taking action in these areas, and we will consider the report's findings carefully. I draw your attention to the written statement issued by the Minister for Health and Social Services last week entitled 'Care and Compassion'. That was an important statement to outline what we are doing to ensure that there is an emphasis on quality patient safety and on ensuring that all individuals are treated with dignity and respect. That is at the heart of everything that we do in NHS Wales.

comisiynydd pobl hŷn a'r Fonesig Deirdre Hine am yr adroddiad hwn. Rydym yn gweithredu yn y meysydd hyn, a byddwn yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad yn ofalus. Tynnaf eich sylw at y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Weinidog y DU dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf o'r enw 'Care and Compassion'. Roedd yn ddatganiad pwysig a oedd yn amlinellu'r hyn yr ydym yn ei wneud i sicrhau bod pwyslais ar ddiogelwch o safon i gleifion a sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin gydag urddas a pharch. Dyna sydd wrth wraidd popeth a wnawn yn y GIG yng Nghymru.

Your second point relates to regulation in terms of the opportunities for new pharmacies, but I am sure that the people of the constituency that you represent are pleased that they live in Wales where they are able to access free prescriptions.

Mae eich ail bwynt yn ymwneud â rheoleiddio o ran y cyfleoedd i gael fferyllfeydd newydd, ond rwy'n siŵr bod y bobl yn yr etholaeth yr ydych yn ei chynrychioli yn falch eu bod yn byw yng Nghymru lle y gallant gael presgripsiynau am ddim.

**Nerys Evans:** Mae'r Llywodraeth Geidwadol-Ryddfrydol wrthi yn cynllunio i gau gorsafoedd gwyliwr y glannau yng Nghymru. Yr wyf wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda thrigolion a staff yr orsaf yn Aberdaugleddau. Yr ydym wedi sôn sawl tro am y pryderon ynglŷn â hyn, megis colli swyddi a cholli gwybodaeth hanfodol leol, a fydd yn peryglu bywydau ar arfordir Cymru. Mae'r cynlluniau yn dangos y bydd digwyddiadau gyda'r nos yn cael eu hymdrin â hwy o Southampton. Mae sawl Gweinidog wedi datgan gwrthwynebiad i'r cynlluniau hyn yn y Siambr, ond yn sgîl cyhoeddiad wythnos diwethaf gan y Llywodraeth Geidwadol i ymestyn yr ymgynghoriad hyd dechrau mis Mai, a ydych fel Llywodraeth yn bwriadu ymateb yn swyddogol i'r ymgynghoriad ac a oes mecanwaith mewn lle i ni fel corff hefyd ymateb iddo?

**Nerys Evans:** The Conservative-Liberal Government is planning to close coastguard stations in Wales. I have been working very closely with residents and staff at the station in Milford Haven. We have talked several times about the concerns regarding this decision, such as loss of jobs and loss of vital local knowledge, which will endanger lives along the Welsh coast. The plans show that incidents in the evening will be dealt with from Southampton. Several Ministers have stated their opposition to these plans in the Chamber, but in light of an announcement made last week by the Conservative Government to extend the consultation until early May, do you, as a Government, intend to respond officially to that consultation and is there a mechanism in place for us as a body also to respond to it?

**Jane Hutt:** It is important that we applaud the efforts of the people of west Wales, and of Carmarthenshire County Council in representing them, in their efforts to save this truly vital service. We also have a role to play in this and the First Minister has already highlighted his concerns. We intend to respond fully to the consultation, and the extension is welcome in order to ensure that we do so. We asked the Minister to come to

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig ein bod yn cymeradwyo ymdrechion pobl y gorllewin, a Chyngor Sir Caerfyrddin am eu cynrychioli, yn eu hymdrechion i achub y gwasanaeth cwbl hanfodol hwn. Mae gennym ni hefyd rôl i'w chwarae yn hyn ac mae'r Prif Weinidog eisoes wedi tynnu sylw at ei bryderon. Rydym yn bwriadu ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad, a chroesewir yr estyniad er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud hynny.

Wales to be scrutinised by an Assembly Committee; he declined, but offered to send an official. That may be something that Assembly Members may wish to take advantage of, if we know that he or she will come. There will be and there already is huge public concern about the impact of the closures, particularly of the Milford Haven station. Joyce Watson brought this forward as a short debate and there was cross-party recognition of the concerns regarding these proposed closures and the removal, as you said, of the 24/7 cover. The evidence is clear and it will be included not just in the Welsh Assembly Government response, but in those of Members across the Chamber.

Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog ddod i Gymru er mwyn i Bwyllgor yn y Cynulliad graffu ar ei waith; gwrthododd, ond cynigiodd anfon swyddog. Gallai hynny fod yn rhywbeth y gall Aelodau'r Cynulliad fanteisio arno, os ydym yn gwybod y bydd ef neu hi yn dod. Bydd y cyhoedd yn pryderu'n fawr, ac maent eisoes yn pryderu, am effaith cau gorsafoedd, yn enwedig gorsaf Aberdaugleddau. Cyflwynodd Joyce Watson hyn mewn dadl fer a chafwyd cydnabyddiaeth drawsbleidiol o'r pryderon ynghylch y cynnig i gau gorsafoedd, a chael gwared ar y gwasanaeth 24/7, fel y dywedasoch. Mae'r dystiolaeth yn glir a bydd yn cael ei chynnwys nid yn unig yn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond yn ymateb Aelodau ar draws y Siambr.

## Datganiad: Adolygiad o'r Prosesau Deddfwriaethol
## Statement: Review of Legislative Processes

**The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths):** At the beginning of this month, the people of Wales delivered a decisive 'yes' vote for a more effective and efficient system of law making in the Assembly. The result of the referendum will be reinforced by my review of our legislative processes and procedures, which I am pleased to report today. The third Assembly has seen the Assembly develop as a legislature, able to pass Welsh primary laws. The Assembly Government has developed, produced, and delivered four legislative programmes, playing a substantial part in ensuring that the 'One Wales' programme for government achieved a great deal for the people of Wales.

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths):** Ar ddechrau'r mis hwn, pleidleisiodd pobl Cymru yn bendant o blaid cael system fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer deddfu yn y Cynulliad. Caiff canlyniad y refferendwm ei atgyfnerthu gan fy adolygiad o'n prosesau a gweithdrefnau deddfwriaethol, y mae'n bleser gennyf adrodd arno heddiw. Yn ystod y trydydd Cynulliad, mae'r Cynulliad wedi datblygu fel deddfwrfa sy'n gallu pasio deddfau sylfaenol yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu, cynhyrchu, a chyflwyno pedair rhaglen ddeddfwriaethol, gan chwarae rhan sylweddol yn y broses o sicrhau bod rhaglen lywodraethu 'Cymru'n Un' yn cyflawni llawer iawn i bobl Cymru.

It is important to reflect upon and learn lessons from our experiences over the past four years in taking legislation forward. Therefore, I established my review and, during its course, met Assembly Members, including the Chairs of legislation committees, the Finance Committee, and the Constitutional Affairs Committee, as well as Government Ministers, and drawing also on the views of external stakeholders, to hear their experiences of dealing with legislation. A number of recurring themes emerged, including: improving stakeholder

Mae'n bwysig ystyried a dysgu gwersi o'n profiadau dros y pedair blynedd diwethaf wrth ddatblygu deddfwriaeth. Felly, sefydlais fy adolygiad ac, wrth ei lunio, cyfarfûm ag Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys Cadeiryddion pwyllgorau deddfwriaeth, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, yn ogystal â Gweinidogion y Llywodraeth, gan hefyd ddefnyddio barn rhanddeiliaid allanol, i glywed eu profiadau o ymdrin â deddfwriaeth. Daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg, gan gynnwys: gwella ymgysylltiad â rhanddeiliaid; caniatáu digon

engagement; allowing sufficient scrutiny time for committees; improving the quality of information in explanatory memoranda and regulatory impact assessments; striking the right balance between what is on the face of the Measure and what detail is left to subordinate legislation; improving transparency in the choice of procedure for statutory instruments; providing a greater opportunity for Assembly Members to scrutinise the transfer of executive powers to Welsh Ministers; and earlier notice of Ministers' intention to legislate.

o amser craffu ar gyfer pwyllgorau; gwella ansawdd y wybodaeth mewn memoranda esboniadol ac asesiadau effaith rheoliadol; canfod y cydbwysedd iawn rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Mesur a'r manylion a nodir yn yr is-ddeddfwriaeth; gwella tryloywder wrth ddewis y weithdrefn ar gyfer offerynnau statudol; rhoi mwy o gyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu ar y broses o drosglwyddo pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru; a rhybudd cynt o fwriad Gweinidogion i ddeddfu.

Today, I am pleased to announce improvements that this Government believes will improve the way that we deal with legislation, producing better laws for Wales. We accept the need to ensure earlier and more innovative stakeholder engagement, including the use of Green and White Papers, to ensure that the Welsh public can influence proposals at the policy development stage, before the decision to legislate has even been taken. When that decision has been taken, whenever possible, the Welsh Government should seek to publish draft Assembly Bills for consultation. By delivering better engagement with key stakeholders as early as possible in the development of policy and legislation, it will ensure improved, informed and potentially streamlined scrutiny at Stage 1. We also recognise the need to ensure that those affected by legislation are provided with sufficient notice, and this should be achieved by applying a two-month convention to the commencement of provisions of Assembly Acts, as happens with UK Parliament Acts. There will be exceptions to this, but only if agreed by the Counsel General.

Heddiw, rwy'n falch o gyhoeddi'r gwelliannau y mae'r Llywodraeth hon yn credu a fydd yn gwella'r ffordd rydym yn ymdrin â deddfwriaeth, gan greu gwell cyfreithiau i Gymru. Rydym yn derbyn yr angen i sicrhau ymgysylltiad cynt a mwy arloesol â rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddio Papurau Gwyrdd a Gwyn, er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd yng Nghymru ddylanwadu ar gynigion yn y cam datblygu polisi, cyn i'r penderfyniad i ddeddfu gael ei wneud hyd yn oed. Pan fydd y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud, pryd bynnag y bydd yn bosibl, dylai Llywodraeth Cymru geisio cyhoeddi Biliau Cynulliad drafft i ymgynghori arnynt. Drwy ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid allweddol cyn gynted ag y bo modd wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth, bydd yn sicrhau proses graffu well, gwybodus a symlach o bosibl yng Nghyfnod 1. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y rhai y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt yn cael digon o rybudd, a dylid cyflawni hyn drwy gymhwyso arfer o gael dau fis cyn cychwyn darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, fel sy'n digwydd gyda Deddfau Senedd y DU. Bydd eithriadau i hyn, ond dim ond os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno arnynt.

2.45 p.m.

Many Members and Chairs with whom I met raised concerns about our explanatory memoranda and regulatory impact assessments. There has been recognition by the Legislation Committees and the Finance Committee of considerable improvement, for example with the explanatory memoranda accompanying the Mental Health (Wales) Measure 2010, the Local Government

Mynegodd llawer o Aelodau a Chadeiryddion y cyfarfûm â hwy bryderon ynghylch ein memoranda esboniadol ac asesiadau effaith rheoliadol. Cafwyd cydnabyddiaeth gan y Pwyllgorau Deddfwriaeth a'r Pwyllgor Cyllid y bu gwelliant sylweddol, er enghraifft gyda'r memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a

(Wales) Measure 2009, and the Education (Wales) Measure 2009, and the Government wants to ensure that this standard becomes the norm rather than the exception.

Mesur Addysg (Cymru) 2009, ac mae'r Llywodraeth am sicrhau bod y safon hon yn dod yn rhywbeth cyffredin yn hytrach nag yn eithriad.

The internal guidance will be updated and strengthened to ensure the financial data and information contained in explanatory memoranda and regulatory impact assessments are robust. Consistency of approach will also be ensured by the introduction of a best-practice template to ensure that the best information is presented in the best way.

Bydd y canllawiau mewnol yn cael eu diweddaru a'u cryfhau er mwyn sicrhau bod y data ariannol a'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y memoranda esboniadol a'r asesiadau effaith rheoliadol yn gadarn. Bydd y dull cyson hwn hefyd yn cael ei gadarnhau drwy gyflwyno templed arfer gorau i sicrhau bod y wybodaeth orau yn cael ei chyflwyno yn y ffordd orau.

In order to provide a greater degree of transparency to both Assembly Members and the people of Wales, we are preparing guidance to be issued for adoption and publication by the next Assembly Government on the criteria used to determine the appropriate procedure for the scrutiny of subordinate legislation.

Er mwyn sicrhau gwell tryloywder i Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru, rydym yn paratoi canllawiau i'w mabwysiadu a'u cyhoeddi gan Lywodraeth nesaf y Cynulliad ar y meini prawf a ddefnyddir i ddewis y weithdrefn briodol ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth.

There is often tension between what a Government puts on the face of legislation and what a legislature considers appropriate. We strive to strike the right balance between what is on the face of Measures and what is left to subordinate legislation. Having listened to the concerns of committee Chairs, I agree that there should be a mechanism to allow enhanced scrutiny of significant items of subordinate legislation falling out of framework Acts.

Yn aml, ceir tensiwn rhwng yr hyn y mae Llywodraeth yn ei roi ar wyneb deddfwriaeth a'r hyn y mae deddfwrfa yn ei ystyried sy'n briodol. Rydym yn ymdrechu i gael y cydbwysedd iawn rhwng yr hyn sydd ar wyneb Mesurau a'r hyn a nodir yn yr is-ddeddfwriaeth. Ar ôl gwrando ar bryderon Cadeiryddion pwyllgorau, cytunaf y dylid cael dull i ganiatáu gwaith craffu gwell ar eitemau sylweddol o is-ddeddfwriaeth a wneir yn sgîl Deddfau fframwaith.

We therefore advocate the introduction of a system to ensure that such items can be referred to a committee for some form of pre-legislative scrutiny. Much of the detail, including the process and criteria, will need to be decided in discussion with the Assembly Commission in the next Assembly.

Rydym felly yn argymell y dylid cyflwyno system i sicrhau y gellir cyfeirio eitemau o'r fath at bwyllgor ar gyfer rhyw fath o waith craffu cyn-ddeddfwriaethol. Bydd angen penderfynu ar lawer o'r manylion, gan gynnwys y broses a'r meini prawf, mewn trafodaeth â Chomisiwn y Cynulliad yn y Cynulliad nesaf.

In the discussions that I held with Members, it was also recognised that the level of information that is publicly available needs to be improved. Officials have already improved the information available through the Welsh Government website, including clearer links to consultations and ministerial decision reports related to subordinate legislation, as well as improved information on the purpose and progress of the

Yn y trafodaethau a gefais gydag Aelodau, cydnabuwyd hefyd bod angen gwella'r lefel o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae swyddogion eisoes wedi gwella'r wybodaeth sydd ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cysylltiadau cliriach ag ymgynghoriadau ac adroddiadau ar benderfyniadau Gweinidogion sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth, yn ogystal â gwell gwybodaeth ar ddiben a hynt cynigion

Government's legislative proposals.

deddfwriaethol y Llywodraeth.

In terms of devolved provisions contained in UK Parliament Bills, I have asked officials to expand the use of written statements to set out executive powers. In cases where particularly significant provisions are included, a memorandum of devolved delegated powers should be laid before the Assembly once the Bill has been published in Parliament. Assembly spokespersons should be offered technical briefings on significant Welsh provisions or framework powers, similar to those briefings offered to Welsh MPs and peers by the Wales Office and Welsh Ministers in Parliament. We believe that these steps would significantly improve the information available to Members, as well as the transparency of Government.

O ran darpariaethau datganoledig sydd wedi'u cynnwys ym Miliau Senedd y DU, rwyf wedi gofyn i swyddogion ehangu'r defnydd o ddatganiadau ysgrifenedig i nodi pwerau gweithredol. Mewn achosion lle caiff darpariaethau arwyddocaol iawn eu cynnwys, dylid gosod memorandwm ar y pwerau dirprwyedig datganoledig gerbron y Cynulliad unwaith y bydd y Bil wedi cael ei gyhoeddi yn y Senedd. Dylid cynnig sesiynau briffio technegol i lefarwyr y Cynulliad ar ddarpariaethau sy'n arwyddocaol i Gymru neu bwerau fframwaith, yn debyg i'r sesiynau briffio hynny a gynigir i Aelodau Seneddol Cymru ac arglwyddi gan Swyddfa Cymru a Gweinidogion Cymru yn y Senedd. Credwn y byddai'r camau hyn yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i Aelodau yn sylweddol, yn ogystal â thryloywder y Llywodraeth.

Finally, we support a move away from the Government's current annual legislative programme towards a four-year programme. The current cycle is based on the Westminster model, where items that have not completed their passage fall at the end of each annual session. That is not the case here, as items can roll from one year to the next within an Assembly. Moving toward a four-year cycle will better reflect the procedures of this Assembly, and better align with the programme of Government.

Yn olaf, rydym yn cefnogi'r syniad o symud oddi wrth raglen ddeddfwriaethol flynyddol gyfredol y Llywodraeth tuag at raglen bedair blynedd. Mae'r cylch cyfredol yn seiliedig ar fodel San Steffan, lle mae eitemau nad ydynt wedi'u cwblhau yn methu ar ddiwedd pob sesiwn flynyddol. Nid yw hynny'n wir yma, oherwydd gellir symud eitemau o un flwyddyn i'r nesaf o fewn Cynulliad. Bydd symud tuag at gael cylch pedair blynedd yn adlewyrchu gweithdrefnau'r Cynulliad hwn yn well, ac yn cyd-fynd yn well â rhaglen y Llywodraeth.

We recognise the continued need for an annual statement on the Government's legislative programme to be made by the First Minister, outlining those items the Government will introduce over the following year. However, the principle of a four-year cycle will facilitate better forward planning and better stakeholder engagement, through plentiful notice of intentions and consultation at the development stage, as well as the publication of draft Bills, rather than the shoehorning of items into annual programmes.

Rydym yn cydnabod bod angen parhaus am ddatganiad blynyddol ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth i'w wneud gan y Prif Weinidog, yn amlinellu'r eitemau hynny y bydd y Llywodraeth yn eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, bydd yr egwyddor o gylch pedair blynedd yn hwyluso cynllunio ymlaen llaw ac ymgysylltiad gwell â rhanddeiliaid, drwy roi digon o rybudd o fwriadau ac ymgynghoriadau yn y cyfnod datblygu, yn ogystal â chyhoeddi Biliau drafft, yn hytrach na gwasgu eitemau i mewn i raglenni blynyddol.

I have discussed with the First Minister, Cabinet colleagues and the Permanent Secretary how the internal processes of the

Rwyf wedi trafod â'r Prif Weinidog, cydweithwyr yn y Cabinet a'r Ysgrifennydd Parhaol sut y gellir newid prosesau mewnol

Welsh Government can be changed to complement the findings of my review. It will be a matter for the Permanent Secretary to take these changes forward. We have learned a great deal over the last four years, and my review sought to take stock of those lessons and set out an improved way forward. I believe that the proposals of this Government that I have outlined today, combined with the revised procedures internal to the workings of the Government, will deliver the required improvements. These solutions are made in Wales for Wales, and will ensure that better legislation delivers better results for the people of Wales.

Llywodraeth Cymru i gyd-fynd â chanfyddiadau fy adolygiad. Yr Ysgrifennydd Parhaol fydd yn gyfrifol am roi’r newidiadau hyn ar waith. Rydym wedi dysgu llawer dros y pedair blynedd diwethaf, ac roedd fy adolygiad yn ceisio ystyried y gwersi hynny a chanfod ffordd well ymlaen. Credaf y bydd cynigion y Llywodraeth hon a amlinellais heddiw, ynghyd â gweithdrefnau diwygiedig mewnol yng ngwaith y Llywodraeth, yn cyflawni’r gwelliannau gofynnol. Caiff yr atebion hyn eu gwneud yng Nghymru ar gyfer Cymru, a byddant yn sicrhau bod deddfwriaeth gwell yn rhoi gwell canlyniadau i bobl Cymru.

**David Melding:** I give a general welcome to the Counsel General’s statement, which was thoughtful and, in places, innovative; we will certainly support those developments that make this a better law-making body. However, I urge him to reflect on one powerful fact that is a reflection on a general experience of how legislatures in the English-speaking world perform, which is that the path to better legislation is often paved with good intentions; changing established culture is difficult. Although we are a relatively young parliamentary organisation, we still have a firm culture that has led us to some quick and rather messy legislation. It is right that he is now examining the implications of the referendum as an opportunity for taking stock and setting ourselves on a more rigorous path.

**David Melding:** Croesawaf ddatganiad y Cwnsler Cyffredinol yn gyffredinol, a oedd yn feddylgar ac, mewn mannau, yn arloesol; byddwn yn sicr yn cefnogi’r datblygiadau hynny sy’n gwneud hwn yn gorff deddfu gwell. Fodd bynnag, rwy’n ei annog i feddwl am un ffaith bwerus sy’n adlewyrchu’r profiad cyffredinol o ran sut mae deddfwrfeydd yn y byd Saesneg ei iaith yn perfformio, sef bod y llwybr i ddeddfwriaeth well yn aml yn llawn bwriadau da; mae newid diwylliant sefydledig yn anodd. Er ein bod yn sefydliad seneddol cymharol ifanc, mae gennym ddiwylliant cadarn sydd wedi ein harwain at wneud rhai deddfwriaethau brysiog ac eithaf anniben. Mae’n iawn ei fod yn awr yn edrych ar oblygiadau’r refferendwm fel cyfle i bwyso a mesur a gosod ein hunain ar lwybr mwy llym.

Allowing sufficient time for scrutiny is at the heart of good legislation: speed kills thought and leads to sloppy legislation. When things have to be done quickly, there is a great premium on the governing party getting its legislation through and its own backbenchers are less likely to be persuaded of the need to amend legislation, which is often in the best interests of the Government that they support. However, under those pressures, they perhaps find that it is difficult to engage in the process of amending legislation. We need sufficient time, and I have to tell the Counsel General that two proposed Measures that have been going through the Assembly recently have had truncated timetables imposed on them, because we are running out of time. The level of scrutiny has been limited, as has the level of consultation. It has

Mae caniatáu digon o amser i graffu yn rhan ganolog o ddeddfwriaeth dda: mae brys yn lladd syniadau ac yn arwain at ddeddfwriaeth flêr. Pan fydd yn rhaid gwneud pethau’n gyflym, mae pwysau mawr ar y blaid lywodraethol i basio ei deddfwriaeth ac mae ei haelodau ar y meinciau cefn yn llai tebygol o gael eu darbwyllo ynghylch yr angen i ddiwygio deddfwriaeth, sy’n aml o’r budd gorau i’r Llywodraeth y maent yn ei chefnogi. Fodd bynnag, o dan y pwysau hynny, efallai y byddant yn ei chael yn anodd cymryd rhan yn y broses o ddiwygio deddfwriaeth. Mae angen digon o amser arnom, a rhaid imi ddweud wrth y Cwnsler Cyffredinol y bu’n rhaid cwtogi’r amserlenni ar gyfer dau Fesur arfaethedig a fu’n mynd drwy’r Cynulliad yn ddiweddar oherwydd ein bod yn rhedeg allan o amser. Bu lefel y

certainly not been done according to best practice in terms of asking for responses to what is contained in the draft of proposed Measures. Even the time available at committee stage has in some cases been reduced to one three-hour slot. When we are talking about scrutinising Bills, as the fourth Assembly will be doing, that needs to be sorted out.

gwaith craffu yn gyfyngedig, fel y bu lefel yr ymgynghori. Yn sicr, ni chafodd ei wneud yn unol â'r arfer gorau o ran gofyn am ymatebion i'r hyn a gynhwysir yn y fersiynau drafft o Fesurau arfaethedig. Mae hyd yn oed yr amser sydd ar gael yn y cyfnod pwyllgor wedi gostwng i un cyfnod o dair awr mewn rhai achosion. Pan fyddwn yn sôn am graffu ar Filiau, fel y bydd y pedwerydd Cynulliad yn ei wneud, bydd angen datrys hynny.

I am afraid that, perhaps because the Assembly started out principally as a body dealing with subordinate legislation, we have seen a lot of subordinate legislation being tacked on to rather scantily drafted Measures, with very little on the face of them and with a lot of power granted to Ministers. This proclivity has been aggravated by the fact that the use of the affirmative procedure is often avoided. It has to be said that Ministers will sometimes give way on these points when pushed, but when they work with their parliamentary counsel to draft legislation, more attention needs to be given to the way that the whole Measure—or the whole Bill or Act, as it will be—works. As much power as possible needs to be kept within the legislature, either by use of the affirmative procedure or by writing the principal provision on the face of the primary legislation, and I hope that the Counsel General reflects on that point.

Rwy'n ofni, efallai oherwydd bod y Cynulliad wedi dechrau yn bennaf fel corff sy'n ymdrin ag is-ddeddfwriaeth, ein bod wedi gweld llawer o is-ddeddfwriaeth yn cael ei hychwanegu at Fesurau a ddrafftiwyd yn eithaf tenau, gydag ychydig iawn ar eu hwynebau a chyda llawer o bŵer yn cael ei roi i Weinidogion. Mae'r duedd hon yn cael ei gwaethygu gan y ffaith bod y defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol yn cael ei osgoi yn aml. Mae'n rhaid dweud y bydd Gweinidogion weithiau yn ildio ar y pwyntiau hyn pan gânt eu gwthio, ond pan fyddant yn gweithio gyda'u cwnsler seneddol i ddrafftio deddfwriaeth, mae angen rhoi mwy o sylw i'r ffordd y mae'r holl Fesur—neu'r holl Fil neu Ddeddf, sef yr hyn a fyddant—yn gweithio. Mae angen cadw gymaint o bŵer â phosibl o fewn y ddeddfwrfa, naill ai drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol neu drwy gynnwys y brif ddarpariaeth ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol, ac rwy'n gobeithio y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn ystyried y pwynt hwnnw.

The publication of Bills for consultation is an important policy innovation. It was done quite extensively for a while by the Labour Government in 1997, but old habits then started to creep back in. I hope that this four-year cycle will allow greater room for that type of in-depth consultation, and that links to other areas of executive policy in terms of the use of Green and White Papers. So, there is a lot to welcome in this, but ultimately it comes down to culture. I will finish—because he does need to be well aware of the task before him—with another bad example, and that is seen in the proposed Measures that are going through the Assembly at the moment. Substantial Government amendments have been brought in at the committee stage. They could not be consulted

Mae cyhoeddi Biliau ar gyfer ymgynghori arnynt yn ddatblygiad polisi arloesol a phwysig. Gwnaed hyn yn eithaf helaeth am gyfnod gan y Llywodraeth Lafur ym 1997, ond yna dechreuodd yr hen arferion ddychwelyd yn raddol. Rwy'n gobeithio y bydd y cylch pedair blynedd hwn yn rhoi mwy o le ar gyfer y math hwnnw o ymgynghoriad manwl, ac mae hynny'n cysylltu â meysydd eraill o bolisi gweithredol o ran y defnydd o Bapurau Gwyrdd a Gwyn. Felly, mae llawer i'w groesawu yn hyn o beth, ond, yn y pen draw, mae'n ymwneud â diwylliant. Rwyf am orffen—oherwydd mae angen iddo fod yn llwyr ymwybodol o'r dasg o'i flaen—gydag enghraifft wael arall, a gwelir hynny yn y Mesurau arfaethedig sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Mae

on by that committee, because it could only deal with the amendments. Again, it indicates rushed drafting and an imperative to complete the process, rather than to have the process completed in a thorough and rigorous manner. I return to my initial point, which is a broad welcome for what the Counsel General has outlined this afternoon.

nifer fawr o welliannau'r Llywodraeth wedi cael eu cyflwyno yn y cam pwyllgor. Nid oedd modd i'r pwyllgor hwnnw ymgynghori arnynt, oherwydd gallai ond ymdrin â'r gwelliannau. Unwaith eto, mae'n dangos gwaith drafftio brys a rheidrwydd i gwblhau'r broses, yn hytrach nag ymdrech i gwblhau'r broses yn drylwyr. Rwyf am ddychwelyd at fy mhwynt gwreiddiol, sef bod croeso cyffredinol i'r hyn y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i amlinellu'r prynhawn yma.

**John Griffiths:** Thank you for that broad welcome. I am sure that it is not possible for any reviews such as the one that I have conducted to magically solve all of the inherent tensions that occur the world over between Executives and legislatures. There will be competing imperatives that each feel are warranted and should be a part of any particular process. There will be those inevitable tensions, which we have experienced here, between, for example, what should be on the face of a Measure—or a Bill and an Act, as it will become—and what should be left to regulations, and over what is sufficient time for scrutiny. Sometimes, for good reason, the Executive wants a timely process for legislation, whereas legislatures might take a contrary view. We are all familiar with that from our own experience and from experience elsewhere. However, the fact that those tensions are, to some extent, inevitable, does not mean that we cannot establish best practice here in the Assembly in resolving them wherever possible, and I hope that many of the improvements that I have announced today will go some way to achieving that necessary progress. Early consultation, Green and White Papers, draft Bills, and the opening up of the process to early and widespread consultation, will make subsequent scrutiny much easier if we can adopt that model as part of the four-year approach. That is very much the sort of approach that I want to see.

**John Griffiths:** Diolch ichi am y croeso cyffredinol hwnnw. Rwy'n siŵr nad yw'n bosibl i unrhyw adolygiad fel yr un yr wyf wedi'i gynnal fynd ati i ddatrys yr holl densiynau cynhenid sy'n bodoli ledled y byd rhwng Gweithrediadau a deddfwrfeydd mewn ffordd wyrthiol. Bydd materion hanfodol yn cyd-gystadlu y bydd y ddwy ochr yn teimlo y gellir eu cyfiawnhau ac y dylent fod yn rhan o unrhyw broses benodol. Bydd tensiynau anochel, yr ydym wedi eu profi yma, rhwng, er enghraifft, yr hyn a ddylai fod ar wyneb Mesur—neu Fil a Deddf, sef yr hyn a fyddant—a'r hyn y dylid ei gynnwys yn y rheoliadau, a beth yw cyfnod craffu digonol. Weithiau, am reswm da, bydd y Weithrediaeth am gael proses amserol ar gyfer deddfwriaeth, ond gallai deddfwrfeydd fod â barn arall. Rydym i gyd yn gyfarwydd â hynny o'n profiad ein hunain ac o brofiad o fannau eraill. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod y tensiynau hynny, i ryw raddau, yn anochel, yn golygu na allwn sefydlu arfer gorau yma yn y Cynulliad wrth gael gwared arnynt lle bo hynny'n bosibl, ac rwy'n gobeithio y bydd llawer o'r gwelliannau yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at sicrhau'r cynnydd angenrheidiol hwnnw. Bydd ymgynghori cynnar, Papurau Gwyrdd a Gwyn, Biliau drafft, ac agor y broses i ymgynghori cynnar ac eang, yn gwneud y gwaith craffu dilynol yn llawer haws os gallwn fabwysiadu'r model hwnnw fel rhan o'r dull pedair blynedd. Dyna'r union fath o ddull yr hoffwn ei weld.

You mentioned some of the experiences that we have had to date, and it has been mixed to some extent. We have had four years of experience and we have learned as we have gone along, but I have been encouraged by

Gwnaethoch sôn am rai o'r profiadau yr ydym wedi eu cael hyd yma, a buont yn gymysg i ryw raddau. Rydym wedi cael pedair blynedd o brofiad ac wedi dysgu wrth inni fynd yn ein blaen, ond rwyf wedi cael fy

the Constitutional Affairs Committee's report, the Wales Governance Centre's comments, and by my own review, which has evidenced substantial improvements as we have developed. We can now point to examples of best practice in regulatory impact assessments, explanatory memoranda, Measures and, indeed, in the way that we deal with delegated legislation, and we can seek to build on those as we move forward.

nghalonogi gan adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, gan sylwadau Canolfan Llywodraethu Cymru, a chan fy adolygiad fy hun, sydd wedi dangos gwelliannau sylweddol wrth inni ddatblygu. Gallwn bellach gyfeirio at enghreifftiau o arfer gorau mewn asesiadau effaith rheoliadol, memoranda esboniadol, Mesurau ac, yn wir, yn y ffordd yr ydym yn ymdrin â deddfwriaeth ddirprwyedig, a gallwn geisio adeiladu ar y rheini wrth inni fynd yn ein blaen.

**Andrew Davies:** I join David Melding in thanking you for your statement, Counsel General, with which I agree. I thought it was very thoughtful, and it shows a Government that is listening and which is able to be honest about good and bad practice, and to amend and reform. Now is the appropriate time for that, as we are coming up to the fourth Assembly and following a successful referendum. My experience in legislation committees and on the Finance Committee has shown me a wide variety of practice. Quite rightly, you have commended the Mental Health (Wales) Measure 2009, the Local Government (Wales) Measure 2009 and Education (Wales) Measure 2010, which showed Ministers and officials who were engaged and who saw scrutiny as a very positive experience that could add value rather than as a purely adversarial, yah-boo process. The whole process added value. I commend the Government on the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, which was an exemplary piece of legislation, to which the committee added considerable value. However, as a member of the Finance Committee, I have seen problems where it has almost been impossible to scrutinise the financial implications of proposed Measures.

**Andrew Davies:** Ymunaf â David Melding wrth ddiolch ichi am eich datganiad, Gwnsler Cyffredinol, yr wyf yn cytuno ag ef. Roeddwn yn meddwl ei fod yn ystyriol iawn, ac mae'n arwydd o Lywodraeth sy'n gwrando ac sy'n gallu bod yn onest am arfer da a drwg, a newid a diwygio. Yn awr yw'r amser priodol ar gyfer hynny, wrth inni agosáu at y pedwerydd Cynulliad ac ar ôl refferendwm llwyddiannus. Mae fy mhrofiad mewn pwyllgorau deddfwriaeth ac ar y Pwyllgor Cyllid wedi dangos amrywiaeth eang o arferion imi. Yn gwbl briodol, rydych wedi canmol Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2009, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Mesur Addysg (Cymru) 2010, a oedd yn dangos Gweinidogion a swyddogion a oedd yn ymgysylltu ac a oedd yn ystyried gwaith craffu fel profiad cadarnhaol iawn a allai ychwanegu at werth yn hytrach na bod yn broses lle ceir gwrthdaro yn unig.  Bu i'r broses gyfan ychwanegu gwerth. Cymeradwyaf y Llywodraeth ar y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) Arfaethedig, a oedd yn ddarn rhagorol o ddeddfwriaeth, y gwnaeth y pwyllgor ychwanegu gwerth sylweddol ato. Fodd bynnag, fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid, rwyf wedi gweld problemau lle bu bron yn amhosibl craffu ar oblygiadau ariannol Mesurau arfaethedig.

3.00 p.m.

I think that you have accepted that where, for example, there has been no regulatory impact assessment or where there has been insufficient information on the face of the proposed Measure to allow committees and Plenary to scrutinise fully. I therefore very much welcome your commitment, on behalf of the Government, to taking this forward.

Rwy'n credu eich bod wedi derbyn hynny pan, er enghraifft, na chafwyd unrhyw asesiad effaith rheoliadol neu pan na chafwyd digon o wybodaeth ar wyneb y Mesur arfaethedig i ganiatáu i bwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn graffu'n llawn. Rwyf felly'n croesawu eich ymrwymiad yn fawr iawn, ar ran y Llywodraeth, i fwrw ymlaen â hyn. Ar

After three terms, our record is very good, but it is not enough just to say so; we must always try for continuous improvement.

ôl tri thymor, mae ein record yn dda iawn, ond nid yw'n ddigon dweud hynny; rhaid inni bob amser geisio gwella'n barhaus.

Some Members may have listened to Joshua Rozenberg's fascinating programme on Radio 4 last week about our legislative processes. I, probably like most people, was rather surprised to learn that we did not have a statute book in this institution or in Government, but that it is actually compiled by Cardiff Law School at Cardiff University. That is rather anomalous, and while it may save this institution and the Government money, I am not sure that it is appropriate that a legislature should outsource that service. Therefore, could you and the Assembly Government look at this to see whether the National Assembly and/or the Assembly Government could provide that service in-house. That is not to criticise Cardiff Law School in any way, because if it was not doing it, there would be a huge gap.

Efallai y bydd rhai Aelodau wedi gwrando ar raglen ddiddorol Joshua Rozenberg ar Radio 4 yr wythnos diwethaf am ein prosesau deddfwriaethol. Roeddwn i, fel y rhan fwyaf o bobl mae'n siŵr, wedi fy synnu o glywed nad oedd gennym lyfr statud yn y sefydliad hwn nac yn y Llywodraeth, ond ei fod wrthi'n cael ei lunio gan Ysgol y Gyfraith Caerdydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hynny braidd yn anghyson, ac er y gallai arbed arian i'r sefydliad hwn a'r Llywodraeth, nid wyf yn siŵr a yw'n briodol bod deddfwrfa'n defnyddio gwasanaeth allanol i wneud hynny. Felly, a allwch chi a Llywodraeth y Cynulliad edrych ar hyn i weld a allai'r Cynulliad Cenedlaethol a/neu Lywodraeth y Cynulliad ddarparu'r gwasanaeth hwnnw'n fewnol. Nid wyf yn beirniadu Ysgol y Gyfraith Caerdydd mewn unrhyw ffordd drwy ddweud hynny, oherwydd os na fyddai'n gwneud hynny, byddai bwlch enfawr.

My other points are on innovation and involving wider civil society in law making. There has been an interesting development in New Zealand, where a wiki approach—as in Wikipedia—has been used to involve people in the drafting and the improvement of legislation online. Is that something that you could look at for the future; that is, more imaginative and innovative ways not only to make legislation, but to open up the process to wider civil society?

Mae fy mhwyntiau eraill yn ymwneud ag arloesedd a chynnwys y gymdeithas sifil ehangach wrth ddeddfu. Cafwyd datblygiad diddorol yn Seland Newydd, lle defnyddiwyd dull wiki—sef Wikipedia—i gynnwys pobl yn y broses o ddrafftio a gwella deddfwriaeth ar-lein. A yw hynny'n rhywbeth y gallech edrych arno i'r dyfodol; hynny yw, ffyrdd mwy dychmygus ac arloesol nid yn unig o wneud deddfwriaeth, ond o agor y broses i gymdeithas sifil ehangach?

**John Griffiths:** I thank Andrew for those comments and suggestions. We have made progress, as I said, during this Assembly, and that is very encouraging for the future. We have models of good practice that are to become the norm, some of which you have mentioned. We are also working up guidance and templates for financial information, explanatory memoranda and regulatory impact assessments, for example, to ensure greater consistency at a best practice level.

**John Griffiths:** Diolch i Andrew am y sylwadau ac awgrymiadau hynny. Rydym wedi gwneud cynnydd, fel y dywedais, yn ystod y Cynulliad hwn, ac mae hynny'n galonogol iawn i'r dyfodol. Mae gennym fodelau o arfer da sy'n dod yn rhai cyffredin, gan gynnwys rhai yr ydych wedi cyfeirio atynt. Rydym hefyd wrthi'n llunio canllawiau a thempledi ar gyfer gwybodaeth ariannol, memoranda esboniadol ac asesiadau effaith rheoliadol, er enghraifft, i sicrhau mwy o gysondeb ar lefel arfer gorau.

You mentioned the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, which, as you said, shows how

Gwnaethoch sôn am y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) Arfaethedig sydd, fel y dywedasoch, yn dangos sut y gall gwaith

scrutiny can be a positive experience and can add value. We all have the same interest here, Executive and legislature, with regard to producing good quality legislation that does what it is intended to do. I very much agree with you that the scrutiny process is an important part of achieving that, and should be considered in that way by the Executive, and not as a problem. Indeed, the Children and Young People Committee played a valuable role in shaping what eventually emerged, which was also a positive aspect.

craffu fod yn brofiad cadarnhaol sy'n ychwanegu gwerth. Mae gan y naill un ohonom a'r llall, y Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa, yr un diddordeb yma o ran cynhyrchu deddfwriaeth o safon sy'n gwneud yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud. Cytunaf â chi fod y broses graffu yn rhan bwysig o gyflawni hynny, ac y dylai'r Weithrediaeth ei hystyried yn y ffordd honno, ac nid fel problem. Yn wir, gwnaeth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc chwarae rôl werthfawr wrth lywio'r hyn a ddigwyddodd yn y pen draw, a oedd hefyd yn agwedd gadarnhaol.

I now move onto some of your suggestions. We are grateful to the Cardiff Law School—I am one of its ex-students, so I must say that—for the service that it has provided in producing a Welsh statute book. We have worked with the law school on that to make it possible, but it is sensible for us to look at how we might develop that sort of capacity in-house as we progress, now that we have achieved that 'yes' vote in the referendum and we look to develop as a legislature. I am therefore happy to consider that.

Rwyf yn awr am symud ymlaen at rai o'ch awgrymiadau. Rydym yn ddiolchgar i Ysgol y Gyfraith Caerdydd—rwy'n un o'i chyn-fyfyrwyr, felly mae'n rhaid imi ddweud hynny—am y gwasanaeth y mae wedi ei ddarparu o ran cynhyrchu llyfr statud Cymru. Rydym wedi gweithio gydag ysgol y gyfraith i wneud hynny'n bosibl, ond mae'n gwneud synnwyr inni edrych ar sut y gallwn ddatblygu'r math hwnnw o gapasiti yn fewnol wrth inni symud ymlaen, gan ein bod bellach wedi llwyddo i sicrhau pleidlais o blaid cael rhagor o bwerau deddfu yn y refferendwm ac yn bwriadu datblygu fel deddfwrfa. Rwyf felly'n fodlon ystyried hynny.

On your suggestion with regard to what is being done in New Zealand with a wiki website, we have developed the Welsh Government website considerably to try to provide more information and better engage with external stakeholders. I very much agree, Andrew, that it is a challenge for the whole of Wales with regard to producing ideas for legislation and achieving effective legislation. I have always felt that, with devolution, we are all in it together in Wales. We look for ideas to feed into the Assembly and for wider Wales to play a positive part in taking forward legislation and policy in general. Therefore, I am happy to look at that and at how we might be a little more innovative in the use of the website and in undertaking consultations online.

O ran eich awgrym ynghylch yr hyn sy'n cael ei wneud yn Seland Newydd gyda gwefan wiki, rydym wedi datblygu gwefan Llywodraeth Cymru yn sylweddol i geisio darparu mwy o wybodaeth ac ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid allanol. Cytunaf, Andrew, ei bod yn her i Gymru gyfan o ran llunio syniadau ar gyfer deddfwriaeth a chreu deddfwriaeth effeithiol. Rwyf wedi teimlo erioed, o ran datganoli, ein bod i gyd yn rhan o hyn gyda'n gilydd yng Nghymru. Rydym yn chwilio am syniadau i'w bwydo i mewn i'r Cynulliad ac i Gymru ehangach chwarae rhan gadarnhaol wrth ddatblygu deddfwriaeth a pholisi yn gyffredinol. Felly, rwy'n fodlon edrych ar hynny ac ar sut y gallem fod ychydig yn fwy arloesol wrth ddefnyddio'r wefan ac wrth gynnal ymgynghoriadau ar-lein.

**Kirsty Williams:** I will begin by thanking the Counsel General for his statement. At the beginning of the statement, he set out a number of the challenges that he faced in

**Kirsty Williams:** Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Cwnsler Cyffredinol am ei ddatganiad. Ar ddechrau'r datganiad, nododd nifer o heriau a wynebodd wrth lunio ei

putting together his response and referred to the feedback that he received when conducting the consultation. I am not entirely convinced that all the challenges that he set himself on the first page are answered in the rest of the statement. However, I welcome the commitment to move to a system of Green and White Papers; that is a very welcome indeed. Could the Counsel General confirm that those Green and White Papers will address the question that the Constitutional Affairs Committee has found quite frustrating—certainly since I have been a member of it—namely that of why there is a need to legislate in the first place? A widespread concern during the referendum, if we are honest with ourselves, was the feeling that, if we were to get the law-making powers that we were seeking, there would be a tendency to want to legislate all the time and that there would be a proliferation of legislation. We have found, when looking at proposed Measures, that Ministers often already have the power to do something, and that there is no need to bring forward legislation. Therefore, a Minister should be able to demonstrate why new legislation is necessary and why the policy objectives that are set out in a Green or White Paper cannot be achieved by other methods. That is a useful principle that we should adopt for ourselves.

ymateb a chyfeiriodd at yr adborth a gafodd wrth gynnal yr ymgynghoriad. Nid wyf yn gwbl argyhoeddedig bod yr holl heriau y mae wedi eu gosod i'w hun ar y dudalen gyntaf yn cael eu hateb yng ngweddill y datganiad. Fodd bynnag, croesawaf yr ymrwymiad i symud at system o ddefnyddio Papurau Gwyrdd a Gwyn, sydd i'w groesawu'n fawr. A allai'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau y bydd y Papurau Gwyrdd a Gwyn hynny yn mynd i'r afael â'r cwestiwn y mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi ei gael yn eithaf rhwystredig—yn sicr ers i mi fod yn aelod ohono—sef pam mae angen deddfu yn y lle cyntaf? Un pryder cyffredinol yn ystod y refferendwm, os ydym am fod yn onest gyda'n hunain, oedd y teimlad hynny pe baem yn cael y pwerau deddfu yr oeddem yn ceisio eu cael, y byddai tuedd i fod eisiau deddfu drwy'r amser ac y byddai toreth o ddeddfwriaeth. Rydym wedi canfod, wrth edrych ar Fesurau arfaethedig, bod gan Weinidogion yn aml y pŵer i wneud rhywbeth eisoes, ac nad oes angen cyflwyno deddfwriaeth. Felly, dylai Gweinidog allu dangos pam mae deddfwriaeth newydd yn angenrheidiol a pham na all yr amcanion polisi a nodir mewn Papur Gwyrdd neu Wyn gael eu cyflawni drwy ddulliau eraill. Mae honno'n egwyddor ddefnyddiol y dylem ei mabwysiadu ein hunain.

The Counsel General went on to say that it is important that we have enough time to scrutinise, and I agree with David Melding completely that having enough time to scrutinise legislation is a key part of what this institution can do to make sure that legislation is as good as it can be. In recent months, we have seen legislation that has been rushed through and not subjected to scrutiny for the appropriate lengths of time that we have seen previously. I want to know what guarantees the Counsel General can give the Assembly that that practice will not be repeated. It is not just a matter of having time to scrutinise the initial legislation; as we found with the most recent piece of legislation, the Government tabled amendments at a very late stage, which prevented their being subjected to due consultation. It was left to the Constitutional Affairs Committee to try to intervene in that process, although, technically, looking at

Aeth y Cwnsler Cyffredinol ymlaen i ddweud ei bod yn bwysig bod gennym ddigon o amser i graffu, a chytunaf â David Melding yn llwyr bod cael digon o amser i graffu ar ddeddfwriaeth yn rhan allweddol o'r hyn y gall y sefydliad hwn ei wneud i sicrhau bod y ddeddfwriaeth cystal ag y gall fod. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld deddfwriaeth sydd wedi cael ei rhuthro, a heb fod yn destun craffu am y cyfnodau priodol o amser a welwyd gennym yn flaenorol. Rwyf eisiau gwybod pa sicrwydd y gall Cwnsler Cyffredinol ei roi i'r Cynulliad na fydd yr arfer hwnnw'n cael ei ailadrodd. Nid yw'n fater o gael amser i graffu ar y ddeddfwriaeth gychwynnol yn unig; fel y gwelsom gyda'r darn diweddaraf o ddeddfwriaeth, cyflwynodd y Llywodraeth welliannau yn hwyr iawn, a oedd yn eu rhwystro rhag bod yn destun ymgynghori priodol. Yn sgîl hynny, roedd yn rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol geisio ymyrryd yn y broses

amendments is outside our remit, and it would have been much more appropriate if the legislation committee that had looked at the legislation previously had been in a position to do that. However, it was not—not because of its own issues, but because of the way in which the amendments were brought forward by the Government at that time.

honno er, yn dechnegol, roeddem yn edrych ar newidiadau y tu allan i'n cylch gwaith, a byddai wedi bod yn llawer mwy priodol pe byddai'r pwyllgor deddfwriaeth a fu'n edrych ar y ddeddfwriaeth yn flaenorol wedi bod mewn sefyllfa i wneud hynny. Fodd bynnag, nid oedd mewn sefyllfa i wneud hynny—nid oherwydd ei faterion ei hun, ond oherwydd y ffordd y cafodd y gwelliannau eu cyflwyno gan y Llywodraeth ar y pryd.

I would ask the Counsel General—because he has not addressed this matter—to consider laying out the principles behind the Government's approach to using differing methods of scrutiny. You will be aware, Counsel General, that this point was raised by the Constitutional Affairs Committee in paragraphs 46 and 47 of its report, in which it gave some suggestions about when it is appropriate for the affirmative and superaffirmative procedures to be used. I would push the Government to look at publishing those sets of principles, so that we have an expectation of when those methods will be employed by the Government in usual circumstances. In addition, has the Counsel General given any consideration to the Constitutional Affairs Committee's recommendation with regard to publishing principles in relation to more general drafting procedures?

Hoffwn ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol—am nad oedd wedi trafod y mater hwn—ystyried nodi'r egwyddorion sy'n sail i ddull y Llywodraeth o ddefnyddio gwahanol ffyrdd o graffu. Byddwch yn ymwybodol, Gwnsler Cyffredinol, bod y pwynt hwn wedi'i godi gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mharagraffau 46 a 47 o'i adroddiad, lle rhoddodd rai awgrymiadau ynghylch pryd y mae'n briodol defnyddio'r gweithdrefnau cadarnhaol ac uwchgadarnhaol. Byddwn yn annog y Llywodraeth i edrych ar gyhoeddi'r egwyddorion hynny, fel y gallwn wybod pryd y caiff y dulliau hynny eu defnyddio gan y Llywodraeth mewn amgylchiadau arferol. Yn ogystal, a yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol o ran cyhoeddi egwyddorion mewn perthynas â gweithdrefnau drafftio mwy cyffredinol?

I welcome what the Counsel General has said about the explanatory memoranda, the regulatory impact assessments and the need to improve them. I hope that the Counsel General was being ironic when he referred to the good practice in respect of the Proposed Local Government (Wales) Measure. It had received many plaudits as an exemplar of good practice, up until the point when the Government's amendments were tabled at committee stage, but the Government blotted its copybook with the approach that was then taken. However, I welcome what the Counsel General said about explanatory memoranda and regulatory assessments.

Croesawaf yr hyn y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i ddweud am y memoranda esboniadol, yr asesiadau effaith rheoliadol a'r angen i'w gwella. Gobeithio bod y Cwnsler Cyffredinol yn bod yn eironig pan gyfeiriodd at arfer da o ran y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) Arfaethedig. Cafodd glod mawr fel enghraifft o arfer da, hyd at y pwynt pan gafodd gwelliannau'r Llywodraeth eu cyflwyno yn y cyfnod pwyllgora, ond gwnaeth y Llywodraeth ddifetha ei enw da gyda'r dull a ddefnyddiwyd bryd hynny. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r hyn y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i ddweud am y memoranda esboniadol ac asesiadau rheoliadol.

I turn finally to what the Counsel General described as the tension that often lies between what is on the face of a Measure and what is left to regulation. In the case of the Waste (Wales) Measure 2010, it was not so

Hoffwn droi yn olaf at yr hyn y cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol ato fel y tensiwn sy'n aml i'w weld rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Mesur a'r hyn a gaiff ei gynnwys yn y rheoliadau. Yn achos Mesur Gwastraff

much about that tension as the detail being non-existent. Let us be clear about what the Assembly was asked to vote on: it was asked to vote on a piece of proposed legislation that was not clear about who the law would apply to, who would enforce it and what the consequences of breaking it would be. That is not a tension between what is on the face of a Measure and what is left to regulation; that information represents the basic building blocks of legislation that should be on the face of a Bill, namely who it applies to, who will enforce it and what the consequences are if certain action is not carried out. These are not extreme things to ask for on the face of Government-proposed legislation. For me, of all the issues that you have talked about today, these are the issues on which I want reassurance. I am afraid that this statement does not provide me with reassurance that the Government acknowledges this point or has a means of establishing its principles for drafting what we can look forward to in the next Assembly.

(Cymru) 2010, nid oedd yn ymwneud gymaint â hynny â'r tensiwn ond yn hytrach â'r ffaith nad oedd y manylion yn bodoli. Gadewch inni fod yn glir am yr hyn y gofynnwyd i'r Cynulliad bleidleisio arno: gofynnwyd iddo bleidleisio ar ddarn o ddeddfwriaeth arfaethedig nad oedd yn glir ynglŷn ag i bwy y byddai'r gyfraith yn berthnasol, pwy fyddai yn ei gorfodi a beth fyddai canlyniadau ei thorri. Nid yw hynny'n densiwn rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Mesur a'r hyn a gaiff ei gynnwys yn y rheoliadau; mae'r wybodaeth honno'n cynrychioli conglfeini deddfwriaeth sylfaenol a ddylai fod ar wyneb y Bil, sef i bwy y mae'n berthnasol, pwy fydd yn ei orfodi a beth fyddai'r canlyniadau os na chaiff camau penodol eu cymryd. Nid yw'r rhain yn bethau eithafol i ofyn iddynt gael eu cynnwys ar wyneb deddfwriaeth a gynigir gan y Llywodraeth. I mi, o'r holl faterion yr ydych wedi sôn amdanynt heddiw, dyma'r materion yr hoffwn gael sicrwydd yn eu cylch. Rwy'n ofni nad yw'r datganiad hwn yn rhoi sicrwydd i mi fod y Llywodraeth yn cydnabod y pwynt hwn neu fod ganddi ffordd o sefydlu ei hegwyddorion ar gyfer drafftio'r hyn y gallwn edrych ymlaen ato yn y Cynulliad nesaf.

**John Griffiths:** Diolch, Kirsty, for welcoming my statement in general terms, though you have also expressed matters of concern to you.

**John Griffiths:** Diolch, Kirsty, am groesawu fy natganiad yn gyffredinol, er eich bod hefyd wedi mynegi materion sy'n peri pryder i chi.

I will start by addressing the fundamental point that legislation should only be embarked upon and produced if it is clearly necessary. That is a basic point in terms of what is and is not good legislative practice. Regarding Green and White Papers, which you welcomed, Green Papers in particular deal with the very early stages of policy development and thinking. Consultation on Green Papers is open to external stakeholders and the general public to make points, including whether they think that the policies being suggested or outlined need legislation to take them forward. That could help to address some of those issues at a very early stage. Later on, the Government uses internal processes to determine whether legislation is required. The Cabinet committee on legislation addresses the need for legislation, and there are internal guidelines for officials

Rwyf am ddechrau drwy drafod y pwynt sylfaenol y dylid ond cychwyn ar ddeddfwriaeth a'i llunio os yw'n amlwg ei bod yn angenrheidiol. Mae hynny'n bwynt sylfaenol o ran yr hyn sy'n arfer deddfwriaethol da a'r hyn nad yw'n arfer deddfwriaethol da. O ran Papurau Gwyrdd a Gwyn, y gwnaethoch eu croesawu, mae Papurau Gwyrdd yn ymdrin yn benodol â'r camau cynnar o ystyried a datblygu polisi. Gall rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd wneud pwyntiau am y broses o ymgynghori ar Bapurau Gwyrdd, gan gynnwys a ydynt yn credu bod angen deddfwriaeth ar gyfer polisïau a awgrymir neu a amlinellwyd er mwyn bwrw ymlaen â hwy. Gallai hynny helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hynny yn gynnar iawn. Yn ddiweddarach, mae'r Llywodraeth yn defnyddio prosesau mewnol i benderfynu a oes angen

that Ministers would bear in mind. This is fundamental, and it is something that we need to be ever-mindful of.

deddfwriaeth. Mae pwyllgor y Cabinet ar ddeddfwriaeth yn mynd i'r afael â'r angen am ddeddfwriaeth, a cheir canllawiau mewnol ar gyfer swyddogion y byddai Gweinidogion yn eu cadw mewn cof. Mae hyn yn sylfaenol, ac mae'n rhywbeth y mae angen inni ei ystyried o hyd.

On the length of time taken for scrutiny, Stage 1 scrutiny has taken an average of eight to 10 weeks during this Assembly, and that is the sort of time that we would be looking to allow for in future. This period might at times be shorter or longer, and it will always depend on the particular merits of the legislation proposed, and that must be right. I said earlier that there are always inevitable tensions between Executives and legislatures around what is an appropriate shortening of timetables and what is not, and whether the reasons behind that are valid or not. I also said that I do not suggest for one minute that I am going to somehow solve all of those tensions with what I have outlined today. However, I hope that we will address them to a large extent and lessen those inevitable tensions as we move forward.

O ran yr amser a gymerwyd ar gyfer craffu, mae'r craffu Cyfnod 1 wedi cymryd wyth i 10 wythnos ar gyfartaledd yn ystod y Cynulliad hwn, a dyna'r math o amser y byddem yn edrych i'w ganiatáu ar ei gyfer y dyfodol. Efallai y bydd y cyfnod hwn ar adegau yn fyrrach neu'n hirach, a bydd bob amser yn dibynnu ar rinweddau penodol y ddeddfwriaeth a gynigir, ac mae'n rhaid i hynny fod yn iawn. Dywedais yn gynharach y bydd bob tro'n anochel bod tensiynau rhwng Gweithrediadau a deddfwrfeydd ynghylch beth sy'n briodol o ran byrhau amserlenni, ac a yw'r rhesymau y tu ôl i hynny yn ddilys ai peidio. Dywedais hefyd nad wyf yn awgrymu am funud fy mod rywsut yn mynd i ddatrys yr holl densiynau hynny gyda'r hyn yr wyf wedi'i amlinellu heddiw. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio y byddwn yn mynd i'r afael â hwy i raddau helaeth a lleihau'r tensiynau hynny sy'n anochel wrth inni symud yn ein blaen.

Regarding the criteria for different methods of scrutinising subordinate legislation, I will publish guidance on the methods that should be used. I think that it is right that we do so, and that is what should happen. We also want to be as transparent as possible about drafting methods and principles, and that is something that we will also look at. When it comes to what is on the face of a Measure and what is dealt with in regulation, as I said earlier, this is something on which the views of the legislature and the Executive often differ

O ran y meini prawf ar gyfer y gwahanol ddulliau o graffu ar is-ddeddfwriaeth, byddaf yn cyhoeddi canllawiau ar y dulliau y dylid eu defnyddio. Rwy'n credu ei bod yn iawn inni wneud hynny, a dyna beth ddylai ddigwydd. Rydym hefyd yn awyddus i fod mor dryloyw â phosibl ynghylch drafftio dulliau ac egwyddorion, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn edrych arno hefyd. Wrth sôn am yr hyn sydd ar wyneb Mesur a'r hyn yr ymdrinnir ag ef mewn rheoliadau, fel y dywedais yn gynharach, mae hwn yn fater y mae gan y ddeddfwrfa a'r Weithrediaeth farn wahanol amdano yn aml.

3.15 p.m.

However, we know that there are methods of providing enhanced scrutiny for regulations. There is the superaffirmative procedure, for example. There is also the process that I mentioned earlier, of having pre-legislative scrutiny by committee, which will be a considerable step forward as well. Those will

Fodd bynnag, gwyddom fod dulliau ar gael o gynnal gwaith craffu gwell mewn perthynas â rheoliadau. Ceir y weithdrefn uwchgadarnhaol, er enghraifft. Yn ogystal, mae'r broses a grybwyllais eisoes, sef bod gwaith craffu cyn-ddeddfwriaethol yn cael ei wneud gan bwyllgor, a bydd hynny hefyd yn

be valuable in addressing such issues, but, ultimately, we want to get as much on the face of Bills and Acts as is possible and practicable, because that is preferable.

gam sylweddol ymlaen. Bydd y camau hyn yn werthfawr wrth fynd i'r afael â materion o'r fath. Yn y pen draw, fodd bynnag, rydym am gael cymaint ar wyneb Biliau a Deddfau ag sy'n bosibl ac yn ymarferol, gan y bydd hynny'n fwy dymunol.

**Janet Ryder:** I warmly welcome the statement by the Counsel General today. The Constitutional Affairs Committee has called for it for some time and we have been happy to talk to the Counsel General as he has undertaken his consultation. Certainly, a number of the issues that he has raised in the statement today touch on my committee's recommendations, such as the use of Green and White Papers; the extended time for consultation; greater involvement in consultation and the improved use of memoranda of understanding. All of that has come forward from the committee, and I very much look forward to the next Assembly to see how the Government intends to develop that in the way in which it introduces legislation. It is very apt that this statement should be coming through at this time.

**Janet Ryder:** Croesawaf yn gynnes y datganiad a wnaed heddiw gan y Cwnsler Cyffredinol. Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn galw am y datganiad hwn ers tro, a buom yn hapus i siarad â'r Cwnsler Cyffredinol wrth iddo gynnal ei ymgynghoriad. Yn sicr, mae nifer o'r materion a godwyd ganddo yn y datganiad heddiw yn berthnasol i argymhellion fy mhwyllgor, gan gynnwys y defnydd a wneir o Bapurau Gwyrdd a Phapurau Gwyn; yr amser estynedig ar gyfer ymgynghori; cynyddu cyfranogiad mewn ymgynghori; a defnyddio memoranda cyd-ddealltwriaeth yn well. Codwyd y materion hyn i gyd gan y pwyllgor, ac rwyf yn edrych ymlaen at weld sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu datblygu'r materion hyn wrth gyflwyno deddfwriaeth yn y Cynulliad nesaf. Mae'n addas iawn y cafodd y datganiad hwn ei wneud yn ystod y cyfnod hwn.

The Minister has mentioned, when answering other points that have been raised, some of the concerns that we have noticed as a committee over the first three years. One of the main concerns that came through very clearly was that legislation was perhaps being drawn up first and that policy was being developed afterwards. In fact, the Wales Governance Centre said in its evidence to us that it was as if the law was drafted first before any policy was defined. That is not an enviable position for a Government to be in. That evidence was also echoed by other people who gave evidence to the committee. I very much hope that this system that you are going to introduce of developing Green Papers and then a White Paper will mean that, if you get to this stage at the end of the next Assembly, no-one should be able to level that criticism at the Assembly Government.

Wrth ateb pwyntiau eraill a godwyd, nododd y Gweinidog rai o'r pryderon a ddaeth i sylw'r pwyllgor dros y tair blynedd gyntaf. Un o'r prif bryderon a ddaeth i'r amlwg yn glir iawn oedd y ffaith bod deddfwriaeth efallai'n cael ei llunio yn gyntaf, a bod polisïau'n cael eu datblygu ar ôl hynny. Yn wir, dywedodd Canolfan Llywodraethiant Cymru yn ei thystiolaeth i ni fod y sefyllfa bresennol fel pe bai'r gyfraith yn cael ei drafftio cyn bod unrhyw bolisi'n cael ei ddiffinio. Nid yw hynny'n sefyllfa ddelfrydol i'r Llywodraeth fod ynddi. Cafodd y dystiolaeth honno ei hategu hefyd gan bobl eraill a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor. Gobeithiaf yn fawr y bydd y system y byddwch yn ei chyflwyno, sef system o ddatblygu Papurau Gwyrdd ac yna Papurau Gwyn, yn golygu, os byddwch yn cyrraedd y cam hwn ar ddiwedd y Cynulliad nesaf, ni ddylai unrhyw un allu beirniadu Llywodraeth y Cynulliad yn y modd hwnnw.

You have talked about the difference between a Green Paper and a White Paper. Are we to presume therefore that there will be

Rydych wedi sôn am y gwahaniaeth rhwng Papur Gwyrdd a Phapur Gwyn. A allwn gymryd, felly, y bydd ymgynghori ar bolisi,

consultation on policy and that we will see Government policy clearly before we see the White Paper and any legislation that might come out of that? What stages will that go through? Further on, you talk about the use of explanatory memoranda; in the case of the local government Measure, the explanatory memorandum was held up as an example of very good practice. Unfortunately, as Kirsty Williams outlined, a number of significant concerns were raised regarding that legislation. I am very interested in the part of your statement in which you say that you have commissioned guidance, to be prepared for adoption and publication by the next Assembly Government, on the criteria used to determine the appropriate procedure for the scrutiny of subordinate legislation. Also, when answering questions today, you said that guidance is already in place for the Cabinet committee to consider when it considers any amendments that might be brought forward and legislation as it is published. That is what I have taken from what you have said, but I would welcome some clarification on that.

ac y byddwn hefyd yn gweld polisi'r Llywodraeth yn glir cyn inni weld y Papur Gwyn ac unrhyw ddeddfwriaeth a allai ddeillio ohono? Pa gamau a gaiff eu cymryd yn y broses honno? Soniasoch hefyd am y defnydd a wneir o femoranda esboniadol; yn achos y Mesur llywodraeth leol, cyfeiriwyd at y memorandwm esboniadol fel enghraifft o arfer da iawn. Yn anffodus, fel yr amlinellodd Kirsty Williams, codwyd nifer o bryderon sylweddol ynghylch y ddeddfwriaeth honno. Mae gennyf ddiddordeb mawr yn y rhan honno o'ch datganiad lle dywedasoch eich bod wedi comisiynu canllawiau, i'w paratoi er mwyn cael eu mabwysiadu a'u cyhoeddi gan Lywodraeth nesaf y Cynulliad, ar y meini prawf a ddefnyddir i bennu'r weithdrefn briodol ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth. Hefyd, wrth ateb cwestiynau heddiw, dywedasoch fod canllawiau eisoes ar gael i bwyllgor y Cabinet i'w hystyried pan fydd y Cabinet yn ystyried unrhyw welliannau a allai gael eu cyflwyno, a deddfwriaeth wrth iddi gael ei chyhoeddi. Dyna fy nealltwriaeth o'r hyn a ddywedasoch, ond byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurhad ar hynny.

I am sure you will be aware that the committee has published a further report on the local government Measure, and the first of the recommendations in that report is that the Government looks at the Cabinet Office guidance to making legislation that is used in Westminster, and that it draws up and publishes, as a matter of urgency, its own guidance on those matters, including procedural advice to departments on the introduction of amendments after the initial introduction of a Measure. With the new era that the Assembly is moving into, it will be crucial that the Assembly Government, and the people who draw up those Measures, know clearly what the ground rules are. It would be only right and proper in an Assembly that has praised itself on being open and accessible to the people that it serves, that you publish those guidelines so that people outside can judge what is happening within this Government. I would welcome some explanation on those words in your statement. What is that further consideration; what is that further guidance that you will draw up, and would it reflect that in any way? I also look forward to

Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol bod y pwyllgor wedi cyhoeddi adroddiad pellach ar y Mesur llywodraeth leol. Yr argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad hwnnw yw bod y Llywodraeth yn edrych ar ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwneud deddfwriaeth—canllawiau sy'n cael eu defnyddio yn San Steffan—a'i bod yn llunio ac yn cyhoeddi, ar fyrder, ei chanllawiau ei hun ar y materion hynny, gan gynnwys cyngor gweithdrefnol i adrannau ar sut i gyflwyno gwelliannau wedi i Fesur gael ei gyflwyno. Gan fod y Cynulliad ar drothwy cyfnod newydd, bydd yn hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru, a'r bobl sy'n llunio'r Mesurau hynny, ddealltwriaeth glir o'r rheolau sylfaenol. Byddai ond yn iawn ac yn briodol, mewn perthynas â Chynulliad sydd wedi canmol ei hun am fod yn agored ac yn hygyrch i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu, eich bod yn cyhoeddi'r canllawiau hynny fel y gall pobl sydd ar y tu allan farnu beth sy'n digwydd o fewn y Llywodraeth hon. Byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurhad ynghylch y geiriau hynny yn eich datganiad. Beth yw natur yr ystyriaeth bellach honno; pa ganllawiau pellach y byddwch yn eu llunio;

welcoming you to committee on Thursday, when we will be able to question you in more depth on this statement, as well as on other matters, I am sure.

ac a fyddai'r canllawiau'n adlewyrchu hynny mewn unrhyw ffordd? Edrychaf ymlaen hefyd at eich croesawu i'r pwyllgor ddydd Iau, pan gawn gyfle i'ch holi'n fanylach ar y datganiad hwn, yn ogystal ag ar faterion eraill, rwy'n siŵr.

**John Griffiths:** The work of the Constitutional Affairs Committee has complemented the work of my review; I am sure that there is much common ground between the two. You are right to say that it will be for the next Assembly, and the next Assembly Government, to decide how to take these matters forward. We need clear thinking as to whether legislation is appropriate, and, if it is decided that it is, it has to be clear what the purpose of the legislation is. We know that the drafters need clear advice from officials as to what legislation is intended to achieve, and legislation, and the legislative process, works best where there is early engagement between drafters, other officials and Ministers, and where they work together as a team in taking that legislation forward. That is one thing that we have learned from the first four years.

**John Griffiths:** Mae gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi ategu gwaith fy adolygiad; rwy'n siŵr bod llawer o dir cyffredin rhwng y ddau. Rydych yn iawn i ddweud y bydd yn fater i'r Cynulliad nesaf, ac i Lywodraeth nesaf y Cynulliad, benderfynu sut i symud y materion hyn yn eu blaenau. Mae angen meddwl yn glir a yw deddfwriaeth yn briodol, ac, os penderfynir ei bod yn briodol, rhaid cael eglurder ynghylch diben y ddeddfwriaeth honno. Gwyddom fod angen cyngor clir ar y drafftwyr gan swyddogion ynghylch pa ddeddfwriaeth y bwriedir ei chyflawni. Mae deddfwriaeth, a'r broses ddeddfwriaethol, yn gweithio orau lle ceir ymgysylltu cynnar rhwng drafftwyr, swyddogion eraill a Gweinidogion, a lle maent yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth honno. Dyna un peth yr ydym wedi'i ddysgu o'r pedair blynedd gyntaf.

Green Papers will be much more about early ideas for policy development, whereas a White Paper is much more about actual proposals for legislation. Green Papers and White Papers will feature where appropriate and practicable. Draft Bills are also an important part of getting the sort of quality process that we both believe is desirable.

Bydd Papurau Gwyrdd yn canolbwyntio llawer mwy ar syniadau cynnar o ran datblygu polisi, tra bydd Papurau Gwyn yn canolbwyntio llawer mwy ar wybodaeth am gynigion deddfwriaethol. Bydd Papurau Gwyrdd a Phapurau Gwyn yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol. Mae Biliau drafft hefyd yn rhan bwysig o gael y math hwnnw o broses safonol y dymuna'r ddau ohonom ei gweld.

On the guidance for the criteria to be used for subordinate legislation, as I said earlier, we are happy to publish that guidance, and that is what that guidance will deal with. Regarding what I mentioned about the Cabinet committee on legislation, it was about the introduction of Measures; in future, it will be about the introduction of Bills. We need to consider procedures further when it comes to amendments, particularly perhaps the late introduction of amendments, namely the fact that they can feature. We need to get the ground rules clear, and much of what I have mentioned today is about doing just that.

O ran y canllawiau sy'n ymwneud â'r meini prawf a gaiff eu defnyddio ar gyfer is-ddeddfwriaeth, fel y dywedais eisoes, rydym yn hapus i gyhoeddi'r canllawiau hynny, a bydd y canllawiau'n ymdrin â hynny. O ran yr hyn a ddywedais am bwyllgor y Cabinet ar ddeddfwriaeth, roeddwn yn sôn am gyflwyno Mesurau; yn y dyfodol, bydd hyn yn ymwneud â chyflwyno Biliau. Bydd angen inni roi ystyriaeth bellach i weithdrefnau sy'n ymwneud â gwelliannau, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno gwelliannau hwyr, sef y ffaith bod hynny'n gallu digwydd. Mae angen inni gael eglurder ar y rheolau sylfaenol, ac mae llawer o'r hyn yr wyf wedi

sôn amdano heddiw yn ymwneud â sicrhau hynny.

**Mark Isherwood:** You will be aware that I chair the legislation committee that scrutinised the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, which Andrew Davies referred to. I share his view that it was a positive experience. We have also scrutinised several other proposed Measures, including those relating to social care charges and carers' strategies, again following due process. In other words, in addition to public consultation, we have had an opportunity to take evidence from the relevant Minister and from a series of relevant stakeholders and organisations that have an interest in the issue, and then to bring the Minister back for a further scrutiny session in relation to the issues and the concerns that they may have raised, before we produce our report and recommendations. However, in the current haste to move towards concluding legislation before dissolution, we have had to consider one Measure, where the only opportunity to scrutinise it in the committee was one session with the relevant Minister.

**Mark Isherwood:** Byddwch yn ymwybodol fy mod yn cadeirio'r pwyllgor deddfwriaeth a graffodd ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), sef y Mesur arfaethedig y cyfeiriodd Andrew Davies ato. Rwyf yn rhannu ei farn y bu'r broses honno yn brofiad cadarnhaol. Rydym wedi craffu ar sawl Mesur arfaethedig arall hefyd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â thaliadau gofal cymdeithasol a strategaethau ar gyfer gofalwyr, gan ddilyn y broses briodol yn yr un modd. Mewn geiriau eraill, yn ogystal â gwneud gwaith ymgynghori cyhoeddus, cawsom gyfle i glywed tystiolaeth gan y Gweinidog perthnasol a chyfres o randdeiliaid a sefydliadau perthnasol sydd â diddordeb yn y mater, ac yna cawsom gyfle i ddod â'r Gweinidog yn ôl am sesiwn graffu bellach mewn perthynas â'r materion a'r pryderon a godwyd ganddynt, cyn cael cyfle i lunio ein hadroddiad a'n hargymhellion. Fodd bynnag, wrth frysio i geisio cwblhau deddfwriaeth cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu, bu'n rhaid inni ystyried un Mesur lle cawsom un cyfle yn unig i graffu arno yn y pwyllgor mewn sesiwn gyda'r Gweinidog perthnasol.

I do not wish to talk about legislation, as that is not a matter for this statement. However, what assurances can you provide that the Assembly, in whatever shape or form it finds itself in the future, will not be put in the position of having to scrutinise proposed legislation in such a way? Finally, and briefly, on merit scrutiny—and not considering the purpose of the legislation, whether we agree or disagree with it—can it achieve what it seeks, and does it do what it says on the tin? What proposals do you have to address the need to focus on that merit issue?

Nid wyf yn dymuno sôn am ddeddfwriaeth, gan nad yw hwnnw'n fater sy'n berthnasol i'r datganiad hwn. Fodd bynnag, pa sicrwydd y gallwch ei roi na fydd y Cynulliad, ar ba bynnag ffurf y bydd yn gweithredu yn y dyfodol, yn cael ei roi mewn sefyllfa o orfod craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig yn y fath fodd? Yn olaf, ac yn fyr, o ran craffu ar sail rhagoriaeth—ac heb ystyried diben y ddeddfwriaeth, pa un a ydym yn cytuno neu'n anghytuno â hi—a yw'n bosibl iddo gyflawni'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni, ac a yw'n gwneud yr hyn y dylai ei wneud? Pa gynigion sydd gennych o ran mynd i'r afael â'r angen i ganolbwyntio ar y mater o graffu ar sail rhagoriaeth?

**John Griffiths:** It is difficult to give any guarantees and assurances in terms of the competing views of the legislature and the Executive. I have mentioned that several times already, because that is the reality when it comes to taking legislation forward in parliaments and assemblies. There will

**John Griffiths:** Mae'n anodd rhoi unrhyw warantau a sicrwydd o ran y safbwyntiau sy'n cystadlu rhwng y ddeddfwrfa a'r Weithrediaeth. Rwyf wedi sôn am hynny sawl gwaith eisoes, gan mai dyna'r realiti o ran cyflwyno deddfwriaeth mewn seneddau a chynulliadau. Bydd materion yn codi bob

always be issues there, and I am sure that we will discuss them many times in the future. However, much of what I have described today will help to reduce, and, to some extent, resolve those tensions and difficulties, including the ones that you have described.

amser, ac rwyf yn siŵr y byddwn yn eu trafod droeon yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd llawer o'r hyn yr wyf wedi'i ddisgrifio heddiw yn helpu i leihau a datrys, i ryw raddau, y tensiynau ac anawsterau hynny, gan gynnwys y rhai yr ydych wedi'u disgrifio.

Whether legislation achieves what it sets out to do is fundamental. As I have said in response to Janet and others, what we seek to do—through our internal processes within Government and our external-facing processes, which I have mentioned today—is to ensure that legislation achieves what it is intended to achieve. If we get the drafters working with officials and Ministers from an early stage, and if we have had extensive external consultation through Green Papers, White Papers and draft Bills, then I am confident that we will make big improvements and that our legislation will be fit for purpose.

Mae ystyried a yw deddfwriaeth yn cyflawni'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni yn fater hanfodol. Fel y dywedais wrth ymateb i Janet ac eraill, yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud—drwy ein prosesau mewnol o fewn y Llywodraeth a'n prosesau allanol, sef y prosesau y soniais amdanynt eisoes heddiw—yw sicrhau bod deddfwriaeth yn cyflawni'r hyn y bwriedir ei gyflawni. Os byddwn yn sicrhau bod y drafftwyr yn gweithio gyda swyddogion a Gweinidogion yn gynnar yn y broses, ac os ydym wedi ymgynghori'n helaeth yn allanol drwy ddefnyddio Papurau Gwyrdd, Papurau Gwyn a Mesurau drafft, rwyf yn hyderus y byddwn yn gwneud gwelliannau mawr ac y bydd ein deddfwriaeth yn addas i'r diben.

**Brian Gibbons:** Two of the characteristics of the Assembly are that we are a small legislature in terms of the number of people who sit here, and that we are a fixed-term legislative body. I think that your suggestion that we plan a four-year programme is quite right, and I think that that should contribute to getting rid of the ridiculously short timetables that we face during the legislative process—particularly the timetable between laying and considering amendments. Sometimes it is less than a couple of weeks. Apart from the challenge that that poses to Assembly Members, it places an even more formidable challenge to civil society in Wales to keep itself up to date on the amendments as they are printed, then to consider those amendments through its own networks and then feed that back into the Assembly. Therefore, we have to make a virtue of the fact that we have a four-year term and that we are a small body. The Cheltenham Festival is being held this week, but we are not in a race. We have to compromise time and the speed at which we get things done, for quality. I think that we can do that.

**Brian Gibbons:** Dwy o nodweddion y Cynulliad yw ein bod yn ddeddfwrfa fach o ran nifer y bobl sy'n eistedd yma, a'n bod yn gorff deddfwriaethol sydd â thymhorau penodol. Credaf fod eich awgrym ein bod yn cynllunio rhaglen bedair blynedd yn gwbl gywir, ac rwyf yn credu y dylai'r broses honno gyfrannu at gael gwared ar yr amserlenni chwerthinllyd o fyr yr ydym yn eu hwynebu yn ystod y broses ddeddfwriaethol—yn enwedig yr amser rhwng cyflwyno ac ystyried gwelliannau. Weithiau, mae'r cyfnod hwn yn llai na phythefnos. Ar wahân i'r her y mae'r sefyllfa honno'n ei pheri i Aelodau'r Cynulliad, mae'n arwain at her sydd hyd yn oed yn fwy arswydus i gymdeithas sifil yng Nghymru, o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwelliannau wrth iddynt gael eu hargraffu, ac yna ystyried y gwelliannau hynny drwy ei rhwydweithiau ei hun a bwydo unrhyw adborth yn ôl i'r Cynulliad. Felly, mae'n rhaid inni wneud y ffaith bod gennym gyfnod o bedair blynedd, a'r ffaith ein bod yn gorff bach, yn rhinwedd. Mae Gŵyl Cheltenham yn cael ei chynnal yr wythnos hon, ond nid ydym mewn ras. Mae'n rhaid inni gyfaddawdu o ran amser, a pha mor gyflym rydym yn gwneud pethau, at ddibenion ansawdd. Credaf y gallwn wneud hynny.

I do not know whether the former First Minister is speaking on this subject, but I would like to reiterate what my colleague Andrew Davies said. I was surprised to hear on the Radio 4 programme that there was no book of statute law in Wales. I strongly support Andrew's comment on that. I think that that is much needed. I do not know whether it needs to be done in-house, but that book of statute law in Wales needs to be kept on a statutory basis and it cannot be left to the goodwill of any institution—even when its motives are good, as in the case of Cardiff University.

Ni wn a yw'r cyn Brif Weinidog yn siarad ar y pwnc hwn, ond hoffwn ailadrodd yr hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod, Andrew Davies. Roeddwn yn synnu i glywed ar y rhaglen Radio 4 honno nad oes llyfr cyfraith statud yng Nghymru. Rwyf yn cefnogi'n gryf sylwadau Andrew ar y mater hwnnw. Credaf fod angen hynny'n fawr. Ni wn a oes angen gwneud hyn yn fewnol, ond mae angen cadw'r llyfr hwnnw o gyfraith statud yng Nghymru ar sail statudol, ac ni ellir gadael y mater hwn i ewyllys da unrhyw sefydliad—hyd yn oed pan fydd ei gymhellion yn dda, fel sy'n wir yn achos Prifysgol Caerdydd.

My final point is on an issue that other people have raised, namely the fact that so much legislation has been of framework nature. I will not go into the wider philosophical issues, but sitting on the Finance Committee, one of the things that worried me was that we were never in a position to evaluate properly the financial cost. We could see where the secondary legislation was potentially going to incur a cost, but we could not scrutinise that cost, because the details were absent. As part of your final deliberations on this, could a mechanism be introduced by which a red flag could be attached to particular secondary legislation that is likely to incur financial cost, either for the Assembly or to civil society? If this red flag is attached to that piece of legislation, then it will have to have a special route for separate consideration from the financial deliberations, rather than it going through on the nod simply because we, as a legislature, can struggle at times to completely monitor all the legislation that we have to scrutinise.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â mater y mae pobl eraill wedi'i godi, sef y ffaith y bu cymaint o ddeddfwriaeth ar ffurf fframwaith. Nid wyf am grybwyll materion athronyddol ehangach, ond fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid, un o'r pethau a oedd yn fy mhoeni oedd y ffaith nad oeddem byth mewn sefyllfa i werthuso costau ariannol mewn modd priodol. Gallem weld lle'r oedd yr is-ddeddfwriaeth yn debygol o beri cost, ond ni allem graffu ar y gost honno, yn absenoldeb y manylion priodol. Fel rhan o'ch trafodaethau terfynol ar y mater hwn, a fyddai'n bosibl cyflwyno dull lle gallai baner goch gael ei hatodi i is-ddeddfwriaeth benodol a fyddai'n debygol o beri cost ariannol, naill ai i'r Cynulliad neu i gymdeithas sifil? Pe bai gan ddarn o ddeddfwriaeth faner goch ynghlwm wrthi, byddai'n rhaid cael llwybr arbennig i'w hystyried a fyddai ar wahân i'r trafodaethau ariannol cyffredinol, yn hytrach na bod y ddeddfwriaeth yn cael ei phasio heb drafodaeth oherwydd ein bod ni, fel deddfwrfa, yn cael trafferth ar adegau i fonitro'r holl ddeddfwriaeth y mae'n rhaid inni graffu arni yn gyfan gwbl.

**John Griffiths:** Thank you for you general welcome and your welcome for the four-year programme. I think that having a four-year programme will do much to address some of the issues that we have had regarding the shoe-horning of the discussion of amendments and legislation into a rather restricted period of time, because it will enable forward planning and a more rational way of dealing with legislation. Therefore, I hope that that will be valuable. As you mentioned, it will also aid the engagement of

**John Griffiths:** Diolch ichi am eich croeso cyffredinol, ac am groesawu'r rhaglen bedair blynedd. Credaf y bydd cael rhaglen bedair blynedd yn gwneud llawer i fynd i'r afael â rhai o'r materion sydd wedi codi ynghylch cywasgu'r drafodaeth ar welliannau a deddfwriaeth i gyfnod cyfyngedig o amser, gan y bydd yn arwain at broses o flaengynllunio ac at ffordd fwy rhesymegol o ymdrin â deddfwriaeth. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n werthfawr. Fel y soniasoch, bydd hefyd yn helpu mewn

external stakeholders, which is extremely important.

perthynas ag ymgysylltiad rhanddeiliaid allanol, sy’n eithriadol o bwysig.

3.30 p.m.

With regard to quality and timeliness, I agree that it is not a trade-off, setting one against the other. We need to ensure that both feature strongly in our legislation. That is what we seek to achieve with the changes that I have mentioned today.

O ran ansawdd ac amseroldeb, rwyf yn cytuno nad yw’n sefyllfa o flaenoriaethu un ar draul y llall. Mae angen inni sicrhau bod y ddwy elfen hyn yn nodweddion cryf o’n deddfwriaeth. Dyna beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy’r newidiadau yr wyf wedi sôn amdanynt heddiw.

There is no doubt that the framework nature of legislation has caused considerable concern for the reasons that you mentioned, Brian, and for other reasons mentioned by other Members today and at other times, including during committee scrutiny. So, we need to address those concerns and try to ensure that as much as possible is on the face of Bills, as there will be. Where it is necessary to have a framework approach, we must also ensure that there are appropriate processes to provide adequate and proper scrutiny of subordinate legislation. There are enhanced procedures, such as the affirmative procedure, the superaffirmative procedure and the proposal that I mentioned earlier to have pre-legislative consideration of subordinate legislation by committee. Perhaps those procedures would be appropriate where there are the financial implications that you mentioned to subordinate legislation. That would be one part of the criteria for ensuring that the enhanced procedure is used. I would be very happy to look at that, Brian.

Nid oes amheuaeth bod natur fframwaith y ddeddfwriaeth wedi peri cryn bryder am y rhesymau a grybwyllwyd gennych, Brian, ac am resymau eraill a grybwyllwyd gan Aelodau eraill heddiw ac ar adegau eraill, gan gynnwys yn ystod cyfnod craffu’r pwyllgorau. Felly, mae angen inni fynd i’r afael â’r pryderon hynny a cheisio sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael ei gynnwys ar wyneb Biliau, fel y bydd. Yn yr achosion hynny lle mae angen cael dull fframwaith, rhaid inni sicrhau hefyd bod prosesau priodol ar gyfer darparu gwaith craffu digonol a phriodol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth. Mae gweithdrefnau gwell ar gael, megis y weithdrefn gadarnhaol, y weithdrefn uwchgadarnhaol a’r cynnig y soniais amdano eisoes, sef cael system lle mae pwyllgor yn craffu ar is-ddeddfwriaeth cyn y broses ddeddfu. Efallai y byddai’r gweithdrefnau hynny’n briodol lle byddai gan is-ddeddfwriaeth oblygiadau ariannol, sef yr achosion a grybwyllwyd gennych. Byddai hynny’n un rhan o’r meini prawf ar gyfer sicrhau bod y weithdrefn well yn cael ei defnyddio. Byddwn yn hapus iawn i edrych ar hynny, Brian.

Finally, I agree with what you and Andrew said about the Welsh book of statute law. Whatever method we find of enshrining that and putting it on a more solid and permanent basis, I agree very much that it is something that we should do.

Yn olaf, cytunaf â’r hyn a ddywedwyd gennych chi ac Andrew am gael llyfr o gyfraith statud yng Nghymru. Pa bynnag ddull y byddwn yn ei ganfod i ymgorffori’r gyfraith honno a’i rhoi ar sail fwy cadarn a pharhaol, rwyf yn cytuno’n fawr iawn bod hyn yn rhywbeth y dylem ei wneud.

**Helen Mary Jones:** Other Members have mentioned some of the issues that I wanted to raise, so I will not reiterate those. Does the Counsel General agree that the main lesson from our legislative experiences over the past four years was how complex and wasteful the

**Helen Mary Jones:** Mae Aelodau eraill wedi sôn am rai o’r materion yr oeddwn am eu codi, ac nid wyf am eu hailadrodd. A yw’r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno mai’r brif wers a ddysgwyd gennym yn sgîl ein profiadau deddfwriaethol dros y pedair

old LCO system was? I know that he is as pleased as I am that the next Welsh Government will be able to bring forward its legislative programme without one hand tied behind its back and one eye on the other end of the M4. Does the Counsel General agree that some of the issues that Members have raised about the timescale for the scrutiny of proposed Measures being too short arise directly from the complexities of the previous procedures?

blynedd diwethaf yw pa mor gymhleth a gwastraffus oedd yr hen system LCO? Gwn ei fod yn falch, fel yr wyf innau, o’r ffaith y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn gallu cyflwyno ei rhaglen ddeddfwriaethol heb gael un llaw wedi’i chlymu y tu ôl i’w chefn ac un llygad yn syllu ar ben arall yr M4. A yw’r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno bod rhai o’r materion a godwyd gan yr Aelodau ynghylch y ffaith bod yr amserlen ar gyfer craffu ar Fesurau arfaethedig yn rhy fyr yn deillio’n uniongyrchol o gymhlethdod y gweithdrefnau blaenorol?

Like others, I very much welcome the idea of a four-year legislative programme. I think that it will enable more effective planning. However, I ask the Counsel General to assure us that that programme would be flexible enough to enable the Government to respond to changing circumstances, were that necessary. I am thinking of something like an animal health crisis, as we faced with foot and mouth disease, when new legislation might need to brought in at short notice.

Fel Aelodau eraill, rwyf yn croesawu’r syniad o gael rhaglen ddeddfwriaethol pedair blynedd. Credaf y byddai hyn yn hwyluso gwaith cynllunio mwy effeithiol. Fodd bynnag, gofynnaf i’r Cwnsler Cyffredinol roi sicrwydd inni y byddai’r rhaglen honno’n ddigon hyblyg i alluogi’r Llywodraeth i ymateb i amgylchiadau newidiol, pe bai angen iddi wneud hynny. Rwyf yn cyfeirio at ddigwyddiad fel argyfwng iechyd anifeiliaid, fel yr achos o glwy’r traed a’r genau y gwnaethom ei wynebu, pan fyddai angen cyflwyno deddfwriaeth newydd ar fyr rybudd, o bosibl.

Finally, I welcome very much what the Counsel General has said about the Green and White Paper process and improved stakeholder engagement. I ask the Counsel General to confirm today that he will recommend to the next Welsh Government, in keeping with the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, which others have mentioned, that among the stakeholders to be consulted about laws that will affect them—and, of course, all laws affect them one way or another—will be children and young people. Can he confirm that his Government will continue to seek innovative ways of consulting and involving children and young people in the legislative process?

Yn olaf, croesawaf yn fawr yr hyn a ddywedodd y Cwnsler Cyffredinol am y broses Papur Gwyrdd a Phapur Gwyn, ac am wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Gofynnaf i’r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau heddiw y bydd yn argymell i Lywodraeth nesaf Cymru, yn unol â’r Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), a grybwyllwyd gan eraill, y bydd plant a phobl ifanc ymhlith y rhanddeiliaid yr ymgynghorir â hwy mewn perthynas â’r cyfreithiau a fydd yn effeithio arnynt—wrth gwrs, mae pob deddf yn effeithio arnynt un ffordd neu’r llall. A all y Cwnsler Cyffredinol gadarnhau y bydd ei Lywodraeth yn parhau i chwilio am ffyrdd arloesol o ymgynghori a chynnwys plant a phobl ifanc yn y broses ddeddfwriaethol?

**John Griffiths:** Thank you very much for your welcome for the four-year programme and the Green and White Paper approach. You are absolutely right that the LCO process has been wasteful of time, energy, effort and resource. It has played a significant part in some of the difficulties with providing

**John Griffiths:** Diolch yn fawr am groesawu’r rhaglen pedair blynedd a’r dull Papur Gwyrdd a Phapur Gwyn. Rydych yn gwbl gywir y bu’r broses LCO yn wastraff amser, egni, ymdrech ac adnoddau. Mae’r broses hon wedi chwarae rhan sylweddol yn rhai o’r anawsterau a gafwyd wrth geisio

enough time for our legislation here to be properly scrutinised and considered. As you are, I am very pleased that we had a 'yes' vote in the referendum and that we are moving beyond that system. We will have to be flexible, of course, with regard to the four-year programme and the annual programme in order to deal with any crises, be they to do with animal health or human health. That flexibility is always necessary, and all of the changes and processes that I have described would be subject to that necessary flexibility.

neilltuo digon o amser i graffu ar ein deddfwriaeth a'i hystyried mewn modd priodol. Rwyf yn falch iawn, fel rydych chi, ein bod wedi cael pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ac yn falch ein bod yn symud y tu hwnt i'r system honno. Bydd yn rhaid inni fod yn hyblyg, wrth gwrs, o ran y rhaglen pedair blynedd a'r rhaglen flynyddol, er mwyn ymdrin ag unrhyw argyfyngau, boed hwy'n gysylltiedig ag iechyd anifeiliaid neu iechyd dynol. Mae'r hyblygrwydd hwnnw bob amser yn angenrheidiol, a byddai pob un o'r newidiadau a'r prosesau yr wyf wedi'u disgrifio yn amodol ar yr hyblygrwydd angenrheidiol hynny.

Finally, I am very pleased to agree with you about the need to maximise the engagement of external stakeholders and to continue what I think has been a very positive and impressive record for this Assembly and Assembly Government on engaging with children and young people. We will seek to ensure that that continues in the next Assembly.

Yn olaf, rwyf yn falch iawn i gytuno â chi am yr angen i wneud y mwyaf o ymgysylltiad rhanddeiliaid allanol ac i barhau â record y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad o ran ymgysylltu â phlant a phobl ifanc—record gadarnhaol a thrawiadol iawn, yn fy marn i. Byddwn yn ceisio sicrhau bod hynny'n parhau yn y Cynulliad nesaf.

## Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru) 2011
## Motion to Approve the Children Act 1989 Higher Education Bursary (Wales) Regulations 2011

*Cynnig NDM4686 Jane Hutt*

*Motion NDM4686 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 24.4:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2011.*

*Approves that the draft The Children Act 1989 (Higher Education Bursary) (Wales) Regulations 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 7 February 2011.*

**The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):** I move the motion.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Cynigiaf y cynnig.

**The Deputy Presiding Officer**: No Members wish to speak, and I see that the Minister does not have any further comment to make.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes unrhyw Aelod yn dymuno siarad, a gwelaf nad oes gan y Gweinidog unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud.

The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly,

none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is agreed.

yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Mewn Perthynas â’r Mesur Seneddol Ynghylch Diogelu Rhyddidau
## Legislative Consent Motion in Respect of the Protection of Freedoms Bill

*Cynnig NDM4680 Carwyn Jones*

*Motion NDM4680 Carwyn Jones*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Mesur Seneddol ynghylch Diogelu Rhyddidau i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.4, agrees that provisions of the Protection of Freedoms Bill in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

**The First Minister (Carwyn Jones):** I move the motion.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Cynigiaf y cynnig.

The consent motion refers to relevant provisions in this Bill in three specific areas where I feel that it would be expedient to allow the UK Government to legislate on our behalf. Briefly, the legislative provisions being sought are as follows. First, Chapter 2 of Part 1 of the Bill makes provision to regulate the use of children’s biometric information by placing a duty on schools and colleges to obtain written parental consent before any biometric information can be obtained from a child under the age of 18. Secondly, Chapter 5 of Part 2 of the Bill will make amendments to the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 to implement the outcome of the reviews of the vetting and barring scheme and the criminal records regime. Thirdly, Chapter 1 of Part 3 of the Bill makes provision in respect of powers to enter land or other premises. The provisions will enable Ministers to make Orders to repeal unnecessary powers of entry, to add safeguards in respect of the exercise of such powers, or to replace such powers with new powers subject to additional safeguards. Those are the items that are included in the legislative consent motion.

Mae’r cynnig cydsyniad yn cyfeirio at ddarpariaethau perthnasol yn y Bil hwn mewn tri maes penodol lle’r wyf yn teimlo y byddai’n fuddiol i ganiatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan. Yn fyr, mae’r darpariaethau deddfwriaethol a geisir fel a ganlyn. Yn gyntaf, mae Pennod 2 o Ran 1 o’r Bil yn gwneud darpariaeth i reoleiddio’r defnydd o wybodaeth fiometrig am blant drwy osod dyletswydd ar ysgolion a cholegau i gael caniatâd ysgrifenedig rhieni cyn y gellir cael unrhyw wybodaeth fiometrig oddi wrth blentyn o dan 18 oed. Yn ail, bydd Pennod 5 o Ran 2 o’r Bil yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006, a hynny er mwyn gweithredu canlyniadau adolygiadau o’r cynllun fetio a gwahardd a’r drefn cofnodion troseddol. Yn drydydd, mae Pennod 1 o Ran 3 o’r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phwerau i gael mynediad at dir neu adeiladau eraill. Bydd y darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion i wneud Gorchmynion i ddiddymu pwerau mynediad diangen, i ychwanegu mesurau diogelwch mewn perthynas â defnyddio’r pwerau hynny, neu i sicrhau bod pwerau newydd yn disodli pwerau o’r fath, yn amodol ar gael mesurau diogelu ychwanegol. Dyna’r eitemau sydd wedi’u cynnwys yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**Nick Bourne:** We are pleased to support this motion. The Government's Protection of Freedoms Bill marks the continuation of a struggle to claw back some freedoms that have been lost over the last 15 years. We particularly welcome moves to destroy DNA profiles for those not convicted of a crime, which seems entirely right to me, and also to redress the balance in relation to the detention of suspects. Clearly, there is a public interest in ensuring that there is an appropriate time during which terror suspects can be held, but I feel that the balance has gone too far in the other direction. We also welcome moves to better regulate closed-circuit television, which has a part to play in modern society, but continues to be used to an excessive degree. Therefore, on that basis, we welcome the legislative consent motion today and we will support it.

**Nick Bourne:** Rydym yn falch i gefnogi'r cynnig hwn. Mae Bil y Llywodraeth, sef y Bil Diogelu Rhyddidau, yn cynrychioli parhad y frwydr i adennill rhywfaint o'r rhyddid a gollwyd dros y 15 mlynedd diwethaf. Yn benodol, rydym yn croesawu camau i ddinistrio proffiliau DNA ar gyfer y rhai nad ydynt wedi'u collfarnu am droseddu, sy'n ymddangos i mi yn gam cwbl resymol, a hefyd i unioni'r cydbwysedd mewn perthynas â charcharu'r rheini sydd o dan amheuaeth. Yn amlwg, mae budd i'r cyhoedd o ran sicrhau bod cyfnod priodol lle gellir carcharu'r rheini sydd o dan amheuaeth am weithrediadau terfysgol, ond teimlaf fod y cydbwysedd wedi symud yn rhy bell i'r cyfeiriad arall. Yn ogystal, croesawn gamau i reoleiddio teledu cylch cyfyng yn well. Mae gan y systemau hyn ran i'w chwarae yn y gymdeithas fodern, ond maent yn parhau i gael eu defnyddio'n ormodol. Felly, ar y sail honno, rydym yn croesawu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw, a byddwn yn ei gefnogi.

**Mark Isherwood:** I fully endorse Nick's comments. The Protection of Freedoms Bill will protect millions of people from state intrusion into their private lives, and marks a return to commonsense Government. It delivers on the UK coalition Government's commitment to restore hard-won British liberties—and Welsh liberties—with sweeping reforms that will end the unnecessary scrutiny of law-abiding individuals. Among other things, DNA and the fingerprints of hundreds of thousands of innocent people will be deleted from police databases. Thousands of gay men will be able to clear their names of out-of-date convictions for consensual acts, and thousands of motorists will be protected from rogue wheel-clamping firms. As we heard from the First Minister, it also introduces a requirement relating to the biometric information held on schoolchildren, which is particularly welcome. Concerns have previously been raised with me regarding the introduction of biometric cashless catering systems in schools in some Welsh counties, despite growing evidence that these systems can be hacked into, and that data can be reconverted into a fingerprint, which could be misused if the data fell into the wrong hands.

**Mark Isherwood:** Ategaf sylwadau Nick yn gyfan gwbl. Bydd y Bil Diogelu Rhyddidau yn diogelu miliynau o bobl rhag ymyrraeth y wladwriaeth yn eu bywydau preifat, ac mae'r Bil yn cynrychioli'r ffaith ein bod yn dychwelyd i gael Llywodraeth sydd â synnwyr cyffredin. Mae'n cyflawni ymrwymiad Llywodraeth glymblaid y DU i adfer rhyddidau haeddiannol Prydeinig—a rhyddidau Cymreig—gan weithredu diwygiadau ysgubol a fydd yn dod â'r broses ddiangen o graffu ar unigolion sy'n parchu'r gyfraith i ben. Ymhlith pethau eraill, bydd DNA ac olion bysedd cannoedd o filoedd o bobl ddiniwed yn cael eu dileu o gronfeydd data'r heddlu. Bydd miloedd o ddynion hoyw yn gallu cael gwared ar gollfarnau hen ffasiwn am weithredoedd cydsyniol, a bydd miloedd o yrwyr yn cael eu diogelu rhag gwmnïau clampio olwynion twyllodrus. Fel y clywsom gan y Prif Weinidog, mae hefyd yn cyflwyno gofyniad sy'n ymwneud â'r wybodaeth fiometrig a gadwyd am blant ysgol, ac rwyf yn croesawu hynny'n arbennig. Codwyd pryderon gyda mi eisoes ynghylch cyflwyno systemau arlwyo biometrig talu heb arian mewn ysgolion mewn rhai siroedd yng Nghymru, er gwaethaf tystiolaeth gynyddol ei bod yn

Finger templates can be used to link different databases rapidly and to build up a disturbingly accurate profile of an individual without their knowledge or consent. Clearly, we do not want that for our children, and I particularly welcome this element within the proposed legislation.

bosibl hacio i mewn i'r systemau hyn, a'i bod yn bosibl ail-drosi'r data hynny ar ffurf olion bysedd, a allai gael eu camddefnyddio pe bai'r bobl anghywir yn cael gafael ar y data hynny. Gellir defnyddio templedi bysedd i gysylltu cronfeydd data gwahanol â'i gilydd yn gyflym ac i greu proffiliau dychrynllyd o fanwl ar unigolion heb yn wybod iddynt a heb eu cydsyniad. Yn amlwg, nid ydym am weld hynny'n digwydd i'n plant, ac rwyf yn croesawu'r elfen hon o'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn arbennig.

**Eleanor Burnham:** I am pleased to have the opportunity to discuss this Bill briefly today. Civil liberties are often not discussed in this Chamber. In fact, the only time that they have been debated—as far as I am aware—was with regard to access to public services without showing an identity card. Having said that, we have debated them indirectly when issues of personal information within health service projects have been discussed, but this Bill takes us to another level as far as civil liberties are concerned. With the new powers over legislation and the centralising of Government in Wales, we are likely to see these issues coming up more and more. From now on, Assembly Members will have a duty to bear civil liberties in mind when looking at new laws or new Government programmes that could potentially invade privacy or place personal information at risk.

**Eleanor Burnham:** Rwyf yn falch o gael y cyfle i drafod y Bil hwn yn gryno heddiw. Nid yw hawliau sifil yn cael eu trafod yn aml yn y Siambr hon. Yn wir, yr unig adeg y buont yn destun dadl—cyn belled ag y gwn—oedd yng nghyd-destun cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus heb ddangos cerdyn adnabod. Wedi dweud hynny, rydym wedi trafod yr hawliau hyn yn anuniongyrchol wrth drafod materion sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol o fewn prosiectau yn y gwasanaeth iechyd, ond bydd y Bil hwn yn mynd â ni i lefel arall o ran hawliau sifil. Gyda phwerau newydd dros ddeddfu a chanoli Llywodraeth yng Nghymru, rydym yn debygol o weld y materion hyn yn codi'n amlach. O hyn ymlaen, bydd gan Aelodau'r Cynulliad ddyletswydd i gadw hawliau sifil mewn cof wrth edrych ar gyfreithiau newydd neu raglenni newydd gan y Llywodraeth a allai dramgwyddo ar breifatrwydd unigolion neu ddatgelu gwybodaeth bersonol amdanynt.

This may not be the time for making announcements, but the Welsh Government should now work to establish a mechanism to review the civil liberties implication of new laws on Government programmes. The Welsh Liberal Democrats advocate having a civil liberties forum that could advise the Government on the technical yet vital issues associated with the legislation that will be made in Wales. It has been disturbing and disappointing to witness the erosion of civil liberties under Labour in another place over the past 14 years, and I am pleased that the Protection of Freedoms Bill will help to reverse this trend. I welcome the fact that this Bill also seeks to repeal legislation around stop and search powers, trial by jury and the storage of innocent people's DNA. Ed Balls

Efallai nad dyma yw'r amser gorau i wneud cyhoeddiadau, ond dylai Llywodraeth Cymru weithio yn awr i sefydlu dull ar gyfer adolygu goblygiadau cyfreithiau newydd, o ran hawliau sifil, ar gyfer rhaglenni'r Llywodraeth. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn argymell cael fforwm hawliau sifil a allai gynghori'r Llywodraeth ar y materion technegol ond hanfodol sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a gaiff ei llunio yng Nghymru. Bu'n brofiad ysgytwol a siomedig i weld hawliau sifil yn cael eu herydu o dan y Blaid Lafur mewn man arall dros y 14 mlynedd diwethaf, ac rwyf yn falch y bydd y Bil Diogelu Rhyddidau yn ein helpu i wrthdroi'r duedd hon. Croesawaf y ffaith bod y Bil hwn hefyd yn ceisio diddymu deddfwriaeth sy'n ymwneud â phwerau

has indicated that Labour in Westminster might well be coming round to the Liberal Democrat view on pre-charge detention limits, and any move away from an authoritarian nanny state is to be welcomed.

stopio a chwilio, treialon gerbron rheithgor a chadw DNA pobl ddiniwed. Mae Ed Balls wedi nodi y gallai'r Blaid Lafur yn San Steffan fod yn barod i gytuno â safbwynt y Democratiaid Rhyddfrydol ar derfynau cadw cyn cyhuddo, ac mae unrhyw gam oddi wrth wladwriaeth warchodol awdurdodaidd i'w groesawu.

Finally, I trust that we in Wales will all welcome and support the opportunity to protect the freedoms of individuals that I believe that this legislative consent motion brings to Wales.

Yn olaf, hyderaf y bydd pawb yng Nghymru yn croesawu ac yn cefnogi'r cyfle hwn i amddiffyn rhyddid unigolion, a chredaf fod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn dod â'r cyfle hwn i Gymru.

**The Deputy Presiding Officer:** I see that the First Minister does not wish to reply to the debate. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwelaf nad yw'r Prif Weinidog yn dymuno ymateb i'r ddadl. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 3.41 p.m.*
*The Presiding Officer took the Chair at 3.41 p.m.*

## Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)
## Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Local Government (Wales) Measure

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol y cyfan o'r gwelliannau a gyflwynwyd ac, at ddibenion y ddadl, yr wyf wedi grwpio'r gwelliannau fel y maent yn ymddangos yn y rhestr o welliannau wedi'u grwpio.

**The Presiding Officer:** I have selected all of the amendments tabled and, for the purposes of the debate, I have grouped the amendments as shown on the list of grouped amendments.

Atgoffaf Aelodau y byddwn yn trafod y gwelliannau yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u grwpio, ond byddwn yn pleidleisio arnynt yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

I remind Members that we will discuss the amendments according to the list of grouped amendments, but that we will vote on them in accordance with the marshalled list.

### Grŵp 1: Technegol (Gwelliannau 1, 10, 11 a 9)
### Group 1: Technical (Amendments 1, 10, 11 and 9)

**Y Llywydd:** Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 1 a siarad am y gwelliannau arall yn y grŵp.

**The Presiding Officer:** I call on the Minister to move amendment 1 and to speak to the other amendments in the group.

**The Minister for Social Justice and Local Government:** I move amendment 1 in my

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol:**

name.

Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i.

This amendment is to secure the definition of a disability in section 1(7). It changes the word 'affect' to 'effect' in the definition of disability, so that it reads 'disability means a physical impairment that has a substantial long-term adverse effect on a person's ability to carry out normal day to day activities'.

Mae'r gwelliant hwn ar gyfer cadarnhau'r diffiniad o anabledd yn adran 1(7). Mae'n newid y geiriau 'effeithio ar' i 'effaith' yn y diffiniad o anabledd, fel ei fod yn nodi: 'ystyr "anabledd" yw amhariad corfforol neu feddyliol a chanddo effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau beunyddiol normal.'

Amendments 10 and 11 are to the Welsh text of section 164A(2)(a). The purpose is to ensure that the Welsh and English texts have the same meanings and effect.

Mae gwelliannau 10 a 11 yn gyfeiriadau at y testun Cymraeg yn adran 164A(2)(a). Y diben yw sicrhau bod gan y testunau Cymraeg a Saesneg yr un ystyron ac effaith.

Amendment 9 in this group is to remove the definition of local authority in section 164J.

Diben Gwelliant 9 yn y grŵp hwn yw dileu'r diffiniad o awdurdod lleol yn adran 164J.

**Y Llywydd:** Nid oes neb arall am siarad ar y grŵp. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** No-one else wishes to speak to the group. The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 1 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**Grŵp 2: Aelodau Cynghorau Lleol ac Adroddiadau Blynyddol (Gwelliant 35)**
**Group 2: Local Authority Members and Annual Reports (Amendment 35)**

**Y Llywydd:** Galwaf ar Veronica German i gynnig gwelliant 35 a siarad amdano.

**The Presiding Officer:** I call on Veronica German to move amendment 35 and to speak to the amendment.

**Veronica German:** I move amendment 35 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 35 yn fy enw i.

This amendment is regarding local authority members' annual reports. We do not think that we need legislation for this. Any councillor worth their salt will be in touch with the people in their wards, and therefore there is no need to legislate to do this. A sign of a good councillor is their willingness to participate and communicate with their constituents in this way. We should be encouraging more people to do this, but why must we have a publicly funded method of doing so when it should be up to individual councillors?

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud ag adroddiadau blynyddol aelodau awdurdodau lleol. Ni chredwn fod angen deddfwriaeth ar gyfer y mater hwn. Bydd unrhyw gynghorydd gwerth ei halen yn cysylltu â phobl yn ei ward, ac felly nid oes angen deddfu er mwyn gwneud hyn. Un peth sy'n dangos bod cynghorydd yn un da yw ei barodrwydd i gymryd rhan a chyfathrebu â'i etholwyr yn y modd hwn. Dylem fod yn annog mwy o bobl i wneud hyn, ond pam mae angen inni gael dull o wneud hyn sy'n ddibynnol ar arian cyhoeddus pan ddylai hwn fod yn fater i gynghorwyr unigol?

There is another danger that local authorities could have too much control over the content of these reports, so that they would not necessarily reflect the views and activities of the local councillors that they wish to portray to their constituents. It is clear from the proposed Measure that there should not be any political content in the reports, but who is to decide what is political and what is not?

Mae perygl arall, sef y gallai awdurdodau lleol gael gormod o reolaeth dros gynnwys yr adroddiadau hyn, fel na fyddent o reidrwydd yn adlewyrchu'r safbwyntiau a'r gweithgareddau y byddai cynghorwyr lleol yn dymuno eu portreadu i'w hetholwyr. Wrth edrych ar y Mesur arfaethedig, mae'n glir na ddylai'r adroddiadau hyn gynnwys unrhyw ddeunydd gwleidyddol, ond pwy sydd i benderfynu beth sy'n wleidyddol a beth nad yw'n wleidyddol?

3.45 p.m.

Apart from that, it will have the potential to tie members of local authorities down in even more bureaucracy and ultimately prevent them from carrying out the duties that are expected of them. I am concerned that these annual reports, as I have said before, will just be a list of the number of council meetings that members have attended. As we all know, maybe from the Chamber or maybe not, people can be in attendance while not necessarily making a particular contribution towards a debate or a committee's proceedings. It will not reflect what that person is doing.

Ar wahân i hynny, bydd ganddo'r potensial i glymu aelodau o awdurdodau lleol mewn mwy o fiwrocratiaeth ac, yn y pen draw, bydd yn eu hatal rhag cyflawni'r dyletswyddau y disgwylir iddynt eu cyflawni. Pryderaf y bydd yr adroddiadau blynyddol hyn, fel y dywedais eisoes, ond yn rhestru nifer y cyfarfodydd cyngor y bydd aelodau wedi mynd iddynt. Fel y gwyddom oll, efallai yn sgîl ein profiadau yn y Siambr neu beidio efallai, gall pobl fod yn bresennol heb iddynt wneud—o reidrwydd—gyfraniad penodol at ddadl neu drafodion pwyllgor. Ni fydd hyn yn adlewyrchu beth y mae'r person yn ei wneud.

Therefore, our amendment 35 is centred on the electorate and recognises that voters are intelligent people, that they are the people who are in control and that they can make up their own minds. After four years, it is through the ballot box that voters can decide, in council elections, whether their local councillor has done a good job. There is no need to legislate in this respect.

Felly, mae gwelliant 35 yn canolbwyntio ar etholwyr ac yn cydnabod bod pleidleiswyr yn bobl ddeallus, a'u bod yn bobl sy'n gyfrifol ac yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Ar ôl pedair blynedd, gall pleidleiswyr benderfynu, drwy ddefnyddio'r blwch pleidleisio mewn etholiadau cyngor, a yw eu cynghorydd lleol wedi gwneud gwaith da. Nid oes angen deddfu yn y cyswllt hwn.

**Jonathan Morgan:** I am grateful for the opportunity to speak to amendment 35 in group 2. In many respects, I have a great deal of sympathy with the amendment, and I certainly sympathise with the points that Veronica German has made this afternoon, namely that county councillors who are good at their job will already be making arrangements to tell the electorate what they have been doing. However, the proposed Measure as tabled says that

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar i gael y cyfle i siarad am welliant 35 yng ngrŵp 2. Mewn sawl ffordd, mae gennyf lawer o gydymdeimlad â'r gwelliant, ac rwyf yn sicr yn cydymdeimlo â'r pwyntiau a wnaed gan Veronica German y prynhawn yma, sef y bydd cynghorwyr sir sy'n gwneud gwaith da eisoes wedi dechrau gwneud trefniadau i ddweud wrth etholwyr beth y buont yn ei wneud. Fodd bynnag, mae'r Mesur arfaethedig, fel y'u cyflwynwyd, yn dweud bod yn

'A local authority must make arrangements for…each person who is a member of the

'Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau...i bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio

authority to make an annual report'.

adroddiad blynyddol'.

It does not say that each county councillor is therefore obliged and required to make an annual report. Perhaps the local authorities, in helping the local members to discharge their functions, ought to be in a position to help those members to make annual reports if they so wish. There may be good reasons why a member of a local authority would choose not to make an annual report—there may be other reporting mechanisms that he or she uses. However, the obligation on the local authority to assist a member in making an annual report is probably good practice. It is not prescriptive in a way that suggests that every member will be forced into this.

Nid yw'n dweud bod gofyn i bob cynghorydd sir lunio adroddiad blynyddol. Efallai y dylai awdurdodau lleol, wrth helpu aelodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau, fod mewn sefyllfa i helpu'r aelodau hynny i lunio adroddiadau blynyddol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gall fod rhesymau da pam mae aelod o awdurdod lleol yn dewis peidio â llunio adroddiad blynyddol—efallai ei fod ef neu hi'n defnyddio dulliau adrodd eraill. Fodd bynnag, siawns fod y rhwymedigaeth sydd ar yr awdurdod lleol i gynorthwyo aelod i lunio adroddiad blynyddol yn arfer da. Nid yw'n rhagnodol mewn ffordd sy'n awgrymu y bydd pob aelod yn cael ei orfodi i wneud hyn.

We are satisfied that the Minister has taken on board the report of the committee at Stage 1, which recommended

Rydym yn fodlon bod y Gweinidog wedi ystyried adroddiad y pwyllgor yng Nghyfnod 1, a oedd yn argymell

'that the Minister develops guidance for local authorities detailing the content of annual reports'.

'bod y Gweinidog yn datblygu canllawiau i awdurdodau lleol yn manylu ar gynnwys adroddiadau blynyddol'.

He has promised that he will provide that guidance, which is sufficient reassurance from our perspective. As a result, we will not support this amendment.

Mae'r Gweinidog wedi addo y bydd yn darparu'r canllawiau hyn, sy'n rhoi digon o sicrwydd o'n safbwynt ni. O ganlyniad, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn.

**Peter Black:** It is quite clear that, as Jonathan said, this will be not be an obligation on local councillors; it will be an obligation on local authorities to facilitate the making of an annual report. Veronica made the valid point that every councillor worth their salt should report back to the electorate anyway. I certainly do as a local councillor in Swansea—in fact, I will probably be delivering it this weekend if anyone wants to come and help.

**Peter Black:** Fel y dywedodd Jonathan, mae'n gwbl glir na fydd hon yn ddyletswydd ar gynghorwyr lleol; bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hwyluso'r broses o lunio adroddiad blynyddol. Gwnaeth Veronica bwynt dilys, sef y dylai pob cynghorydd sydd werth ei halen adrodd yn ôl i'w etholwyr beth bynnag. Rwyf yn sicr yn gwneud hynny fel cynghorydd lleol yn Abertawe—yn wir, siawns y byddaf yn darparu'r wybodaeth hon dros y penwythnos os oes unrhyw un yn awyddus i ddod i helpu.

It is clear that, in this instance, there are dangers in how these reports are put together, how they are interpreted and what is and is not allowed. The question is one of whether we should be giving a local councillor, at public expense, the benefit of incumbency effectively by funding one leaflet or report a year, to be delivered to every household in their ward. If a councillor wants to produce an annual report, they should fund it

Yn yr achos hwn, mae'n glir bod peryglon o ran y ffordd y bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu llunio, sut y byddant yn cael eu dehongli a'r hyn a ganiateir ac na chaniateir. Y cwestiwn yw a ddylem fod yn rhoi'r budd o berigloriaeth i gynghorydd lleol, a hynny ar draul y cyhoedd, drwy ariannu un daflen neu adroddiad y flwyddyn, i'w dosbarthu i bob cartref yn ei ward. Os yw cynghorydd yn dymuno cyflwyno adroddiad blynyddol, dylai

themselves, they should reflect their work in it and they should be doing so in a political way. I cannot see the benefit of putting out a fairly bland, non-political leaflet that effectively gets the councillor's name better known in their ward at public expense when there are other mechanisms by which we can do that. For that reason, it does not seem to me that the job of the Assembly is to tell local authorities that they must do that. It is for local authorities to be able to say what they can do to support local councillors, and many local authorities provide support services for local councillors, but in different ways. That is what pluralism and localism are all about in democracy. They are about each councillor and each council making up their minds about how they do that. I am not in favour of the sort of prescriptive approach whereby we in Cardiff tell every council, in Flintshire, Denbighshire, Anglesey, Ceredigion, Swansea, Pembrokeshire or Blaenau Gwent, that they have to do things in a particular way. That is why this particular proposal in this proposed Measure is unnecessary and goes too far.

ariannu'r adroddiad hwn ei hun, dylai adlewyrchu ei waith ynddo a dylai fod yn gwneud hynny mewn ffordd wleidyddol. Ni allaf weld y budd o ddosbarthu taflen weddol annelwig, anwleidyddol sy'n hyrwyddo enw'r cynghorydd yn ei ward, a hynny ar draul y cyhoedd, pan fo gennym ddulliau eraill o wneud hynny. Am y rheswm hwnnw, nid yw'n ymddangos i mi mai gwaith y Cynulliad yw dweud wrth awdurdodau lleol fod yn rhaid iddynt wneud hynny. Mater i'r awdurdodau lleol yw dweud beth y gallant ei wneud i gefnogi cynghorwyr lleol, ac mae llawer o awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau cymorth i gynghorwyr lleol, ond mewn ffyrdd gwahanol. Dyna beth yw ystyr plwraliaeth a lleoliaeth mewn democratiaeth. Maent yn ymwneud â phob cynghorydd a phob cyngor yn penderfynu sut y byddant yn gwneud hynny. Nid wyf o blaid y math o ymagwedd ragnodol lle rydym ni yng Nghaerdydd yn dweud wrth bob cyngor—yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Ceredigion, Abertawe, Sir Benfro neu Blaenau Gwent—bod yn rhaid iddynt wneud pethau mewn ffordd benodol. Dyna pam y mae'r cynnig penodol hwn yn y Mesur arfaethedig yn ddiangen ac yn mynd yn rhy bell.

**Carl Sargeant:** The purpose of introducing annual reports is to help improve local people's understanding of what their local councillor does, and the important role in which they serve. This is a process that enables a local authority to support councillors and help them to inform their constituents. I am surprised that Peter is opposed to that.

**Carl Sargeant:** Diben cyflwyno adroddiadau blynyddol yw gwella dealltwriaeth pobl leol o'r hyn y mae eu cynghorydd lleol yn ei wneud, a'r rôl bwysig y mae'r cynghorydd yn ei gyflawni. Mae hon yn broses sy'n galluogi awdurdod lleol i gefnogi cynghorwyr a'u helpu i roi gwybodaeth i'w hetholwyr. Synnaf fod Peter yn gwrthwynebu hynny.

The annual reports will be subject to guidance from the Assembly Government and they will also be subject to the code of practice on local authority publicity in Wales, which we will be revising. It will be for each council to decide on the format for publishing its reports, and it could be a web-based exercise, with councils placing a report on the website with links to individual councillors' pages. I do not think that that is a particularly onerous task for councillors or councils; it will enhance the role of the councillor in explaining the work that they do in their area. I ask that Members resist the amendment today.

Bydd yr adroddiadau blynyddol yn amodol ar ganllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad, a byddant hefyd yn ddarostyngedig i'r cod ymarfer ar gyhoeddusrwydd awdurdodau lleol yng Nghymru, y byddwn yn ei adolygu. Bydd yn rhaid i bob cyngor benderfynu ar fformat ar gyfer cyhoeddi ei adroddiadau, a gallai hwn fod yn dasg ar-lein, gyda chynghorau'n rhoi adroddiadau ar eu gwefannau gyda dolenni i dudalennau cynghorwyr unigol. Ni chredaf y byddai hon yn dasg arbennig o feichus i gynghorwyr neu gynghorau; byddai'n gwella rôl y cynghorydd drwy esbonio'r gwaith y mae'n ei wneud yn ei ardal. Gofynnaf i Aelodau

bleidleisio yn erbyn y gwelliant hwn heddiw.

**Veronica German:** I am afraid that we are not convinced by the Minister's arguments, and we stand by our amendment. We feel that it is up to individual councillors to communicate with their constituents in a way that is appropriate to them and to their communities. I would therefore like to move to a vote on that amendment.

**Veronica German:** Rwyf yn ofni nad ydym wedi ein hargyhoeddi gan ddadleuon y Gweinidog, ac rydym yn glynu at ein gwelliant. Teimlwn mai mater i gynghorwyr unigol yw cyfathrebu â'u hetholwyr mewn ffordd sy'n briodol iddynt hwy ac i'w cymunedau. Felly, hoffwn symud i bleidlais ar y gwelliant hwnnw.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 35. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 35 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 35: O blaid 6, Ymatal 0, Yn erbyn 41.*
*Amendment 35: For 6, Abstain 0, Against 41.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Jocelyn
German, Veronica
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ramsay, Nick
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 35.*
*Amendment 35 not agreed.*

**Grŵp 3: Amseru Cyfarfodydd Cyngor (Gwelliannau 77 a 78)**
**Group 3: Timing of Council Meetings (Amendments 77 and 78)**

**Y Llywydd:** Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 77.

**The Presiding Officer:** The main amendment in this group is amendment 77.

I call on Veronica German to move amendment 77 and to speak to both amendments in the group.

Galwaf ar Veronica German i gynnig gwelliant 77 ac i siarad am y ddau welliant yn y grŵp.

**Veronica German:** I move amendment 77 in my name and will speak to amendments 77 and 78.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 77 yn fy enw i, a byddaf yn siarad am welliannau 77 a 78.

Although we agree that the timings of council meetings can make a difference to people who will stand for election to the council, and to their ability to participate in meetings, the way that this legislation is drafted is far too prescriptive. Hence our amendment, which states that, so far as is reasonably practical, councils should ensure that the times at which meetings are held are accessible to its members. In other words, we would like these decisions to be made at local level, by councillors at that particular authority, or even a particular committee. It is for them to decide what is most appropriate for them. I know from the two local authorities that I have experience of that this is not always the case. Meetings are not always held at times that are suitable for people who are working, or for people who may have childcare responsibilities.

Er ein bod yn cytuno y gall yr amseroedd y cynhelir cyfarfodydd cyngor wneud gwahaniaeth i bobl a fydd yn sefyll i gael eu hethol i'r cyngor, ac i'w gallu i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hynny, mae'r modd y cafodd y ddeddfwriaeth hon ei drafftio'n llawer rhy ragnodol. Felly, mae ein gwelliant yn datgan, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, y dylai cynghorau sicrhau bod yr amseroedd ar gyfer cynnal cyfarfodydd yn hygyrch i'w haelodau. Mewn geiriau eraill, hoffem weld y penderfyniad hwn yn cael ei wneud ar lefel leol, gan gynghorwyr yn yr awdurdod o dan sylw, neu hyd yn oed gan bwyllgor penodol. Mae'n fater i awdurdodau benderfynu ar y drefn sy'n fwyaf priodol iddynt hwy. Ar sail y ddau awdurdod lleol y mae gennyf brofiad ohonynt, gwn nad yw hyn bob amser yn digwydd. Nid yw cyfarfodydd bob amser yn cael eu cynnal ar adegau sy'n addas ar gyfer pobl sy'n gweithio, neu ar gyfer pobl a all fod â chyfrifoldebau gofal plant.

However, we feel that the way in which this is written is, as I said, far too prescriptive, giving powers of guidance to Ministers on the timings of meetings. I know that the Minister has said that he has no intention of saying that there must be a meeting at 9 a.m. on a Monday, and everyone will discuss education. Nevertheless, the drafting of this legislation means that it can be very prescriptive indeed. We do not want to end up with a one-size-fits-all type of policy. As the WLGA has stated, how can ministerial guidance set parameters convenient and practicable for over 1,200 councillors with a

Fodd bynnag, fel y dywedais, teimlwn fod y modd y cafodd y ddogfen hon ei llunio yn llawer rhy ragnodol, gan ei bod yn rhoi pwerau i Weinidogion roi arweiniad ynghylch amserau cyfarfodydd. Gwn fod y Gweinidog wedi dweud nad oes ganddo unrhyw fwriad i ddweud bod yn rhaid cynnal cyfarfod am 9 y.b. ar ddydd Llun, a bod yn rhaid i bawb drafod addysg. Serch hynny, mae'r modd y drafftiwyd y ddeddfwriaeth hon yn golygu y gallai fod yn rhagnodol iawn. Yn y pen draw, nid ydym am gael un polisi ar gyfer pawb. Fel y gofynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sut y

different range of commitments?

gall canllawiau gweinidogol bennu terfynau sy’n gyfleus ac ymarferol i dros 1,200 o gynghorwyr sydd ag ystod wahanol o ymrwymiadau?

Currently, committees can be flexible, and there is some good practice in some authorities. They adjust their meeting times to suit the convenience of the majority of their committee membership. It is right that those attending a meeting should agree on the most convenient time for the majority of attendees. This is essential. Only councils will truly know which times will suit their individual needs. However, as I have stated before, sometimes this is not even being considered, and because a council has always had the meeting at 10 a.m., or at 2 p.m., on a certain day of the week, it has continued to so. I agree with the Minister that that is not right, and that more thought should be given to the timings of meetings. However, we think that this is an example of using a sledgehammer to crack a nut, so we have come up with an alternative approach in our amendments to address this particular situation.

Ar hyn o bryd, gall pwyllgorau fod yn hyblyg, a cheir rhywfaint o arfer da mewn rhai awdurdodau. Maent yn addasu amser eu cyfarfodydd er hwylustod y mwyafrif o aelodau’r pwyllgor. Mae’n iawn dweud y dylai’r rheini sy’n mynd i gyfarfod gytuno ar yr amser mwyaf cyfleus ar gyfer mwyafrif y bobl sy’n mynd iddo. Mae hynny’n hanfodol. Dim ond y cynghorau fydd yn gwybod mewn gwirionedd pa amseroedd fydd yn addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Fodd bynnag, fel y dywedais eisoes, weithiau nid yw hyn hyd yn oed yn cael ei ystyried, ac oherwydd bod cyngor bob amser wedi cynnal rhyw gyfarfod am 10 y.b. neu am 2 y.h., a hynny ar ddiwrnod penodol o’r wythnos, bydd yn parhau i wneud hynny. Cytunaf â’r Gweinidog nad yw hynny’n iawn, ac y dylid rhoi ystyriaeth bellach i amseroedd cyfarfodydd. Fodd bynnag, credwn fod hon yn enghraifft o ddefnyddio gordd i dorri cneuen, felly rydym wedi awgrymu dull arall yn ein gwelliannau i fynd i’r afael â’r sefyllfa benodol hon.

**Jonathan Morgan:** I am grateful for the opportunity to speak in support of amendments 77 and 78. I can understand the intention of the section of the proposed Measure that encourages local authorities to make their procedures and meeting times more flexible, thereby enabling people from a variety of backgrounds to stand as councillors and fulfil their duties. The Minister has argued that the Assembly Government will not be setting times for council meetings. As he put it, the guidance is instead designed to ensure that local authorities consult with interested parties on how they can encourage a better environment and on what times are best for them. While we have assurances from the Minister on that front, he may not be the Minister after 5 May. I believe that the way in which potential guidance arising from the eventual Measure could be drafted could lead to a situation where a future Minister may decide to take a course of action and use that guidance to prescribe the times at which local authorities should meet.

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar i gael cyfle i siarad o blaid gwelliannau 77 a 78. Gallaf ddeall diben yr adran honno o’r Mesur arfaethedig sy’n annog awdurdodau lleol i wneud eu gweithdrefnau ac amseroedd eu cyfarfodydd yn fwy hyblyg a, thrwy hynny, i alluogi pobl o gefndiroedd amrywiol i sefyll fel cynghorwyr a chyflawni eu dyletswyddau. Mae’r Gweinidog wedi dadlau na fydd Llywodraeth y Cynulliad yn pennu amseroedd ar gyfer cyfarfodydd cyngor. Yn hytrach, yn ei eiriau ef, mae’r canllawiau wedi’u llunio er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb ynghylch sut y gallant greu amgylchedd gwell ac ynghylch pa amseroedd sydd orau iddynt. Er ein bod wedi cael sicrwydd gan y Gweinidog ar y mater hwnnw, efallai mai nid ef fydd y Gweinidog ar ôl 5 Mai. Credaf y gallai’r ffordd y caiff y canllawiau a allai ddeillio o’r Mesur eu drafftio arwain at sefyllfa lle gallai Gweinidog yn y dyfodol benderfynu dilyn camau penodol a defnyddio’r canllawiau i bennu ar ba amser y dylai awdurdodau lleol

gynnal cyfarfodydd.

As drafted, the proposed Measure states that Welsh Ministers may give guidance about the times at which meetings of a local authority are held, which local authorities must have regard to. This power could be used by a different Minister in a different way. Local authorities should do everything they can to ensure that meetings are held at accessible times, but we do not believe that meeting times should be dictated by a Welsh Minister. Given that a Minister further down the line may choose to take a different path than that of the Minister here today, we believe that the amendments tabled by the Liberal Democrats are sensible.

Fel y'i drafftiwyd, mae'r Mesur arfaethedig yn nodi'r ffaith y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu canllawiau ynghylch pryd y caiff cyfarfodydd awdurdod lleol eu cynnal, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth iddynt. Gallai'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol gan Weinidogion gwahanol. Dylai awdurdodau lleol wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar amseroedd hygyrch, ond ni chredwn y dylai amseroedd cyfarfod gael eu pennu gan un o Weinidogion Cymru. O ystyried y gallai Gweinidog yn y dyfodol ddewis llwybr gwahanol i'r llwybr a gymerwyd gan y Gweinidog sydd yma heddiw, credwn fod y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn synhwyrol.

We also agree with the concerns of the WLGA, which has said that the idea that a Minister should have the power to set the times of local authority committee meetings is a level of micromanagement that is abhorrent to the system. That is perhaps rather harsh terminology, Minister, but the WLGA makes a valid point. How would we react if the UK Parliament suddenly decided next week to start interfering in the meeting times of the National Assembly for Wales, which is a separate, democratically elected institution? Local authorities are democratically elected by the public that they serve, and I believe that it is a matter for them to try to establish the best way forward in ensuring that meeting times fit the circumstances of the individuals who serve in them. For these reasons, we are happy to support the amendments that have been tabled by the Liberal Democrats.

Rydym hefyd yn cytuno â phryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd wedi dweud bod y syniad y dylai Gweinidog gael y pŵer i bennu amseroedd cyfarfodydd pwyllgor awdurdodau lleol yn lefel o ficroreolaeth sy'n wrthun i'r system. Efallai bod y derminoleg honno braidd yn galed, Weinidog, ond mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gwneud pwynt dilys. Sut y byddem yn ymateb pe bai Senedd y DU yn penderfynu'n sydyn yr wythnos nesaf i ddechrau ymyrryd yn amseroedd cyfarfodydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n sefydliad ar wahân a etholwyd yn ddemocrataidd? Mae awdurdodau lleol yn cael eu hethol yn ddemocrataidd gan y cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu, a chredaf ei fod yn fater iddynt hwy geisio darganfod y ffordd orau ymlaen, o ran sicrhau bod amseroedd eu cyfarfodydd yn addas ar gyfer amgylchiadau'r unigolion sy'n eu gwasanaethu. Am y rhesymau hyn, rydym yn hapus i gefnogi'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

**Carl Sargeant:** The Assembly Government's proposals in section 6 of the proposed Measure reflect the frustration felt by many that the timing of council business has remained a big barrier to participation by people from various under-represented groups. We all know that the profile of local councillors in Wales is overwhelmingly white, male, elderly and retired. There has

**Carl Sargeant:** Mae cynigion Llywodraeth y Cynulliad yn adran 6 o'r Mesur arfaethedig yn adlewyrchu'r rhwystredigaeth a deimlir gan lawer ynghylch y ffaith bod amseriad busnes cynghorau wedi parhau i fod yn rhwystr mawr i gyfranogiad gan bobl o wahanol grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol. Gwyddom oll fod mwyafrif llethol o gynghorwyr lleol yng

been little change to that profile despite concerns raised in reports dating back many years. Councils have done little or nothing to address this issue, which is why we are taking the power to issue guidance. It is important that we put on record that we are not going to suggest that councils meet at specific times. However, we will be issuing advice based on soundings that we have taken from various interest groups, women's organisations and businesses that we will not ignore. If you wish to dismiss that advice, that is ultimately your decision as political parties. I ask Members to resist these two amendments.

Nghymru yn wyn, yn ddynion, yn hŷn ac wedi ymddeol. Ni fu llawer o newid i'r proffil hwn er gwaethaf y pryderon a godwyd mewn adroddiadau sy'n dyddio yn ôl nifer o flynyddoedd. Mae cynghorau wedi gwneud ychydig iawn, neu ddim byd o gwbl, i fynd i'r afael â'r mater hwn, a dyna pam rydym yn defnyddio'r pŵer hwn i gyhoeddi canllawiau. Mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r ffaith nad ydym yn mynd i awgrymu bod cynghorau'n cynnal cyfarfodydd ar amseroedd penodol. Fodd bynnag, byddwn yn cyhoeddi cyngor yn seiliedig ar safbwyntiau yr ydym wedi'u clywed gan grwpiau diddordeb gwahanol, sefydliadau menywod a busnesau—safbwyntiau na fyddwn yn eu hanwybyddu. Os ydych yn dymuno gwrthod y cyngor hwnnw, yn y pen draw, dyna eich dewis fel pleidiau gwleidyddol. Gofynnaf i Aelodau wrthod y ddau welliant hyn.

**Veronica German:** We do not wish to dismiss the concerns of those bodies, women's groups and businesses. In the past, I have been subjected to meeting times that are incredibly inconvenient, but it comes down to the basic point that Jonathan and I have made, which is that while you may say what you say while you are the Minister, but with all the will in the world, you may not be the Minister in future. Legislation should be fit for purpose and it should not be only for one Minister; it should be for the future. We do not believe that this is the way to draft the legislation in respect of the timing of the meetings of local councils. Therefore, we will still be moving amendments 77 and 78.

**Veronica German:** Nid ydym yn dymuno diystyru'r pryderon a fynegwyd gan y cyrff hynny, y grwpiau menywod a'r busnesau. Yn y gorffennol, rwyf wedi profi amseroedd cyfarfod sy'n anghyfleus dros ben. Serch hynny, mae'r mater hwn yn ymwneud a'r pwynt sylfaenol a wnaed gan Jonathan a minnau: efallai eich bod yn dweud yr hyn yr ydych yn ei ddweud tra rydych yn Weinidog, ond gyda phob parch yn y byd, mae'n bosibl mai nid chi fydd y Gweinidog yn y dyfodol. Dylai deddfwriaeth fod yn addas i'r diben ac ni ddylai fod ar gyfer un Gweinidog yn unig; dylai fod ar gyfer y dyfodol. Nid ydym yn credu mai dyma'r ffordd i ddrafftio'r ddeddfwriaeth mewn perthynas ag amseroedd cyfarfodydd cynghorau lleol. Felly, byddwn yn dal i symud gwelliannau 77 a 78.

4.00 p.m.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn deall eich bod am symud i bleidlais ar welliant 77. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 77. A oes gwrthwynebiad?

**The Presiding Officer:** I understand that you wish to move to a vote on amendment 77. The question is that amendment 77 be agreed to. Are there any objections?

Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 77: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 34.*
*Amendment 77: For 16, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 77.*
*Amendment 77 not agreed.*

**Y Llywydd:** Yn unol â’r rhestr o’r gwelliannau wedi’u didoli, symudwn i waredu gwelliant 78.

**The Presiding Officer:** In accordance with the marshalled list, we now move to dispose of amendment 78.

I invite Veronica German to move amendment 78.

Gwahoddaf Veronica German i gynnig gwelliant 78.

**Veronica German:** I move amendment 78 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 78 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 78. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 78 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 78: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 34.*
*Amendment 78: For 16, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine

Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 78.*
*Amendment 78 not agreed.*

**Grŵp 4: Gwasanaethau Democrataidd o Fewn Awdurdodau Lleol (Gwelliannau 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42 a 43)**
**Group 4: Democratic Services in Local Authorities (Amendments 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42 and 43)**

**The Presiding Officer:** I call on Jonathan Morgan to move amendment 36 and to speak to the other amendments in the group.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Jonathan Morgan i gynnig gwelliant 36 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

**Jonathan Morgan:** I move amendment 36 in my name, and I will speak in support of amendments 37, 38, 39, 40, 41, 42 and 43.

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf welliant 36 yn fy enw i, a byddaf yn siarad o blaid gwelliannau 37, 38, 39, 40, 41, 42 a 43.

With reference to amendments 36 to 39, sections 8 and 9 of the proposed Measure, as drafted, require local authorities to create a new post at chief officer level to undertake the role of head of democratic services. While we agree that the functions assigned to the head of democratic services should be provided for by local authorities, we do not believe that local authorities should be obliged to create a new position in order to achieve this. A number of consultation responses at Stage 1 expressed concerns

Gan gyfeirio at welliannau 36 i 39, mae adrannau 8 a 9 o’r Mesur arfaethedig, fel y’i drafftiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol ar awdurdodau lleol i greu swydd newydd ar lefel prif swyddog i ymgymryd â’r rôl pennaeth gwasanaethau democrataidd. Er ein bod yn cytuno y dylai’r swyddogaethau a neilltuir i’r pennaeth gwasanaethau democrataidd gael eu darparu gan awdurdodau lleol, nid ydym yn credu y dylai fod yn ofynnol ar awdurdodau lleol i greu swydd newydd er mwyn cyflawni hyn.

about these sections. For example, Pembrokeshire County Council said that the requirement to create a head of democratic services was poorly thought-through, warning that it could lead to factionalism within local authorities. The Welsh Local Government Association expressed concerns about the resource implications. With these concerns in mind, the Welsh Conservatives believe that, although the functions of the head of democratic services must be provided, it should be for local authorities to decide how best to do this.

Roedd nifer o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yng Nghyfnod 1 yn mynegi pryderon ynghylch yr adrannau hyn. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Penfro nad oedd y gofyniad i greu pennaeth gwasanaethau democrataidd wedi cael ei ystyried yn ofalus, a rhybuddiodd y gallai arwain at garfanu o fewn awdurdodau lleol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau. Gyda'r pryderon hyn mewn cof, cred y Ceidwadwyr Cymreig, er bod yn rhaid darparu swyddogaethau'r pennaeth gwasanaethau democrataidd, dylai fod yn fater i awdurdodau lleol benderfynu ar y modd gorau o wneud hyn.

The Minister has argued that the position is not proposed to be at chief officer level and that, without the creation of this post, the responsibility for democratic services in a local authority would be unclear. However, this is an argument that we simply do not accept. We agree with a requirement for authorities to provide for the functions as set out in section 9, but we believe that it would cause less confusion if local authorities were left to decide how to do this, rather than having it dictated by the Minister. If local authorities are stating that this proposal is poorly thought-through, surely the Minister ought to listen to their concerns.

Mae'r Gweinidog wedi dadlau nad oedd bwriad i'r swydd hon fod ar lefel prif swyddog, ac wedi dadlau hefyd y byddai cyfrifoldeb am wasanaethau democrataidd mewn awdurdod lleol yn aneglur heb greu'r swydd hon. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn y ddadl hon. Rydym yn cytuno â'r gofyniad ar awdurdodau i ddarparu ar gyfer y swyddogaethau hyn, fel y nodir yn adran 9, ond rydym yn credu y byddai'n achosi llai o ddryswch pe bai awdurdodau lleol yn cael penderfynu sut i wneud hyn, yn hytrach na bod y Gweinidog gwneud y penderfyniad drostynt. Os yw awdurdodau lleol yn datgan nad yw'r cynnig hwn wedi cael ystyriaeth ofalus, yn sicr dylai'r Gweinidog wrando ar eu pryderon.

Amendments 40, 41, 42 and 43 relate to section 9 of the proposed Measure and, as drafted, outline the functions of the head of democratic services. They include the responsibility to provide support and advice to members of the executive of the authority. I do not feel that the head of democratic services should have a responsibility to do this, as local authority executives should have a support team in place already. While we realise that the head of democratic services would only have to provide information to the executive in relation to the overview and scrutiny committee functions, we feel that this is still an unnecessary function. It would be a bit like the Assembly's Members' research service providing advice to the Minister for Health and Social Services about the role and function of the Health,

Mae gwelliannau 40, 41, 42 a 43 yn berthnasol i adran 9 o'r Mesur arfaethedig ac, fel y'i drafftiwyd, maent yn amlinellu swyddogaethau'r pennaeth gwasanaethau democrataidd. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am ddarparu cymorth a chyngor i aelodau o weithrediaeth yr awdurdod. Nid wyf yn teimlo y dylai'r pennaeth gwasanaethau democrataidd fod yn gyfrifol am wneud hyn, oherwydd y dylai fod gan weithrediaethau awdurdodau lleol dîm cymorth eisoes ar waith. Er ein bod yn sylweddoli y byddai'r pennaeth gwasanaethau democrataidd ond yn gorfod rhoi gwybodaeth i'r weithrediaeth mewn perthynas â swyddogaethau'r pwyllgor trosolwg a chraffu, teimlwn fod hyn yn dal i fod yn swyddogaeth ddiangen. Byddai'n debyg i wasanaeth ymchwil Aelodau'r

Wellbeing and Local Government Committee.

Cynulliad yn rhoi cyngor i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am rôl a swyddogaeth y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol.

While we note the Minister's comments at Stage 2 that scrutiny is a function for all of the council, this is precisely the principle that we are trying to protect with these amendments. Members of the executive of local authorities already have significant support teams in place to back up their work as members of the executive and should not be able to monopolise the limited resources available to other county councillors. We are simply trying to ensure that the function of democratic services is to provide a service within the limited time that it has to local authority members who are there to undertake that role of overview and scrutiny. Otherwise, as we know through the experience of many local authorities in Wales, those backbench and opposition members, and members of governing parties who do not have an executive role, simply find it difficult to undertake that scrutiny function. We do not believe that it is right for those executive members to be in such a privileged position as those members who do not have an executive function.

Er ein bod yn nodi sylwadau a wnaed gan y Gweinidog yng Nghyfnod 2, sef bod craffu'n swyddogaeth i bawb yn y cyngor, dyma'r union egwyddor yr ydym yn ceisio ei diogelu drwy'r gwelliannau hyn. Mae gan aelodau o weithrediaethau awdurdodau lleol dimau cymorth sylweddol eisoes ar waith, ac maent yn cefnogi eu gwaith fel aelodau o'r weithrediaeth. Ni ddylent fod yn gallu monopoleiddio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i gynghorwyr sir eraill. Yn syml, rydym yn ceisio sicrhau mai swyddogaeth gwasanaethau democrataidd yw darparu gwasanaeth i aelodau awdurdodau lleol sydd yno i ymgymryd â'r rôl drosolwg a chraffu, a hynny o fewn yr amser cyfyngedig sydd ar gael. Fel arall, fel y gwyddom o ganlyniad i brofiadau llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r aelodau hynny o'r meinciau cefn a'r gwrthbleidiau, yn ogystal ag aelodau o'r pleidiau sy'n llywodraethu nad oes ganddynt rôl weithredol, yn ei chael yn anodd ymgymryd â'r swyddogaeth graffu. Nid ydym yn credu ei bod yn iawn fod yr aelodau gweithredol hynny mewn sefyllfa mor freintiedig, o'u cymharu â'r aelodau hynny nad oes ganddynt swyddogaeth weithredol.

**Carl Sargeant:** I will speak to amendments 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42 and 43 in this group. First, all of these opposition amendments, besides 40 and 41, would make it unclear where responsibility for democratic services will lie in the local authority. Our proposal is very clear and is intended to ensure that an important function is assigned to democratic services and that it will be as independent as possible, and will not be open to interference from the executive. Our proposal is clear about the support between the executive and backbenchers. It is only right that good governance comes about through good scrutiny, and we need to ensure that we have an independent voice to support the scrutiny functions of backbench members.

**Carl Sargeant:** Byddaf yn siarad am welliannau 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42 a 43 yn y grŵp hwn. Yn gyntaf, byddai holl welliannau'r gwrthbleidiau, ar wahân i welliannau 40 a 41, yn gwneud y sefyllfa ynghylch lle byddai'r cyfrifoldeb am wasanaethau democrataidd yn gorwedd yn yr awdurdod lleol yn aneglur. Mae ein cynnig yn glir iawn. Ei fwriad yw sicrhau bod swyddogaeth bwysig yn cael ei neilltuo i wasanaethau democrataidd, sicrhau ei bod mor annibynnol ag y bo modd, a sicrhau na fydd yn agored i ymyrraeth gan y weithrediaeth. Mae ein cynnig yn glir ynghylch y gefnogaeth rhwng y weithrediaeth ac aelodau'r meinciau cefn. Nid yw ond yn iawn fod llywodraethu da yn dod yn sgîl craffu da, ac mae angen inni sicrhau bod gennym lais annibynnol i gefnogi swyddogaethau craffu aelodau meinciau cefn.

I now turn to opposition amendments 40 and

Trof yn awr at welliannau 40 a 41 gan y

41. These amendments have the effect of making changes to the list of functions assigned to the democratic services committee, as set out in section 9. However, I believe that they are unnecessary and prove unhelpful. Amendment 40 would delete part of section 9(1)(f); while it would still be a function of democratic services to provide support and advice in relation to the functions of the overview and scrutiny committees, the amendment would remove the requirement to provide support and advice to the persons specified. The purpose of section 9(1)(f) is to give the head of democratic services a key role in promoting the understanding of the purpose and the exercise of scrutiny within the authority, and that educational duty should be shared among executive and backbench members. I urge the Assembly to oppose all of the amendments tabled in the name of Jonathan Morgan.

gwrthbleidiau. Byddai gan y gwelliannau hyn yr effaith o wneud newidiadau i restr y swyddogaethau a ddyrennir i'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd, fel y nodir yn adran 9. Fodd bynnag, credaf eu bod yn ddiangen ac yn ddi-fudd. Byddai gwelliant 40 yn dileu rhan o adran 9(1)(f); er byddai rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgorau trosolwg a chraffu yn parhau i fod yn swyddogaeth gwasanaethau democrataidd, byddai'r gwelliant hwn yn dileu'r gofyniad i ddarparu cefnogaeth a chyngor i'r personau a nodir. Diben adran 9(1)(f) yw rhoi rôl allweddol i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o ran hyrwyddo dealltwriaeth o fewn yr awdurdod o ddiben gwaith craffu a'r broses o'i gyflawni, a dylai'r ddyletswydd addysgol honno gael ei rhannu ymhlith aelodau gweithredol ac aelodau'r meinciau cefn. Anogaf y Cynulliad i wrthwynebu pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Jonathan Morgan.

**Jonathan Morgan:** On our suggested amendments for section 8 of the proposed Measure as to whether or not there should be a specified head of democratic services, our amendment 36, if approved by the Assembly, would alter it by stating that a local authority must arrange for the discharge of the functions in section 9. If we state that a local authority must arrange for the discharge of those functions, then, ultimately, it would be for the chief executive of the local authority, as the head of service, to make the necessary arrangements with regard to how those functions should be discharged. It states that, as with much of what a local authority does, the top of the authority is the chief executive, who can make the chief officer arrangements and can arrange for a variety of officials to be in place to undertake those particular functions. It is not stating that those functions should not be there; it merely states that there are arrangements already in place to ensure that those functions can be discharged adequately. I suspect that a chief executive would want to identify someone, or even a collection of people, to be responsible for ensuring that those functions could be adequately carried out. I have still not heard anything this afternoon from the Minister to suggest why a specific, individual post needs to be created for someone to be the head of

**Jonathan Morgan:** O ran y gwelliannau a awgrymwyd gennym ar gyfer adran 8 o'r Mesur arfaethedig, sef y gwelliannau ynghylch a ddylid cael pennaeth penodol ar wasanaethau democrataidd, byddai gwelliant 36, os caiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad, yn newid y cynllun hwn drwy nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i gyflawni'r swyddogaethau yn adran 9. Os byddwn yn datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hynny, yna, yn y pen draw, byddai'n fater i brif weithredwr yr awdurdod lleol, fel pennaeth y gwasanaeth, wneud y trefniadau angenrheidiol o ran sut y dylai'r swyddogaethau gael eu cyflawni. Mae'n nodi mai, yn yr un modd â llawer o'r hyn y mae awdurdod lleol yn ei wneud, y prif weithredwr sydd ar frig yr awdurdod, ac yn nodi bod y gall y prif weithredwr wneud trefniadau ar gyfer y prif swyddog ac i sicrhau bod swyddogion amrywiol yn barod i ymgymryd â'r swyddogaethau penodol hynny. Nid yw'n dweud na ddylai'r swyddogaethau hynny fod yno; mae'n dweud yn unig fod trefniadau eisoes ar waith i sicrhau y gallant gael eu cyflawni mewn modd digonol. Rwyf yn amau y byddai prif weithredwr am benodi rhywun, neu hyd yn oed gasgliad o bobl, i fod yn gyfrifol am sicrhau y gallai'r swyddogaethau hyn gael eu

democratic services, when there is already a mechanism for ensuring that these functions can be adequately discharged.

cyflawni mewn modd digonol. Hyd yn hyn, nid wyf wedi clywed unrhyw beth gan y Gweinidog y prynhawn yma i awgrymu pam bod angen creu swydd benodol, unigol i rywun fel pennaeth gwasanaethau democrataidd, pan fo mecanwaith eisoes ar gael ar gyfer sicrhau y gall y swyddogaethau hyn gael eu cyflawni mewn modd digonol.

In relation to the amendments that we have tabled to section 9 of the proposed Measure, as to the functions of democratic services, the Minister again says that the amendments are unhelpful. I do not see what is unhelpful in agreeing to amendments that effectively provide more officer time, help and support to members of the authority who are not members of the cabinet or the executive. You, as Ministers, when you attend committees, whether they are legislation committees or scrutiny committees, come with a significant amount of official support, and rightly so. Officials can advise on policy and on matters of law and legislation. That is absolutely right with regard to the way in which you as Ministers should be able to discharge your functions. When members of the executive of a local authority go before a scrutiny committee to discharge their responsibilities in being held accountable by that scrutiny committee for the way in which they have undertaken their role, they could also turn up with an army of officials and help and support, as members of that executive team, and, again, that is right and proper. However, I do not see why we should legislate to allow for the democratic services function of a local authority to help to advise those executive members who already have that considerable weight of support. It simply does not make sense.

Mae gwelliannau 58, 59 a 60 yn ymwneud ag adran 58 o'r Mesur arfaethedig ar graffu ar bersonau dynodedig. Fel y'i drafftiwyd, mae'r adran hon yn nodi bod gofyn i bwyllgorau trosolwg a chraffu

wneud adroddiadau neu argymhellion ar faterion sy'n ymwneud â phersonau dynodedig ac sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu drigolion yr ardal honno.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod y gofyniad hwn yn rhoi baich diangen ar bwyllgorau trosolwg a chraffu. Rydym yn cytuno â'r pryderon a fynegwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a ddywedodd y byddai disgwyliad y byddai awdurdodau lleol o dan ryw fath o rwymedigaeth i graffu ar bob gwasanaeth cyhoeddus a gaiff ei gyflwyno mewn ardal. Rydym hefyd yn gefnogol o'r egwyddor o ganiatáu i bwyllgorau craffu i graffu ar wasanaethau cyhoeddus eraill, ond credwn y dylai'r pŵer hwn fod yn bŵer galluogi yn hytrach na gofyniad. Rydym wedi

ailgyflwyno'r gwelliannau hyn, yn unol â'r safbwynt hwnnw.

At Stage 2, the Minister argued that he wants scrutiny to have teeth. He also said that an enabling power would, in reality, mean little practical change. He noted the concerns that this would place unfair burdens and responsibilities on scrutiny committees, but said that they should be sensible and proportionate in the way that they use this provision. However, if scrutiny committees are required to make reports on everything brought to their attention, as the wording of the proposed Measure currently states, we feel that the decision to exercise sensible judgment on when to report and make recommendations will be taken out of their hands.

Yng Nghyfnod 2, honnodd y Gweinidog ei fod am i'r broses graffu gael dannedd. Dywedodd hefyd y byddai pŵer galluogi, mewn gwirionedd, yn newid fawr ddim yn ymarferol. Nododd y pryderon ynghylch y ffaith y byddai'r cam hwn yn rhoi baich a chyfrifoldebau annheg ar bwyllgorau craffu, ond dywedodd y dylent fod yn synhwyrol ac yn gymesur yn y ffordd y byddent yn defnyddio'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, os bydd gofyn i bwyllgorau craffu lunio adroddiadau ar bopeth a ddaw i'w sylw, fel y mae geiriad y Mesur arfaethedig yn datgan ar hyn o bryd, teimlwn y bydd y penderfyniad i ddefnyddio synnwyr cyffredin ynghylch pryd i lunio adroddiad a gwneud argymhellion yn cael ei gymryd oddi wrthynt.

With your permission, Presiding Officer, I would like to speak to amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 79. The Government amendments 2, 3, 4, 5 and 6 relate to the issue of voting by co-opted members. Sections 75 to 79 confer voting rights on co-opted members of scrutiny committees. At Stage 2, the Minister argued that this should help to attract experienced co-optees who have expertise in specialist areas. In evidence submitted at Stage 1, most local authorities in Wales recognised the role of co-opted members on scrutiny committees but were strongly against allowing them to vote. Wrexham County Borough Council, for instance, had concerns about voting powers being given to non-elected individuals who are not directly accountable to the public.

Gyda'ch caniatâd, Lywydd, hoffwn siarad am welliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 79. Mae gwelliannau 2, 3, 4, 5 a 6, sef gwelliannau'r Llywodraeth, yn ymwneud â'r mater o bleidleisio gan aelodau cyfetholedig. Mae adrannau 75 i 79 yn rhoi hawliau pleidleisio i aelodau cyfetholedig o bwyllgorau craffu. Yng Nghyfnod 2, honodd y Gweinidog y dylai hyn helpu'r broses o ddenu aelodau cyfetholedig profiadol sydd ag arbenigedd mewn meysydd arbenigol. Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd yng Nghyfnod 1, roedd rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydnabod rôl aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau craffu, ond roeddent yn gwrthwynebu'n gryf y cam o ganiatáu iddynt bleidleisio. Er enghraifft, mynegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bryder ynghylch rhoi pwerau pleidleisio i unigolion anetholedig nad ydynt yn atebol i'r cyhoedd yn uniongyrchol.

At Stage 2, Helen Mary Jones, as a member of the committee, agreed that the proposals were fundamentally anti-democratic. The Stage 1 legislation committee report called for the Assembly Government to table amendments at Stage 2. While no Assembly Government amendments were forthcoming at that stage, we are pleased that the Minister has now tabled amendments revoking the voting rights of co-optees, and we are happy to support his amendments accordingly.

Yng Nghyfnod 2, cytunodd Helen Mary Jones, fel aelod o'r pwyllgor, fod y cynigion, yn eu hanfod, yn wrth-ddemocrataidd. Galwodd adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor deddfwriaeth ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2. Er na chafwyd unrhyw welliannau gan Lywodraeth y Cynulliad bryd hynny, rydym yn falch bod y Gweinidog yn awr wedi cyflwyno gwelliannau i ddiddymu hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig, ac rydym yn hapus i gefnogi ei welliannau, yn unol â

hynny.

Liberal Democrat amendment 79 relates to the prohibition of the use of the party whip in section 81 of the proposed Measure, which seeks to prohibit the use of the whip at meetings of overview and scrutiny committees. While we appreciate the Minister’s intention to discourage hidden whipping—the term that I think he used—and agree that good governance is enhanced by good scrutiny, we believe that this policy would be almost impossible to enforce. Though we acknowledge the problem and accept the Minister’s argument that the role of a party whip is fundamentally contrary to the ability of scrutiny committees to hold decision makers to account, we do not believe that this is a practical solution.

Mae gwelliant 79 gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymwneud â gwahardd y defnydd o chwip y blaid yn adran 81 o’r Mesur arfaethedig, sy’n ceisio gwahardd y defnydd o’r chwip mewn cyfarfodydd a gynhelir gan bwyllgorau trosolwg a chraffu. Er ein bod yn gwerthfawrogi bwriad y Gweinidog i annog pobl i beidio â defnyddio chwipio cudd-credaf mai dyna’r term a ddefnyddiwyd ganddo-ac yn cytuno bod llywodraethu da yn cael ei wella drwy wneud gwaith craffu da, credwn y byddai’r polisi hwn bron yn amhosibl i’w gorfodi. Er ein bod yn cydnabod y broblem ac yn derbyn dadl y Gweinidog bod rôl chwip plaid, yn ei hanfod, yn groes i allu pwyllgorau craffu i ddwyn rhai sy’n gwneud penderfyniadau i gyfrif, ni chredwn fod yr ateb hwn yn un ymarferol.

We also agree with the Welsh Local Government Association’s statement that it was unlikely that robust evidence to support any allegations or suspicions of whipping would ever be available. We also support the view taken by Caerphilly County Borough Council that this is not a practical solution.

Rydym hefyd yn cytuno â datganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch y ffaith ei bod yn annhebygol y byddai tystiolaeth gadarn ar gael unrhyw bryd i gefnogi honiadau neu amheuon o chwipio. Rydym hefyd yn cefnogi’r farn a fynegwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef nad yw’r ateb hwn yn un ymarferol.

**Helen Mary Jones:** I am grateful to you for giving way, because, as you know, in the course of the discussions in committee I was of the same view as you that the solution was impractical. However, I was also struck by the comments made by our fellow committee member, Joyce Watson, with regard to the fact that this provision would give backbench members of governing parties who did not wish to be whipped something to protect themselves with. It was the points that Joyce made that made me change my mind about this. Sometimes, it is right to have a law to set practice, even if it is difficult to enforce, which the Minister would probably acknowledge would be.

**Helen Mary Jones:** Rwyf yn ddiolchgar ichi am ildio. Fel y gwyddoch, yn ystod y trafodaethau a gafwyd yn y pwyllgor, roeddwn o’r un farn â chi bod yr ateb hwn yn anymarferol. Fodd bynnag, cefais fy nharo hefyd gan y sylwadau a wnaed gan Joyce Watson, un o’n cyd-aelodau ar y pwyllgor, o ran y ffaith y byddai’r ddarpariaeth hon yn rhoi rhywbeth y gallai aelodau meinciau cefn y pleidiau sy’n llywodraethu nad ydynt yn dymuno cael ei chwipio i ddefnyddio i amddiffyn eu hunain. Y pwyntiau a wnaed gan Joyce oedd y pwyntiau a wnaeth imi newid fy meddwl ar y mater hwn. Weithiau, mae’n iawn i gael cyfraith i gadarnhau arfer, hyd yn oed os yw’n anodd i’w gorfodi; siawns y byddai’r Gweinidog yn cydnabod hynny.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to Helen Mary Jones for the intervention. My view has always been that laws that cannot be implemented properly or enforced are bad

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar i Helen Mary Jones am yr ymyriad hwnnw. Fy marn i bob amser yw bod cyfreithiau na ellir eu gweithredu na’u gorfodi’n iawn yn

laws. The idea that we should have a law simply because we think that, as a matter of principle, party whips should never be involved in ensuring that their members vote in a certain way—though I agree that, in scrutiny, you want members to develop a level of independence to ask difficult questions of their own political party as much as any other political party—and that a Measure could contain a provision that says that the party whip is therefore excluded in law from the scrutiny and overview committees is unreasonable and impractical with regard to how we hope laws could be implemented and enforced.

gyfreithiau gwael. Mae'r syniad y dylem gael cyfraith dim ond oherwydd ein bod o'r farn, fel mater o egwyddor, na ddylai chwipiaid y pleidiau byth fod yn rhan o'r broses o sicrhau bod eu haelodau'n pleidleisio mewn ffordd benodol—er fy mod yn cytuno eich bod, yn y broses graffu, am weld aelodau'n datblygu lefel o annibyniaeth er mwyn iddynt allu gofyn cymaint o gwestiynau anodd i'w plaid wleidyddol eu hunain ag i unrhyw blaid wleidyddol arall—a'r syniad y gallai Mesur gynnwys darpariaeth sy'n dweud bod chwip y blaid felly'n cael ei heithrio o bwyllgorau trosolwg a chraffu o dan y gyfraith, yn afresymol ac yn anymarferol o ran sut yr ydym yn gobeithio gweld cyfreithiau'n cael eu gweithredu a'u gorfodi.

You mentioned the comments of Joyce Watson; in fact, I was going to go on to quote Joyce, who said in committee that the sentiment behind this section of the proposed Measure could strengthen the role of backbenchers in local government. I have sympathy with that view, but I do not think that this is a practical way of moving forward. I am not entirely sure how we would expect a local authority to react if evidence were somehow collated about the use of the party whip in enforcing a certain view at an overview and scrutiny committee. Therefore, on the basis of the practical nature of this particular aspect of the proposed Measure, and whether it could be used, implemented and enforced, we cannot support a section of the proposed Measure that would not work. On that front, we support the Liberal Democrat amendment calling for this section of the proposed Measure to be removed.

Soniasoch am y sylwadau a wnaed gan Joyce Watson; mewn gwirionedd, roeddwn yn mynd i ddyfynnu Joyce, a ddywedodd yn y pwyllgor ei bod yn bosibl y gallai'r teimlad sydd y tu ôl i'r adran hon o'r Mesur arfaethedig gryfhau rôl aelodau'r meinciau cefn mewn llywodraeth leol. Mae gen i gydymdeimlad â'r farn honno, ond ni chredaf fod hyn yn ffordd ymarferol o symud ymlaen. Nid wyf yn hollol siŵr sut y byddem yn disgwyl i awdurdod lleol ymateb pe bai tystiolaeth yn cael ei choladu rhywsut am sut y defnyddiwyd chwip y blaid wrth orfodi safbwynt penodol mewn cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu. Felly, ar sail natur ymarferol yr agwedd benodol hon o'r Mesur arfaethedig, a'r cwestiwn ynghylch a ellid ei defnyddio, gweithredu a gorfodi, ni allwn gefnogi adran o'r Mesur arfaethedig na fyddai'n gweithio. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n galw am ddileu'r adran hon o'r Mesur arfaethedig.

**Veronica German:** The Welsh Liberal Democrats support the amendments put forward by Jonathan Morgan, particularly with regard to the power for calling designated persons, rather than a duty to do so. There was much discussion of this at committee stage, and the conclusion I reached at the end of those discussions led me to agree with Jonathan that if it is made a duty, who is going to say, 'You have not scrutinised this particular public service this year; something has gone wrong with that public service, therefore it is the fault of these

**Veronica German:** Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Jonathan Morgan, yn benodol o ran y pŵer i alw personau dynodedig, yn hytrach na'r dyletswydd i wneud hynny. Cafwyd trafodaeth eang ar y mater hwn yn ystod y cyfnod pwyllgor, ac roedd fy nghasgliadau ar ddiwedd y trafodaethau hynny wedi fy arwain i gytuno â Jonathan: os yw'r cam hwn yn cael ei wneud yn ddyletswydd, pwy sy'n mynd i ddweud, 'Nid ydych wedi craffu ar y gwasanaeth cyhoeddus penodol hwn eleni;

councillors on this committee because they have not scrutinised that particular area yet'? I understand the Minister's sentiments that it is a matter of some regret that some powers have already been in place but have not been used. However, we believe, in accordance with a lot of evidence that was given to the committee regarding this, that an enabling power is a much better way forward.

mae rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'r gwasanaeth cyhoeddus hwnnw, ac ar y cynghorwyr sy'n aelodau o'r pwyllgor hwn y mae'r bai, gan nad ydynt wedi craffu ar y maes penodol hwnnw eto'? Rwyf yn deall teimladau'r Gweinidog, sef ei fod yn destun gofid bod rhai pwerau eisoes wedi bod ar gael ond heb gael eu defnyddio. Fodd bynnag, rydym yn credu, yn unol â llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor am y mater hwn, bod pŵer galluogi yn ffordd llawer gwell ymlaen.

Moving to the Government's amendment—a rehash of the amendments that we put forward at committee stage—to remove the voting rights of co-opted members, I am pleased that the Minister has come forward with this. There was general agreement, certainly in the legislation committee, that this was not the right way forward and we completely endorse that step.

Gan symud ymlaen at welliant y Llywodraeth—ailwampiad o'r gwelliannau a gyflwynwyd gennym yn y cyfnod pwyllgor—i gael gwared ar hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig, rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi cyflwyno'r gwelliant hwn. Roedd yna gytundeb cyffredinol, yn sicr yn y pwyllgor deddfwriaeth, nad hon oedd y ffordd orau ymlaen, ac rydym yn cymeradwyo'r cam hwnnw'n llwyr.

I will now speak a little longer on amendment 79, our amendment on whipping, which, again, was the subject of much discussion in the legislation committee. We all agree that good scrutiny is essential to the way that local government is run under its current model. It has to be independent and objective, in the same way as we would say that scrutiny in this place is often independent and objective. A number of committees have come up with reports that are not always complimentary about the way that the Government has carried out its functions, and they felt free to do that without any legislation to prohibit whipping. This piece of legislation is not necessary for such objective reports to be produced. Let us face it, if there will be whipping, there will be whipping. It might not be official or declared, but at some point, it will happen.

Byddaf yn awr yn siarad ychydig mwy am welliant 79, ein gwelliant ar chwipio, a oedd, unwaith eto, yn destun trafod dwys yn y pwyllgor deddfwriaeth. Rydym i gyd yn cytuno bod gwaith craffu da yn hanfodol i'r ffordd y mae llywodraeth leol yn cael ei redeg o dan ei fodel cyfredol. Mae'n rhaid i waith craffu fod yn annibynnol ac yn wrthrychol, yn yr un modd ag y byddem yn dweud bod gwaith craffu yn y lle hwn yn aml yn annibynnol ac yn wrthrychol. Mae nifer o bwyllgorau wedi llunio adroddiadau lle nad oeddent bob amser yn canmol y ffordd yr oedd y Llywodraeth wedi cyflawni ei swyddogaethau, ac roedd y pwyllgorau hyn yn teimlo'n rhydd i wneud hynny heb unrhyw ddeddfwriaeth i wahardd chwipio. Nid yw'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau bod adroddiadau gwrthrychol o'r fath yn cael eu llunio. Gadewch inni wynebu'r gwir: os bydd yna chwipio, yna bydd yna chwipio. Efallai na fydd y chwipio'n swyddogol nac yn cael ei ddatgan, ond bydd yn digwydd rywbryd.

We are particularly concerned about the role placed on a chair in these committees to be judge and jury in the matter of whether whipping is taking place, to see whether members of another group have been

Rydym yn enwedig o bryderus am y rôl sy'n cael ei orfodi ar y Cadeirydd yn y pwyllgorau hyn, sef bod yn farnwr ac yn rheithgor o ran penderfynu pa un a yw chwipio yn digwydd, penderfynu a yw aelodau o grŵp arall wedi

whipped and how that chair should respond in that case—[*Interruption.*] Does anybody want to make an intervention, or are you just chuntering?

cael eu chwipio a phenderfynu sut y dylai ymateb yn yr achos hwnnw—[*Torri ar draws.*] A hoffai unrhyw un wneud ymyriad, neu a ydych chi ond yn tuchan?

**The Presiding Officer:** Order. My advice to you would be to get on with it. [*Laughter.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Fy nghyngor i chi yw i fwrw ymlaen â'ch cyfraniad. [*Chwerthin.*]

**Veronica German:** I can hardly hear myself speak. It must be the whipping, I realise that it is causing a great amount of excitement among some Members.

**Veronica German:** Prin y gallaf glywed fy hun yn siarad. Rhaid mai chwipio yw'r mater dan sylw; sylweddolaf fod y mater hwn yn achosi llawer iawn o gyffro ymhlith rhai Aelodau.

However, enforcing this legislation, as Jonathan has pointed out, will be practically impossible. It is clear that, if you cannot enforce a law or piece of legislation, it should be rejected. I have sympathy with the points put forward by Joyce, in committee and those that have been referred to today, about strengthening the role of backbenchers. However, it should not be necessary to have to go down this route and legislate in order to strengthen the role of backbenchers. Is there something about local councillors that means that they cannot stand up to their fellow party members, whereas Members in this place can? Perhaps we should set an example to those local councillors of what can be achieved, such as some of the reports that have been produced by committees here, as I mentioned.

Fodd bynnag, byddai gorfodi'r ddeddfwriaeth hon, fel y dywedodd Jonathan, bron yn amhosibl. Os nad ydych yn gallu gorfodi cyfraith neu ddarn o ddeddfwriaeth, mae'n amlwg y dylid ei wrthod. Mae gen i gydymdeimlad â'r pwyntiau a gyflwynwyd gan Joyce yn y pwyllgor, a'r rhai a gyfeiriwyd atynt heddiw, ynghylch cryfhau rôl y meinciau cefn. Fodd bynnag, ni ddylai fod yn angenrheidiol i fynd i lawr y llwybr hwn a deddfu er mwyn cryfhau rôl y meinciau cefn. A oes rhywbeth am gynghorwyr lleol sy'n golygu na allant sefyll i fyny i'w haelodau plaid, er bod Aelodau yn y lle hwn yn gallu? Efallai y dylem osod esiampl i gynghorwyr lleol o'r hyn y gellir ei gyflawni, fel rhai o'r adroddiadau sydd wedi cael eu llunio gan bwyllgorau yma, fel y soniais eisoes.

We are also concerned that this could result in a number of vexatious complaints against a chair for ruling that whipping has occurred or has not occurred when decisions are made, as they could hold up the process of local government through challenges against decisions. It risks the whole of the council's business being held up. For those reasons and the reasons that Jonathan has put forward, we stand by this amendment. I hope that Members will think about it logically and support this amendment.

Rydym hefyd yn pryderu y gallai hyn arwain at nifer o gwynion blinderus yn erbyn y Cadeirydd am ddyfarnu fod chwipio wedi digwydd neu heb ddigwydd pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, gan y gallent ddal prosesau llywodraeth leol i fyny drwy herio penderfyniadau. Byddai perygl o ddal busnes cyfan y cyngor yn ôl. Am y rhesymau hynny a'r rhesymau a fynegwyd gan Jonathan, byddwn yn glynu wrth y gwelliant hwn. Gobeithiaf y bydd Aelodau'n meddwl am y mater hwn yn rhesymegol ac yn cefnogi'r gwelliant hwn.

4.45 p.m.

**Carl Sargeant:** I will speak first to the opposition amendments 58, 59 and 60. The provision in section 58 reflects the developing role of local authorities and gives them an important tool to help them to

**Carl Sargeant:** Byddaf yn siarad yn gyntaf am welliannau'r gwrthbleidiau, sef gwelliannau 58, 59 a 60. Mae'r ddarpariaeth yn adran 58 yn adlewyrchu rôl ddatblygol awdurdodau lleol ac yn rhoi arf pwysig

exercise their responsibilities effectively. There is already a lot of joint work between local authorities and other public sector bodies on the delivery of linked services. Local authorities are democratically accountable representatives of local people, and it makes sense for them to be able to scrutinise the bodies involved in delivering other public services that are important to local people. Everyone here seems to agree with the merits of local authorities being able to scrutinise the wider public sector, but some of us seem to disagree on whether that should be a duty or merely be a power. An enabling power would, in reality, mean little practical change. Local authorities are already able to make reports and recommendations to executives on matters outside their own area.

iddynt er mwyn eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd effeithiol. Gwneir llawer o waith eisoes ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill ar gyflwyno gwasanaethau cysylltiedig. Mae awdurdodau lleol yn gyrff sy'n cynrychioli pobl leol ac sy'n atebol yn ddemocrataidd. Mae'n gwneud synnwyr iddynt allu craffu ar y cyrff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n bwysig i bobl leol. Mae'n ymddangos fel pe bai pawb yma'n cytuno am rinweddau system lle gall awdurdodau lleol graffu ar y sector cyhoeddus ar raddfa ehangach, ond mae'n ymddangos hefyd fel pe bai rhai ohonom yn anghytuno ynghylch a ddylai'r gwaith craffu hwnnw fod yn ddyletswydd neu'n bŵer yn unig. Ni fyddai pŵer galluogi, mewn gwirionedd, yn golygu fawr ddim o newid yn ymarferol. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gallu llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i swyddogion gweithredol ar faterion sydd y tu allan i'w maes eu hun.

As Jonathan said earlier, we want scrutiny to have teeth, and making this a duty will give committees the teeth that they need, and will fulfil Beecham's proposals to make local authorities' scrutiny play a key role in the public accountability of local services. I have noted the concern that this could place an unfair burden of responsibility on them, but we expect scrutiny committees to be sensible and proportionate, and that will be reflected in the guidance that is issued to local authorities. I urge Members to resist this amendment.

Fel y dywedodd Jonathan yn gynharach, rydym am i'r broses graffu gael dannedd, a byddai ei gwneud yn ddyletswydd yn rhoi'r dannedd sydd eu hangen ar y pwyllgorau, a byddai'n cyflawni cynigion Beecham i sicrhau bod gwaith craffu awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol o ran atebolrwydd cyhoeddus gwasanaethau lleol. Rwyf wedi nodi'r pryder a fynegwyd ynghylch y ffaith y gallai hyn osod baich cyfrifoldeb annheg arnynt, ond rydym yn disgwyl i bwyllgorau craffu fod yn synhwyrol a chymesur, a chaiff hyn ei hadlewyrchu yn y canllawiau a gyhoeddir i awdurdodau lleol. Anogaf Aelodau i wrthwynebu'r gwelliant hwn.

I will move on to the opposition's amendment 79. Our proposals in section 81 are designed to actively discourage whipping in relation to scrutiny in local authorities. The role of scrutiny is to hold decision-makers to account, and we believe that whipping is fundamentally contrary to that. Joyce Watson rightly and ably raised that point during the deliberations of the legislation committee. I believe strongly that anything that undermines the effectiveness of scrutiny is bad for local authorities and bad for the local decision-making process. I have not come to this conclusion on my own. I must refer you back to the report of the former Local

Symudaf ymlaen at welliant 79, sef gwelliant yr wrthblaid. Mae ein cynigion yn adran 81 wedi'u llunio er mwyn annog pobl i beidio â chwipio mewn perthynas â gwaith craffu mewn awdurdodau lleol. Rôl gwaith craffu yw dwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, a chredwn fod chwipio, yn ei hanfod, yn rhedeg yn groes i hynny. Codwyd y pwynt hwnnw gan Joyce Watson mewn modd cywir a medrus yn ystod trafodaethau'r pwyllgor deddfwriaeth. Credaf yn gryf bod unrhyw beth sy'n tanseilio effeithiolrwydd gwaith craffu yn ddrwg i awdurdodau lleol ac yn ddrwg i'r broses a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ar lefel leol. Nid wyf wedi

Government and Public Services Committee on the new political management structures during the second Assembly—

dod i'r casgliad hwn ar fy mhen fy hun. Rhaid imi eich cyfeirio yn ôl at adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus blaenorol ynghylch y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd yn ystod yr ail Gynulliad—

**The Presiding Officer:** Are you giving way to Jonathan Morgan?

**Y Llywydd:** A ydych yn ildio i Jonathan Morgan?

**Carl Sargeant:** Yes.

**Carl Sargeant:** Ydw.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to the Minister for giving way. I just wanted to ask him a question. Minister, you used to be the Chief Whip for your group; did you ever issue a party whip for those Members of your own group attending scrutiny committees in the Assembly?

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Hoffwn ofyn cwestiwn iddo. Weinidog, roeddech yn arfer bod yn Brif Chwip i'ch grŵp; a wnaethoch chi erioed chwipio'r Aelodau hynny o'ch grŵp a oedd yn mynychu pwyllgorau craffu yn y Cynulliad?

**Carl Sargeant:** I am sure that that is a matter for the party, Jonathan. Perhaps you would like to write to me. [*Interruption*.]

**Carl Sargeant:** Rwyf yn siŵr bod hwnnw'n fater i'r blaid, Jonathan. Efallai yr hoffech ysgrifennu ataf. [*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. I know that that is quite relevant to the debate, but the Minister is replying here as a Welsh Minister, and not as the Chief Whip, although he clearly may refer to some of his previous experiences.

**Y Llywydd:** Trefn. Gwn fod y mater hwn yn eithaf perthnasol i'r ddadl, ond mae'r Gweinidog yn ateb yma fel un o Weinidogion Cymru, ac nid fel y Prif Chwip, er mae'n amlwg y gall gyfeirio at rai o'i brofiadau blaenorol.

**Carl Sargeant:** As I was saying, I have not come to this conclusion about whipping and the decision-making process on my own. I refer you to the report of the Local Government and Public Services Committee of the Assembly back in 2004. I will quote from the Plenary debate on that report. It was said that scrutiny members

**Carl Sargeant:** Fel y dywedais, nid wyf wedi dod i'r casgliad hwn am chwipio a'r broses o wneud penderfyniadau ar fy mhen fy hun. Fe'ch cyfeiriaf at adroddiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad yn 2004. Dyfynnaf ddarn o'r drafodaeth a gafwyd yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad hwnnw. Dyma'r hyn a ddywedwyd am yr aelodau craffu:

'must be given the necessary support and training to help them understand that that role means that they are freeing themselves in some way from the party bands of the old committee structure. That means that there must be freedom from the whip, as highlighted in the recommendations.'

'Rhaid iddynt gael y cymorth a'r hyfforddiant y mae arnynt eu hangen i ddeall bod y rôl honno'n golygu eu bod yn ymryddhau mewn rhyw fodd o glymau pleidiol yr hen strwythur pwyllgorau. Mae hynny'n golygu bod rhaid cael rhyddid oddi wrth y chwip, fel y nodir yn yr argymhellion.'

Incidentally, that quote is from Mike German.

Gyda llaw, dyfyniad gan Mike German oedd hwnnw.

Finally, I speak to amendments 2, 3, 4, 5 and 6 together. These are a result of the commitment that I made during Stage 2

Yn olaf, hoffwn siarad am welliannau 2, 3, 4, 5 a 6 gyda'i gilydd. Mae'r rhain yn ganlyniad i'r ymrwymiad a wneuthum yn ystod

proceedings. The committee was unhappy with the prospect of enabling local authorities to give voting rights to co-opted members of scrutiny and overview committees. I accept the argument made about these proposals and have made the appropriate amendments. I ask Plenary to support amendments 2, 3, 4, 5 and 6, and to resist the others in this group.

trafodion Cyfnod 2. Roedd y pwyllgor yn anhapus gyda'r posibilrwydd o alluogi awdurdodau lleol i roi hawliau pleidleisio i aelodau cyfetholedig o bwyllgorau craffu a throsolwg. Rwyf yn derbyn y ddadl a wneir am y cynigion hyn ac wedi gwneud y newidiadau priodol. Rwyf yn gofyn i'r Cyfarfod Llawn i gefnogi gwelliannau 2, 3, 4, 5 a 6, ac i wrthod y lleill yn y grŵp hwn.

**Jonathan Morgan:** I will deal first with the Minister's response to amendments 58, 59 and 60, I suspect that much of this work has probably come out of the review that the Health, Wellbeing and Local Government Committee did into local service boards. There were clearly issues about the way in which the work of those local service boards could be scrutinised, and I understand the dilemma that he thinks that local authorities could face in the sense that we need to ensure that they are scrutinising other services in their areas. However, in our view, the way in which the proposed Measure is drafted places local authorities in a tricky position. If the proposed Measure states that they are required to report on everything raised with them, then the decision to exercise sensible judgement on when to report and make recommendations is taken out of their hands. Perhaps it is the way that the proposed Measure was originally worded that is the cause of concern; I can see the intention behind this section, but the ultimate effect will be to restrict the work of local authorities because they will be required to produce reports and recommendations on matters that are raised with them. That is too prescriptive, and I would prefer local authorities to be in a position to scrutinise the delivery of services in their areas and decide what they want to examine, how they want to examine it and how they wish to take that work forward with any report or recommendations.

**Jonathan Morgan:** Byddaf yn ymdrin yn gyntaf ag ymateb y Gweinidog i welliannau 58, 59 a 60. Rwyf yn amau bod llawer o'r gwaith hwn wedi deillio o'r adolygiad o fyrddau gwasanaethau lleol a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol. Yn amlwg, roedd materion i'w trafod ynghylch y ffordd y gellid craffu ar waith y byrddau gwasanaethau lleol, ac rwyf yn deall ei farn ynghylch y cyfyng-gyngor y gallai awdurdodau lleol ei wynebu, yn yr ystyr bod angen inni sicrhau eu bod yn craffu ar wasanaethau eraill yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae'r ffordd y cafodd y Mesur arfaethedig ei ddrafftio yn rhoi awdurdodau lleol mewn sefyllfa anodd. Os yw'r Mesur arfaethedig yn datgan bod gofyn iddynt lunio adroddiad ar bopeth a godwyd gyda hwy, yna byddai'r penderfyniad i ddefnyddio synnwyr cyffredin ynghylch pryd i lunio adroddiad a gwneud argymhellion yn cael ei gymryd oddi wrthynt. Efallai mai'r modd y cafodd y Mesur arfaethedig ei eirio'n wreiddiol yw'r testun pryder; deallaf y bwriad y tu ôl yr adran hon, ond yr effaith yn y pen draw fyddai cyfyngu gwaith yr awdurdodau lleol, gan y byddai'n ofynnol iddynt i gynhyrchu adroddiadau ac argymhellion ar faterion a godir gyda hwy. Mae hynny'n rhy ragnodol, a byddai'n well gennyf pe bai awdurdodau lleol mewn sefyllfa i graffu ar ddarpariaeth gwasanaethau yn eu hardaloedd ac i benderfynu beth yr hoffent ei archwilio, sut yr hoffent ei archwilio a sut y maent yn dymuno datblygu'r gwaith hwnnw drwy adroddiad neu argymhellion.

I am grateful to the Presiding Officer for his guidance on my earlier intervention. However, I think that I put a valid question to the Minister regarding his previous role as Chief Whip. We operate a whip system at the National Assembly; we have Chief Whips who are remunerated for their work in

Rwyf yn ddiolchgar i'r Llywydd am ei arweiniad ar fy ymyriad yn gynharach. Fodd bynnag, credaf fy mod wedi gofyn cwestiwn dilys i'r Gweinidog ynghylch ei rôl flaenorol fel Prif Chwip. Rydym yn gweithredu system chwip yn y Cynulliad Cenedlaethol; mae gennym Brif Chwipiaid sy'n cael eu talu am

ensuring that we are co-ordinated as individual political groups. The Minister was not able to confirm this, but there may well have been occasions in the past when a former Chief Whip of the Labour group issued a whip to Members from that group before they attended scrutiny committees. It was a fair question about the Minister's previous work.

y gwaith o sicrhau ein bod yn gydgysylltedig fel grwpiau gwleidyddol unigol. Nid oedd y Gweinidog yn gallu cadarnhau hyn, ond siawns y cafwyd achlysuron yn y gorffennol pan gyhoeddodd cyn-Brif Chwip y grŵp Llafur chwip ar Aelodau o'r grŵp hwnnw cyn iddynt fynychu pwyllgorau craffu. Roedd hwnnw'n gwestiwn teg am waith y Gweinidog blaenorol.

**The Presiding Officer:** Order. The whole point of my attempt to maintain order in that matter was that the Minister is not standing before us as a former Chief Whip. As a Minister, he is no longer responsible for what he did as Chief Whip; he may be held responsible as a former Chief Whip or if he were no longer a Minister, but for the purposes of this debate he is answering as a Minister.

**Y Llywydd:** Trefn. Holl bwynt fy ymgais i gadw trefn yn y mater hwnnw oedd y ffaith nad oedd y Gweinidog yn sefyll ger ein bron fel cyn-Brif Chwip. Fel Gweinidog, nid yw bellach yn gyfrifol am yr hyn a wnaethpwyd ganddo fel Prif Chwip; efallai y byddai'n bosibl ei ddwyn i gyfrif fel cyn-Brif Chwip neu pe na bai bellach yn Weinidog, ond, at ddibenion y ddadl hon, y mae'n atebol fel Gweinidog.

**Jonathan Morgan:** I was not attempting to hold the current Minister accountable for anything that he might have done in the past; I was merely looking for a bit of historical insight on his part. I was interested in what might have happened in the past. We did not get an answer, but I tried.

**Jonathan Morgan:** Nid wyf yn ceisio dwyn y Gweinidog i gyfrif am unrhyw beth y gallai fod wedi'i wneud yn y gorffennol; dim ond gofyn oeddwn i am ychydig o wybodaeth hanesyddol ganddo. Roedd gennyf ddiddordeb yn yr hyn a allai fod wedi digwydd yn y gorffennol. Ni chawsom ateb, ond rhoddais gynnig arni.

The amendment that has been tabled by the Liberal Democrats is the right approach to take. As I said, I feel strongly that, unless we can show the people of Wales that the laws that we pass can be implemented and enforced, they are not worth the paper that they are written on. As we proceed to the fourth Assembly, which will pass Acts, we have to show a willingness on our part to pass legislation that we are confident can be implemented. I do not think that the section of the proposed Measure in question can be implemented; I have not heard anything this afternoon from the Government that outlines how it will be enforced, what the requirements for local authorities will be, what the reporting mechanisms and sanctions will be and who will be accountable if a Chief Whip of a political group in a local authority tries to force members to say something or vote in a particular way. There are bigger things for us as an Assembly and for the Government to deal with rather than trying to micromanage how political parties work in democratically elected local

O ran y gwelliant a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, dyma'r dull cywir i'w fabwysiadu. Fel y dywedais, teimlaf yn gryf am y mater hwn: oni allwn ddangos i bobl Cymru y gall y cyfreithiau yr ydym yn eu pasio gael eu gweithredu a'u gorfodi, nid ydynt yn werth y papur y maent wedi'u hysgrifennu arno. Wrth inni symud ymlaen i'r Pedwerydd Cynulliad, a fydd yn pasio Deddfau, mae'n rhaid inni ddangos parodrwydd ar ein rhan i basio deddfwriaeth y mae gennym hyder y gellir ei rhoi ar waith. Ni chredaf y gellir rhoi ar waith yr adran hon o'r Mesur arfaethedig o dan sylw; nid wyf wedi clywed unrhyw beth y prynhawn yma gan y Llywodraeth sy'n amlinellu sut y bydd yn cael ei gorfodi, beth fydd y gofynion ar awdurdodau lleol, beth fydd y mecanweithiau adrodd a'r sancsiynau, a phwy fydd yn atebol os bydd Prif Chwip grŵp gwleidyddol mewn awdurdod lleol yn ceisio gorfodi aelodau i ddweud rhywbeth neu daro pleidlais mewn ffordd benodol. Mae yna bethau mwy i'r Cynulliad a'r Llywodraeth fynd i'r afael â hwy, yn hytrach na cheisio meicroreoli sut y

authorities.

mae pleidiau gwleidyddol yn gweithio mewn awdurdodau lleol a etholir yn ddemocrataidd.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 58. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 58 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 58: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 32.*
*Amendment 58: For 16, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 58.*
*Amendment 58 not agreed.*

**The Presiding Officer:** I invite Jonathan Morgan to move amendment 59.

**Y Llywydd:** Gwahoddaf Jonathan Morgan i gynnig gwelliant 59.

**Jonathan Morgan:** I move amendment 59 in my name.

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf welliant 59 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 59. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 59 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 59: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 33.*
*Amendment 59: For 16, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 59.*
*Amendment 59 not agreed.*

**The Presiding Officer:** I invite Jonathan Morgan to move amendment 60.

**Y Llywydd:** Gwahoddaf Jonathan Morgan i gynnig gwelliant 60.

**Jonathan Morgan:** I move amendment 60 in my name.

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf welliant 60 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 60. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 60 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 60: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 33.*
*Amendment 60: For 16, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine

Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 60.*
*Amendment 60 not agreed.*

**The Presiding Officer:** We move to dispose of amendment 2. I invite the Minister to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn i waredu gwelliant 2. Gwahoddaf y Gweinidog i gynnig y gwelliant.

**Carl Sargeant:** I move amendment 2 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 2 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 2 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*
*Amendment 2 agreed.*

**The Presiding Officer:** We move to dispose of amendment 3. I invite the Minister to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn i waredu gwelliant 3. Gwahoddaf y Gweinidog i gynnig y gwelliant.

**Carl Sargeant:** I move amendment 3 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 3 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 3 be agreed to. Are there any

nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 3 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 3.*
*Amendment 3 agreed.*

**The Presiding Officer:** We move to dispose of amendment 4. I invite the Minister to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn i waredu gwelliant 4. Gwahoddaf y Gweinidog i gynnig y gwelliant.

**Carl Sargeant:** I move amendment 4 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 4 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 4 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 4.*
*Amendment 4 agreed.*

**The Presiding Officer:** We move to dispose of amendment 5. I invite the Minister to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn i waredu gwelliant 5. Gwahoddaf y Gweinidog i gynnig y gwelliant.

**Carl Sargeant:** I move amendment 5 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 5 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 5 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 5 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 5 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 5.*
*Amendment 5 agreed.*

**The Presiding Officer:** We move to dispose of amendment 6. I invite the Minister to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn i waredu gwelliant 6. Gwahoddaf y Gweinidog i gynnig y gwelliant.

**Carl Sargeant:** I move amendment 6 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 6 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 6 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 6 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 6 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 6.*
*Amendment 6 agreed.*

**The Presiding Officer:** We move to dispose of amendment 79. I invite Veronica German to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn i waredu gwelliant 79. Gwahoddaf Veronica German i gynnig y gwelliant.

**Veronica German:** I move amendment 79 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 79 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 79. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 79 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 79: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 32.*
*Amendment 79: For 16, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 79.*
*Amendment 79 not agreed.*

## Grŵp 7: Cydnabyddiaeth i Aelodau Etholedig (Gwelliant 7)
## Group 7: Remuneration of Elected Members (Amendment 7)

**Y Llywydd:** Galwaf ar Carl Sargeant i gynnig gwelliant 7 a siarad amdano.

**The Presiding Officer:** I call on Carl Sargeant to move amendment 7 and to speak to the amendment.

**Carl Sargeant:** I move amendment 7 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 7 yn fy enw i.

Section 158, as drafted, allows for relevant authorities to withhold payments to a member who is suspended from an authority. The amendment addresses a potential loophole. It will allow relevant authorities to be able to recover payments that have been made in error to a member who is suspended. This is a necessary addition to section 158. It will ensure that local authorities have the power to recover the payments. I urge Members to support this amendment.

Mae adran 158, fel y'i drafftiwyd, yn caniatáu i awdurdodau perthnasol i atal taliadau i aelod a waharddwyd gan yr awdurdod. Mae'r gwelliant hwn yn mynd i'r afael â bwlch posibl. Bydd yn caniatáu i awdurdodau perthnasol i allu adennill taliadau sydd wedi'u gwneud mewn camgymeriad i aelod sydd wedi'i wahardd. Mae'r cam hwn yn ychwanegiad angenrheidiol i adran 158. Bydd yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol y pŵer i adennill y taliadau hyn. Anogaf Aelodau i gefnogi'r gwelliant hwn.

**Jonathan Morgan:** We support this amendment. I suspect that it was an oversight when the proposed Measure was initially drafted. It makes perfect sense for a local authority to have the ability to recover an overpayment or a payment that has been made in error, and we happily support the amendment.

**Jonathan Morgan:** Cefnogwn y gwelliant hwn. Rwyf yn amau mai amryfusedd ydoedd pan gafodd y Mesur arfaethedig ei ddrafftio'n wreiddiol. Mae'n gwneud synnwyr perffaith fod gan awdurdod lleol y gallu i adennill gordaliad neu daliad a wnaed mewn camgymeriad, ac rydym yn hapus i gefnogi'r gwelliant.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 7 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 7 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 7 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 7.*
*Amendment 7 agreed.*

**Grŵp 8: Gorchmynion Cyfuno a Darpariaethau Atodol (Gwelliannau 14, 62, 20, 63, 16, 18, 17, 12, 13, 19, 15, 25 a 24)**
**Group 8: Amalgamation Orders and Supplementary Provisions (Amendments 14, 62, 20, 63, 16, 18, 17, 12, 13, 19, 15, 25 and 24)**

**The Presiding Officer:** I call on Veronica German to move amendment 14 and to speak to the other amendments in the group.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Veronica German i gynnig gwelliant 14 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

**Veronica German:** I move amendment 14 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 14 yn fy enw i.

The way that section 164A is drafted leaves the Government with enormous power to amalgamate any authority with another, whenever it sees fit. The use of the phrase 'may' is ambiguous. It means that too much can be done at one time without enough scrutiny, consultation and accountability. Our amendments introduce some limits to this

Mae'r ffordd y cafodd adran 164A ei drafftio yn rhoi pŵer enfawr i'r Llywodraeth uno awdurdodau, fel y gwêl y bo'n briodol. Mae'r defnydd o'r gair 'caiff' yn yr ymadrodd yn amwys. Mae'n golygu y gellir gwneud gormod ar un adeg heb ddigon o ymgynghori, craffu ac atebolrwydd. Mae ein gwelliannau yn cyflwyno rhai cyfyngiadau ar y pŵer hwn

power by stating that the Minister can use the power only once and that it must be instigated within 18 months. Our amendments are intended to act as a sunset clause. We feel that this part of the legislation needs to be especially tight so that there is no ambiguity about what can and cannot be done with this part of the proposed Measure. Our amendments seek to rectify this by making clear to future Ministers the limit of their power in relation to this part of the proposed Measure. Our additions are fair. We feel that 18 months from the commencement of this section is long enough for the Government to decide on the purpose of this legislation and, if it really is about one particular authority in north Wales, then 18 months is long enough to deal with that issue. However, if it is about reorganisation more generally, then 18 months will not be long enough; the proposed Measure will expire and the Government will be forced to adopt more traditional and appropriate methods for any reorganisation of local government.

drwy ddatgan y gall y Gweinidog ddefnyddio'r pŵer unwaith yn unig, a bod yn rhaid cychwyn y broses o fewn 18 mis. Bwriad ein gwelliannau yw bod yn rhyw fath o gymal machlud. Teimlwn fod angen i'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth fod yn arbennig o dynn, fel nad oes amwysedd ynghylch beth y gellir ac na ellir ei wneud mewn perthynas â'r rhan hon o'r Mesur arfaethedig. Mae ein gwelliannau'n ceisio unioni hyn drwy egluro i Weinidogion y dyfodol y cyfyngiadau ar eu grym mewn perthynas â'r rhan hon o'r Mesur arfaethedig. Mae ein hychwanegiadau yn deg. Teimlwn fod cyfnod o 18 mis o gychwyn yr adran hon yn gyfnod digon hir i'r Llywodraeth benderfynu ar bwrpas y ddeddfwriaeth hon. Yn ogystal, os yw'n wir fod y mater hwn yn ymwneud ag un awdurdod penodol yng ngogledd Cymru, yna bydd 18 mis yn gyfnod digon hir i fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Fodd bynnag, os yw'r mater hwn yn ymwneud ag ad-drefnu cyffredinol, ni fydd cyfnod o 18 mis yn ddigon hir; bydd y Mesur arfaethedig yn dod i ben a bydd y Llywodraeth yn cael ei gorfodi i fabwysiadu dulliau mwy traddodiadol a phriodol o ad-drefnu llywodraeth leol.

The Minister keeps telling us that this is not about reorganisation in general, but about collaboration and improvement. Indeed, there are many parts of this proposed Measure that are about collaboration and improvement. However, these extra sections that have been added have, to our minds, changed the whole feel of this proposed Measure.

Mae'r Gweinidog yn dweud wrthym dro ar ôl tro nad yw'r mater hwn yn ymwneud ag ad-drefnu cyffredinol, ond yn hytrach ei fod yn ymwneud â chydweithio a gwella. Yn wir, mae sawl rhan o'r Mesur arfaethedig sy'n ymwneud â chydweithio a gwella. Fodd bynnag, mae'r adrannau ychwanegol a gafodd eu hychwanegu, yn ein barn ni, wedi newid teimlad y Mesur arfaethedig hwn yn ei gyfanrwydd.

5.00 p.m.

The previous Local Government (Wales) Measure 2009 famously gave Ministers the power to do anything to improve local authorities. Therefore, why not make use of those powers? The simple fact is that allowing these powers to be removed from the Assembly and passed to the Executive is a dangerous precedent to set. As we have already said, who knows who will next be in power? I know that this Minister has good intentions, and that he does not intend to use these powers in a wider way—so he tells us—but that is not a good enough reason for having a law that lasts for a long time that

Rhoddodd y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 blaenorol bŵer nodedig i Weinidogion wneud unrhyw beth i wella awdurdodau lleol. Felly, pam na wnewch chi ddefnyddio'r pwerau hynny? Y ffaith syml yw bod caniatáu i'r pwerau hyn gael eu tynnu oddi ar y Cynulliad a'u trosglwyddo i'r Weithrediaeth yn gynsail beryglus i'w gosod. Fel y dywedasom eisoes, pwy a ŵyr pwy fydd mewn grym nesaf? Gwn fod bwriadau da gan y Gweinidog hwn, ac nad yw'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn mewn ffordd ehangach—dyna'r hyn mae'n ei ddweud wrthym—ond nid yw hynny'n

can be used in that way.

rheswm digon da dros gael cyfraith sy'n para am amser hir ac a all gael ei defnyddio yn y modd hwnnw.

There are a number of amendments in this group, and I will speak only to those in my name at this point. Amendment 20 limits the number of authorities that can be amalgamated to two, instead of three. We have put forward this amendment, because, again, we feel that amalgamating three local authorities at any one time is a step too far. The amalgamation of two authorities would be difficult enough logistically, but amalgamating three would be practically impossible. The difficulties that arise from amalgamating two local authorities can be time-consuming and resource draining, and if you were to amalgamate three then there would certainly be implications. If this is about a large-scale reorganisation of local government—the Minister tells us that it is not—then we should be using a different process. If it is simply about addressing a particular issue in north Wales that has been much talked about, then a limit of two authorities would be sufficient to achieve the Government's objectives.

Mae nifer o welliannau yn y grŵp hwn, a byddaf yn siarad yn unig am y rhai yn fy enw i yn awr. Mae gwelliant 20 yn cyfyngu ar nifer yr awdurdodau y gellir eu huno i ddau, yn lle tri. Rydym wedi cyflwyno'r gwelliant hwn oherwydd, unwaith eto, teimlwn fod cyfuno tri awdurdod lleol ar unrhyw adeg benodol yn gam yn rhy bell. Byddai uno dau awdurdod yn ddigon anodd yn logistaidd, ond byddai uno tri awdurdod bron yn amhosibl. Gall yr anawsterau sy'n codi o uno dau awdurdod lleol gymryd llawer o amser ac adnoddau i'w datrys, a phe byddech yn uno tri awdurdod, yna mae'n sicr y byddai goblygiadau i hynny. Os yw'r mater hwn yn ymwneud ag ad-drefnu llywodraeth leol ar raddfa fawr—mae'r Gweinidog yn dweud wrthym nad ydyw—yna dylem fod yn defnyddio proses wahanol. Os yw'n ymwneud yn unig â mynd i'r afael â mater penodol yn y gogledd sydd wedi bod yn destun trafod mawr, yna byddai uchafswm o ddau awdurdod yn ddigonol i gyflawni amcanion y Llywodraeth.

Amendment 16 is about holding a referendum in the local government areas to be amalgamated, which is a new level of safeguard against the abuse of amalgamation powers. This amendment states that before Government can pursue an amalgamation Order, there must be a referendum to approve the proposals in each of the local authority areas affected. We put forward this amendment because we believe that that is the fairest thing to do. We feel that, in this instance, the Government is proposing to initiate powers that would allow the amalgamation of authorities without sufficient consultation. I note that the Minister has added another layer of consultation, but we still do not feel that that is enough. That is why we have put forward an amendment for referenda to be held in the affected local government areas, to give communities a say. The people in those communities will be the ones who have to live under any new regime, therefore it is only fair that they should have a say in that matter. Where people identify where they come from and belong to is often an

Mae gwelliant 16 yn ymwneud â chynnal refferendwm yn yr ardaloedd llywodraeth leol sydd i'w huno, ac yn gam diogelu pellach yn erbyn camddefnyddio pwerau uno. Mae'r gwelliant hwn yn datgan, cyn y gall y Llywodraeth fynd ar drywydd Gorchymyn uno, rhaid cael refferendwm i gymeradwyo'r cynigion ym mhob un o'r ardaloedd awdurdod lleol yr effeithir arnynt. Rydym yn cyflwyno'r gwelliant hwn oherwydd credwn mai dyna'r peth tecaf i'w wneud. Yn yr achos hwn, teimlwn fod y Llywodraeth yn bwriadu cychwyn pwerau a fyddai'n caniatáu i awdurdodau gael eu huno heb ymgynghori digonol. Nodaf fod y Gweinidog wedi ychwanegu haen arall o ymgynghori, ond ni chredwn fod hynny'n ddigon. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno gwelliant ar gyfer cynnal refferenda yn yr ardaloedd llywodraeth leol yr effeithir arnynt, er mwyn rhoi cyfle i gymunedau gael dweud eu dweud. Y bobl yn y cymunedau hynny fydd y rhai a fydd yn gorfod byw o dan unrhyw drefn newydd. Mae ond yn deg, felly, iddynt gael cyfle i ddweud eu dweud ar y mater hwnnw. Mae nodi o ble y dônt ac i ble y

important matter of cultural identity and pride, therefore agreeing to hold a referendum demonstrates that the Government is willing to take views on board and to act accordingly.

maent yn perthyn yn aml yn fater pwysig o hunaniaeth ddiwylliannol a balchder i bobl. Felly, byddai cytuno i gynnal refferendwm yn dangos bod y Llywodraeth yn barod i glywed eu barn ac i weithredu'n unol â hynny.

I move onto amendment 18, which is yet another safeguard. As the proposed Measure stands, the Minister, as we understand it, does not have to give very much evidence about why he might want to amalgamate different authorities. We are told that it must be in the interests of effective local government, but we are still not very sure what that means. I am sure that others will expand on that particular issue.

Symudaf ymlaen at welliant 18, sy'n gam diogelu arall. O ran y Mesur arfaethedig ar ei ffurf bresennol, nid oes rhaid i'r Gweinidog, yn ôl ein dealltwriaeth ni, gyflwyno llawer o dystiolaeth ynghylch pam yr hoffai uno awdurdodau gwahanol. Dywedir wrthym fod yn rhaid i'r cam hwn fod er budd llywodraeth leol effeithiol, ond rydym yn dal i fod yn ansicr am beth y mae hynny'n ei olygu. Rwyf yn siŵr y bydd eraill yn ymhelaethu ar y mater penodol hwnnw.

Our series of amendments therefore offer a number of safeguards in this regard. They would enable local people to have a say, as I have mentioned, and would require a resolution of the Assembly. The powers appear to have been set up to minimise the influence of the Assembly as much as possible, and we want to reverse that. We have adopted a model that is similar to the way in which backbench legislation works currently, that is that the Minister, before he drafts an amalgamation Order, must bring an outline proposal to the Assembly and then the Assembly must decide whether or not to give the Minister leave to go away to consult, initiate local referenda and prepare the final Order. These provisions are an added safeguard, and, therefore, I hope that these amendments will receive support.

Felly, mae ein cyfres o welliannau'n cynnig nifer o gamau diogelu yn hynny o beth. Byddent yn galluogi pobl leol i ddweud eu dweud, fel y dywedais eisoes, a byddent yn ei gwneud yn ofynnol cael penderfyniad gan y Cynulliad. Mae'n ymddangos y cafodd y pwerau eu sefydlu er mwyn lleihau dylanwad y Cynulliad gymaint ag y bo modd, ac rydym am wrthdroi'r sefyllfa honno. Rydym wedi mabwysiadu model sy'n debyg i'r ffordd y mae deddfwriaeth o'r meinciau cefn yn gweithio ar hyn o bryd; hynny yw, bod yn rhaid i'r Gweinidog, cyn iddo ddrafftio Gorchymyn uno, gyflwyno cynnig amlinellol i'r Cynulliad, a bod yn rhaid i'r Cynulliad benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i'r Gweinidog ymgynghori, cychwyn y broses o gynnal refferenda lleol a pharatoi'r Gorchymyn terfynol. Mae'r darpariaethau hyn yn gam diogelu ychwanegol ac, felly, gobeithiaf y bydd y gwelliannau hyn yn cael cefnogaeth.

I now move onto amendment 17. As we have mentioned before, we feel that the fairest way to decide whether amalgamation is appropriate is to hold a referendum and given that, in Wales, people have the right to decide who they want to represent them as councillors, it is therefore only fair that they should have a say about which local authority they belong to. Therefore, the amendment is just an extension of what I spoke about earlier.

Symudaf ymlaen yn awr at welliant 17. Fel yr ydym wedi crybwyll eisoes, teimlwn mai'r ffordd decaf o benderfynu a yw uno yn briodol yw cynnal refferendwm. O ystyried bod gan bobl yng Nghymru yr hawl i benderfynu pwy ddylai eu cynrychioli fel cynghorwyr, mae ond yn deg, felly, iddynt gael cyfle i ddweud eu dweud ynghylch pa awdurdod lleol y maent yn perthyn iddo. Felly, mae'r gwelliant yn estyniad o'r hyn a siaradais amdano yn gynharach.

Amendment 12 would insert extra words

Byddai gwelliant 12 yn mewnosod geiriau

about including reference to all the existing local government areas to be amalgamated or none. Again, this in the interests of sensitivity and fairness to the communities whose local authorities have been made into a single authority, so that they feel some sense of belonging to the new authority. We do not feel that it is fair for the people who have to live in the new local authority to lose their local identity or for a new identity to be forced upon them. If the issue is not treated with sensitivity, it will create divides between the two communities and will inevitably cause people to feel that one authority was more important than the other. Therefore, the naming of the new authority is important.

ychwanegol am gynnwys cyfeiriadau at yr holl ardaloedd llywodraeth leol presennol a fydd yn cael eu huno, neu at ddim un ohonynt. Unwaith eto, nod y cam hwn yw dangos sensitifrwydd a thegwch i'r cymunedau y bydd eu hawdurdodau lleol yn cael eu huno o fewn un awdurdod, fel bod ganddynt rywfaint o ymdeimlad o berthyn i'r awdurdod newydd. Nid ydym yn teimlo ei bod yn deg i'r bobl a fydd yn gorfod byw yn yr awdurdod lleol newydd golli eu hunaniaeth leol, na bod hunaniaeth newydd yn cael ei gorfodi arnynt. Os nad yw'r mater hwn yn cael ei drin mewn modd sensitif, bydd yn creu rhaniadau rhwng y ddwy gymuned ac, yn anochel, yn achosi pobl i deimlo bod un awdurdod yn fwy pwysig na'r llall. Felly, mae enwi'r awdurdod newydd yn bwysig.

We put forward the amendment in order to ensure that, if the proposals go ahead, the name of the new local government area is either made up of the names of the two former authorities or is a new name entirely that does not feature either. Not doing so would not be conducive to effective co-operation between the two local authorities and could cause unnecessary friction. Legislation in this area would also avoid the conflict that would inevitably ensue between authorities over which name is used.

Rydym yn cynnig y gwelliant hwn er mwyn sicrhau, os yw'r cynigion yn mynd yn eu blaen, fod enw'r ardal llywodraeth leol newydd naill ai'n cynnwys enwau'r ddau awdurdod blaenorol neu'n enw gwbl newydd nad yw'n cynnwys y naill na'r llall. Byddai peidio â gwneud hynny yn anffafriol o ran hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng y ddau awdurdod lleol, ac mae'n bosibl y gallai achosi gwrthdaro diangen. Byddai deddfwriaeth yn y maes hwn hefyd yn osgoi'r gwrthdaro anochel rhwng awdurdodau dros yr enw a gaiff ei ddefnyddio.

Amendment 13, again, is in the interests of fairness and sensitivity to the communities in a new authority, in stating, for the reasons that I have mentioned, that there should be a reference to all existing local government areas to be amalgamated or none.

Nod Gwelliant 13, unwaith eto, yw dangos tegwch a sensitifrwydd i'r cymunedau mewn awdurdod newydd. Am y rhesymau y soniais amdanynt eisoes, mae'n datgan y dylid cyfeirio at yr holl ardaloedd llywodraeth leol bresennol a fydd yn cael eu huno, neu at ddim un ohonynt.

I now move on to amendment 19, which relates to authority headquarters and the mayor and cabinet system. It seeks to resolve the problems that will inevitably arise when it comes to the logistics of amalgamation. We feel that, in the event that local authorities cannot decide on where to locate their headquarters, the responsibility should fall on Welsh Ministers to make a decision that is informed, objective, rational and, most importantly, that ensures that the new headquarters is in the most appropriate and

Symudaf ymlaen yn awr at welliant 19, sy'n ymwneud â phencadlys awdurdodau a'r system maer a chabinet. Mae'n ceisio datrys y problemau a fydd yn codi yn anochel mewn perthynas â'r logisteg o uno awdurdodau. Mewn achosion lle na all awdurdod lleol benderfynu ar leoliad ei bencadlys, teimlwn y dylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei ysgwyddo gan Weinidogion Cymru. Dylai'r Gweinidogion wneud penderfyniad sy'n wybodus, sy'n wrthrychol, sy'n rhesymol ac, yn bwysicaf oll, sy'n sicrhau bod y pencadlys newydd yn

convenient place for the communities that it will serve.

y lle mwyaf priodol a chyfleus ar gyfer y cymunedau y bydd yn eu gwasanaethu.

With regard to the rotation of mayors, we feel that, unless the new authority operates a mayor and cabinet system, a rotation system is fairest. We believe that that is the most diplomatic and logical way to proceed in the interests of fairness and equality between the two local authorities. They will have gone through a lot of trauma to get to that point, and everyone wants to ensure that one authority is not seen to take over the other one, as it were, and thus cause bad feeling.

O ran cylchdroi meiri, oni bai bod yr awdurdod newydd yn gweithredu system maer a chabinet, teimlwn mai system o gylchdroi yw'r system decaf. Credwn mai dyna'r modd mwyaf diplomyddol a rhesymegol o symud ymlaen, gan ddangos tegwch i'r ddau awdurdod lleol a sicrhau cydraddoldeb rhyngddynt. Byddant wedi dioddef llawer o drawma i gyrraedd y pwynt hwnnw, ac mae pawb am sicrhau nad oes canfyddiad bod un awdurdod yn cael ei ymgorffori gan y llall, fel petai, gan achosi drwgdeimlad.

Turning to amendment 15, most of our amendments, as we have said, are intended to limit the power of the Minister. The purpose of the amendment is to add a sunset clause to the Government's amendment, so that, after a certain period—in this case, 18 months—the powers will automatically expire. On several occasions over the past few years, Welsh Ministers have been granted powers that have enabled them to achieve things that do not really have to be done through legislation. The typical response of the Government is to say that it has no intention of using the power for such a purpose, and we then have to rely on the Minister's word. In this case, we have the Minister's assurance that he does not intend to use his powers for a wholesale reorganisation of local government, and we can accept his words at face value. He probably does not want to undertake a full-scale reorganisation. However, as we said earlier, the fact is that he might not be the Minister after May, and someone else might have the job.

Trof yn awr at welliant 15. Nod y rhan fwyaf o'n gwelliannau, fel y dywedasom, yw cyfyngu ar bŵer y Gweinidog. Diben y gwelliant hwn yw ychwanegu cymal machlud at welliant y Llywodraeth. Felly, ar ôl cyfnod penodol—yn yr achos hwn, 18 mis—bydd y pwerau'n dod i ben yn awtomatig. Ar sawl achlysur yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru wedi cael pwerau sydd wedi'u galluogi i gyflawni pethau nad oes wir angen eu gwneud drwy ddeddfwriaeth. Ymateb nodweddiadol y Llywodraeth yw dweud nad yw'n bwriadu defnyddio'r pŵer at ddibenion o'r fath, ac rydym yn gorfod dibynnu ar air y Gweinidog yn hynny o beth. Yn yr achos hwn, mae gennym sicrwydd y Gweinidog nad yw'n bwriadu defnyddio ei bwerau ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol, a gallwn dderbyn ei eiriau heb eu hamau. Mae'n debyg nad yw am weithredu ad-drefniant llawn. Fodd bynnag, fel y soniwyd yn gynharach, y ffaith yw ei bod yn bosibl nad ef bydd y Gweinidog ar ôl mis Mai, ac y bydd rhywun arall yn cael y swydd.

**Joyce Watson:** I would like to point out a few things. I sat on the legislation committee that considered the proposed Measure, but what you are describing makes me wonder whether you and I were in different worlds. Would you accept that we are talking about failing authorities here, and amalgamating failing authorities only? Would you accept therefore that some of what you have said does not address the reality of what is being proposed, but a dimension that I am certainly not aware of and things that I certainly did

**Joyce Watson:** Hoffwn nodi ychydig o bethau. Eisteddais ar y pwyllgor deddfwriaeth a ystyriodd y Mesur arfaethedig hwn, ond mae'r hyn yr ydych yn ei ddisgrifio yn gwneud i mi feddwl tybed a oeddech chi a minnau mewn bydoedd gwahanol. A fyddech yn derbyn ein bod yn sôn am awdurdodau sy'n methu yn yr achos hwn, ac am uno awdurdodau sy'n methu yn unig? A fyddech yn derbyn, felly, nad yw rhai o'r pethau yr ydych wedi'u dweud yn mynd i'r afael â gwirionedd yr hyn sy'n cael ei gynnig, ond

not listen to in the committee?

hytrach ei bod yn ymwneud â dimensiwn nad wyf yn ymwybodol ohono a phethau na chlywais amdanynt yn y pwyllgor?

**Veronica German:** We did not have much of a chance to discuss this at committee, because it came to us so late. We did not have the full and frank discussions and the benefit of consultation with outside bodies on this particular part of the proposed Measure that we had had in relation to the rest of it. That is why we are tabling so many amendments at this stage. I agree that something has to be done about failing authorities, if we have them. However, what is a failing authority? What is effective local government? We still do not know what those things are: we have no idea what effective local government is in terms of how this legislation is written. As I said, the Minister has assured us that he does not intend to use these powers. However, our job is to pass legislation that is watertight. We cannot give open-ended powers to the Executive. That would threaten the very way that this place works, and it could give future Governments an opportunity to abuse the system. I know that there are many people in this Assembly, on all sides, who are very concerned about how this legislation has come about. We talk about scrutiny, and we have to ensure that we scrutinise. That is why we did not have those long discussions, Joyce. In order to limit the powers that the Minister is trying to acquire, our sunset clause will set an expiry date for these powers, ensuring that they would be used once only. If it is then still deemed necessary to have a new way of reorganising local authorities, a Bill could be brought forward to do just that.

**Veronica German:** Ni chawsom lawer o gyfle i drafod y mater hwn yn y pwyllgor, gan ei fod wedi dod ger ein bron mor hwyr. Ni chawsom y math o drafodaethau llawn ac agored ar y rhan benodol hon o'r Mesur arfaethedig—na'r budd o ymgynghori gyda chyrff allanol—ag y cawsom mewn perthynas â'r gweddill ohono. Dyna pam yr ydym yn cyflwyno cymaint o welliannau yn y cyfnod hwn o bryd. Cytunaf fod yn rhaid gwneud rhywbeth am awdurdodau sy'n methu, os ydynt yn bodoli. Fodd bynnag, beth yw awdurdod sy'n methu? Beth yw llywodraeth leol effeithiol? Ni wyddom beth yw'r pethau hynny: nid oes gennym unrhyw syniad beth yw llywodraeth leol effeithiol o ran sut y caiff y ddeddfwriaeth hon ei hysgrifennu. Fel y dywedais, mae'r Gweinidog wedi rhoi sicrwydd inni am y ffaith nad yw'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn. Fodd bynnag, ein gwaith ni yw pasio deddfwriaeth sy'n dal dŵr. Ni allwn roi pwerau penagored i'r Weithrediaeth. Byddai hynny'n bygwth y ffordd y mae'r lle hwn yn gweithio, a gallai roi cyfle i Lywodraethau'r dyfodol i gamddefnyddio'r system. Gwn fod yna lawer o bobl yn y Cynulliad hwn, ar bob ochr, sy'n poeni'n fawr am sut y daeth y ddeddfwriaeth hon i fodolaeth. Rydym yn siarad am graffu, ac mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn craffu. Dyna pam na chawsom y trafodaethau hir hynny, Joyce. Er mwyn cyfyngu ar y pwerau y mae'r Gweinidog yn ceisio eu cael, bydd ein cymal machlud yn gosod dyddiad pan ddaw'r pwerau hyn i ben, gan sicrhau y byddent yn cael eu defnyddio unwaith yn unig. Yna, os bernir bod yn dal angen ffordd newydd o ad-drefnu awdurdodau lleol, gellir cyflwyno Bil i wneud hynny.

You will be pleased to know that I am now turning to the last amendment to which I will be speaking in this group.

Byddwch yn falch o glywed fy mod yn awr am droi at y gwelliant olaf yn y grŵp hwn y byddaf yn siarad yn ei gylch.

**The Presiding Officer:** Order. I was looking at the wrong clock. It seems that you have had 15 minutes.

**Y Llywydd:** Trefn. Roeddwn yn edrych ar y cloc anghywir. Mae'n ymddangos eich bod wedi cael 15 munud.

**Veronica German:** Time flies when you are enjoying yourself, Presiding Officer.

**Veronica German:** Mae amser yn hedfan pan fyddwch yn mwynhau eich hun, Lywydd.

[*Laughter.*]

[*Chwerthin.*]

**The Presiding Officer:** Order. This is a Stage 3 debate, and I am obviously keen to—

**Y Llywydd:** Trefn. Mae hon yn ddadl Cyfnod 3, ac rwyf yn amlwg yn awyddus i—

**Veronica German:** I am trying to explain the amendments, Presiding Officer.

**Veronica German:** Rwyf yn ceisio esbonio'r gwelliannau, Lywydd.

**The Presiding Officer:** There is no need to explain the amendments. You are moving the amendments and discussing them. I think that we might move on now.

**Y Llywydd:** Nid oes angen ichi esbonio'r gwelliannau. Rydych yn cynnig y gwelliannau a'u trafod. Credaf ei bod yn bryd inni symud ymlaen yn awr.

**Veronica German:** I am on to the last amendment, but it is all right, because Peter Black will perhaps speak to it for me later on.

**Veronica German:** Rwyf ar y gwelliant diwethaf, ond mae hynny'n iawn; siawns y gall Peter Black siarad amdano ar fy rhan yn nes ymlaen.

**Janet Ryder:** It is very interesting to listen to this, particularly the comments that have just been made. To some extent, we are all addressing the elephant in the room and failing to recognise it. Sections 164A to 164J were introduced following the very late introduction of two amendments. The Stage 2 amendments that created these sections in the proposed Measure have been given very little public airing, yet the sections pass a considerable amount power directly to a Minister. Those powers will be used via an Order, which will be unamendable. Those amendments have had no public consultation or scrutiny, but they are now part of the proposed Measure. Initially, the proposed Measure was intended to talk about collaboration, but now it talks about amalgamation. For many people, that is a big step, as I know the Minister is aware. It is such a big step that the Constitutional Affairs Committee decided to hold a review of these two amendments. The Minister kindly attended a committee meeting, and that was the only opportunity to discuss these amendments with him publicly. I thank him for making time available in his diary to do that. Having taken evidence in the committee, we have since published a report on the matter, and I hope that the Members have read it. It was published on Monday and is one of most weighty reports that the committee has published to date. We called on the Government to amend these sections, if it was not prepared to withdraw them, and to look at how amendments could be brought forward to make it clearer. One of the things

**Janet Ryder:** Mae gwrando ar y drafodaeth hon yn ddiddorol iawn, ac yn enwedig y sylwadau sydd newydd gael eu gwneud. I ryw raddau, rydym i gyd yn mynd i'r afael â'r eliffant yn yr ystafell ac yn methu â chydnabod hynny. Cyflwynwyd adrannau 164A i 164J wedi i ddau welliant gael eu cyflwyno'n hwyr iawn. Ychydig iawn o wyntyllu cyhoeddus sydd wedi digwydd ynghylch y gwelliannau yng Nghyfnod 2 a greodd yr adrannau hyn yn y Mesur arfaethedig; serch hynny, mae'r adrannau hyn yn trosglwyddo cryn dipyn o bŵer yn uniongyrchol i Weinidog. Bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio drwy gyfrwng Gorchymyn, a hwnnw'n Orchymyn na ellir ei ddiwygio. Ni chafwyd unrhyw ymgynghoriad neu graffu cyhoeddus ar y gwelliannau hynny, ond maent bellach yn rhan o'r Mesur arfaethedig. Yn gychwynnol, bwriad y Mesur arfaethedig oedd siarad am gydweithio, ond erbyn hyn, mae'n sôn am uno. I lawer o bobl, mae hynny'n gam mawr, a gwn fod y Gweinidog yn ymwybodol o hynny. Gan ei fod yn gam mor fawr, penderfynodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol i gynnal adolygiad o'r ddau welliant hyn. Roedd y Gweinidog yn ddigon caredig i ddod i gyfarfod pwyllgor, a dyna oedd yr unig gyfle a gawsom i drafod y gwelliannau gydag ef yn gyhoeddus. Hoffwn ddiolch iddo am neilltuo amser yn ei ddyddiadur i wneud hynny. Ers cymryd tystiolaeth yn y pwyllgor, rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar y mater, ac rwyf yn gobeithio bod yr Aelodau wedi'i ddarllen. Fe'i cyhoeddwyd ar ddydd Llun, ac mae'r adroddiad yn un o'r rhai mwyaf swmpus y

that specifically concerned us and which is fundamental to the amendments to this section is how you define effective local government. Section 164A(2) says

mae'r pwyllgor wedi'i gyhoeddi hyd yn hyn. Galwasom ar y Llywodraeth i ddiwygio'r adrannau hyn, os nad oedd yn barod i'w tynnu yn ôl, ac i edrych ar sut fyddai'n bosibl cyflwyno gwelliannau i wneud y sefyllfa'n gliriach. Un o'r pethau sy'n benodol yn bryder i ni ac sydd yn sylfaenol o ran y gwelliannau i'r adran hon yw sut yr ydych yn diffinio llywodraeth leol effeithiol. Mae adran 164A(2) yn dweud

'effective local government is not likely to be achieved'.

'na fyddai'n debyg y câi llywodraeth leol effeithiol ei sicrhau'.

5.15 p.m.

That is the trigger for the Minister, whoever it is, to step in. In committee, we were really given to understand that the Minister was going to consider this. He told us that the term 'effective local government' is a standard one used in local government legislation, dating back to the Local Government Act 1972. He was unable to tell us precisely what is meant by the term or what criteria would be used to judge whether an authority was providing effective local government. However, we were very pleased to note that he appeared to be willing to consider changes in this area to clarify the meaning. As a member of the committee, I was very disappointed that we did not see Government amendments to clarify that phrase.

Dyna'r sbardun ar gyfer y Gweinidog, pwy bynnag ydyw, i gamu i mewn. Yn y pwyllgor, cawsom ar ddeall bod y Gweinidog yn mynd i ystyried hyn. Dywedodd wrthym fod y term 'llywodraeth leol effeithiol' yn un safonol a ddefnyddir mewn deddfwriaeth llywodraeth leol, sy'n dyddio'n ôl i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oedd yn gallu dweud wrthym beth yn union a olygir gan y term na pha feini prawf a ddefnyddir i farnu a yw awdurdod yn darparu llywodraeth leol effeithiol. Fodd bynnag, roeddem yn falch iawn o nodi ei fod yn ymddangos i fod yn barod i ystyried newidiadau yn y maes hwn i egluro'r ystyr. Fel aelod o'r pwyllgor, roeddwn yn siomedig iawn nad oeddem wedi gweld gwelliannau'r Llywodraeth i egluro'r ymadrodd hwnnw.

If left to stand, regardless of the verbal commitments the Minister here gives, this section gives any future Minister the ability to use this in a way that I think many in the Chamber would not find desirable. In fact, the report, which was fully supported by every member of the committee, states that,

Os na chaiff ei ddiwygio, ni waeth beth fo ymrwymiadau llafar y Gweinidog yma, mae'r adran hon yn rhoi, i unrhyw Weinidog yn y dyfodol, y gallu i ddefnyddio hwn mewn ffordd na chredaf y byddai llawer yn y Siambr yn ei ystyried yn ddymunol. Yn wir, mae'r adroddiad, a gafodd ei gefnogi'n llawn gan bob aelod o'r pwyllgor, yn datgan,

'Given the rather draconian nature of the powers that would be used if a council is deemed to be ineffective, it is in our view also essential that a statement of principles or criteria against which "effectiveness" will be judged is set out clearly on the face of the Measure.'

'A chofio natur ddidrugaredd y pwerau a gaiff eu rhoi ar waith pe bernir bod cyngor yn aneffeithiol, mae hefyd yn hanfodol, yn ein barn ni, bod datganiad o egwyddorion neu feini prawf clir yn y Mesur yn amlinellu sut yn union y caiff "effeithiolrwydd" ei fesur.'

There are no Government amendments. However, there are opposition amendments. Whether those opposition amendments will

Nid oes gwelliannau gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae gwelliannau gan y gwrthbleidiau. Ni wn a fydd gwelliannau'r

do that, I do not know. I sincerely hope that they will. I would rather have seen a Government amendment clarifying that for local government so that everybody knew the criteria on which the Government would use these powers.

gwrthbleidiau yn gwneud hynny. Rwy'n mawr obeithio y byddant. Byddai'n well gennyf wedi gweld gwelliant y Llywodraeth yn egluro hynny ar gyfer llywodraeth leol fel bod pawb yn ymwybodol o feini prawf y Llywodraeth ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn.

**Jonathan Morgan:** I am grateful for the opportunity to speak to the amendments in group 8. Amendment 14 tabled by the Liberal Democrats refers, as Veronica German has said, to the fact that we are concerned that, as drafted, the Assembly Government's amendment to the proposed Measure at Stage 2 could allow a full-scale reorganisation of local authorities in Wales, which is something that we would be concerned about. If there is a need to reorganise local government in future, that ought to be subject to substantial debate and a big consultation on proposals from the Government. However, as it stands, having been amended at Stage 2, the proposed Measure would allow the Government to merge up to three local authorities. It could allow for a significant reorganisation of local authority boundaries in Wales. The amendment, which we support, seeks to ensure that this cannot happen by limiting the scope of the powers outlined in what was amendment 91, tabled by the Minister at Stage 2.

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad ar y gwelliannau yng ngrŵp 8. Mae gwelliant 14, a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, yn cyfeirio, fel y mae Veronica German wedi'i ddweud, at y ffaith ein bod yn pryderu y gallai gwelliant Llywodraeth y Cynulliad i'r Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 2, fel y'i drafftiwyd, ganiatáu ad-drefnu awdurdodau lleol yng Nghymru ar raddfa lawn; byddem yn bryderus am hynny. Os bydd angen ad-drefnu llywodraeth leol yn y dyfodol, dylai fod yn destun dadl sylweddol ac ymgynghoriad mawr ar gynigion gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, fel y mae, ar ôl cael ei ddiwygio yng Nghyfnod 2, byddai'r Mesur arfaethedig yn caniatáu i'r Llywodraeth uno hyd at dri awdurdod lleol. Gallai ganiatáu ad-drefnu sylweddol o ffiniau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r gwelliant, yr ydym yn ei gefnogi, yn ceisio sicrhau na all hyn ddigwydd drwy gyfyngu ar gwmpas y pwerau a amlinellir yng ngwelliant 91, a gyflwynwyd gan y Gweinidog yng Nghyfnod 2.

**Ann Jones:** I think that we are talking about failing councils here. Are you seriously suggesting that there would be four failing councils in one area that could be put together? We are missing the fact that we are talking about failing councils—not the reorganisation of county councils, but failing councils.

**Ann Jones:** Rwyf yn meddwl ein bod yn sôn am gynghorau sy'n methu. A ydych o ddifrif yn awgrymu y byddai pedwar cyngor a oedd yn methu y gellid eu cyfuno? Rydym yn colli'r ffaith ein bod yn sôn am gynghorau sy'n methu—nid ad-drefnu cynghorau sir, ond cynghorau sy'n methu.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to Ann Jones for the intervention. I think that she has probably given more clarity to some of the definitions than the Government Minister has been willing to do thus far. I will come back to the issue of definitions when I talk to amendments 62 and 63, which Janet Ryder referred to, regarding the way in which we define effective local government. Ann Jones used the word 'failing', so I will come back to that in a moment. At Stage 2, the Minister argued that

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar i Ann Jones am yr ymyriad. Rwy'n meddwl ei bod hi fwy na thebyg wedi rhoi mwy o eglurder i rai o'r diffiniadau nag y mae Gweinidog y Llywodraeth wedi bod yn barod i'w wneud hyd yn hyn. Dof yn ôl at y mater o ddiffiniadau pan fyddaf yn siarad am welliannau 62 a 63, y cyfeiriodd Janet Ryder atynt, ynghylch sut yr ydym yn diffinio llywodraeth leol effeithiol. Defnyddiodd Ann Jones y gair 'methu', felly dof yn ôl at hynny mewn eiliad. Yng Nghyfnod 2, dadleuodd y

Gweinidog:

‘this power is not a precursor to local government reorganisation in Wales…this is a specific piece of work that will affect two or three councils.’

nid yw’r pŵer hwn yn rhagflaenydd i ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru...mae hwn yn ddarn penodol o waith a fydd yn effeithio ar ddau neu dri o gynghorau.

In the same meeting, he said:

Yn yr un cyfarfod, dywedodd:

‘This power is not targeted at one part of Wales only. I am not making legislation for one part of Wales’.

nid yw’r pŵer hwn yn cael ei dargedu at un rhan o Gymru yn unig. Nid wyf yn gwneud deddfwriaeth ar gyfer un rhan o Gymru.

There is a level of inconsistency here. The Minister cannot have it both ways. Either you want to use this power in a specific area of Wales where there are causes for concern and where you need to achieve the effective delivery, as you term it, of local government or you intend to use this power in several different areas across Wales. We need to know the intention behind this. Is it because one or two local authorities in different parts of Wales are causing you concern, or is it an opportunity for a future Minister in the next term to merge local authorities as a rather ill-thought-out way of restructuring local government in Wales?

Mae lefel o anghysondeb yma. Ni all y Gweinidog ei chael hi bob ffordd. Naill ai yr ydych am ddefnyddio’r pŵer hwn mewn ardal benodol o Gymru lle mae achosion sy’n peri pryder a lle mae angen ichi ddarparu llywodraeth leol effeithiol, fel y galwch hi, neu yr ydych yn bwriadu defnyddio’r pŵer hwn mewn sawl gwahanol faes ar draws Cymru . Mae arnom angen gwybod beth yw’r bwriad y tu ôl i hyn. A yw hyn oherwydd bod un neu ddau o awdurdodau lleol mewn gwahanol rannau o Gymru yn achosi pryder i chi, neu a yw’n gyfle i Weinidog yn y dyfodol yn y tymor nesaf uno awdurdodau lleol fel ffordd braidd yn ddifeddwl o ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru?

Our amendments 62 and 63 refer to section 164 of the proposed Measure. This gives Welsh Ministers the power to make an amalgamation order for the constitution of a new local government area by merging two or three local government areas. The Minister can use the power if he believes it necessary to achieve effective local government. I challenged the Minister on this point in questions in the Chamber some weeks ago and I asked him to explain to me how he would define effective local government. He said that it is set in legislation. He then said that he would write to me and place a copy of the letter to me in the Library. The Minister has not yet written to me to set out how he defines effective local government. I think that Janet Ryder was right to raise the question of how one defines the term ‘effective local government’ as being the trigger mechanism for bringing an amalgamation order. We are concerned about the scope of this part of the proposed Measure and how the Government will determine whether a local authority is being

Mae ein gwelliannau 62 a 63 yn cyfeirio at adran 164 o’r Mesur arfaethedig. Mae hyn yn rhoi i Weinidogion Cymru’r pŵer i wneud gorchymyn cyfuno ar gyfer cyfansoddiad ardal llywodraeth leol newydd drwy gyfuno dwy neu dair o ardaloedd llywodraeth leol. Gall y Gweinidog ddefnyddio’r pŵer os yw’n credu ei fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol. Heriais y Gweinidog ar y pwynt hwn yn ystod cwestiynau yn y Siambr rai wythnosau’n ôl, a gofynnais iddo egluro i mi sut y byddai’n diffinio llywodraeth leol effeithiol. Dywedodd ei fod wedi ei osod mewn deddfwriaeth. Yna dywedodd y byddai’n ysgrifennu ataf ac yn gosod copi o’r llythyr yn y Llyfrgell. Nid yw’r Gweinidog wedi ysgrifennu ataf eto i ddweud sut y mae’n diffinio llywodraeth leol effeithiol. Credaf fod Janet Ryder yn gywir i godi’r cwestiwn o ddiffinio’r term ‘llywodraeth leol effeithiol’ fel y mecanwaith sbardun ar gyfer dod â gorchymyn cyfuno. Rydym yn pryderu ynglŷn â chwmpas y rhan hon o’r Mesur arfaethedig a sut y bydd y Llywodraeth yn

ineffective. Our amendment states that any proposal to amalgamate local authorities can only be made if it is necessary to achieve the effective, efficient and economic exercise of the functions in at least one of the local government areas. That was the most constructive way that we could think of to amend this section of the proposed Measure, to take it beyond the weak way in which the amendment was drafted, stating that it was necessary to achieve effective local government.

penderfynu a yw awdurdod lleol yn aneffeithiol. Mae ein gwelliant yn datgan y gall unrhyw gynnig i gyfuno awdurdodau lleol ond cael ei wneud os yw'n angenrheidiol i gyflawni'r gweithrediad effeithiol, effeithlon ac economaidd o swyddogaethau o fewn o leiaf un o'r ardaloedd llywodraeth leol. Dyna oedd y ffordd fwyaf adeiladol y gallem feddwl amdani i ddiwygio'r adran hon o'r Mesur arfaethedig, i fynd ag ef y tu hwnt i'r ffordd wan y cafodd y gwelliant ei ddrafftio, gan nodi ei fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol.

The Minister's defence of the powers to amalgamate authorities during stage 2 was quite weak. He said that he introduced this provision because it is clear that in the current financial climate, local authorities need to work together and collaborate much more closely with their neighbours. He said that the proposed Measure needed to be strengthened to provide a more effective tool to compel collaboration. I do not disagree with the Minister's argument that local authorities need to collaborate more, particularly in back-office functions, to make efficiency savings, to protect front-line services, to secure the provision of great innovation and to secure the delivery of more specialised services. I think that local authorities could do more together to deliver better innovative local solutions. In putting this argument across, the Minister has talked about collaboration on more than one occasion, but he has not outlined in what way an authority would be deemed to be ineffective in order for there to be a requirement for an amalgamation to be made. That is somewhat concerning.

Roedd amddiffyniad y Gweinidog o'r pwerau i gyfuno awdurdodau lleol yn ystod cyfnod 2 yn eithaf gwan. Dywedodd ei fod yn cyflwyno'r ddarpariaeth hon gan ei fod yn amlwg, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, fod angen i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd a chydweithio'n llawer agosach gyda'u cymdogion. Dywedodd fod angen i'r Mesur arfaethedig gael ei gryfhau i ddarparu offeryn mwy effeithiol i orfodi cydweithio. Nid wyf yn anghytuno gyda dadl y Gweinidog bod angen i awdurdodau lleol gydweithio mwy, yn enwedig mewn swyddogaethau cefn swyddfa, er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd, diogelu gwasanaethau rheng flaen ac er mwyn sicrhau y darperir dyfeisiadau gwych a gwasanaethau mwy arbenigol. Credaf y gallai awdurdodau lleol wneud mwy gyda'i gilydd i ddarparu gwell atebion arloesol yn lleol. Wrth gyflwyno'r ddadl hon, mae'r Gweinidog wedi sôn am gydweithio ar fwy nag un achlysur, ond nid yw wedi amlinellu ym mha ffordd y byddai awdurdod yn cael ei ystyried yn aneffeithiol fel bod gofyniad ar gyfer cyfuno. Mae hynny'n peri rhywfaint o bryder.

Amendment 20 refers to section 164A of the proposed Measure, and this, too, gives the Minister powers to merge local authority areas. The amendment, from what I can see, seeks to prevent a full-scale reorganisation of local government in Wales. That is something that we support. Therefore, we support the Liberal Democrat amendment. Given that the Minister alluded to the fact that there is much more joint working between local authorities and other public sector than we see, it is unclear why he feels

Mae gwelliant 20 yn cyfeirio at adran 164A o'r Mesur arfaethedig, ac mae hyn hefyd yn rhoi pwerau i'r Gweinidog i uno ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'r gwelliant, o'r hyn y gallaf weld, yn ceisio atal ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru ar raddfa lawn. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei gefnogi. Felly, rydym yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. O gofio bod y Gweinidog wedi cyfeirio at y ffaith fod llawer mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus

it necessary to be able to amalgamate local authorities. I have not heard anything from the Minister that explains how an authority becomes so ineffective, how that ineffectiveness is defined and how he believes that ineffectiveness can be dealt with in an amalgamation order. It is all very well saying that it is referred to in other legislation, but we have not heard the Minister make an argument in previous sessions in the Chamber as to how a local authority will become more effective.

nag yr ydym yn ei weld, nid yw’n glir pam y mae’n teimlo ei bod yn angenrheidiol i allu cyfuno awdurdodau lleol. Nid wyf wedi clywed unrhyw beth gan y Gweinidog sy’n esbonio sut y mae awdurdod yn dod mor aneffeithiol, sut y diffinnir yr aneffeithiolrwydd hwnnw a sut y mae’n credu y gall aneffeithiolrwydd cael ei drin mewn gorchymyn cyfuno. Mae’n ddigon hawdd dweud y cyfeirir ato mewn deddfwriaeth arall, ond nid ydym wedi clywed y Gweinidog yn gwneud dadl mewn sesiynau blaenorol yn y Siambr ynglŷn â sut y bydd awdurdod lleol yn dod yn fwy effeithiol.

Amendments 16 and 17 tabled by the Liberal Democrats talk about the need for a referendum in each of the local authority areas Welsh Ministers propose to amalgamate. I think that this is vital. One of the worst things in the world would be for the Assembly Government to come forward with an amalgamation order, or a series of amalgamation orders, that said, ‘This is what it is going to look like, this is the new local authority area, this is how many local councillors you will have; this is what the boundaries could look like, and by the way, you, as members of the public, will have no say at all’.

Mae gwelliannau 16 a 17, a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, yn sôn am yr angen am refferendwm ym mhob un o’r ardaloedd awdurdod lleol y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cyfuno. Credaf fod hyn yn hanfodol. Un o’r pethau gwaethaf posibl fyddai i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno gorchymyn cyfuno neu gyfres o orchmynion cyfuno, yn datgan, ‘Dyma sut mae’n edrych, dyma ardal yr awdurdod lleol newydd, dyma faint o gynghorwyr lleol a fydd gennych; gallai’r ffiniau edrych fel hyn, a gyda llaw, ni fydd gennych chi, fel y cyhoedd, unrhyw lais yn y peth o gwbl.’

That could be exceptionally damaging to the National Assembly and to the process of devolution. It could undermine how people view the Assembly. We need to engage the people far more effectively than we have done. This is an important requirement, to ask members of public what they think about the need—as the Government sees it—to amalgamate those areas.

Gallai hynny fod yn eithriadol o niweidiol i’r Cynulliad Cenedlaethol ac i’r broses o ddatganoli. Gallai danseilio sut y mae pobl yn gweld y Cynulliad. Mae angen inni ymgysylltu â’r bobl yn llawer mwy effeithiol nag yr ydym wedi ei wneud. Mae hwn yn ofyniad pwysig, i ofyn i’r cyhoedd am eu barn am yr angen—fel y mae’r Llywodraeth yn ei weld—i gyfuno’r ardaloedd hynny.

Moving to amendments 12 and 13 to the proposed Measure, they are essential in showing sensitivity to communities. Local authorities, by their very nature, have defined communities within their boundaries. The public respond to those communities, and people feel passionately about the areas in which they live. The sensitivity that Veronica German referred to is absolutely essential. So, too, amendment 19, which deals with the Minister being able to give some direction when the logistics of amalgamation orders have not been ironed out between those

Gan symud i welliannau 12 a 13 i’r Mesur arfaethedig, maent yn hanfodol o ran dangos sensitifrwydd i gymunedau. Mae awdurdodau lleol, oherwydd eu natur, wedi diffinio cymunedau o fewn eu ffiniau. Mae’r cyhoedd yn ymateb i’r cymunedau hynny, ac mae pobl yn teimlo’n angerddol am yr ardaloedd lle maent yn byw. Mae’r sensitifrwydd, y cyfeiriodd Veronica German ato, yn gwbl hanfodol. Yn yr un modd, mae gwelliant 19 yn ymdrin â’r ffaith y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi rhyw gyfeiriad pan na fydd y logisteg o orchmynion cyfuno wedi cael ei

authorities; that is, the location of headquarters and so forth. There may well be a requirement for a Government Minister to be involved in this area, but ministerial intervention needs to be minimal. However, there needs to be some sort of mechanism to outline how these matters will be resolved where there is a dispute between local authorities that are being merged.

datrys rhwng yr awdurdodau, hynny yw, lleoliad y pencadlys ac yn y blaen. Efallai'n wir y bydd yn ofynnol ar Weinidog y Llywodraeth i gymryd rhan yn y maes hwn, ond mae angen i ymyrraeth gweinidogol fod yn fach iawn. Fodd bynnag, mae angen rhyw fath o fecanwaith i amlinellu sut y bydd y materion yn cael eu datrys lle bydd anghydfod rhwng awdurdodau lleol sy'n cael eu cyfuno.

Finally, amendments 24 and 25, 164E(2) enable Welsh Ministers to make supplementary, incidental, consequential, transitional and saving amendments to an amalgamation order after it has been approved. I do not think that this needs to be in the proposed Measure, as it sets the wrong standard. I am concerned about the lack of detail that Welsh Ministers must give when producing an amalgamation order.

Yn olaf, mae gwelliannau 24 a 25, 164E(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwelliannau atodol, achlysurol, canlyniadol, trosiannol ac arbedol i orchymyn cyfuno ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Nid wyf yn credu bod angen i hyn fod yn y Mesur arfaethedig, gan ei fod yn gosod y safon anghywir. Rwyf yn pryderu ynghylch y diffyg manylion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu rhoi wrth gynhyrchu gorchymyn cyfuno.

While section 164 requires Ministers to explain amalgamation proposals, there is no requirement for Ministers to explain how the current arrangement is defective or how that order will be effective. Given this loophole, and given the lack of scrutiny to date on the powers to amalgamate, simply because of the way in which these amendments were introduced at Stage 2, I believe that any amalgamation order produced as a result of the eventual Measure should be subject to the most rigorous scrutiny possible. In addition, we reject this section of the proposed Measure on a matter of principle and therefore support the Liberal Democrat amendments.

Er bod adran 164 yn gofyn i Weinidogion esbonio cynigion uno, nid oes gofyniad ar Weinidogion i esbonio sut y mae'r trefniant presennol yn ddiffygiol neu sut y bydd y gorchymyn yn effeithiol. O ystyried y bwlch, ac o ystyried y diffyg craffu hyd yma ar y pwerau i uno, yn syml oherwydd y ffordd y mae'r gwelliannau hyn yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2, rwyf yn credu y dylai unrhyw orchymyn cyfuno a gynhyrchir o ganlyniad i'r Mesur yn y pen draw fod yn destun i'r craffu mwyaf trylwyr posibl. Yn ogystal, byddwn yn gwrthod yr adran hon o'r Mesur arfaethedig ar fater o egwyddor ac, felly, yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Section 164E(2) allows a Minister to amend an amalgamation order in hindsight, clearly because the Minister might expect there to be errors when doing this work in the future. We need to set some stringent standards in the way in which we make legislation. I do not think it right for the Assembly to go through the process of approving an amalgamation order, for a committee to look at it, for it to be consulted upon, and for the Assembly to consider that order and approve it, only to have the Minister come back a week later saying, 'Dreadfully sorry; we didn't actually notice that we'd missed something'. It is a poor way of allowing a Government to amend an order that should have gone

Mae adran 164E(2) yn caniatáu Gweinidog i ddiwygio gorchymyn cyfuno gan edrych yn ôl, yn amlwg oherwydd bod y Gweinidog yn disgwyl gwallau wrth wneud y gwaith hwn yn y dyfodol. Mae angen inni osod rhai safonau llym yn y ffordd yr ydym yn llunio deddfwriaeth. Nid wyf yn credu ei bod yn gywir i'r Cynulliad fynd drwy'r broses o gymeradwyo gorchymyn cyfuno, i bwyllgor edrych arno, i ymgynghori arno, ac i'r Cynulliad ystyried y gorchymyn a'i gymeradwyo, dim ond i'r Gweinidog ddychwelyd wythnos yn ddiweddarach a dweud, 'Trueni mawr; nid oeddem mewn gwirionedd yn sylwi ein bod ni wedi colli rhywbeth'. Mae'n ffordd wael o ganiatáu i

through a rigorous scrutiny process with the Minister in a position at that time to ensure that the order was completely capable of doing the job that he anticipates. It is wrong to have this section in the proposed Measure, and we are therefore happy to support amendments 24 and 25 this afternoon.

Lywodraeth ddiwygio'r gorchymyn a ddylai fod wedi mynd drwy broses graffu drylwyr gyda'r Gweinidog a oedd mewn sefyllfa ar yr adeg honno i sicrhau bod y gorchymyn yn gallu gwneud y gwaith yr oedd yn ei ragweld. Mae'n anghywir i gynnwys yr adran hon yn y Mesur arfaethedig, ac felly rydym yn hapus i gefnogi gwelliannau 24 a 25 y prynhawn yma.

**Alun Davies:** I ask Members not to look so surprised—I had hoped not to speak in this section. In fact, I had hoped to spend the entire afternoon in the tea room, but that has not been possible. I thank the whips for that.

**Alun Davies:** Gofynnaf i'r Aelodau beidio ag edrych mor syn—roeddwn wedi gobeithio peidio â siarad yn yr adran hon. Yn wir, roeddwn wedi gobeithio treulio'r prynhawn cyfan yn yr ystafell de, ond nid yw wedi bod yn bosibl. Diolchaf i'r chwipiau am hynny.

In terms of where we are this afternoon, let us make two points about what has happened with these amendments. The first point is on process, and the second is on the substance of what they are. I think that there is widespread agreement across the Chamber that it should not have happened like this: that an amendment of this nature should not have been tabled subsequent to the scrutiny of the proposed Measure by the legislation scrutiny committee. I think that there is broad agreement on that. It is a point that was well made by the Constitutional Affairs Committee, and one that the Government would do well to accept.

O ran lle'r ydym y prynhawn yma, gadewch i ni wneud dau bwynt am yr hyn sydd wedi digwydd gyda'r gwelliannau hyn. Mae'r pwynt cyntaf ar y broses, ac y mae'r ail ar sylwedd y gwelliannau. Credaf fod cytundeb eang ar draws y Siambr na ddylai pethau fod wedi digwydd fel hyn: ni ddylid fod wedi cyflwyno gwelliant o'r math hwn ar ôl y craffu ar y Mesur arfaethedig gan y pwyllgor craffu ar ddeddfwriaeth. Credaf fod cytundeb cyffredinol am hynny. Mae'n bwynt a wnaed yn dda gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, ac yn un y dylai'r Llywodraeth ei dderbyn.

Following the referendum result—and we heard John Griffiths's statement this afternoon—there is a clear requirement on the Government to ensure that its policy development process is in place before it seeks the permission of this place to legislate. That is an absolute, and we have to ensure that the Assembly is not, once again, placed in a position of having to take a view on significant amendments to legislation at the last moment. I hope that that issue of process will be accepted by the Government.

Yn dilyn canlyniad y refferendwm—a chlywsom ddatganiad John Griffiths y prynhawn yma—mae gofyniad clir ar y Llywodraeth i sicrhau bod ei phroses o ddatblygu polisi yn ei lle cyn iddi geisio caniatâd y lle hwn i ddeddfu. Mae hynny'n absoliwt, ac mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw'r Cynulliad, unwaith eto, yn cael ei osod mewn sefyllfa o orfod cymryd barn ar welliannau sylweddol i ddeddfwriaeth ar y funud olaf. Rwyf yn gobeithio y bydd y mater hwnnw o broses yn cael ei dderbyn gan y Llywodraeth.

5.30 p.m.

However, it is also fair to say that the Assembly has scrutiny processes in place that enable scrutiny to take place. For example, the Constitutional Affairs Committee spent more time scrutinising these amendments than we did scrutinising the whole of the proposed Measure or any other proposed

Fodd bynnag, mae hefyd yn deg dweud bod gan y Cynulliad brosesau craffu ar waith sy'n galluogi craffu i ddigwydd. Er enghraifft, treuliodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol fwy o amser yn craffu ar y gwelliannau hyn nag y gwnaeth ar graffu ar yr holl Fesur arfaethedig neu unrhyw Fesur

Measure that has gone through the Assembly in the last four years. The fact that the Minister was able to come to committee meant that we were able to cross-examine him. I was lucky, because I was able to do so twice as I was also able to scrutinise him when he appeared before the Finance Committee. Therefore, the Assembly has significant scrutiny processes and structures in place that enable the amendment to be scrutinised. I felt that that scrutiny was adequate and that it worked, because by going through this process, we were able to cross-examine the Minister on two occasions through the Finance Committee and the Constitutional Affairs Committee. We were able to have debates and arguments—which Jonathan has already mentioned, and which will no doubt be mentioned later by others—which were answered in committee. I will leave my comments on process there.

arfaethedig arall sydd wedi mynd drwy'r Cynulliad yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae'r ffaith bod y Gweinidog yn gallu dod i'r pwyllgor yn golygu ein bod wedi gallu ei holi. Roeddwn i'n lwcus oherwydd fy mod wedi gallu gwneud hynny ddwywaith gan fy mod hefyd wedi gallu ei holi pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor Cyllid. Felly, mae gan y Cynulliad brosesau craffu sylweddol a strwythurau yn eu lle sy'n galluogi i'r gwelliant gael ei graffu. Roeddwn i'n teimlo fod y craffu yn ddigonol, a'i fod yn gweithio, oherwydd trwy fynd drwy'r broses hon, roeddem yn gallu holi'r Gweinidog ar ddau achlysur drwy'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. Roeddem yn gallu cael trafodaethau a dadleuon—y mae Jonathan eisoes wedi'u crybwyll ac y bydd eraill hefyd yn eu crybwyll yn ddiweddarach—a chawsant eu hateb yn y pwyllgor. Byddaf yn gadael fy sylwadau ar broses yno.

In terms of substance, I accept the assurances given by the Minister that the purpose of this amendment is as described, namely to provide an outcome and an end to a process of improving failing local authorities. If the process were to be a means of providing the legislative and statutory authority for wholesale local government reorganisation, that would certainly be wrong.

O ran sylwedd, rwyf yn derbyn y sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog mai diben y diwygiad hwn yw fel y'i disgrifir, sef darparu canlyniad a diwedd i'r broses o wella awdurdodau lleol sy'n methu. Petai'r broses yn fodd o ddarparu'r awdurdod deddfwriaethol a statudol ar gyfer ad-drefnu eang o lywodraeth leol, byddai'n sicr o fod yn anghywir.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to Alun Davies for giving way. You are the second Labour Member to use the words 'failing local authorities' this afternoon. Nowhere in the proposed Measure or the amendment does it say 'where local authorities have failed'. The only trigger is where the Minister believes that it would provide effective local government. A failing local authority is fundamentally different to one that may be ineffective. You guys have to get your story straight on this, because there is a lack of definition—the trigger mechanism is, quite frankly, wrong, and two of you have used the word 'failing'. If it is about failing local authorities, the proposed Measure needs to say it.

**Jonathan Morgan:** Rwyf yn ddiolchgar i Alun Davies am ildio. Chi yw'r ail Aelod Llafur i ddefnyddio'r geiriau 'awdurdodau lleol sy'n methu' y prynhawn yma. Nid oes unman yn y Mesur arfaethedig nac yn y gwelliant yn dweud 'lle mae awdurdodau lleol wedi methu'. Yr unig sbardun yw lle mae'r Gweinidog yn credu y byddai'n darparu llywodraeth leol effeithiol. Mae awdurdod lleol sy'n methu yn sylfaenol wahanol i'r un a allai fod yn aneffeithiol. Mae'n rhaid i chi gael eich stori yn iawn ar hyn, oherwydd mae yma ddiffyg diffiniad—mae'r mecanwaith sbarduno, i ddweud y gwir, yn anghywir, ac mae dau ohonoch wedi defnyddio'r gair 'methu'. Os yw hwn am awdurdodau lleol sy'n methu, dylai'r Mesur arfaethedig ddweud hynny.

**Alun Davies:** Jonathan, if you read the report of the Constitutional Affairs Committee you will see that there was a significant debate on

**Alun Davies:** Jonathan, petaech yn darllen adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, fe welech fod dadl

that particular issue. The question that you have just raised was answered in that committee report, and that is why I used that term because we used it as a committee.

sylweddol ar y mater penodol hwnnw. Atebwyd y cwestiwn a godwyd gennych yn adroddiad y pwyllgor, a dyna pam y defnyddiais y term hwnnw oherwydd ein bod wedi ei ddefnyddio fel pwyllgor.

To respond to the issues of substance, is it right that a Minister can take these powers and make these decisions by Order? Is it appropriate for a Minister to use these powers in particular circumstances? I believe that the safeguards provided within this legislation provide the context in which we can answer ‘yes’ to those questions. If those safeguards were not there and if this was a general power, I would not be voting with the Government, because I do not believe that that would be the appropriate way to reorganise local government in Wales. I have no reason—and no reason has been given by any speaker—to doubt the good faith of the Minister on this matter. Therefore, I have to take the word of the Minister and the Government on this matter. In doing so, we acknowledge the contextual safeguards that have been provided in terms of the definitions of when this power would be used, and also the stated policy objective of using the powers contained in this legislation.

Er mwyn ymateb i’r materion o sylwedd, a ydyw’n iawn i Weinidog allu cymryd y pwerau hyn a gwneud y penderfyniadau hyn drwy Orchymyn? A ydyw’n briodol i Weinidog ddefnyddio’r pwerau hyn mewn amgylchiadau penodol? Credaf fod y mesurau diogelwch a ddarperir o fewn y ddeddfwriaeth hon yn darparu cyd-destun lle gallwn ateb ‘ydyw’ i’r cwestiynau hynny. Os nad yw’r mesurau diogelu yno, a phetai hwn yn bŵer cyffredinol, ni fyddwn yn pleidleisio gyda’r Llywodraeth, oherwydd nid wyf yn credu y byddai hynny’n ffordd briodol i ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Nid oes gennyf unrhyw reswm—ac ni roddwyd rheswm gan unrhyw siaradwr—i amau ewyllys da y Gweinidog ar y mater hwn. Felly, rhaid i mi gymryd gair y Gweinidog a’r Llywodraeth ar y mater hwn. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod y camau diogelu cyd-destunol a ddarparwyd o ran y diffiniadau o safbwynt pryd y byddai’r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio, a hefyd yr amcan polisi datganedig o ddefnyddio’r pwerau a geir yn y ddeddfwriaeth hon.

**Nick Bourne:** I am grateful to Alun Davies for giving way, and I can follow and accept most of his arguments. However, as I am sure that he realises, it is not just about this Minister. Whatever happens, this legislation will still be there, sadly, when this Minister is replaced by someone else somewhere down the line. Therefore, the issue of Carl Sargeant’s good faith is totally irrelevant to these arguments.

**Nick Bourne:** Rwyf yn ddiolchgar i Alun Davies am ildio, a gallaf ddilyn a derbyn y rhan fwyaf o’i ddadleuon. Fodd bynnag, fel yr wyf yn siŵr ei fod yn sylweddoli, nid yw hwn am y Gweinidog hwn yn unig. Beth bynnag sy’n digwydd, bydd y ddeddfwriaeth hon yn dal i fod yno, yn anffodus, pan fydd y Gweinidog hwn yn cael ei ddisodli gan rywun arall yn y dyfodol. Felly, mae’r mater o ewyllys da Carl Sargeant yn gwbl amherthnasol i’r dadleuon hyn.

**Alun Davies:** I do not believe that it is, because if you look at the legislation and read it in detail, you will see that there are safeguards built in and section 164 defines the circumstances in which this power would be used.

**Alun Davies:** Nid wyf yn credu fod hynny’n wir oherwydd os edrychwch ar y ddeddfwriaeth a’i darllen yn fanwl, fe welwch fod dulliau diogelu wedi’u hymgorffori ac y mae adran 164 yn diffinio o dan ba amgylchiadau y byddai’r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio.

Finally, in her opening speech, Veronica German spoke about the Assembly not having any power in this process. That is

Yn olaf, yn ei haraith agoriadol, siaradodd Veronica German am y Cynulliad yn peidio â chael unrhyw bŵer yn y broses hon. Mae’n

clearly not true. The superaffirmative procedure provides the Assembly with the means of providing a certain level of scrutiny. I believe that that level of scrutiny is sufficient in this context. If it were a means of reorganising local government, that level of scrutiny would not be sufficient.

amlwg nad yw hynny'n wir. Mae'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn rhoi i'r Cynulliad y modd o ddarparu lefel benodol o graffu. Credaf fod y lefel honno o waith craffu yn ddigonol yn y cyd-destun hwn. Petai'n fodd i ad-drefnu llywodraeth leol, ni fyddai'r lefel honno o waith craffu yn ddigonol.

**Janet Ryder:** I accept what you are saying in that these two amendments, which came late in that Stage 2 process, were given an in-depth review by our committee. However, that is not normal practice. Had our committee not chosen to reopen that consultation, the scrutiny of those amendments introduced at that late stage would not have happened. Are you therefore suggesting that the next Assembly should review its Standing Orders and its way of working to ensure that this does not happen again or to ensure that, if it does, that there are structures are in place to ensure that a committee—probably the legislation committee that is looking at it—can reopen evidence sessions and take evidence on those amendments?

**Janet Ryder:** Rwyf yn derbyn yr hyn a ddywedwch fod y ddau welliant, a ddaeth yn hwyr yn ystod y broses honno o Gyfnod 2, wedi'u hadolygu'n fanwl gan ein pwyllgor. Fodd bynnag, nid yw hynny'n arferol. Pe na fyddai ein pwyllgor wedi dewis ailagor yr ymgynghoriad hwnnw, ni fyddai craffu ar y gwelliannau a gyflwynwyd yn hwyr wedi digwydd. A ydych felly yn awgrymu y dylai'r Cynulliad nesaf adolygu ei Reolau Sefydlog a'i ffordd o weithio er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto neu, os ydyw, er mwyn sicrhau fod y strwythurau yn eu lle i sicrhau fod pwyllgor—mwy na thebyg y pwyllgor deddfwriaeth sy'n edrych ar hwn—yn gallu ailagor sesiynau tystiolaeth a chymryd tystiolaeth ar y gwelliannau?

**Alun Davies:** Yes, Janet, I felt that I had made my position clear in my opening comments. In terms of process, the Government has to ensure that its policy development process is completed before it starts to legislate and amendments need to be brought through in a timely fashion that allows and enables scrutiny. We were able to carry that out on this occasion, but the Constitutional Affairs Committee report states clearly that, where necessary, Standing Orders need to be revised and reviewed to ensure that we are not placed in this position again. The Constitutional Affairs Committee agreed that unanimously and I would not seek to move away from that position this afternoon.

**Alun Davies:** Ydw, Janet; teimlaf fy mod wedi gwneud fy marn yn glir yn fy sylwadau agoriadol. O ran proses, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod ei phroses o ddatblygu polisi wedi'i chwblhau cyn iddi ddechrau deddfu ac y mae'n rhaid i welliannau cael eu cyflwyno mewn modd amserol er mwyn caniatáu a galluogi craffu. Roeddem yn gallu gwneud hynny y tro hwn, ond mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn datgan yn glir, lle bo angen, bod angen diwygio ac adolygu Rheolau Sefydlog er mwyn sicrhau nad ydym yn cael ein rhoi yn y sefyllfa hon eto. Cytunodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar hynny'n unfrydol ac ni fyddwn yn ceisio symud i ffwrdd o'r safbwynt hwnnw y prynhawn yma.

I will bring my remarks to a close. I hope that the Government has learnt from the process issues involved in this, and I trust that it has. On substance, I hope that the safeguards in the legislation are sufficiently robust to ensure that these powers are used only as has been determined by the Minister and according to the assurances that have been

Fe ddof â'm sylwadau i ben. Gobeithio bod y Llywodraeth wedi dysgu o'r materion yn ymwneud â phroses o ran hyn, a hyderaf ei bod wedi gwneud hynny. Ar sylwedd, rwyf yn gobeithio bod y mesurau diogelwch yn y ddeddfwriaeth yn ddigon cadarn i sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu defnyddio yn ôl yr hyn a benderfynwyd gan y Gweinidog yn

given to the Assembly by him. I hope that he will repeat those assurances this afternoon. If he does so, I believe that no-one in the Chamber has any reason to doubt the good faith in which those assurances are given.

unig ac yn ôl y sicrwydd a roddwyd i'r Cynulliad. Rwyf yn gobeithio y bydd yn ailadrodd y sicrwydd hwnnw y prynhawn yma. Os gwnaiff hynny, ni chredaf fod gan unrhyw un yn y Siambr unrhyw reswm i amau'r ewyllys da y rhoddwyd y sicrwydd hwnnw ynddo.

**Peter Black:** We have gone through these amendments in some detail. Therefore, it is worth stating that the Welsh Liberal Democrats and I oppose in principle these amendments and these changes to the proposed Measure. It seems to me that it is disproportionate, unreasonable and unnecessary for a Minister to have the powers to amalgamate local authorities by an Order that will have inadequate levels of scrutiny applied to it. If the Minister wants to reorganise local government or make changes to certain councils, he should do so through a proper Measure process, which has the stages of consultation, amendment and scrutiny that are not available with an Order. It is all very well saying that the superaffirmative procedure allows an Order to come before Plenary and even, in exceptional circumstances, to be called before a committee, but that is nowhere near the level of scrutiny or consultation that is applied to a Measure. It seems to me that the Minister is taking powers unto himself that are unnecessary and disproportionate.

**Peter Black:** Yr ydym wedi mynd drwy'r gwelliannau hyn mewn cryn fanylder. Felly, mae'n werth nodi fy mod i a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gwrthwynebu mewn egwyddor y gwelliannau a'r newidiadau hyn i'r Mesur arfaethedig. Mae'n ymddangos i mi ei fod yn anghymesur, yn afresymol ac yn ddiangen i Weinidog gael y pwerau i gyfuno awdurdodau lleol drwy Orchymyn a fydd yn mynnu lefelau annigonol o graffu. Os yw'r Gweinidog eisiau ad-drefnu llywodraeth leol neu wneud newidiadau i rai cynghorau, dylai wneud hynny drwy broses y Mesur priodol, sydd yn darparu camau ymgynghori, diwygio a chraffu nad ydynt ar gael gyda Gorchymyn. Mae'n ddigon hawdd dweud bod y weithdrefn uwchgadarnhaol yn caniatáu Gorchymyn i ddod gerbron y Cyfarfod Llawn a hyd yn oed, mewn amgylchiadau eithriadol, i ddod gerbron pwyllgor, ond nid yw'n agos at y lefel o graffu neu ymgynghori sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer Mesur. Mae'n ymddangos i mi fod y Gweinidog yn hawlio meddiant ar bwerau sy'n ddiangen ac yn anghymesur.

For that reason, I would rather that this whole section was taken out of the proposed Measure. The fact that we will not win that argument means that we must consider the sort of amendments that we have tabled to try to limit the powers that the Minister is taking unto himself. That is why the amendments that have been put in front of us are reasonable and necessary to restrict the powers that the Minister wishes to take on board. I understand that UK Ministers have this power, but that does not mean that we in Wales should copy what is happening in England or even go down the same route that they are taking. Wales is a different country, with different scenarios, and we have to do things differently here.

Am y rheswm hwnnw, byddai'n well gennyf fod yr adran gyfan hon yn cael ei ddileu o'r Mesur arfaethedig. Mae'r ffaith na fyddwn yn ennill y ddadl honno yn golygu bod rhaid i ni ystyried y math o welliannau yr ydym wedi'u cyflwyno i geisio cyfyngu ar y pwerau y mae'r Gweinidog wedi ceisio eu hawlio. Dyna pam y mae'r gwelliannau sydd wedi cael eu rhoi ger ein bron yn rhesymol ac yn angenrheidiol er mwyn cyfyngu ar y pwerau y mae'r Gweinidog yn dymuno eu hawlio. Rwyf yn deall bod gan Weinidogion y DU y pŵer hwn, ond nid yw hynny'n golygu y dylem ni yng Nghymru efelychu'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, neu hyd yn oed fynd i lawr yr un llwybr y maent hwy yn eu cymryd. Mae Cymru yn wlad wahanol, gyda gwahanol sefyllfaoedd, ac mae'n rhaid i ni wneud pethau'n wahanol yma.

The reasons behind this amendment are still

Mae'r rhesymau y tu ôl i'r gwelliant hwn yn

unclear to me. The Minister says that it does not relate to a particular authority, and I understand his reasons for saying that, because clearly he cannot put himself into a situation where he might be challenged in the courts. We do not have a proposal in front of us for any particular area, so the Minister is taking powers that could apply to any local authority around Wales. The Minister says that he does not want to reorganise local government, and I accept his word on that, but I do not know how circumstances will change in the future, possibly leading the Minister to revisit that undertaking. I do not know who will be the Minister for local government after the next elections. It could be the same Minister, or it could be anyone in this Chamber. It will most probably be a Liberal Democrat Minister, actually, but I will not dwell on that. I do not know who will be the Minister for local government after the next elections, and I do not believe that any future Minister for local government will be bound by the undertakings that the Minister gives here about using this power for reorganisation.

dal yn aneglur i mi. Dywed y Gweinidog nad yw'n ymwneud ag awdurdod penodol, ac yr wyf yn deall ei resymau dros ddweud hynny, oherwydd mae'n amlwg na all roi ei hun mewn sefyllfa lle y byddai'n cael ei herio yn y llysoedd. Nid oes gennym gynnig o'n blaenau ar gyfer unrhyw ardal benodol, felly mae'r Gweinidog yn cymryd pwerau a allai fod yn berthnasol i unrhyw awdurdod lleol ar draws Cymru. Mae'r Gweinidog yn dweud nad yw am ad-drefnu llywodraeth leol, a derbyniaf ei air ar hynny, ond nid wyf yn gwybod sut y bydd amgylchiadau yn newid yn y dyfodol, a allai arwain y Gweinidog at ailedrych ar yr ymgymeriad hwnnw. Nid wyf yn gwybod pwy fydd y Gweinidog dros lywodraeth leol ar ôl yr etholiadau nesaf. Gallai fod yr un Gweinidog, neu gallai fod yn unrhyw un yn y Siambr hon. Yn ôl pob tebyg, bydd yn Weinidog o'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond nid wyf am fynd ar ôl hynny. Nid wyf yn gwybod pwy fydd y Gweinidog dros lywodraeth leol ar ôl yr etholiadau nesaf, ac nid wyf yn credu y bydd unrhyw Weinidog dros lywodraeth leol yn y dyfodol yn cael ei rwymo gan yr ymrwymiadau y mae'r Gweinidog yn eu rhoi yma ynghylch defnyddio'r pŵer hwn i ad-drefnu.

You are opening a bag and allowing the four winds to come out of it and swirl around this Chamber. Any Minister will be able to use these powers, which will be available to them, and effectively reorganise local government piecemeal. I accept that it will not be this Minister, but a future Minister could do that. For those reasons, I believe that what is being proposed here is fundamentally wrong. I am not opposed to the reorganisation of local government, but if you are to do that, then let us do it properly, with consultation, going out and talking to local government, and looking at what other powers we might want to give to local government. Let us look at other public functions that local government might want to take on board. Let us look at the interaction between local government and health authorities and the Environment Agency and a range of other bodies, and at any Assembly Government powers that might be given to those authorities. Let us look at the boundaries and at coterminosity, but let us do so in a consultative way, with a

Rydych yn agor bag ac yn gadael i'r pedwar gwynt ddod allan ohono a chwythu o amgylch y Siambr hon. Bydd unrhyw Weinidog yn gallu defnyddio'r pwerau hyn, a fydd ar gael iddynt, ac yn ei hanfod ad-drefnu llywodraeth leol yn dameidiog. Rwyf yn derbyn na fydd y Gweinidog hwn yn ei wneud, ond gallai Gweinidog yn y dyfodol wneud hynny. Am y rhesymau hynny, credaf fod yr hyn sy'n cael ei gynnig yma yn sylfaenol anghywir. Nid wyf yn erbyn ad-drefnu llywodraeth leol, ond os ydych am wneud hynny, yna gadewch i ni ei wneud yn iawn, gydag ymgynghori, gan fynd allan a siarad â llywodraeth leol ac edrych ar ba bwerau eraill y byddem am eu rhoi, o bosib, i lywodraeth leol. Gadewch inni edrych ar swyddogaethau cyhoeddus eraill y gallai llywodraeth leol eu mabwysiadu. Gadewch inni edrych ar y rhyngweithio rhwng llywodraeth leol ac awdurdodau iechyd ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac amrywiaeth o gyrff eraill, ac ar unrhyw bwerau Llywodraeth y Cynulliad y gellid eu rhoi i'r awdurdodau hynny. Gadewch inni edrych ar

proper Green Paper and White Paper, and a proper Measure that we can consult and take evidence on. Let us have a proposal that can be amended. None of that will happen through this piecemeal proposal in front of us today. For the Minister or others to say that, if a local authority does not toe the line and deliver the efficiencies expected of it, then this power has to be available as the next step in the process—that, in my view, is disingenuous, because the agenda here is much wider than that. The options available to future Ministers mean that that agenda cannot be limited by what the Minister tells us here today. It seems to me that we have to accept these amendments or throw out this proposal altogether.

y ffiniau ac ar gydffinio, ond gadewch inni wneud hynny mewn ffordd ymgynghorol, gyda Phapur Gwyrdd priodol a Papur Gwyn, a Mesur priodol y gallwn ymgynghori a chymryd tystiolaeth arno. Gadewch inni gael cynnig y gellir ei ddiwygio. Ni fydd dim o hyn yn digwydd drwy'r cynnig tameidiog o'n blaenau heddiw. Os dywed y Gweinidog neu eraill, os nad yw awdurdod lleol yn tynnu ei bwysau a chyflawni'r effeithlonrwydd a ddisgwylir ohono, yna mae'n rhaid i'r pŵer hwn fod ar gael fel y cam nesaf yn y broses—mae hynny, yn fy marn i, yn ffuantus, oherwydd bod yr agenda hwn yn llawer ehangach na hynny. Mae'r dewisiadau sydd ar gael i Weinidogion yn y dyfodol yn golygu na ellir cyfyngu ar yr agenda hwnnw gan yr hyn a ddywed y Gweinidog wrthym yma heddiw. Mae'n ymddangos i mi fod yn rhaid inni dderbyn y gwelliannau hyn neu daflu'r cynnig hwn allan yn gyfan gwbl.

**Kirsty Williams:** I agree wholeheartedly with Janet Ryder that this section really does address the elephant in the room. The Government's approach suggests that it does not understand that, in passing this today, the Assembly will be putting on the statute book powers that will remain there—or perhaps the Government does not believe that it will ever be in a position where local government will have to defend itself from a Minister with different intentions. Let us be absolutely clear what this Assembly will do today if it agrees section 164: it will pass to a Welsh Minister—this one and the next one and the one in 15 years' time and the one in 20 years' time—the ability to amalgamate local authorities. There is no getting that power back easily, once it is handed over. The assurances that Carl Sargeant gives today in his speech—the ones that he has given to committees over the last few weeks—will mean nothing to any subsequent Minister. They will mean nothing at all.

**Kirsty Williams:** Cytunaf yn llwyr â Janet Ryder bod yr adran hon wir yn mynd i'r afael â'r eliffant yn yr ystafell. Mae ymagwedd y Llywodraeth yn awgrymu nad yw'n deall, wrth basio hyn heddiw, y bydd y Cynulliad yn rhoi ar y llyfr statud, y pwerau a fydd yn aros yno—neu efallai nad yw'r Llywodraeth yn credu y bydd mewn sefyllfa lle mae llywodraeth leol yn gorfod amddiffyn ei hun rhag Gweinidog gyda bwriadau gwahanol. Gadewch i ni fod yn hollol glir am yr hyn y bydd y Cynulliad yn ei wneud heddiw os yw'n cytuno adran 164: bydd yn pasio i Weinidog Cymreig—y Gweinidog hwn a'r un nesaf a'r un mewn 15 mlynedd a'r un mewn 20 mlynedd—y gallu i gyfuno awdurdodau lleol. Does dim modd dwyn y pŵer yn ôl yn hawdd, unwaith y caiff ei drosglwyddo. Ni fydd y sicrwydd y mae Carl Sargeant yn ei roi heddiw yn ei araith—yr un sicrwydd y mae wedi ei roi i bwyllgorau dros yr ychydig wythnosau diwethaf—yn golygu dim i unrhyw Weinidog dilynol. Ni fydd yn golygu dim byd o gwbl.

**Janet Ryder:** I wonder if you would agree that the big issue that Members need to consider his afternoon is that this power already exists. We currently hold this power. Any Minister could come to the Assembly and ask to merge two councils. What we are doing this afternoon is handing over that power from this body into the hands of a

**Janet Ryder:** Tybed a fyddech yn cytuno mai'r mater mawr y mae angen i Aelodau ei ystyried y prynhawn yma yw bod y pŵer hwn eisoes yn bodoli. Mae gennym y pŵer hwn ar hyn o bryd. Gallai unrhyw Weinidog ddod i'r Cynulliad a gofyn am uno dau gyngor. Yr hyn yr ydym yn ei wneud y prynhawn yma yw trosglwyddo'r pŵer hwnnw o'r corff i

Minister. Do you think that we have adequately posed that question to Members in the Chamber?

ddwylo Gweinidog. A ydych chi’n credu ein bod wedi gofyn y cwestiwn hwnnw’n ddigonol i Aelodau yn y Siambr?

5.45 p.m.

**Kirsty Williams:** No, I do not. That is why we are proposing these amendments and why, if the proposed Measure is not amended, my group will not be able to vote in favour of passing that power to the Minister for Social Justice and Local Government. We do not feel that it is right for the Assembly to give up that power and hand it over to a Minister. We have heard that this power will be used only if there is a failure of local government, but that is not what is written in the legislation. The legislation does not talk about failure, but about where effective local government is not likely to be achieved. However, we have heard nothing from the Minister for local government that explains what effective local government is in his eyes or what the legal definition of effective local government is. We have not had a definition of ‘not likely to be achieved’ either. What does that mean in reality? Does it mean that a Minister for local government can amalgamate local authorities because the bins are not collected efficiently enough, or does it mean a local government authority in which children’s services are not performing as well as they might? Does it mean that a future Minister who finds that a local councillor or a group of councillors has become thorn in his side, because the local authority does not do what he likes, or perhaps behaves in a way not dissimilar to the way that the Greater London Council behaved in 1983, can amalgamate that local authority with another? Thatcher’s excuse for getting rid of the GLC in 1983 was that she did not perceive it to be an effective body of local government or as an authority that was likely to improve. That was her excuse for summarily getting rid of that local government body, but at least she had to take the proposal through the House of Commons to get it signed off.

**Kirsty Williams:** Nac ydwyf. Dyna pam yr ydym yn cynnig y gwelliannau hyn a pham, os na ddiwygir y Mesur arfaethedig, ni fydd fy ngrŵp yn gallu pleidleisio o blaid trosglwyddo’r pŵer hwnnw i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Nid ydym yn teimlo ei bod yn iawn i’r Cynulliad roi’r gorau i’r pŵer hwnnw a’i drosglwyddo i Weinidog. Rydym wedi clywed y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio dim ond os yw llywodraeth leol yn methu, ond nid dyna’r hyn sydd wedi’i ysgrifennu yn y ddeddfwriaeth. Nid yw’r ddeddfwriaeth yn siarad am fethiant, ond am le nad yw llywodraeth leol effeithiol yn debygol o gael ei gyflawni. Fodd bynnag, nid ydym wedi clywed dim gan y Gweinidog dros lywodraeth leol sy’n esbonio beth yw llywodraeth leol effeithiol yn ei lygaid ef na beth yw’r diffiniad cyfreithiol o lywodraeth leol effeithiol. Nid ydym ychwaith wedi cael diffiniad o ‘ddim yn debygol o gael ei gyflawni’. Beth y mae hynny’n ei olygu mewn gwirionedd? A yw’n golygu y gall Gweinidog dros lywodraeth leol gyfuno awdurdodau lleol gan nad yw’r biniau yn cael eu casglu’n ddigon effeithlon, ynteu a yw’n golygu awdurdod llywodraeth leol lle nad yw’r gwasanaethau plant yn perfformio cystal ag y gallent? A yw’n golygu y bydd Gweinidog yn y dyfodol sy’n sylweddoli bod cynghorydd lleol neu grŵp o gynghorwyr wedi dod yn ddraenen yn ei ochr, oherwydd nad yw’r awdurdod lleol yn gwneud yr hyn y mae’n hoffi, neu efallai yn ymddwyn mewn ffordd nad sy’n annhebyg i’r ffordd yr oedd Cyngor Llundain Fawr yn ymddwyn yn 1983, yn gallu cyfuno’r awdurdod lleol ag un arall? Esgus Thatcher am gael gwared ar y GLC ym 1983 oedd nad oedd yn credu ei fod yn gorff llywodraeth leol effeithiol neu’n awdurdod a oedd yn debygol o wella. Dyna oedd ei esgus dros waredu’n ddiannod y corff llywodraeth leol hwnnw, ond o leiaf roedd yn rhaid iddi fynd â’r cynnig drwy’r Tŷ’r Cyffredin i gael ei lofnodi.

**Alun Davies:** Kirsty started off defending Clegg, then Cameron, and now she is

**Alun Davies:** Dechreuodd Kirsty gan amddiffyn Clegg, yna Cameron, ac yn awr

defending Thatcher: what a journey. I sympathise with the points that she makes, but does she not appreciate that the safeguards in the legislation are sufficient to prevent action from being taken in that way?

mae hi'n amddiffyn Thatcher: dyna daith. Rwyf yn cydymdeimlo â'r pwyntiau y mae'n eu gwneud, ond nid yw hi'n gwerthfawrogi bod y mesurau diogelwch yn y ddeddfwriaeth yn ddigonol i atal camau rhag cael eu cymryd yn y ffordd honno?

**Kirsty Williams:** No, I do not, and I am not the only one who feels that way. If I were, the Constitutional Affairs Committee would not have written the report that it has, nor would we have received the evidence that we have from the Wales Governance Centre, a body that received such rave reviews earlier on. The way that this legislation is currently drafted allows for the wholesale reorganisation of local government by ministerial Order. There is no getting away from it, and the fundamental choice facing Members today is whether they want to retain that power within the National Assembly or hand it over to the Minister. I accept that there may be strong reasons as to why we need local government reorganisation, but, if that is the case, the Minister should have the courage of his convictions, publish a White Paper, go out to consultation and then bring the legislation before the Assembly in the proper way.

**Kirsty Williams:** Na, nid ydwyf, ac nid fi yw'r unig un sy'n teimlo'r ffordd honno. Pe bai hynny'n wir, ni fyddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi ysgrifennu ei adroddiad, ac ni fyddem wedi derbyn y dystiolaeth gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, corff a dderbyniodd adolygiadau gwych yn gynharach. Mae'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn caniatáu ad-drefnu llywodraeth leol drwy Orchymyn gweinidogol. Does dim dianc oddi wrth hynny, ac mae'r dewis sylfaenol sy'n wynebu Aelodau heddiw yw a ydynt am gadw'r grym o fewn y Cynulliad Cenedlaethol neu ei drosglwyddo i'r Gweinidog. Rwyf yn derbyn y gall fod rhesymau cryf dros yr angen am ad-drefnu llywodraeth leol, ond, os yw hynny'n wir, dylai'r Gweinidog fod yn barod i sefyll dros ei egwyddorion a chyhoeddi Papur Gwyn, ymgynghori ac yna dod â'r ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad yn y ffordd briodol.

Let us be clear that if we are talking about an emergency situation that has gone so far that every option has been explored and every ounce of persuasion has not delivered a better service from a local authority, the Minister could get rid of that local authority. However, he could do so by bringing a proposed Measure before the National Assembly and allowing us to vote on it. Before anyone raises the issue of time, should we find ourselves in an emergency, the reality is that, if necessary, a proposed Measure can be brought forward to the Chamber and passed in the space of a day. It is not necessary for this power to be vested in the Minister in case we find ourselves in an emergency situation. If it were absolutely necessary—if a local authority was about to topple over or was performing so badly that we had to take emergency action—there is provision for a Measure to be passed within a day in extremis, if necessary. I find it extraordinary that Members are prepared to hand this power over without the forethought to think that, in years to come, this power may be

Gadewch inni fod yn glir, os ydym yn sôn am sefyllfa argyfyngus sydd wedi mynd mor bell hyd nes bod pob opsiwn wedi ei archwilio ac nid yw pob owns o berswâd wedi darparu gwasanaeth gwell gan awdurdod lleol, gallai'r Gweinidog cael gwared ar yr awdurdod lleol hwnnw. Fodd bynnag, gallai wneud hynny drwy ddod â Mesur arfaethedig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chaniatáu i ni bleidleisio arno. Cyn bod unrhyw un yn codi'r mater o amser, pe byddai argyfwng, y gwir amdani yw, os byddai angen, gallai Mesur arfaethedig gael ei ddwyn ymlaen i'r Siambr a'i phasio mewn diwrnod. Nid yw'n angenrheidiol i'r pŵer hwn gael ei freinio yn y Gweinidog rhag ofn y cawn ein hunain mewn sefyllfa argyfyngus. Pe bai'n gwbl angenrheidiol—pe byddai awdurdod lleol ar fin syrthio neu pe byddai'n perfformio mor wael fel bod rhaid i ni gymryd camau brys—mae darpariaeth ar gyfer pasio Mesur o fewn diwrnod mewn argyfwng, os oes angen. Rwy'n ei chael hi'n rhyfeddol bod yr Aelodau yn barod i drosglwyddo'r pŵer hwn heb feddwl ymlaen llaw i gydnabod, yn y

used to reorganise local government on purely political grounds. There is nothing in this legislation that would stop that from happening. As I said, the Government is either proceeding in this way because it does not understand or because it has the arrogance to believe that it will never not be in Government. I find both those reasons reprehensible.

blynyddoedd i ddod, efallai y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i ad-drefnu llywodraeth leol ar sail wleidyddol yn unig. Nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth hon a fyddai'n atal hynny rhag digwydd. Fel y dywedais, mae'r Llywodraeth yn naill ai'n symud ymlaen yn y modd hwn oherwydd nad yw'n deall neu oherwydd bod ganddi'r balchder i gredu na fydd byth yn peidio â bod mewn Llywodraeth. Mae'r ddau reswm hynny'n deilwng o gerydd.

**The Presiding Officer:** I think that it is about time that we heard from the Minister.

**Y Llywydd:** Rwyf yn meddwl ei bod yn hen bryd inni glywed gan y Gweinidog.

**Carl Sargeant:** Thank you, Presiding Officer. I have listened with great interest to today's contributions and to the contributions over the past few months on this amendment to the proposed Measure, which was, of course, within scope and on time. Before turning to the amendments in this group, I first need to set out briefly the rationale for introducing the provisions for the amalgamation of local authorities that are now part of Part 9 of the proposed Measure. The purpose of the amalgamation provisions is to give Welsh Ministers another tool in the box to support, encourage and drive forward collaboration among local authorities. We introduced the provision because it is clear, in the current circumstances and the financial climate, that local authorities need to work together and to collaborate much more closely with their neighbouring authorities. In the last year, it has become clear that some local authorities are more willing to work together than others. To protect front-line services, Welsh Ministers need the tools to make this happen. This is an important power, and let me be perfectly clear: it has absolutely nothing to do with the wholesale reorganisation of local government. Peter and other Members were saying that I might not be the Minister in the future, which is quite true. However, the courts will use my interpretation of today's proceedings in courts of law should that be the process involved. That would be the fact.

**Carl Sargeant:** Diolch, Lywydd. Rwyf wedi gwrando gyda diddordeb mawr ar gyfraniadau heddiw ac ar y cyfraniadau dros y misoedd diwethaf ar y gwelliant hwn i'r Mesur arfaethedig, a oedd, wrth gwrs, o fewn cwmpas ac ar amser. Cyn troi at y gwelliannau yn y grŵp, rhaid i mi, yn gyntaf, osod allan yn fyr y rhesymeg dros gyflwyno'r darpariaethau ar gyfer uno awdurdodau lleol sydd bellach yn rhan o Rhan 9 o'r Mesur arfaethedig. Diben y darpariaethau uno yw rhoi i Weinidogion Cymru arf arall i gefnogi, annog a hyrwyddo cydweithrediad ymhlith awdurdodau lleol. Cyflwynwyd y ddarpariaeth oherwydd ei bod yn glir, yn yr amgylchiadau presennol a'r hinsawdd ariannol, bod angen i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd ac i gydweithio'n llawer mwy agos gyda'u hawdurdodau cyfagos. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi dod yn amlwg bod rhai awdurdodau lleol yn fwy parod i gydweithio nag eraill. Er mwyn gwarchod gwasanaethau rheng-flaen, rhaid i Weinidogion Cymru gael yr offer i wneud i hyn ddigwydd. Mae hwn yn bŵer pwysig, a gadewch i mi fod yn gwbl glir: nid oes ganddo ddim o gwbl i'w wneud ag ad-drefnu llywodraeth leol. Dywedodd Peter ac Aelodau eraill nad fi o bosib fyddai'r Gweinidog yn y dyfodol, sy'n berffaith wir. Fodd bynnag, bydd y llysoedd yn defnyddio fy nehongliad o achosion heddiw mewn llysoedd barn os mai hwnnw yw'r broses dan sylw. Mae hynny'n ffaith.

**Several Assembly Members** *rose—*

**Nifer o Aelodau'r Cynulliad** *a gododd—*

**The Presiding Officer:** Order. One at a time. I think that Alun Cairns was on his feet first.

**Y Llywydd:** Trefn. Un ar y tro. Credaf mai Alun Cairns oedd ar ei draed yn gyntaf.

**Carl Sargeant:** I will give way to Alun Cairns; he has not been here for a while.

**Carl Sargeant:** Byddaf yn ildio i Alun Cairns; nid yw wedi bod yn bresennol am gyfnod.

**Alun Cairns:** I am grateful to Carl Sargeant, as the Minister for local government, for giving way. However, rather than it being up to the courts to interpret what you said, should it not be on the face of the proposed Measure in order to provide clarity? Furthermore, will you state whether Anglesey could be an example of a failing authority and whether this new power would allow you to merge Anglesey with another county in Wales as of tomorrow?

**Alun Cairns:** Rwyf yn ddiolchgar i Carl Sargeant, fel y Gweinidog dros lywodraeth leol, am ildio. Fodd bynnag, yn hytrach na gadael i'r llysoedd i ddehongli'r hyn a ddywedasoch, oni ddylai fod ar wyneb y Mesur arfaethedig er mwyn darparu eglurder? Ar ben hynny, a wnewch chi ddatgan a yw Ynys Môn yn enghraifft o awdurdod sy'n methu ac a fyddai'r pŵer newydd hwn yn eich galluogi i uno Ynys Môn gyda sir arall yng Nghymru o yfory ymlaen?

**Carl Sargeant:** It is only fair that I should not name any authority today. Let us be clear about this: you have talked about the amalgamation Order in complete isolation of the whole process. As Alun Davies quite rightly says, this is linked very heavily to the Local Government (Wales) Measure 2009. There are many hoops to jump through and hurdles to jump over in the process of taking forward any amalgamation by this Minister or by any Minister in the future. I am astonished at Kirsty's point of view. She is suggesting that, if there is a failing authority, we do no nothing at all and that we wait until they fall over the end of the cliff or there is an emergency situation for us to introduce an emergency Measure that would take only a day to do. I believe that we are acting very responsibly in this process. I will not be taking my eye off the ball in terms of driving through improvements in local government service delivery for the people of Wales.

**Carl Sargeant:** Nid yw ond yn deg na ddylwn enwi unrhyw awdurdod heddiw. Gadewch inni fod yn glir am hyn: rydych wedi sôn am y Gorchymyn uno ar wahân i'r holl broses. Fel y dywedodd Alun Davies yn hollol gywir, mae hyn yn gysylltiedig â'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae llawer o heriau i'w goresgyn yn y broses o fwrw ymlaen ag unrhyw uno gan y Gweinidog neu gan unrhyw Weinidog yn y dyfodol. Rwyf yn rhyfeddu at farn Kirsty. Mae hi'n awgrymu, os oes awdurdod sy'n methu, na ddylem wneud ddim byd o gwbl, a dylem aros nes ei fod yn disgyn dros ben y clogwyn neu os oes sefyllfa argyfyngus i ni gyflwyno Mesur brys a fyddai ond yn cymryd dydd i'w wneud. Credaf ein bod yn gweithredu yn gyfrifol iawn yn y broses hon. Ni fyddaf yn cymryd fy llygad oddi ar y trywydd iawn o ran gyrru trwy welliannau mewn gwasanaethau llywodraeth leol ar gyfer pobl Cymru.

**Peter Black:** In relation to failing authorities, there are many provisions in the previous Measure that was taken through that you have not yet used in relation to Anglesey, for example. It is not as if you do not have any tools in the box. Secondly, in relation to courts interpreting what you have to say, the crux here is the reasons that are given for amalgamating local authorities. Given that the proposed Measure is largely silent on that issue, it would be difficult for someone to use your words in a court of law to interpret whether or not a Minister is right or wrong in

**Peter Black:** O ran awdurdodau sy'n methu, mae llawer o ddarpariaethau yn y Mesur blaenorol a aeth drwyddo nad ydych wedi defnyddio eto mewn perthynas ag Ynys Môn, er enghraifft. Nid yw fel petai nad oes gennych unrhyw arf yn y blwch. Yn ail, mewn perthynas â llysoedd yn dehongli'r hyn sydd gennych i'w ddweud, craidd hwnnw yw'r rhesymau a roddir ar gyfer cyfuno awdurdodau lleol. O gofio bod y Mesur arfaethedig yn bennaf dawel ar y mater hwnnw, byddai'n anodd i rywun ddefnyddio eich geiriau mewn llys barn i ddehongli a yw

saying, 'I'm doing this because of x or y in terms of effectiveness', because what is meant by effective local government is not very well defined or understood in this proposed Measure. Therefore, it is difficult for you to rely on the courts of law as a stop-gap or a safety net with regard to the intentions of a future Minister.

Gweinidog yn iawn neu'n anghywir wrth ddweud, 'Rwy'n gwneud hyn oherwydd 'x' neu 'y' yn nhermau effeithiolrwydd', oherwydd nid yw'r hyn a olygir gan lywodraeth leol effeithiol wedi'i ddiffinio'n dda iawn neu wedi'i ddeall yn y Mesur arfaethedig. Felly, mae'n anodd i chi ddibynnu ar lysoedd y gyfraith fel ateb dros dro neu rwyd ddiogelwch o ran bwriadau Gweinidog yn y dyfodol.

**Carl Sargeant:** I disagree with the Member. I have said quite clearly in committee and in the Chamber today that this proposed Measure is not to be used as a tool for wholesale reorganisation. I have made that quite clear.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn anghytuno â'r Aelod. Rwyf wedi dweud yn eithaf clir yn y pwyllgor ac yn y Siambr heddiw nad yw'r Mesur arfaethedig yn cael ei ddefnyddio fel offeryn ar gyfer ad-drefnu. Rwyf wedi gwneud hynny'n gwbl glir.

**Alun Cairns:** Will the Minister give way?

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ildio?

I think that there is some need, Minister, for this to be amended. I accept that you tabled the amendment to the proposed Measure as quickly as you were able to at Stage 2. We accept that there has been significant debate about whether that was the right way to proceed. However, as I am sure you will accept, Minister, there is always scope for mistakes to be made. I think that this could be an error. I think that this could be a drafting error, because I would imagine that you would agree that it is good practice for any future local government Minister to have to consult the independent commission on the structure of that new local authority area before an amalgamation Order is brought forward for approval. Otherwise, it puts the Government in the incredibly privileged position of being able to redraw not only the map of local government in Wales, but the maps of our wards within those local authorities. Doing that without any independent analysis of what that structure should look like is an incredibly dangerous path for a Government to follow.

Credaf fod rhywfaint o angen, Weinidog, i hyn gael ei ddiwygio. Yr wyf yn derbyn eich bod wedi cyflwyno'r gwelliant i'r Mesur arfaethedig cyn gynted ag yr oedd modd i chi yng Nghyfnod 2. Rydym yn derbyn y bu cryn ddadlau ynghylch ai dyna oedd y ffordd gywir i symud ymlaen. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y derbyniwch, Weinidog, fod bob amser lle i gamgymeriadau gael eu gwneud. Credaf y gallai hyn fod yn gamgymeriad. Rwy'n credu y gallai hyn fod yn gamgymeriad drafftio, oherwydd byddwn yn dychmygu y byddech yn cytuno ei bod yn arfer da i unrhyw Weinidog llywodraeth leol yn y dyfodol orfod ymgynghori â'r comisiwn annibynnol ar strwythur ardal yr awdurdod lleol newydd cyn i Orchymyn uno gael ei ddwyn ymlaen i'w gymeradwyo. Fel arall, mae'n rhoi'r Llywodraeth yn y sefyllfa hynod freintiedig o allu ail-lunio, nid yn unig fap llywodraeth leol yng Nghymru, ond mapiau ein wardiau o fewn yr awdurdodau lleol hynny. Mae gwneud hynny heb unrhyw ddadansoddiad annibynnol o sut y dylai strwythur edrych yn lwybr hynod o beryglus i Lywodraeth ei ddilyn.

**Carl Sargeant:** By way of introduction, I

**Carl Sargeant:** Fel cyflwyniad, mae'n rhaid

must explain that the provisions in section 164B will enable Welsh Ministers to include the initial electoral arrangements for a new authority in the amalgamation Order. Members have made some interesting observations. This is precisely what happened in the first elections to the new authorities established under the 1994 reorganisation and the principles that were established then. In most cases, I envisage that the amalgamation Order would be made sufficiently in advance of the schedule for the selection of the electoral arrangements, and that they would have been reviewed by the Welsh boundary commission. There is a good chance that the arrangements for the first elections would be based on proposals made by the boundary commission. However, there is a chance that the timetables may not quite allow for the Welsh boundary commission to do that review before the first elections. They generally need to be in place 18 months beforehand, which is why we have included the provision at section 164F, which allows the Welsh Ministers to direct the Welsh commission to review the arrangements.

i mi egluro y bydd y darpariaethau yn adran 164B yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys y trefniadau cychwynnol etholiadol ar gyfer awdurdod newydd yn y Gorchymyn uno. Mae Aelodau wedi gwneud sylwadau diddorol. Dyma'n union yr hyn a ddigwyddodd yn yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau newydd a sefydlwyd o dan ad-drefnu 1994 a'r egwyddorion a sefydlwyd bryd hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr wyf yn rhagweld y byddai'r Gorchymyn uno yn cael ei wneud yn ddigon buan cyn yr amserlen ar gyfer dethol y trefniadau etholiadol, ac y byddent wedi cael eu hadolygu gan gomisiwn ffiniau Cymru. Mae siawns dda y byddai trefniadau ar gyfer yr etholiadau cyntaf wedi eu seilio ar gynigion a wnaed gan y comisiwn ffiniau. Fodd bynnag, mae siawns na fydd yr amserlenni yn caniatáu i gomisiwn ffiniau Cymru wneud yr adolygiad hwnnw cyn yr etholiadau cyntaf. Yn gyffredinol, mae angen iddynt fod ar waith 18 mis ymlaen llaw, a dyna pam yr ydym wedi cynnwys y ddarpariaeth yn adran 164F, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Comisiwn Cymru i adolygu'r trefniadau.

I will now turn to the opposition amendment 21. I believe that this, again, is unnecessary and potentially confusing. It is possible that the electoral arrangements for the first elections will be based on the proposals for the review conducted by the Welsh boundary commission. If that is the case, there is no need to undertake another review so soon.

Trof yn awr at welliant 21 y gwrthbleidiau. Credaf fod hyn, eto, yn ddiangen ac o bosibl yn ddryslyd. Mae'n bosibl y caiff y trefniadau etholiadol ar gyfer yr etholiadau cyntaf eu seilio ar y cynigion ar gyfer yr adolygiad a gynhaliwyd gan gomisiwn ffiniau Cymru. Os yw hynny'n wir, nid oes angen cynnal adolygiad arall mor fuan.

Opposition amendments 26, 28 and 27 are all unnecessary. Amendments 26 and 28 would make it an absolute requirement for the boundary commission to review the electoral arrangements of a new authority within an 18-month period of the amalgamation Order. As I have said, the boundary commission—

Mae gwelliannau 26, 28 a 27 y gwrthbleidiau i gyd yn ddiangen. Byddai gwelliannau 26 a 28 yn ei gwneud yn ofyniad absoliwt ar y comisiwn ffiniau i adolygu trefniadau etholiadol awdurdod newydd o fewn cyfnod o 18 mis o'r Gorchymyn uno. Fel yr wyf wedi ei ddweud, mae'r comisiwn ffiniau—

**Jonathan Morgan:** I thank the Minister for giving away. I accept that you have included in the proposed Measure—at section 164F—the provision of a review of electoral arrangements by the Welsh commission. However, that review, in itself, as set out in that section, is unnecessary if the commission were to be engaged before the amalgamation Order was produced and voted through by the Assembly. In effect, you are asking the

**Jonathan Morgan:** Diolchaf i'r Gweinidog am ildio. Yr wyf yn derbyn eich bod wedi cynnwys yn y Mesur arfaethedig—yn adran 164F—ddarpariaeth ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol gan y comisiwn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r adolygiad hwnnw, ynddo'i hun, fel y nodir yn yr adran honno, yn ddiangen pe câi'r comisiwn gymryd rhan cyn i'r Gorchymyn uno gael ei gynhyrchu a'i dderbyn drwy bleidlais gan y

Assembly to vote on an Order with all of the electoral arrangements in it, and you then decide, 'Just in case we have got this wrong, we will ask them to have a look at it'. It is a bit like shutting the stable door once the horse has disappeared. You would not need to do a review of those local government electoral arrangements if it was there at the outset before the amalgamation Order was produced.

Cynulliad. Mewn gwirionedd, yr ydych yn gofyn i'r Cynulliad bleidleisio ar Orchymyn â phob un o'r trefniadau etholiadol ynddo, ac wedyn yn penderfynu, 'Rhag ofn ein bod wedi cael hyn yn anghywir, gofynnwn iddynt gael golwg arno'. Mae hynny ychydig fel cau drws y stabl ar ôl i'r ceffyl ddiflannu. Ni fyddai angen i chi wneud adolygiad o'r trefniadau etholiadol llywodraeth leol hynny pe bai yno ar y dechrau cyn i'r Gorchymyn uno gael ei gynhyrchu.

**Carl Sargeant:** I do not accept that. You are trying to establish the perfect storm scenario of this transition. I do not know which authorities may be affected by this amalgamation Order should it come forward, and the reasons that will be behind any future amalgamation. Therefore, I believe that we must have that flexibility within the system. As I have said, it is envisaged that there would be sufficient time for this to be covered by the amalgamation Order, and it will be included in the initial electoral arrangements for the amalgamation Order.

**Carl Sargeant:** Nid wyf yn derbyn hynny. Rydych yn ceisio sefydlu senario storm berffaith o ran y trefniadau pontio hyn. Nid wyf yn gwybod pa awdurdodau y gellid effeithio arnynt gan y Gorchymyn uno hwn os caiff ei gyflwyno, a pha resymau a fydd y tu ôl i unrhyw uno yn y dyfodol. Felly, credaf fod yn rhaid inni gael yr hyblygrwydd hwnnw o fewn y system. Fel yr wyf wedi ei ddweud, rhagwelir y byddai digon o amser i hyn gael ei gwmpasu gan y Gorchymyn uno, a bydd yn cael ei gynnwys yn y trefniadau etholiadol cychwynnol ar gyfer y Gorchymyn uno.

I now turn to amendment 67. This amendment is also unnecessary. It requires Welsh Ministers to direct the boundary commission to undertake a review. The current wording retains the flexibility that is needed to take account of the amalgamation Order in the electoral cycle.

Trof yn awr at welliant 67. Mae'r gwelliant hwn hefyd yn ddiangen. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r comisiwn ffiniau i gynnal adolygiad. Mae'r geiriad presennol yn cadw'r hyblygrwydd y mae ei angen i ystyried y Gorchymyn uno yn y cylch etholiadol.

Opposition amendments 29, 30 and 31 make changes to the procedure for the conduct of the review, which are entirely consequential upon amendment 26. I ask the Assembly, again, to resist all of the amendments in the group.

Mae gwelliannau 29, 30 a 31 y gwrthbleidiau yn gwneud newidiadau i'r weithdrefn ar gyfer cynnal yr adolygiad, sydd yn dibynnu'n llwyr ar welliant 26. Gofynnaf i'r Cynulliad, unwaith eto, wrthsefyll pob un o'r gwelliannau yn y grŵp.

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to respond to this debate.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i ymateb i'r ddadl hon.

**Veronica German:** I said that there would not be an automatic requirement to review again if that had already happened and therefore that could be waived. Therefore, your argument against that does not hold water. As Jonathan has pointed out, we still believe that these amendments are necessary in order to make a better job out of a bad job. If this is passed today, as it seems it will be, we are trying to put forward amendments that

**Veronica German:** Dywedais na fyddai gofyniad awtomatig i adolygu eto os oedd wedi digwydd eisoes ac felly y gellid ei hepgor. Felly, nid yw eich dadl yn erbyn hynny yn dal dŵr. Fel y dywedodd Jonathan, rydym yn dal i gredu bod y gwelliannau hyn yn angenrheidiol er mwyn gwella sefyllfa wael. Os bydd hyn yn cael ei basio heddiw, fel y mae'n ymddangos y bydd, rydym yn ceisio rhoi gwelliannau gerbron a fydd yn

will contain the powers of the Minister.

rheoli pwerau'r Gweinidog.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn deall eich bod am symud i bleidlais ar welliant 21. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 21. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** I understand that you wish to move to a vote on amendment 21. The question is that amendment 21 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 21: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 21: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 21.*
*Amendment 21 not agreed.*

*Methodd gwelliannau 64 a 65.*
*Amendments 64 and 65 fell.*

**Grŵp 10: Gofyniad i Gynnal Refferenda sy'n Cynnwys Maer Etholedig (Gwelliannau 22 a 23)**
**Group 10: Requirement to Hold Referenda Involving an Elected Mayor (Amendments 22 and 23)**

**Y Llywydd:** Galwaf ar Veronica German i gynnig gwelliant 22 a siarad am y gwelliant arall yn y grŵp.

**The Presiding Officer:** I call on Veronica German to move amendment 22 and to speak to the other amendment in the group.

**Veronica German:** I move amendment 22 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 22 yn fy enw i.

These amendments relate to a section that states that a referendum must be held on whether, following amalgamation, the new local authority should operate a mayor and cabinet system if one already exists in one of the authorities that are to be amalgamated. We agree with the decision that a referendum should be held, because we think that that is the right thing to do. However, if the Government is forcing amalgamation on local authorities, we should be looking at how this refendum would be funded. We feel that such a referendum would be held only because central Government has imposed that amalgamation, therefore it is only right that it picks up the cost.

Mae'r diwygiadau hyn yn ymwneud ag adran sy'n datgan bod yn rhaid i refferendwm gael ei gynnal ar a ddylai'r awdurdod lleol newydd, yn dilyn uno, weithredu system maer a chabinet os oes un eisoes yn bodoli yn un o'r awdurdodau sydd i gael eu cyfuno. Rydym yn cytuno â'r penderfyniad y dylai refferendwm gael ei gynnal, gan ein bod yn credu mai dyna'r peth iawn i'w wneud. Fodd bynnag, os yw'r Llywodraeth yn gorfodi uno ar awdurdodau lleol, dylem fod yn edrych ar sut y câi'r refferendwm hwn ei ariannu. Rydym yn teimlo y byddai refferendwm o'r fath ond yn cael ei gynnal oherwydd bod Llywodraeth ganolog wedi gosod yr uno hwnnw, ac felly nid yw ond yn iawn ei fod yn talu am y gost.

**Carl Sargeant:** On oppostion amendments 22 and 23, section 164C and 164D will enable Welsh Ministers to require a referendum to be held on whether the new authority should operate the elected mayor and cabinet form of executive arrangement. These powers could only be used where one or more authority to be amalgamated is already operating an elected mayor or cabinet executive, or where the residents of one of the local authorities to be amalgamated have voted in favour, in a referendum, of not having an elected mayor, or where the election of a mayor has not yet been held. The opposition amendments would introduce an anomaly. The legislation governing referenda for an elected mayor requires the authority concerned to pay for it. It would be inconsistent to apply different arrangements for certain types of elected mayoral referenda. Only one referendum has ever been held in Wales for an elected mayor, in Ceredigion in 2004, and the local authority paid for that. I ask Members to resist opposition amendments 22 and 23.

**Carl Sargeant:** O ran gwelliannau 22 a 23 y gwrthbleidiau, bydd adran 164C a 164D yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i refferendwm gael ei gynnal ar a ddylai'r awdurdod newydd weithredu trefniadau gweithredu maer etholedig a chabinet. Gallai'r pwerau hyn ond gael eu defnyddio lle mae un neu fwy o'r awdurdodau sydd i gael eu cyfuno eisoes â gweithrediaeth maer etholedig neu gabinet, neu lle mae trigolion un o'r awdurdodau lleol sydd i gael eu cyfuno wedi pleidleisio, mewn refferendwm, o blaid peidio â chael maer etholedig, neu lle nad yw etholiad maer wedi ei gynnal eto. Byddai gwelliannau'r gwrthbleidiau yn cyflwyno anghysondeb. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu refferenda ar gyfer maer etholedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod dan sylw dalu amdano. Byddai'n anghyson i gymhwyso trefniadau gwahanol ar gyfer mathau penodol o refferenda ar gyfer ethol maer. Dim ond un refferendwm erioed a gynhaliwyd yng Nghymru ar gyfer maer etholedig, yng Ngheredigion yn 2004, a thalodd yr awdurdod lleol am hwnnw. Gofynnaf i Aelodau wrthod gwelliannau 22 a 23 y gwrthbleidiau.

**Veronica German:** It was completely different in the case of Ceredigion, where people wanted a referendum on having an elected mayor. In this case, the duty to hold a referendum is being imposed by Government on local authorities, therefore it is only right that central Government pays for that referendum.

**Veronica German:** Yr oedd yn hollol wahanol yn achos Ceredigion, lle yr oedd pobl eisiau refferendwm ar gael maer etholedig. Yn yr achos hwn, mae'r ddyletswydd i gynnal refferendwm yn cael ei osod gan y Llywodraeth ar awdurdodau lleol, ac felly nid yw ond yn iawn mai'r Llywodraeth ganolog sy'n talu am y

refferendwm hwnnw.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn deall eich bod am symud i bleidlais ar welliant 22. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 22. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** I understand that you wish to move to a vote on amendment 22. The question is that amendment 22 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 22: O blaid 12, Ymatal 1, Yn erbyn 27.*
*Amendment 22: For 12, Abstain 1, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
German, Veronica
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Graham, William

*Gwrthodwyd gwelliant 22.*
*Amendment 22 not agreed.*

*Methodd gwelliant 66.*
*Amendment 66 fell.*

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 23.

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to move amendment 23.

**Veronica German:** I move amendment 23 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 23 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 23. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 23 be agreed to. Are there any

fod. Felly, symudwn i bleidlais.

objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 23: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 23: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 23.*
*Amendment 23 not agreed.*

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 25.

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to move amendment 25.

**Veronica German:** I move amendment 25 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 25 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 25. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 25 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 25: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 25: For 14, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn

Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Williams, Kirsty

Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 25.*
*Amendment 25 not agreed.*

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 24.

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to move amendment 24.

**Veronica German:** I move amendment 24 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 24 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 24. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 24 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 24: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 24: For 14, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri

Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 24.*
*Amendment 24 not agreed.*

6.30 p.m.

**Y Llywydd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, down i waredu gwelliannau 26, 67, 28, 27, 29, 30 a 31.

**The Presiding Officer:** In line with the marshalled list, we now come to dispose of amendments 26, 67, 28, 27, 29, 30 and 31.

I invite Veronica German to move amendment 26.

Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 26.

**Veronica German:** I move amendment 26 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 26 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 26. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 26 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 26: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 26: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant 26.*
*Amendment 26 not agreed.*

**The Presiding Officer:** I invite Jonathan Morgan to move amendment 67.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Jonathan Morgan i gynnig gwelliant 67.

**Jonathan Morgan:** I move amendment 67 in my name.

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf welliant 67 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 67. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 67 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 67: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 67: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 67.*
*Amendment 67 not agreed.*

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to move amendment 28.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 28.

**Veronica German:** I move amendment 28 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 28 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 28. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 28 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 28: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 28: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 28.*
*Amendment 28 not agreed.*

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to move amendment 27.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 27.

**Veronica German:** I move amendment 27 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 27 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 27. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 27 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 27: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 27: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice

Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 27.*
*Amendment 27 not agreed.*

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to move amendment 29.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 29.

**Veronica German:** I move amendment 29 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 29 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 29. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 29 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 29: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 29: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl

Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 29.*
*Amendment 29 not agreed.*

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to move amendment 30.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 30.

**Veronica German:** I move amendment 30 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 30 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 30. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 30 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 30: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 30: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 30.*
*Amendment 30 not agreed.*

**The Presiding Officer:** I invite Veronica German to move amendment 31.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig gwelliant 31.

**Veronica German:** I move amendment 31 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 31 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 31. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 31 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 31: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 31: For 12, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 31.*
*Amendment 31 not agreed.*

## Grŵp 11: Y Weithdrefn sy'n Gymwys i Orchymyn Cyfuno (Gwelliannau 8, 68, 32, 33 a 34)
## Group 11: Procedure Applicable to an Amalgamation Order (Amendments 8, 68, 32, 33 and 34)

**Y Llywydd:** Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 8 a siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

**The Presiding Officer:** I call on the Minister to move amendment 8 and to speak to the other amendments in the group.

**Carl Sargeant:** I move amendment 8 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 8 yn fy enw i.

We are nearly there. I will first speak to Government amendment 8, the purpose of which is to identify required consultees where the Welsh Ministers consult on a proposal for an amalgamation Order. Section 164H already requires the Welsh Ministers to

Rydym bron â gorffen. Yn gyntaf, siaradaf am welliant rhif 8 y Llywodraeth. Ei ddiben yw nodi'r ymgyngoreion angenrheidiol pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar gynnig ar gyfer Gorchymyn cyfuno. Mae adran 164H eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i

consult on a proposal to amalgamate two or three local authorities. The effect of the amendment is to specify that the consultees must include the county and county borough councils for the areas to be amalgamated, community and town councils in the areas concerned, and such other persons as are likely to be affected by the proposals. The last element is the key. It is a broadly drafted provision, and deliberately so. It captures any person or organisation that might be affected by the amalgamation proposal or may have an interest in it.

Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynnig i gyfuno dau neu dri awdurdod lleol. Effaith y gwelliant yw nodi bod yn rhaid i'r ymgyngoreion gynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardaloedd sydd i gael eu huno, cynghorau cymuned a thref yn yr ardaloedd o dan sylw, ac unrhyw bersonau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion. Yr elfen olaf sy'n allweddol. Mae'n ddarpariaeth a ddrafftiwyd yn fras, ac yn fwriadol felly. Mae'n dal unrhyw berson neu sefydliad a allai gael eu heffeithio gan y cynnig cyfuno neu a allai fod â diddordeb ynddo.

I turn to opposition amendment 68. I do not see the need for it. It places requirements where none are needed. Section 164H requires Welsh Ministers to consult on the proposal before an amalgamation. Following the consultation, if they decide to proceed with the Order, they must lay before the Assembly a document that explains the proposals, gives details of the consultation and sets out the proposals in the form of the first draft Order. In order for the proposals and the explanation to be credible, they must be based on tests required of the Welsh Ministers in section 164A. That is to say that the tests must be fulfilled before the Welsh Ministers make an amalgamation Order. The tests are clear. The Welsh Ministers must be satisfied that effective local government is unlikely to be achieved in at least one of the areas to be amalgamated.

Trof at welliant 68 y gwrthbleidiau. Ni chredaf ei fod yn angenrheidiol. Mae'n gosod gofynion lle nad oes eu hangen. Mae adran 164H yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y cynnig cyn cyfuno. Yn dilyn yr ymgynghoriad, os byddant yn penderfynu bwrw ymlaen â'r Gorchymyn, rhaid iddynt osod gerbron y Cynulliad ddogfen sy'n esbonio'r cynigion, sy'n rhoi manylion am yr ymgynghoriad ac sy'n gosod allan y cynigion ar ffurf y Gorchymyn drafft cyntaf. Er mwyn i'r cynigion a'r eglurhad fod yn gredadwy, rhaid iddynt fod yn seiliedig ar brofion sy'n ofynnol i Weinidogion Cymru yn adran 164A. Hynny yw, mae'n rhaid i'r profion gael eu cyflawni cyn y gall Gweinidogion Cymru wneud Gorchymyn cyfuno. Mae'r profion yn glir. Rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni bod llywodraeth leol effeithiol yn annhebygol o gael ei chyflawni mewn o leiaf un o'r ardaloedd sydd i gael eu cyfuno.

I now turn to amendments 32, 33 and 34, which I urge Assembly Members to resist. Section 164H applies the superaffirmative resolution procedure to the approval of an amalgamation Order. Our provision requires the draft amalgamation Order to be laid before the Assembly for no less than 60 days, during which time anyone with an interest in the proposals may make representations. Assembly committees will also have the opportunity to call in the draft Orders for consideration. There has to be a time limit on procedures of this sort, and 60 days should allow sufficient time for representation and consideration by Assembly committees. I believe that opposition amendments 32, 33

Trof yn awr at welliannau 32, 33 a 34, ac yr wyf yn annog Aelodau'r Cynulliad i'w gwrthod. Mae Adran 164H yn defnyddio'r weithdrefn o benderfyniad uwchgadarnhaol i gymeradwyo Gorchymyn cyfuno. Mae ein darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gorchymyn cyfuno drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad am ddim llai na 60 diwrnod, a gall unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynigion wneud sylwadau yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd pwyllgorau'r Cynulliad hefyd yn cael y cyfle i alw i mewn y Gorchmynion drafft i'w hystyried. Mae'n rhaid cael terfyn amser ar weithdrefnau o'r fath, a dylai 60 diwrnod ganiatáu digon o amser ar gyfer cynrychiolaeth ac ystyriaeth

and 34 will extend the time period beyond what is needed and what is proportionate. You should bear in mind that the Welsh Ministers will have consulted extensively immediately before the draft Order has been laid. In conclusion, Llywydd, I ask Assembly Members to support Government amendment 8 and to resist opposition amendments 68, 32, 33 and 34.

gan bwyllgorau'r Cynulliad. Credaf y bydd gwelliannau 32, 33 a 34 y gwrthbleidiau yn ymestyn y cyfnod amser y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen a'r hyn sy'n gymesur. Dylech gadw mewn cof y bydd Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn helaeth yn union cyn i'r Gorchymyn drafft gael ei osod. I gloi, Lywydd, gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi gwelliant 8 y Llywodraeth, ac i wrthod gwelliannau 68, 32, 33 a 34 y gwrthbleidiau.

**Jonathan Morgan:** I am grateful for the opportunity to speak to amendment 68 in my name and the other amendments in this group. The Minister has introduced amendment 8 to tighten up the wording of this particular section. The amendment states that the Assembly Government must consult

'the local authorities for the local government areas affected by the proposals',

along with community councils and 'such other persons', which is a classic catch-all that you find at the end of sections such as this. There is no requirement for the level of public consultation in the way that we would have hoped to see. There is an opportunity to make provision in this proposed Measure to allow for a referendum in the proposed new local government area, but the Government has decided not to take it. During Stage 2 proceedings, the Minister argued that the provisions were comprehensive and proportionate, and allowed for a high level of consultation with local people and institutions. Although I recognise that he has made some concession here to try to make the proposed Measure more explicit, I feel that it simply does not go far enough. There is no duty on the Assembly Government to consult with the public on these proposals, for instance, and that is a worrying development. The Minister has been happy to mention local authorities and town and community councils and 'such other persons' as you see fit to consult, but there is nothing explicit about widespread public consultation, and certainly nothing about a referendum, which is what I would prefer. So, amendment 8 does not go far enough, and, as a result, we will oppose it.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad am welliant 68 yn fy enw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn. Mae'r Gweinidog wedi cyflwyno gwelliant 8 i dynhau geiriad yr adran arbennig hon. Mae'r gwelliant yn nodi bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ymgynghori â'r

'awdurdodau lleol ar gyfer yr ardaloedd llywodraeth leol yr effeithir arnynt gan y cynigion',

ynghyd â chynghorau cymuned ac 'unrhyw bersonau eraill', sydd yn ffordd glasurol o geisio dal popeth ar ddiwedd adrannau fel hyn. Nid oes unrhyw ofyniad o ran lefel yr ymgynghoriad cyhoeddus fel y byddem wedi gobeithio ei weld. Mae cyfle i wneud darpariaeth yn y Mesur arfaethedig hwn i ganiatáu refferendwm yn yr ardal llywodraeth leol newydd arfaethedig, ond mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â'i gymryd. Yn ystod trafodion Cyfnod 2, dadleuodd y Gweinidog fod y darpariaethau yn gynhwysfawr ac yn gymesur, ac yn caniatáu lefel uchel o ymgynghori â phobl leol a sefydliadau. Er fy mod yn cydnabod ei fod wedi gwneud rhywfaint o gonsesiwn yma i geisio gwneud y Mesur arfaethedig yn fwy eglur, teimlaf nad yw'n mynd yn ddigon pell. Nid oes unrhyw ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad i ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynigion hyn, er enghraifft, ac mae hynny'n ddatblygiad sy'n peri pryder. Mae'r Gweinidog wedi bod yn hapus i sôn am awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned ac 'unrhyw bersonau eraill' y gwelwch yn dda i ymgynghori â hwy, ond nid oes unrhyw beth pendant am ymgynghori cyhoeddus eang, ac yn sicr ddim am refferendwm, sef yr hyn y byddai'n well gennyf ei weld. Felly, nid yw gwelliant 8 yn mynd yn ddigon pell, ac, o ganlyniad,

byddwn yn ei wrthwynebu.

Amendment 68 in my name seeks to tighten up section 164H, placing a requirement on Welsh Ministers to explain why they feel that an amalgamation Order is necessary to achieve ‘effective local government’. As currently drafted, the proposed Measure requires the Minister, as he said, to explain the proposals, to set them out in the form of a draft Order, and to give details of the consultation under subsection 2. We firmly believe that, given the scale of the potential changes to local government in Wales, and the potential lack of public consultation on this issue, Welsh Ministers should be required to outline exactly how the local government areas to be amalgamated are failing to provide effective local government, and the Minister should clarify exactly how an amalgamation Order will lead to ‘effective local government’. The Minister has said that the test for this is set out in section 164A. The only test in section 164A, as Janet Ryder said, is the trigger mechanism for the ability of Welsh Ministers to ensure that a new local government area is amalgamated to achieve ‘effective local government’. However, there is nothing in here that sets out that test. The test simply cannot be to say that it will achieve ‘effective local government’.

Mae gwelliant 68 yn fy enw i yn ceisio tynhau adran 164H, gan osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i egluro pam eu bod yn teimlo bod Gorchymyn cyfuno yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ‘llywodraeth leol effeithiol’. Fel y’i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae’r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i’r Gweinidog, fel y dywedodd, esbonio’r cynigion, i’w gosod allan ar ffurf Gorchymyn drafft, ac i roi manylion yr ymgynghori o dan isadran 2. Credwn yn gryf, o ystyried maint y newidiadau posibl i lywodraeth leol yng Nghymru, a’r diffyg posibl o ran ymgynghori cyhoeddus ar y mater hwn, y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru amlinellu sut yn union y mae’r ardaloedd llywodraeth leol sydd i’w cyfuno yn methu â darparu llywodraeth leol effeithiol, a dylai’r Gweinidog egluro sut yn union y bydd Gorchymyn cyfuno yn arwain at ‘lywodraeth leol effeithiol’. Mae’r Gweinidog wedi dweud bod y prawf ar gyfer hyn wedi’i nodi yn adran 164A. Yr unig brawf yn adran 164A, fel y dywedodd Janet Ryder, yw’r mecanwaith sbardun o ran gallu Gweinidogion Cymru i sicrhau bod ardal llywodraeth leol newydd yn cael ei chyfuno i gyflawni ‘llywodraeth leol effeithiol’. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth yma sy’n nodi’r prawf hwnnw. Nid yw’n ddigon i’r prawf nodi y bydd yn cyflawni ‘llywodraeth leol effeithiol’.

Those few words cannot constitute a test for such a widespread, detailed alteration of the way in which local government is constructed in Wales. That is not a test; it is a few words chucked together in this section of the proposed Measure. There is no section of the proposed Measure that details what ‘effective local government’ is and defines it. The Minister has said that that does not matter, because ‘effective local government’ is referred to in other legislation. It does not matter that it is referred to in other legislation, because it is not defined elsewhere in legislation, and the best that we could get this afternoon is a statement that it is somehow to do with the effective delivery of services. Is it just to do with the effective delivery of services or is it about where a local authority has local councillors who simply do not get on? We know that there is

Ni all hynny o eiriau fod yn gyfystyr â phrawf ar gyfer y fath newid eang a manwl o sut y caiff llywodraeth leol ei llunio yng Nghymru. Nid yw hynny’n brawf; ychydig eiriau ydyw, sydd wedi eu taflu at ei gilydd yn yr adran hon o’r Mesur arfaethedig. Nid oes unrhyw adran o’r Mesur arfaethedig sy’n rhoi manylion am yr hyn yw ‘llywodraeth leol effeithiol’ ac yn ei diffinio. Mae’r Gweinidog wedi dweud nad yw hynny’n bwysig, oherwydd y cyfeirir at ‘lywodraeth leol effeithiol’ mewn deddfwriaeth arall. Nid oes ots y cyfeirir ato mewn deddfwriaeth arall, oherwydd nid yw’n cael ei ddiffinio mewn mannau eraill yn y ddeddfwriaeth, a’r gorau y gallem ei gael y prynhawn yma yw datganiad ei fod rywsut yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn effeithiol. A yw’n ymwneud yn unig â chyflawni gwasanaethau yn effeithiol neu a yw’n ymwneud ag

at least one authority in Wales where that is happening; it is in the news all the time and has been referred to several times in the Chamber. There could be an authority where the leadership is pretty poor, where councillors are not getting on, where they are bickering like mad, but where, for some reason, they are delivering pretty good local services, because their officers are top-notch. There is nothing in the proposed Measure that sets out the benchmark. There is no test or measurement: there is nothing that tests how an amalgamation Order will be taken forward to deliver effective local government, because you simply have not defined it. Therefore, to say that amendment 68 is not necessary because the test is whether there is 'effective local government' is simply not sufficient. It is not a test, it would not stand up to any level of scrutiny outside this institution, and, frankly, it makes a mockery of the process, because you cannot define it.

awdurdodau lleol sydd â chynghorwyr lleol sydd ddim yn cyd-dynnu? Rydym yn gwybod am o leiaf un awdurdod yng Nghymru lle mae hynny'n digwydd; mae yn y newyddion drwy'r amser a chyfeiriwyd ato nifer o weithiau yn y Siambr. Gellid cael awdurdod lle mae'r arweinyddiaeth yn eithaf gwael, lle nad yw'r cynghorwyr yn cyd-dynnu, lle maent yn cecru'n ddiddiwedd, ond lle, am ryw reswm, y darperir gwasanaethau lleol eithaf da, oherwydd bod yno swyddogion o'r radd flaenaf. Nid oes unrhyw beth yn y Mesur arfaethedig sy'n amlinellu meincnodau. Nid oes unrhyw brawf neu fesur: nid oes unrhyw beth sy'n profi sut y bydd Gorchymyn cyfuno yn cael ei gymryd ymlaen i ddarparu llywodraeth leol effeithiol, oherwydd nad ydych wedi ei diffinio. Felly, mae dweud nad yw gwelliant 68 yn angenrheidiol oherwydd mai'r prawf yw a oes 'llywodraeth leol effeithiol' yn annigonol. Nid yw'n brawf, ni fyddai'n gwrthsefyll unrhyw lefel o graffu y tu allan i'r sefydliad hwn, ac, a dweud y gwir, mae'n gwneud cyff gwawd o'r broses, oherwydd nad ydych yn gallu ei diffinio.

I have asked you time and again to tell the Assembly how you define 'effective local government'. You said that you would write to me, but you have not. You said that you would put a letter outlining that in the Library, but you have not. As a result, we are being asked to agree to a section of the proposed Measure that sets out the procedure that is applicable to an amalgamation Order based on a test that you cannot define. That is a ridiculous position for this institution to be in. It is absolutely right that an Order, when it is brought before this institution, should explain why the local authority area is deemed to be defective and for it to set out how it will be made effective. The Minister is saying that it will do so, but that is not stated in the proposed Measure. I do not care whether the Minister says, 'It will. We will do it. Don't panic; it will be in there.' Unless it says so in the proposed Measure, it will not happen, and I do not think that any future Minister for local government who reads the proposed Measure will suddenly decide that what is needed is to set out in detail how the local authority area is defective and how the amalgamation Order will—suddenly—make it effective. Unless you state that in this

Yr wyf wedi gofyn i chi dro ar ôl tro i ddweud wrth y Cynulliad sut yr ydych yn diffinio 'llywodraeth leol effeithiol'. Dywedasoch y byddech yn ysgrifennu ataf, ond nid ydych wedi gwneud hynny. Dywedasoch y byddech yn rhoi llythyr yn amlinellu hynny yn y Llyfrgell, ond nid ydych wedi gwneud hynny. O ganlyniad, gofynnir inni gytuno ar adran o'r Mesur arfaethedig sy'n nodi'r weithdrefn sy'n gymwys i Orchymyn cyfuno yn seiliedig ar brawf na allwch ei ddiffinio. Mae hynny'n sefyllfa chwerthinllyd i'r sefydliad hwn fod ynddi. Mae'n hollol gywir y dylai Gorchymyn, pan gaiff ei osod gerbron y sefydliad hwn, egluro pam yr ystyrir ardal awdurdod lleol yn ddiffygiol ac iddo nodi sut y bydd yn cael ei gwneud yn effeithiol. Mae'r Gweinidog yn dweud y bydd yn gwneud hynny, ond nid yw hynny'n cael ei nodi yn y Mesur arfaethedig. Nid oes ots gennyf a yw'r Gweinidog yn dweud, 'Fe fydd. Byddwn yn gwneud hynny. Peidiwch â mynd i banig; fe fydd yno.' Oni bai ei fod yn dweud hynny yn y Mesur arfaethedig, ni fydd yn digwydd, ac nid wyf yn credu y bydd unrhyw Weinidog dros lywodraeth leol yn y dyfodol sy'n darllen y Mesur arfaethedig yn sydyn yn

section of the proposed Measure, it simply will not happen.

penderfynu mai'r hyn sydd ei angen yw i nodi'n fanwl sut y mae'r ardal awdurdod lleol yn ddiffygiol a sut y bydd y Gorchymyn uno—yn sydyn—yn ei wneud yn effeithiol. Oni bai eich bod yn nodi hynny yn yr adran hon o'r Mesur arfaethedig, ni fydd yn digwydd.

It is worrying that we are about to approve a proposed Measure that simply will not require a future Minister for local government to set out why an Order is needed. We are told, 'Don't worry. It says here that the Minister has to explain the proposal', but a proposal could simply be to take three local authorities and merge them. That is all the proposal has to be, because nothing else in the proposed Measure sets out what has to be in the explanation of the proposals. None of it is qualified; none of it is explained. It is merely a few lines that say that the Minister will explain the proposals, put them into a draft Order—well, we would expect that if it is a piece of legislation—and give details of the consultation. None of that is defined. It merely allows the Government to say, 'We think there's a problem. It is on this basis that we are doing it. Here are the three Orders; we will get on and do it'. It does not require you in law to specify how the delivery of those public services is defective, how the running of the authority is defective and how the change will make it effective. You can shake your head all you want, Minister, but there is nothing in the proposed Measure that sets out in detail how that will be achieved in the formulation of an amalgamation Order.

Mae'n destun pryder ein bod ar fin cymeradwyo Mesur arfaethedig na fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog dros lywodraeth leol yn y dyfodol nodi pam y mae angen Gorchymyn. Dywedir wrthym, 'Peidiwch â phoeni. Mae'n dweud yma bod yn rhaid i'r Gweinidog esbonio'r cynnig', ond gallai'r cynnig, yn syml, olygu cymryd tri awdurdod lleol a'u cyfuno. Dyna'r cyfan y mae'n rhaid i'r cynnig fod, oherwydd nid oes unrhyw beth arall yn y Mesur arfaethedig sy'n amlinellu beth sydd yn rhaid ei gael yn yr esboniad i'r cynigion. Nid oes dim ohono wedi ei gymhwyso na'i egluro. Nid oes ond ychydig linellau sy'n dweud y bydd y Gweinidog yn esbonio'r cynigion, yn eu rhoi mewn Gorchymyn drafft—wel, byddem yn disgwyl hynny os yw'n ddarn o ddeddfwriaeth—ac yn rhoi manylion yr ymgynghoriad. Nid oes dim o hynny yn cael ei ddiffinio. Yr unig beth y mae'n ei wneud yw caniatáu i'r Llywodraeth ddweud, 'Rydym yn credu bod problem. Ar y sail hon yr ydym yn ei wneud. Dyma'r tri Gorchymyn; byddwn yn mynd ati i'w wneud'. Nid yw'n ofynnol i chi, o dan y gyfraith, bennu sut y mae cyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus hynny yn ddiffygiol, sut y mae'r gwaith o redeg yr awdurdod yn ddiffygiol a sut y bydd y newid yn ei wneud yn effeithiol. Gallwch ysgwyd eich pen faint fynnoch chi, Weinidog, ond nid oes unrhyw beth yn y Mesur arfaethedig sy'n nodi'n fanwl sut y bydd hynny'n cael ei gyflawni yn y gwaith o lunio Gorchymyn cyfuno.

**Carl Sargeant:** I am amazed by the discussion, given the long process that we have been through in discussing the issues around this. I have been clear in saying that we cannot take the amalgamation Order in isolation, but that is what you appear to be doing again. Consultation is built into the Order-making power. Section 164H requires Welsh Ministers to consult before tabling a draft Order, and that consultation must be

**Carl Sargeant:** Yr wyf yn rhyfeddu at y drafodaeth, o ystyried y broses hir yr ydym wedi bod trwyddi wrth drafod y materion sy'n ymwneud â hyn. Rwyf wedi dweud yn glir na allwn gymryd y Gorchymyn cyfuno ar ei ben ei hun, ond ymddengys mai dyna yr ydych yn ei wneud eto. Mae ymgynghori yn cael ei gynnwys yn y pŵer i lunio Gorchymyn. Mae adran 164H yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru

thorough and based on the tests that are set around the 2009 Measure. I do not quite understand which bit you are missing. Sections 164A(2)(a), 164A(2)(b) and 164A(3) all make reference to the 2009 Measure. You are making reference purely to the amalgamation Order, and what you are saying is untrue.

ymgynghori cyn cyflwyno Gorchymyn drafft, a bod yn rhaid i unrhyw ymgynghori fod yn drylwyr ac yn seiliedig ar y profion sy'n cael eu gosod o amgylch Mesur 2009. Nid wyf yn deall yn hollol pa ran rydych yn ei cholli. Mae adrannau 164A(2)(a), 164A(2)(b) a 164A(3) i gyd yn cyfeirio at Fesur 2009. Yr ydych yn cyfeirio at y Gorchymyn cyfuno yn unig, ac mae'r hyn yr ydych yn ei ddweud yn anghywir.

6.45 p.m.

**Jonathan Morgan:** I think that you find it difficult to read what is in front of you and what your officials have drafted for you. It is crystal clear that there is nothing in the proposed Measure and nothing in what you have said to the Chamber that outlines a definition of what effective local government is. If you could say in a section of the legislation that 'effective local government is defined as this', I could accept that as a test. However, merely saying 'effective local government' is not a test; you have merely stuck a few words together to try to explain the actions that you will take to bring forward an amalgamation Order. In saying that you will not vote in favour of amendment 68, you have merely said, 'Don't worry, we will just base it on the test itself'. That is not good enough; there is nothing in section 164H that says that an amalgamation Order will set out how a local authority, or more than one local authority, has not been effective, and how this Order will achieve effectiveness. It is not included. If there was another bullet point in this particular section that said 'a draft Order will set out the reasons for bringing forward this Order and the reasons why an authority that is not effective will be effective', I could understand it. However, there is nothing in the proposed Measure that requires you to do it. Again, it might be down to poor drafting, but this is exceptionally flawed. Unless it is amended, a Minister in the future will not be required to explain why this amalgamation Order is required with regard to how an authority is not delivering its role effectively. That is deeply worrying, and I would urge the Government to reconsider its opposition to amendment 68.

**Jonathan Morgan:** Credaf eich bod yn ei chael hi'n anodd i ddarllen yr hyn sydd o'ch blaen a'r hyn y mae eich swyddogion wedi ei ddrafftio i chi. Mae'n gwbl glir nad oes dim yn y Mesur arfaethedig ac nad oes dim yn yr hyn yr ydych wedi ei ddweud wrth y Siambr sy'n amlinellu diffiniad o lywodraeth leol effeithiol. Pe gallech ddweud mewn adran o'r ddeddfwriaeth, 'dyma sut y diffinnir llywodraeth leol effeithiol', gallwn dderbyn hynny fel prawf. Fodd bynnag, nid yw dweud 'llywodraeth leol effeithiol' yn unig yn brawf; yr unig beth yr ydych wedi ei wneud yw taflu ychydig o eiriau at ei gilydd i geisio esbonio'r camau y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflwyno Gorchymyn uno. Wrth ddweud na fyddwch yn pleidleisio o blaid gwelliant 68, yr unig beth yr ydych wedi ei ddweud yw, 'Peidiwch â phoeni, fe wnawn ond ei seilio ar y prawf ei hun'. Nid yw hynny'n ddigon da; nid oes dim yn adran 164H sy'n dweud y bydd Gorchymyn uno yn nodi sut nad yw awdurdod lleol, neu fwy nag un awdurdod lleol, wedi bod yn effeithiol, a sut y bydd y Gorchymyn hwn yn cyflawni effeithiolrwydd. Nid yw'n cael ei gynnwys. Os oedd un pwynt bwled arall yn yr adran arbennig hon yn dweud 'bydd Gorchymyn drafft yn nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r Gorchymyn hwn a'r rhesymau pam y bydd awdurdod nad yw'n effeithiol yn effeithiol', gallwn ddeall hynny. Fodd bynnag, nid oes dim yn y Mesur arfaethedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi wneud hynny. Unwaith eto, efallai mai drafftio gwael sy'n gyfrifol am hyn, ond mae hyn yn eithriadol o ddiffygiol. Oni chaiff ei ddiwygio, ni fydd yn rhaid i Weinidog yn y dyfodol esbonio pam fod y Gorchymyn uno hwn yn ofynnol o ran sut nad yw awdurdod yn cyflawni ei rôl yn effeithiol. Mae hynny'n destun pryder mawr, a byddwn yn annog y Llywodraeth i ailystyried ei gwrthwynebiad i

welliant 68.

We are happy with amendments 32, 33 and 34. Section 164H states that no final draft Order can be laid until a period of 60 days after the proposals were initially laid before the Assembly has passed. We need to ensure that there is proper scrutiny of any potential amalgamation Order that the Assembly Government wishes to design, and the Welsh Liberal Democrats are absolutely right to table these amendments. The Minister said during Stage 2 proceedings that an amalgamation Order would not come as a surprise, and that the 60-day consultation period was sufficient as he was not proposing wholesale reorganisation covering the whole of Wales. That is his view, but that may not be the view of a future Minister for local government. We need to ensure proper scrutiny of any Orders. We need longer than 60 days, because these things need to be done thoroughly. If you are going to try to convince us and your colleagues that this will be about proper consultation, proper engagement and proper examination of the detail, we need to ensure that there will be a period of longer than 60 days. I know that the Minister said earlier that this has been a long process this afternoon, but that is what we are here to do—that is what this process is about. If we are serious about making laws that are good for the people of Wales and improve their lives, when the new process is put into place in the next Assembly, we have to show that we are willing to scrutinise in this way.

Yr ydym yn fodlon â gwelliannau 32, 33 a 34. Mae adran 164H yn datgan na all unrhyw Orchymyn drafft terfynol gael ei osod hyd nes y bydd cyfnod o 60 diwrnod ar ôl gosod y cynigion gerbron y Cynulliad yn wreiddiol wedi mynd heibio. Mae angen i ni sicrhau bod craffu priodol ar unrhyw Orchymyn uno posibl y mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno ei ddylunio, ac mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hollol gywir i gyflwyno'r gwelliannau hyn. Dywedodd y Gweinidog yn ystod trafodion Cyfnod 2 na fyddai Gorchymyn uno yn dod fel syndod, a bod y cyfnod ymgynghori 60 diwrnod yn ddigonol gan nad oedd yn bwriadu ad-drefnu ar raddfa fawr a fyddai'n cwmpasu Cymru gyfan. Dyna yw ei farn, ond efallai nad dyna fydd barn Gweinidog llywodraeth leol yn y dyfodol. Mae angen i ni sicrhau craffu priodol ar unrhyw Orchmynion. Yr ydym angen mwy na 60 diwrnod, oherwydd mae angen gwneud y pethau hyn yn drylwyr. Os ydych yn mynd i geisio ein darbwyllo ni a'ch cydweithwyr y bydd hyn yn ymwneud ag ymgynghori priodol, ymgysylltu priodol ac archwiliad priodol o'r manylion, mae angen i ni sicrhau y bydd cyfnod o fwy na 60 diwrnod. Gwn fod y Gweinidog wedi dweud yn gynharach fod hon wedi bod yn broses hir y prynhawn yma, ond dyna'r hyn yr ydym yma i'w wneud—dyna bwrpas y broses hon. Os ydym o ddifrif am wneud deddfau sy'n dda ar gyfer pobl Cymru ac sy'n gwella eu bywydau, pan fydd y broses newydd yn cael ei rhoi ar waith yn y Cynulliad nesaf, mae'n rhaid i ni ddangos ein bod yn barod i graffu yn y ffordd hon.

**Alun Cairns:** Does Jonathan Morgan accept that the ambiguity behind the proposed Measure, as he has underlined, is because the Minister does not really know why he wants these powers? If he did, he could quite easily outline the purposes and circumstances in which he would intervene. He wants to inherit the power without having any real policy as to why he would want to amalgamate authorities.

**Alun Cairns:** A yw Jonathan Morgan yn derbyn bod yr amwysedd y tu ôl i'r Mesur arfaethedig, fel y mae wedi ei danlinellu, oherwydd nad yw'r Gweinidog yn gwybod yn iawn pam ei fod eisiau'r pwerau hyn? Pe bai'n gwybod, gallai yn hawdd amlinellu'r dibenion ac o dan ba amgylchiadau y byddai'n ymyrryd. Mae eisiau etifeddu'r pŵer heb gael unrhyw bolisi gwirioneddol ynghylch pam y byddai am gyfuno awdurdodau.

**Jonathan Morgan:** I agree. If you look at the progress over the past four years when we have been considering Measures, a number of

**Jonathan Morgan:** Cytunaf. Os edrychwch ar y cynnydd dros y pedair blynedd ddiwethaf pan ydym wedi bod yn ystyried

Measures have included definitions where the Government has seen fit to refer to something in one part of the Measure and then outline in some detail in another as to what that means and to give a definition. That is a good way of doing it. I half expected the Minister, somewhere in the amendments to the proposed Measure that he brought forward at Stage 2, to define 'effective local government'. If he could define it, I would not have a problem—it is the lack of definition that concerns me. If this is purely about securing improvements in the delivery of services, then we need to say so in the proposed Measure. If it is about the effectiveness of the services and political leadership, then we need to say so in the proposed Measure.

Mesurau, mae nifer o Fesurau wedi cynnwys diffiniadau lle mae'r Llywodraeth wedi gweld yn dda i gyfeirio at rywbeth mewn un rhan o'r Mesur ac yna amlinellu yn fanwl mewn un arall yr hyn y mae hynny'n ei olygu ac i roi diffiniad. Mae hynny'n ffordd dda o'i wneud. Yr oeddwn yn hanner disgwyl i'r Gweinidog, rywle yn y gwelliannau i'r Mesur arfaethedig a gyflwynodd yng Nghyfnod 2, ddiffinio 'llywodraeth leol effeithiol'. Pe gallai ei ddiffinio, ni fyddai gennyf broblem—y diffyg diffiniad sy'n peri pryder i mi. Os yw hyn ynghylch sicrhau gwelliannau o ran darparu gwasanaethau yn unig, yna mae angen i ni ddweud hynny yn y Mesur arfaethedig. Os yw ynglŷn ag effeithiolrwydd y gwasanaethau ac arweinyddiaeth wleidyddol, yna mae angen i ni ddweud hynny yn y Mesur arfaethedig.

I do not have a problem with definitions. It is the lack of a definition that really concerns me. The process this afternoon, however long it has taken, shows that it is important for the Assembly to scrutinise proposed Measures and legislation of such significance. Although there are clear differences between the parties in Government and the parties in opposition, this is the time when Members across the Chamber can contribute to these significant debates. After that welcome 'yes' vote, that tremendous result on 3 March, the people of Wales expect us to get this absolutely right. If it means longer sessions, where we scrutinise detail or the lack of it, it is absolutely right for us to do that.

Nid oes gennyf broblem gyda diffiniadau. Diffyg diffiniad sydd yn fy mhoeni. Mae'r broses y prynhawn yma, waeth pa mor hir y mae wedi cymryd, yn dangos ei bod yn bwysig i'r Cynulliad graffu ar Fesurau arfaethedig a deddfwriaeth mor arwyddocaol. Er bod gwahaniaethau clir rhwng pleidiau'r Llywodraeth a'r gwrthbleidiau, dyma'r adeg pan all Aelodau ar draws y Siambr gyfrannu at y trafodaethau sylweddol hyn. Ar ôl y bleidlais 'ie' galonogol honno, y canlyniad gwych hwnnw ar 3 Mawrth, mae pobl Cymru yn disgwyl i ni gael hyn yn hollol gywir. Os yw'n golygu sesiynau hirach, lle'r ydym yn craffu ar fanylion neu ddiffyg manylion, mae hollol iawn i ni i wneud hynny.

**Veronica German:** I concur wholeheartedly with everything that Jonathan has just said. I just cannot understand why the Minister would dismiss Jonathan's amendment, which was tabled as a result of the work done in the Constitutional Affairs Committee. It is just so fundamental to everything that he wants to achieve. Why can he not tell us why an authority is failing and how his proposals will make it better? It defies belief that this is dismissed so quickly and without any explanation. I will not rehearse everything that Jonathan has just said so well about the definition of 'effective local government'. It is a travesty that this is what is going to be passed today. This is the first proposed Measure to be passed after that 'yes' vote, when we told the people of Wales that we are

**Veronica German:** Cytunaf yn llwyr â phopeth y mae Jonathan newydd ei ddweud. Ni allaf ddeall pam y byddai'r Gweinidog yn diystyru gwelliant Jonathan, a gyflwynwyd o ganlyniad i'r gwaith a wnaed yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol. Mae mor sylfaenol i bopeth y mae ef am ei gyflawni. Pam na all ddweud wrthym pam y mae awdurdod yn methu a sut y bydd ei gynigion yn ei wella? Mae'n anodd credu bod hyn yn cael ei wrthod mor gyflym a heb unrhyw esboniad. Nid wyf am ailadrodd popeth y mae Jonathan newydd ei ddweud cystal am y diffiniad o 'lywodraeth leol effeithiol'. Mae'n warth mai dyma sy'n mynd i gael ei basio heddiw. Dyma'r Mesur arfaethedig cyntaf i gael ei basio ar ôl y bleidlais 'ie' honno, pan ddywedom wrth bobl Cymru ein bod yn gallu

capable of going through the proper legislative process, and what do we do? We sell them something like this. It is an absolute travesty.

mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol briodol, a beth rydym yn ei wneud? Rydym yn gwerthu rhywbeth fel hyn iddynt. Mae'n warth llwyr.

Moving on to the amendments in this group that we have put forward, as Jonathan said, at the moment, there is a 60-day consultation period for proper scrutiny of an Order. We have put forward three alternatives. We do not believe that 60 days is enough. We would prefer a longer period, but we understand that others might think that 150 days is too long. Therefore, we have put forward options of 90, 120 and 150 days.

Gan symud ymlaen at y gwelliannau yr ydym wedi'u cyflwyno yn y grŵp hwn, fel y dywedodd Jonathan, ar hyn o bryd, mae cyfnod ymgynghori 60 diwrnod ar gyfer craffu priodol ar Orchymyn. Rydym wedi cyflwyno tri dewis amgen. Nid ydym yn credu bod 60 diwrnod yn ddigon. Byddai'n well gennym gyfnod hwy, ond rydym yn deall y gallai pobl eraill feddwl bod 150 diwrnod yn rhy hir. Felly, rydym wedi cynnig opsiynau o 90, 120 a 150 diwrnod.

**Carl Sargeant:** What is the rationale for the different options? At Stage 2, you put forward amendments where there were five days between each option. What is the difference between these options? What difference will the extra 30 days between each option make to the people of Wales, and why so many options?

**Carl Sargeant:** Beth yw'r sail resymegol ar gyfer yr opsiynau gwahanol? Yng Nghyfnod 2, bu i chi gyflwyno gwelliannau lle'r oedd pum niwrnod rhwng pob opsiwn. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr opsiynau hyn? Pa wahaniaeth fydd y 30 diwrnod ychwanegol rhwng pob opsiwn yn ei wneud i bobl Cymru, a pham fod cymaint o opsiynau?

**Veronica German:** We would like a longer period—the longest. However, we understand that that might not be possible. Therefore, we are putting forward compromises. We are trying to be willing to engage in order that we can extend this period. The longer the better as far as we are concerned. So, we have proposed periods, adding roughly a month extra each time, as alternatives. If the Government was to come forward and say that it would accept 120 days, we would be willing to accept that. However, you still seem to be of the opinion that 60 days is the be-all and end-all and that that is perfectly long enough. That is why we have tabled these other amendments.

**Veronica German:** Hoffem gael cyfnod hirach—yr hiraf. Fodd bynnag, rydym yn deall nad yw hynny, efallai, yn bosibl. Felly, rydym yn cyflwyno cyfaddawdau. Rydym yn ceisio bod yn barod i gymryd rhan er mwyn inni allu ymestyn y cyfnod hwn. Gorau po hiraf yn ein tyb ni. Felly, rydym wedi cynnig cyfnodau, gan ychwanegu tua mis yn ychwanegol bob tro, fel dewisiadau amgen. Pe bai'r Llywodraeth yn dweud y byddai'n derbyn 120 diwrnod, byddem yn barod i dderbyn hynny. Fodd bynnag, ymddengys eich bod o'r farn o hyd mai 60 diwrnod yw dechrau a diwedd popeth a bod hynny'n hen ddigon hir. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliannau eraill hyn.

Everyone here who votes for this proposed Measure as amended by the Government today should look into their souls and hearts and ask whether they are really doing this place a favour. I tell you what, it is a good job that True Wales was pretty rubbish in its campaigning, because, if it had anything about it, it would have come forward and used this very method that you have used for this legislation as a reason not to vote 'yes'.

Dylai pawb sydd yma sy'n pleidleisio o blaid y Mesur arfaethedig hwn fel y'i diwygiwyd gan y Llywodraeth heddiw edrych ar eu heneidiau a'u calonnau a gofyn a ydynt wir yn gwneud cymwynas â'r lle hwn. Gadewch i mi ddweud hyn, mae'n beth da nad oedd ymgyrch Cymru Wir yn un dda iawn, oherwydd, pe bai o gwmpas ei bethau, byddai wedi defnyddio'r union ddull hwn yr ydych wedi ei ddefnyddio ar gyfer y ddeddfwriaeth hon fel rheswm dros beidio â phleidleisio 'ie'.

**The Presiding Officer:** I think that it is a good time for the Minister to bare his soul.

**Y Llywydd:** Credaf ei bod yn amser da i'r Gweinidog ddatgelu ei enaid.

**Carl Sargeant:** That was a really interesting contribution from those two Members. I am sure that they are very sincere in what they are trying to achieve. It is now clear that there are party differences on changing the way that local government operates in Wales. We are very keen to ensure that we get good value for money and good, effective local government. It is clear from Jonathan and Veronica's contributions today that that is not their intention.

**Carl Sargeant:** Yr oedd hwnnw'n gyfraniad diddorol iawn gan y ddau Aelod hynny. Yr wyf yn siŵr eu bod yn ddiffuant iawn o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni. Mae'n amlwg bellach fod gwahaniaethau plaid o ran newid y ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Yr ydym yn awyddus iawn i sicrhau ein bod yn cael gwerth da am arian, a llywodraeth leol dda ac effeithiol. Mae'n amlwg oddi wrth gyfraniadau Jonathan a Veronica heddiw nad dyna yw eu bwriad.

**Peter Black** *rose—*

**Peter Black** *a gododd—*

**The Presiding Officer:** Order. I do not think that the Minister is giving way.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf yn credu bod y Gweinidog yn ildio.

**Carl Sargeant:** I am the Minister responsible at present for taking this forward and driving forward a change in local government, and I will continue to do that.

**Carl Sargeant:** Fi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am fwrw ymlaen â hyn ac am yrru ymlaen newid mewn llywodraeth leol, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 8 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 8: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*
*Amendment 8: For 32, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
German, Veronica
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick

Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd gwelliant 8.*
*Amendment 8 agreed.*

**The Presiding Officer:** We now move to dispose of amendment 68. I invite Jonathan Morgan to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn yn awr i waredu gwelliant 68. Yr wyf yn gwahodd Jonathan Morgan i gynnig y gwelliant.

**Jonathan Morgan:** I move amendment 68 in my name.

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf welliant 68 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 68. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 68 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 68: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 68: For 14, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 68.*
*Amendment 68 not agreed.*

**The Presiding Officer:** We now move to dispose of amendment 32. I invite Veronica German to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn yn awr i waredu gwelliant 32. Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig y gwelliant.

**Veronica German:** I move amendment 32 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 32 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 32. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 32 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 32: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 32: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 32.*
*Amendment 32 not agreed.*

**The Presiding Officer:** We now move to dispose of amendment 33. I invite Veronica German to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn yn awr i waredu gwelliant 33. Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig y gwelliant.

**Veronica German:** I move amendment 33 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 33 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 33. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 33 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we

will move to a vote.

*Gwelliant 33: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 33: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 33.*
*Amendment 33 not agreed.*

**The Presiding Officer:** We now move to dispose of amendment 34. I invite Veronica German to move the amendment.

**Y Llywydd:** Symudwn yn awr i waredu gwelliant 34. Yr wyf yn gwahodd Veronica German i gynnig y gwelliant.

**Veronica German:** I move amendment 34 in my name.

**Veronica German:** Cynigiaf welliant 34 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 34. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 34 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

*Gwelliant 34: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 27.*
*Amendment 34: For 13, Abstain 0, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn

Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 34.*
*Amendment 34 not agreed.*

**Y Llywydd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didodli, symudwn yn awr i waredu gwelliant 9.

**The Presiding Officer:** In accordance with the marshalled list, we move to dispose of amendment 9.

I invite the Minister to move amendment 9.

Yr wyf yn gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliant 9.

**Carl Sargeant:** I move amendment 9 in my name.

**Carl Sargeant:** Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 9 ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The question is that amendment 9 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 9 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 9.*
*Amendment 9 agreed.*

**Y Llywydd:** Mae hynny'n dod â ni at ddiwedd ystyriaeth Cyfnod 3 o'r Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru). Yr wyf yn datgan y bernir bod pob adran o'r Mesur arfaethedig, a phob Atodlen wedi'u derbyn. Felly, dyna ddiwedd ar drafodion Cyfnod 3.

**The Presiding Officer:** That brings us to the end of Stage 3 considerations of the Proposed Local Government (Wales) Measure. I declare that all sections of and Schedules to the proposed Measure are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

## Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)
## Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed Local Government (Wales) Measure

*Cynnig*

*Motion*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.58, yn cymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru).*

*The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 23.58, approves the Proposed Local Government (Wales) Measure.*

**The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased that the One Wales Government has been able to present this comprehensive proposed Measure to the Assembly. It is the largest proposed Measure to be considered by the Assembly, and I wish to thank all those who have contributed to its development. I wish to place on record my thanks to my team who have worked considerably behind the scenes over the last coming months to develop and complete it to this stage today. The proposed Measure has been subject to robust scrutiny throughout its passage. I am grateful to Legislation Committee 3, which considered the proposed Measure in detail at Stages 1 and 2, and particularly to the Chair and membership of that committee. They made helpful suggestions for improvement, and I am also grateful for the consideration given to the proposed Measure by the Finance Committee and the Constitutional Affairs Committee and their Chairs. At each stage, we have listened to the arguments that have been put forward, reflected upon them, and, where appropriate, brought forward amendments to improve the proposed Measure. It has been my privilege to steer this Measure through the Assembly and it delivers a whole host of reforms and improvements that strengthen the workings and the accountability of local government for the future.

Rwy'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru'n Un wedi gallu cyflwyno'r Mesur arfaethedig cynhwysfawr hwn i'r Cynulliad. Dyma'r Mesur arfaethedig mwyaf i gael ei ystyried gan y Cynulliad, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei ddatblygiad. Hoffwn gofnodi fy niolch i fy nhîm, sydd wedi gwneud gwaith sylweddol y tu ôl i'r llenni yn ystod y misoedd diwethaf i'w ddatblygu a'i gwblhau i'r cam hwn heddiw. Mae'r Mesur arfaethedig wedi bod yn destun craffu trylwyr drwy gydol ei daith. Yr wyf yn ddiolchgar i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3, a ystyriodd y Mesur arfaethedig yn fanwl yng Nghyfnodau 1 a 2, ac yn arbennig i Gadeirydd ac aelodaeth y pwyllgor hwnnw. Gwnaethant awgrymiadau defnyddiol ar gyfer ei ddiwygio ac rwyf hefyd yn ddiolchgar am yr ystyriaeth a roddwyd i'r Mesur arfaethedig gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a'u Cadeiryddion. Ar bob cam, rydym wedi gwrando ar y dadleuon sydd wedi'u cyflwyno, wedi myfyrio arnynt, a, lle bo hynny'n briodol, wedi cyflwyno gwelliannau i wella'r Mesur arfaethedig. Mae wedi bod yn fraint i mi lywio'r Mesur hwn drwy'r Cynulliad ac mae'n darparu llu o ddiwygiadau a gwelliannau sy'n cryfhau prosesau ac atebolrwydd llywodraeth leol ar gyfer y dyfodol.

7.00 p.m.

We have had some interesting debate around this proposal, and I believe that Members wish to see better public services for the people of Wales. I hope that that will be seen when we vote on this motion. The proposed Measure presents an important and long-awaited package of improvements, which will help to revitalise local government and make it more relevant to local people. I therefore ask the Assembly to support and approve this important proposed Measure.

Rydym wedi cael dadl ddiddorol ar y cynnig hwn, a chredaf fod Aelodau yn dymuno gweld gwell gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru. Gobeithiaf y caiff hynny ei weld pan fyddwn yn pleidleisio ar y cynnig hwn. Mae'r Mesur arfaethedig yn cyflwyno pecyn pwysig a hir-ddisgwyliedig o welliannau, a fydd yn helpu i adfywio llywodraeth leol a'i gwneud yn fwy perthnasol i bobl leol. Felly, gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi a chymeradwyo y Mesur arfaethedig pwysig hwn.

**Jonathan Morgan:** As the Minister has said, this is the biggest Measure that we have dealt with in the third Assembly. It is not just a substantial piece of law because of the number of sections that it has, it is also a far-reaching piece of legislation that will affect how local government discharges its duties in the future. There are incredibly important parts of this Measure around supporting the development of county councillors, and about the need that we all recognise to hopefully recruit more people into local government in Wales from a variety of backgrounds and ages. It is an important Measure in the way in which it seeks to support the scrutiny of the functions of local authorities, and in the way in which it seeks to support councillors in discharging their functions as members of local authorities. It is also important in the way in which it deals with the right to family absences, and in the way in which it recognises the role of good scrutiny in local government as a means to achieve excellent public services at the end of it.

**Jonathan Morgan:** Fel y dywedodd y Gweinidog, hwn yw'r Mesur mwyaf yr ydym wedi ymdrin ag ef yn y trydydd Cynulliad. Nid darn sylweddol o gyfraith yn unig mohono oherwydd nifer yr adrannau sydd ynddo; mae hefyd yn ddarn pell-gyrhaeddol o ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar sut mae llywodraeth leol yn cyflawni ei dyletswyddau yn y dyfodol. Mae yna rannau eithriadol o bwysig i'r Mesur hwn o ran cefnogi datblygiad cynghorwyr sir, ac o ran yr angen yr ydym i gyd yn ei gydnabod, gobeithio, i recriwtio mwy o bobl i mewn i lywodraeth leol yng Nghymru o amrywiaeth o gefndiroedd ac oedrannau. Mae'n Fesur pwysig o ran sut y mae'n ceisio cefnogi craffu ar swyddogaethau awdurdodau lleol, a sut y mae'n ceisio cefnogi cynghorwyr wrth gyflawni eu swyddogaethau fel aelodau o awdurdodau lleol. Mae hefyd yn bwysig yn y ffordd y mae'n ymdrin â'r hawl i absenoldeb teuluol, ac yn y ffordd y mae'n cydnabod rôl craffu da mewn llywodraeth leol fel modd o gyflawni gwasanaethau cyhoeddus rhagorol ar y diwedd.

While there have been some big discussions, and some disagreements, about the nature of the substantial amendment that was tabled by the Government at Stage 2, I still believe that we have perhaps missed an opportunity to engage the public in deciding what model of local government it would like to see in the future. Once again, we have missed an opportunity to engage the public in the way in which any amalgamation Order may occur in the future. However, ultimately, we all want to see local government in Wales that is better at delivering services for the people of Wales. There are some amazing county councillors, who are doing an important job, and some amazing local authorities—of different political colours—that are delivering real, innovative solutions. We should celebrate local government, and all that it achieves.

Er y bu rhai trafodaethau mawr, a rhai anghytundebau, am natur y gwelliant sylweddol a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 2, yr wyf yn dal i gredu ein bod wedi colli cyfle o bosibl i gynnwys y cyhoedd wrth benderfynu pa fodel o lywodraeth leol y byddai'n hoffi ei weld yn y dyfodol. Unwaith eto, rydym wedi colli cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd yn y ffordd y gall unrhyw Orchymyn uno ddigwydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn y pen draw, yr ydym i gyd am weld llywodraeth leol yng Nghymru sy'n well am ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru. Ceir cynghorwyr sir anhygoel, sy'n gwneud gwaith pwysig, ac awdurdodau lleol anhygoel—o wahanol liwiau gwleidyddol—sy'n darparu atebion go iawn, arloesol. Dylem ddathlu llywodraeth leol, a phopeth y mae'n ei gyflawni.

However, ultimately, we should be doing more to ensure that the people of Wales are much more engaged in what we do here. As I said earlier, the result on Friday, 4 March, following the referendum on 3 March, was tremendous. The huge wealth of support in favour of a 'yes' vote was an incredible

Fodd bynnag, yn y pen draw, dylem fod yn gwneud mwy i sicrhau bod pobl Cymru yn ymgysylltu lawer mwy â'r hyn rydym yn ei wneud yma. Fel y dywedais yn gynharach, yr oedd y canlyniad ar ddydd Gwener, 4 Mawrth, yn dilyn y refferendwm ar 3 Mawrth, yn aruthrol. Yr oedd y don enfawr o

result. However, it was also incredibly humbling, because it reminds us as politicians that we are here to serve the public, and to ensure that the public can hold us, and all elected representatives in Wales, accountable. It also means that we should be doing more to see how we can engage the people of Wales in the decisions that we take, and how the people of Wales can do more to hold Government and public bodies more accountable for the decisions that they take. I hope that, in the fourth Assembly, when we seek to use those new powers, and those opportunities, we will do more to ensure that we address that enormous disconnect between the electors and the elected.

gefnogaeth o blaid pleidlais 'ie' yn ganlyniad anhygoel. Fodd bynnag, roedd hefyd yn brofiad hynod wylaidd, oherwydd ei fod yn ein hatgoffa fel gwleidyddion ein bod ni yma i wasanaethu'r cyhoedd, ac i sicrhau y gall y cyhoedd ein dal ni, a holl gynrychiolwyr etholedig Cymru, yn atebol. Mae hefyd yn golygu y dylem fod yn gwneud mwy i weld sut y gallwn ymgysylltu pobl Cymru â'r penderfyniadau a gymerwn, a sut y gall pobl Cymru wneud mwy i ddal y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus yn fwy atebol am y penderfyniadau a wneir ganddynt. Gobeithiaf, yn y pedwerydd Cynulliad, pan fyddwn yn ceisio defnyddio'r pwerau newydd hynny, a'r cyfleoedd hynny, y byddwn yn gwneud mwy i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r datgysylltu enfawr hwnnw rhwng yr etholwyr a'r etholedig.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid pasio'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru). A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly galwaf bleidlais.

**The Presiding Officer:** The question is that we should pass the Proposed Local Government (Wales) Measure. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I call for a vote.

*Cynnig: O blaid 26, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Motion: For 26, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Cynnig Trefniadol
## Procedural Motion

**The Presiding Officer:** I understand, Minister, that you wish to move a procedural motion to postpone the next item on the agenda.

**Y Llywydd:** Deallaf, Weinidog, eich bod yn dymuno cynnig cynnig trefniadol i ohirio'r eitem nesaf ar yr agenda.

*Cynnig Trefniadol*

*Procedural Motion*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Reol Sefydlog Rhif 7.26, yn gohirio'r ddadl ar ddarparu gwasanaethau demensia.*

*The National Assembly for Wales, under Standing Order No. 7.26, postpones the debate on the delivery of dementia services.*

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

**Y Llywydd:** Y cwestiwn yw ein bod cytuno â'r cynnig trefniadol i ohirio'r eitem nesaf ar yr agenda. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** The question is that we agree the procedural motion to postpone the next item on the agenda. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 7.05 p.m.*
*The meeting ended at 7.05 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)

Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Law, Trish (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)